



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 3 Tachwedd 2010
Wednesday, 3 November 2010**

Cynnwys
Contents

3	Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol Questions to the Counsel General
3	Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Questions to the Minister for Social Justice and Local Government
23	Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes Questions to the Minister for Children, Education and Lifelong Learning
24	Adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar Ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin The Rural Development Sub-committee's Report on the Reform of the Common Agricultural Policy
44	Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Sector Cyhoeddus Cymru The Public Sector Ombudsman for Wales's Annual Report
62	Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Gwariant y Llywodraeth Welsh Conservatives Debate: Government Expenditure
71	Cyfnod Pleidleisio Voting Time
105	Dadl Fer a Ohiriwyd ers 13 Hydref 2010: Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd: Democratiaeth ar Waith? Short Debate Postponed from 13 October 2010: Cardiff's Local Development Plan: Democracy in Action?
116	Cynnig Trefniadol Procedural Motion

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Trefn ar gyfer cwestiwn i'r Cwnsler Cyffredinol. **The Presiding Officer:** Order for a question to the Counsel General.

Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol Questions to the Counsel General

Blaenoriaethau Deddfwriaethol

1. Darren Millar: *A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol amlinellu blaenoriaethau deddfwriaethol cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru. OAQ(3)0154(CGE)*

The Counsel General (John Griffiths): We shall continue to deliver those items of legislation announced by the First Minister in July, with a view to ensuring that all items are delivered before the Assembly elections.

Darren Millar: I was concerned to hear over the summer that, outside the legislative programme that had been announced in July, the Minister for Health and Social Services had issued a request to consider and investigate further the move to devolve alcohol licensing to Wales. This announcement was made to the media before it was made to Assembly Members. It was not made during Assembly term time so that we could properly scrutinise the Minister for health's request for further devolution, and it was not included in the legislative statement that was made to the Chamber in July. Why was that the case and what will be done to ensure that these sorts of announcements are made so that they can be properly scrutinised by Assembly Members in the future?

John Griffiths: These are matters for the Minister for health and should be raised with her, if you have any further questions.

Legislative Priorities

1. Darren Millar: *Will the Counsel General outline the Welsh Assembly Government's current legislative priorities. OAQ(3)0154(CGE)*

Y Cwnsler Cyffredinol (John Griffiths): Byddwn yn parhau i gyflwyno'r eitemau hynny o ddeddfwriaeth a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ym mis Gorffennaf, gyda golwg ar sicrhau bod yr holl eitemau wedi'u cyflwyno cyn etholiadau'r Cynulliad.

Darren Millar: Roeddwn yn bryderus pan glywais dros yr haf, fod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gwneud cais, y tu allan i'r rhaglen deddfwriaethol a oedd wedi'i chyhoeddi ym mis Gorffennaf, i ystyried ac i ymchwilio ymhellach i'r bwriad o ddatganoli trwyddedu alcohol i Gymru. Gwnaethpwyd y cyhoeddiad hwn i'r cyfryngau cyn y'i gwnaethpwyd i Aelodau'r Cynulliad. Ni chafodd ei wneud yn ystod tymor y Cynulliad fel ein bod yn gallu craffu'n briodol ar gais y Gweinidog iechyd am ddatganoli pellach, ac ni chafodd ei gynnwys yn y datganiad deddfwriaethol a wnaethpwyd i'r Siambr ym mis Gorffennaf. Pam hynny, a beth fydd yn cael ei wneud i sicrhau bod y mathau hyn o gyhoeddiadau'n cael eu gwneud fel y gall Aelodau'r Cynulliad graffu arnynt yn briodol yn y dyfodol?

John Griffiths: Mae'r rhain yn faterion i'r Gweinidog dros Iechyd a dylid eu codi gyda hi, os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Questions to the Minister for Social Justice and Local Government

Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol

Community Facilities and Activities Programme

I. Jeff Cuthbert: *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol. OAQ(3)1356(SJL)*

The Minister for Social Justice and Local Government (Carl Sargeant): On 30 September, I announced a further 23 community projects, sharing funding of £4.2 million. This brings the total number of projects that are funded by the community facilities and activities programme to more than 750, and the funding commitment to a level in excess of £80 million since the scheme began.

Jeff Cuthbert: This programme has provided a valuable funding boost for several projects in my constituency. I am pleased to say that, this year, organisations that have benefited include Bedwas, Trethomas and Machen Band Society, Gilfach Bowling Club, Machen Recreation Welfare Association, Neuadd St Cattwg in Gelligaer, Rudry Parish Hall and Social Centre, and Ystrad Mynach Boys and Girls Club. However, some organisations were not successful this time around, and were disappointed. I am sure that you would agree, Minister, that we should encourage them to apply for funding in the next round, as that is the only way that they will secure that level of support. Do you agree, therefore, that, at a time of looming cuts from the Conservative and Lib Dem Government, this is a good example of how the Labour-led One Wales Government is trying its best to deliver for the people of Caerphilly and the Rhymney valley?

Carl Sargeant: There are 60 projects that you could have named in Caerphilly, Jeff, which have benefited directly and positively from the community facilities and activities programme, which has awarded over £6 million in the Caerphilly area. CFAP funding is about supporting growth and regeneration in our communities, which the One Wales Government is committed to. I am pleased that we have agreed to have two further bidding rounds in April and October next year.

I. Jeff Cuthbert: *Will the Minister provide an update on the Community Facilities and Activities Programme. OAQ(3)1356(SJL)*

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant): Ar 30 Medi, cyhoeddais 23 o brosiectau cymunedol pellach, yn rhannu £4.2 miliwn o gyllid rhyngddynt. Daw hyn â chyfanswm nifer y prosiectau a gaiff eu hariannu gan y rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol i dros 750, ac mae lefel yr ymrwymiad cyllid dros £80 miliwn yn fwy na dechrau'r cynllun.

Jeff Cuthbert: Mae'r rhaglen hon wedi rhoi hwb ariannol gwerthfawr i lawer o brosiectau yn fy etholaeth. Rwyf yn falch o ddweud, eleni, fod y mudiadau a elwodd yn cynnwys Cymdeithas Band Bedwas, Trethomas a Machen, Clwb Bowlio Gilfach, Cymdeithas Les Maes Chwarae Machen, Neuadd St Catwg yng Ngelligaer, Neuadd y Plwyf a Chanolfan Gymdeithasol Rhydri, a Chlwb Bechgyn a Merched Ystrad Mynach. Fodd bynnag, nid oedd rhai sefydliadau yn llwyddiannus y tro hwn, ac roeddent yn siomedig. Rwyf yn siŵr y byddech yn cytuno, Weinidog, y dylem eu hannog i wneud cais am arian yn y cylch nesaf, gan mai dyna'r unig ffordd y byddant yn sicrhau'r lefel honno o gefnogaeth. A ydych yn cytuno, felly, mewn cyfnod lle mae toriadau ar y gorwel gan Lywodraeth y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol, fod hon yn enghraifft dda o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n Un, dan arweiniad y Blaid Lafur, yn ceisio gwneud ei gorau glas i gyflawni dros bobl Caerffili a chwm Rhymni?

Carl Sargeant: Gallech fod wedi enwi 60 o brosiectau yng Nghaerffili, Jeff, sydd wedi elwa'n uniongyrchol ac yn gadarnhaol o'r rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol. Mae'r rhaglen wedi dyrannu dros £6 miliwn yn ardal Caerffili. Mae cyllid y rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol yn ymwneud â chefnogi twf ac adfywio yn ein cymunedau, ac mae Llywodraeth Cymru'n Un wedi ymrwymo i hyn. Rwyf yn falch ein bod wedi cytuno i gael dau gylch ymgeisio pellach ym mis

Ebrill a mis Hydref y flwyddyn nesaf.

Mark Isherwood: The community facilities and activities programme has been advantageous in many respects. I believe that there are projects that we have individually supported in every one of our constituencies and regions. Some of these projects have been successful in applying for funding, and others have not, but have gone on to reapply. As you mentioned, the programme is open to community and voluntary organisations with the aim of regenerating communities. Jeff made some comments about the impact of spending decisions at Westminster on such projects in the future. The UK Government has announced a sum of £470 million to support capacity building in the community and voluntary sector, including an endowment fund to assist local community and voluntary organisations. That includes funding for a national assistance service, and a transition fund of £100 million to provide support for voluntary sector organisations that provide public services. However, the Wales Council for Voluntary Action has advised me that these announcements apply only in England. What discussions will you be having with your counterparts in Westminster to establish whether any of this funding will be coming to Wales through the Barnett formula or otherwise, and what consideration will you give to the impact that some of these projects might have if adapted to Wales?

Carl Sargeant: I am quite happy to have further discussions with colleagues in Westminster around the issues you raised, Mark, but as you will be aware, I am not responsible for the comprehensive spending review announcement by the Westminster Government. That is the responsibility of your Conservative and Liberal Democrat colleagues in Westminster. What I will say about the CFAP budget is that we have been keen to ensure that it goes to the heart of all our communities in and around Wales, but there will be some knock-on effects following the CSR on my budget projections for the forthcoming years and I believe that CFAP will take its hit as well.

Mark Isherwood: Mae'r rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol wedi bod yn fanteisiol mewn sawl ffordd. Credaf fod prosiectau rydym wedi'u cefnogi'n unigol ym mhob un o'n hetholaethau a'n rhanbarthau. Mae rhai o'r prosiectau hyn wedi bod yn llwyddiannus wrth wneud cais am arian, tra bod eraill heb fod mor llwyddiannus, ond maent wedi rhoi cynnig arall ar gyflwyno cais. Fel y dywedasoch, mae'r rhaglen yn agored i fudiadau cymunedol a gwirfoddol a'r nod yw adfywio cymunedau. Gwnaeth Jeff rai sylwadau am effaith penderfyniadau gwario yn San Steffan ar brosiectau o'r fath yn y dyfodol. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi swm o £470 miliwn er mwyn cefnogi cynlluniau i feithrin gallu yn y sector cymunedol a gwirfoddol, gan gynnwys cronfa waddol i gynorthwyo mudiadau cymunedol a gwirfoddol lleol. Mae hynny'n cynnwys cyllid ar gyfer gwasanaeth cymorth cenedlaethol, a chronfa bontio gwerth £100 miliwn i roi cymorth i fudiadau'r sector gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi dweud wrthyf mai yn Lloegr yn unig y mae'r cyhoeddiadau hyn yn berthnasol. Pa drafodaethau y byddwch yn eu cael gyda'ch Gweinidogion cyfatebol yn San Steffan i weld a fydd rhywfaint o'r cyllid hwn yn dod i Gymru drwy fformiwla Barnett neu fel arall, a pha ystyriaeth fyddwch yn ei rhoi i'r effaith y gallai rhai o'r prosiectau hyn eu cael pe baent yn cael eu haddasu i Gymru?

Carl Sargeant: Rwyf yn ddigon bodlon i gael trafodaethau pellach gyda'm Gweinidogion cyfatebol yn San Steffan am y materion a godoch, Mark, ond fel y gwyddoch, nid wyf yn gyfrifol am gyhoeddiad yr adolygiad cynhwysfawr o wariant gan Lywodraeth San Steffan. Cyfrifoldeb eich cyd-Aelodau yn y blaid Geidwadol a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan yw hynny. Yr hyn rwyf am ddweud am gyllideb y rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol yw ein bod wedi ceisio sicrhau ei fod yn mynd at galon ein holl gymunedau yng Nghymru a ledled Cymru, ond bydd rhywfaint o sgîl-ffeithiau yn dilyn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant

ar ragamcanion fy nghyllideb dros y blynyddoedd nesaf. Credaf y bydd fy rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol yn teimlo effaith hyn hefyd.

Blaenoriaethau

2. Mohammad Asghar: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer gweddill y Trydydd Cynulliad. OAQ(3)1386(SJL)*

Carl Sargeant: The Proposed Local Government (Wales) Measure will strengthen the operation of local government. A review of what local authority services are best delivered where is under way. We will continue to promote safe and sustainable communities while encouraging greater community cohesion and reducing inequality over the remainder of the third Assembly.

Mohammad Asghar: Thank you very much, Minister, for that answer. I am sure that you will join me in welcoming UK Government initiatives such as the Work Choice programme, which will offer aid to those with severe disabilities who want to find work and break through barriers to employment. From a purely Welsh perspective, Minister, given your responsibility in relation to equality of opportunity, what steps are you taking to work with your colleagues and the UK Government to ensure that disabled people looking to find work are helped in seizing opportunities and gaining the confidence required to fulfil their potential and succeed in the workplace?

Carl Sargeant: Thank you for your question, Oscar, but I am rather surprised that you asked it today. I was with the disability equality group this morning, and it raised with me its strong concerns about the CSR review and the fact that it will hit women, ethnic minority groups and disabled people in Wales harder than in England. I am surprised that you asked me the question, and I hope that you will be joining me in ensuring that Westminster gives us our fair share of money in order to address the issues that you raised.

Priorities

2. Mohammad Asghar: *Will the Minister make a statement on his priorities for the remainder of the Third Assembly. OAQ(3)1386(SJL)*

Carl Sargeant: Bydd y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) Arfaethedig yn cryfhau sut y mae llywodraeth leol yn gweithredu. Mae adolygiad ar y gweill ynghylch pa wasanaethau awdurdod lleol yw'r rhai gorau i'w darparu ymhle. Byddwn yn parhau i hybu cymunedau diogel a chynaliadwy, ac yn annog mwy o gydlyniant cymunedol ac yn lleihau anghydraddoldeb dros weddill y trydydd Cynulliad.

Mohammad Asghar: Diolch yn fawr, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Rwyf yn siŵr y byddwch yn ymuno â mi wrth groesawu cynlluniau Llywodraeth y DU fel y rhaglen Dewis Gwaith, a fydd yn cynnig cymorth i'r rheini ag anableddau difrifol sydd am ddod o hyd i waith a dymchwel y rhwystrau i gyflogaeth. O safbwynt Cymru yn unig, Weinidog, o gofio eich cyfrifoldeb am gyfle cyfartal, pa gamau ydych chi'n eu cymryd i weithio gyda'ch cyd-Weinidogion a Llywodraeth y DU i sicrhau bod pobl anabl sy'n chwilio am waith yn cael cymorth i fanteisio ar gyfleoedd ac i fagu'r hyder angenrheidiol i gyflawni eu potensial ac i lwyddo yn y gweithle?

Carl Sargeant: Diolch i chi am eich cwestiwn, Oscar, ond rwyf yn synnu eich bod yn ei ofyn heddiw. Roeddwn yng nghwmni'r grŵp cydraddoldeb i bobl anabl y bore yma, a gwnaethant godi eu pryderon dybryd â mi ynghylch yr adolygiad cynhwysfawr o wariant a'r ffaith y bydd yn taro merched, grwpiau lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl yn galetach yng Nghymru nag yn Lloegr. Rwyf yn synnu eich bod yn gofyn y cwestiwn, a gobeithiaf y byddwch yn ymuno â mi i sicrhau bod San Steffan yn rhoi cyfran deg o arian inni er mwyn mynd i'r afael â'r materion a godoch.

Peter Black: You will know that the Westminster Government is looking at giving the responsibility for business rates back to local government. Have you had any discussions with it about this, and is it your intention to make the same considerations in relation to Wales?

Peter Black: Byddwch yn gwybod fod Llywodraeth San Steffan yn ystyried rhoi'r cyfrifoldeb dros ardrethi busnes yn ôl i lywodraeth leol. A ydych wedi cael unrhyw drafodaethau â nhw am hyn, ac a yw'n fwriad gennych i wneud yr un ystyriaethau mewn perthynas â Chymru?

Carl Sargeant: Discussions will be based upon my funding allocations when discussions with the Minister for Business and Budget are complete within the next week or so. From that, I will make decisions on whether I am prepared to follow the lines of what is happening in England on business rates.

Carl Sargeant: Bydd y trafodaethau'n seiliedig ar fy nyraniadau cyllid, a hynny ar ôl i'r trafodaethau â'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb ddod i fwcl o fewn yr wythnos neu ddwy nesaf. Yn dilyn hynny, byddaf yn gwneud penderfyniadau ynghylch a fyddaf yn dilyn trywydd yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr o ran ardrethi busnes.

Cydweithredu

3. Chris Franks: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gydweithrediad rhwng Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill. OAQ(3)1396(SJL)*

Carl Sargeant: Local authorities have always co-operated with other public bodies. However, they have to do more where it means cheaper and better services. My review into what services are best delivered where will help them do that.

Chris Franks: I have met the voluntary sector to discuss with it its concerns about the implications regarding budgetary pressures on its sector. As we are all aware, the financial pressures on local authorities are considerable and there is a danger that some council bosses could take the easy decision to cut grants to pensioners' groups or other local groups without looking at their own departments first. Caerphilly County Borough Council is engaged with the voluntary sector and I am pleased to say that the Plaid-led council is seeking proposals from the voluntary sector on where the council could reduce expenditure, namely areas of waste where the funding provided could be put to better use. How are councils and other bodies achieving savings on back-office services, Minister, to avoid this situation?

Co-operation

3. Chris Franks: *Will the Minister make a statement on cooperation between Local Authorities and other public bodies. OAQ(3)1396(SJL)*

Carl Sargeant: Mae awdurdodau lleol bob amser wedi cydweithio â chyrff cyhoeddus eraill. Fodd bynnag, rhaid iddynt wneud mwy er mwyn cael gwasanaethau rhatach a gwell. Bydd fy adolygiad o ba wasanaethau yw'r rhai gorau i'w darparu ymhle yn helpu i wneud hynny.

Chris Franks: Rwyf wedi cyfarfod â'r sector gwirfoddol i drafod eu pryderon ynghylch goblygiadau pwysau cyllidebol ar eu sector. Fel rydym i gyd yn ymwybodol, mae pwysau ariannol sylweddol ar awdurdodau lleol ac mae perygl y gallai rhai penaethiaid cyngor wneud y penderfyniad rhwydd i dorri grantiau i grwpiau pensïynwyr neu grwpiau lleol eraill heb edrych ar eu hadrannau eu hunain yn gyntaf. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgysylltu â'r sector gwirfoddol ac rwyf yn falch o ddweud bod y cyngor, dan arweiniad Plaid Cymru, yn gofyn am gynigion gan y sector gwirfoddol ynghylch ble gallai'r cyngor leihau gwariant, yn benodol y meysydd hynny lle caiff y cyllid a ddarperir ei wastraffu a lle gellid gwneud gwell defnydd o'r arian. Sut y mae cyngorau a chyrff eraill yn cyflawni arbedion ar wasanaethau cefn swyddfa, Weinidog, er mwyn osgoi'r sefyllfa hon?

Carl Sargeant: Thank you, Chris, for your question. I have had regular discussions with the Welsh Local Government Association and the Wales Council for Voluntary Action. I have written to the chief executives of all 22 authorities to ensure that they consider the implications of their budget changes and how those changes will have an impact on the voluntary sector and service delivery in Wales. I also met the finance consultative committee of the WLGA yesterday. Once again, I expressed my concern and made observations about ensuring that it continues to have discussions with the WCVA and other voluntary groups.

Carl Sargeant: Diolch ichi, Chris, am eich cwestiwn. Rwyf wedi cael trafodaethau rheolaidd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Rwyf wedi ysgrifennu at brif weithredwyr pob un o'r 22 awdurdod i sicrhau eu bod yn ystyried goblygiadau'r newidiadau yn eu cyllideb a sut y bydd y newidiadau hynny'n effeithio ar y sector gwirfoddol ac ar gyflenwi gwasanaethau yng Nghymru. Hefyd, cyfarfûm â phwyllgor ymgynghori ar gyllid Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddoe. Unwaith eto, mynegais fy mhryder a gwnes sylwadau o ran sicrhau eu bod yn parhau i gynnal trafodaethau â'r WCVA a grwpiau gwirfoddol eraill.

1.40 p.m.

I would expect local authorities to ensure that any decisions regarding budget changes or reductions are fully equality-impact assessed, as we are doing in the Welsh Assembly Government. This is about fairness, and I believe that the voluntary sector also plays a part in this as regards its budgeting and service level agreements with local authorities as they currently stand. However, there are many examples of good practice across Wales, where local government and the voluntary sector are working closely together.

Byddwn yn disgwyl bod awdurdodau lleol yn sicrhau y cynhelir asesiad effaith llawn ar gydraddoldeb yn sgîl unrhyw benderfyniadau am ostyngiadau neu newidiadau yn y gyllideb, fel rydym ni'n ei wneud yn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hwn yn fater o degwch, a chredaf fod y sector gwirfoddol hefyd yn chwarae rhan yn hyn o beth o ran ei gytundebau lefel gwasanaeth a chyllidebu gydag awdurdodau lleol fel y maent ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ceir llawer o enghreifftiau o arfer da ledled Cymru, lle mae llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol yn cyd-weithio'n agos.

The Leader of the Opposition (Nick Bourne): I am certainly in favour of collaboration and co-operation between local authorities and other public bodies. You will be aware of the discussions between Powys County Council and Powys Teaching Local Health Board about collaboration and, ultimately, a merger, which I have concerns about. The Minister for health has already said that there will be no compulsory redundancies in the health sector in Powys, which I understand. However, no such assurances have been given in relation to local government employees, and there will be pressure if you do not make a statement about them. Furthermore, recently, I have asked both bodies what the cost of the merger has been to date. The local health board tells me that there is a total cost of £10,000, which it expects to share, whereas the county

Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne): Rwyf yn sicr o blaid cydweithio a chydweithredu rhwng awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill. Byddwch yn ymwybodol o'r trafodaethau rhwng Cyngor Sir Powys a Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys ynglŷn â chydweithio ac uno yn y pen draw. Mae gennyf bryderon am hyn. Mae'r Gweinidog dros Iechyd eisoes wedi dweud na fydd unrhyw ddiswyddiadau gorfodol yn y sector iechyd ym Mhowys, ac rwyf yn deall hynny. Fodd bynnag, ni roddwyd unrhyw sicrwydd o'r fath i weithwyr llywodraeth leol, a bydd pwysau oni wnewch ddatganiad amdanynt. Ar ben hynny, yn ddiweddar, rwyf wedi gofyn i'r ddau gorff faint mae'r uno wedi'i gostio hyd yn hyn. Mae'r bwrdd iechyd lleol yn dweud wrthyf mai cyfanswm y gost yw £10,000, ac mae'n disgwyl rhannu'r swm hwnnw, tra mae'r cyngor sir,

council, on the other hand, has said that it expects to share a total cost of nearly £200,000. These figures do not tally and give me fresh cause for concern about the way in which this is being pushed forward. The Minister is probably unaware of these figures, but I wonder whether he would undertake to look at this. There are genuine concerns that this is bearing unfairly on the council and the council tax payers of Powys.

Carl Sargeant: I will certainly look into the detail of the numbers that you have provided today. There has been progress in Powys on working collaboratively with the local health board. I am encouraged by that sign. The Minister for health has met the chief executives of both organisations and will continue to do so in order to help them to work better together. I will look closely at the detail and perhaps write to you in the coming weeks.

Joyce Watson: Minister, I was also going to raise the issue of local authorities alleviating the significant pressures that have followed the cuts announced by the coalition Government in Westminster, and the consideration of merging posts. Powys was going to be my example, which Nick Bourne has already mentioned. I did not have the information that Nick has just put on the table, but do you agree that, despite the need to iron out some of the creases, when it works well, merging senior posts is a way forward that can act as a model to increase efficiency in local authorities without compromising on delivery?

Carl Sargeant: I believe absolutely that it is the right way to go. Having two willing partners to drive forward an agenda for better service delivery in the public sector is key to this. I am not prepared to have organisations that act wilfully to stop progress in the transition of service delivery due to self-interest. The issue is not that I am dead set on creating joint appointments, because I am not; it is about having the right person or people to deliver good public services. The end game should be what is best for the

ar y llaw arall, wedi dweud ei fod yn disgwyl rhannu cyfanswm cost o bron i £200,000. Nid yw'r ffigurau hyn yn cyfateb o bell ffordd ac maent yn peri pryder o'r newydd am y ffordd y mae hyn yn cael ei weithredu. Mae'n debyg nad yw'r Gweinidog yn ymwybodol o'r ffigurau hyn, ond tybed a fyddai'n fodlon edrych ar hyn. Ceir pryderon gwirioneddol bod hyn yn rhoi pwysau annheg ar y cyngor ac ar y rheini sy'n talu'r dreth gyngor ym Mhowys.

Carl Sargeant: Yn sicr, byddaf yn ymchwilio i fanylion y ffigurau rydych wedi'u rhoi heddiw. Bu cynnydd ym Mhowys o ran cydweithio â'r bwrdd iechyd lleol. Mae hwnnw'n arwydd calonogol. Mae'r Gweinidog dros Iechyd wedi cael cyfarfod â phrif weithredwyr y ddau sefydliad, a bydd yn parhau i wneud hynny er mwyn eu helpu i weithio'n well gyda'i gilydd. Byddaf yn edrych yn fanwl ar y manylion, ac efallai'n ysgrifennu atoch yn ystod yr wythnosau nesaf.

Joyce Watson: Weinidog, roeddwn innau hefyd am godi'r mater yn ymwneud ag awdurdodau lleol yn lleddfu'r pwysau sylweddol sydd arnynt yn dilyn y toriadau a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth glymblaid yn San Steffan, a'r ystyriaethau ynghylch uno swyddi. Roeddwn am ddefnyddio Powys fel enghraifft, ond mae Nick Bourne eisoes wedi gwneud hynny. Nid oedd gennyf y wybodaeth y mae Nick newydd ei chyflwyno, ond a ydych yn cytuno, er gwaethaf yr angen i ddatrys rhai o'r crychau, mae cyfuno uwch swyddi, pan fydd yn gweithio'n dda, yn ffordd ymlaen y gellir ei defnyddio fel model i gynyddu effeithlonrwydd mewn awdurdodau lleol heb gyfaddawdu ar gyflenwi gwasanaethau?

Carl Sargeant: Rwyf yn gwbl grediniol mai dyma'r ffordd iawn o'i chwmpas hi. Mae cael dau bartner sy'n barod i fwrw ymlaen ag agenda ar gyfer cyflenwi gwasanaethau'n well yn y sector cyhoeddus yn allweddol i hyn. Nid wyf yn barod i oddef sefydliadau sy'n gweithredu'n fwriadol i atal cynnydd o ran trosglwyddo prosesau cyflenwi gwasanaeth o ganlyniad i hunan-les. Nid wyf yn gwbl benderfynol o greu penodiadau ar y cyd; mae'n fater o gael y person neu'r bobl iawn i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus da.

citizen, not the people who are delivering this. I hope that that is a strong message to the sector and I will continue to press that home.

Y Dreth Gyngor

4. Jenny Randerson: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am degwch y dreth gyngor. OAQ(3)1371(SJL)*

Carl Sargeant: The 2005 council tax revaluation has helped to maintain fairness in the Welsh system, as council tax bands are now based on up-to-date property values. An additional band for the highest valued properties was also added to bring further equity. Council tax benefit is available to protect low-income households.

Jenny Randerson: Thank you for your answer. Minister, councils need to know where they stand financially as soon as possible, ready for next year. I note that the Labour leader in Scotland has said that he would re-impose a cap on council tax of 1 to 2 per cent next year. What do you intend to do here in Wales? Do you intend to continue with a cap on council tax increases next year, and if so, what mechanism do you plan to use?

Carl Sargeant: Thank you for your question, Jenny. I might have guessed that that would be one of today's questions. It would be a little premature of me to give you my decision on that matter, as I am not yet aware of my full budget for the coming year, but I will consider the matter.

Brian Gibbons: Minister, you will be aware that Sir Michael Lyons commented on the equity and inequity of council tax in Wales. He said that if there were to be a full uptake of council tax benefit, the inequity in the council tax system would be eliminated. However, you will know that, as part of the comprehensive spending review, a 10 per cent reduction in council tax benefits was announced straight away, and that will almost

Cyflawni'r hyn sydd orau i'r dinesydd ddylai'r nod fod yn y pen draw, nid yr hyn sydd orau i'r bobl sy'n cyflenwi. Gobeithiaf fod honno'n neges gref i'r sector, a byddaf yn parhau i bwysleisio'r neges honno.

Council Tax

4. Jenny Randerson: *Will the Minister make a statement on the equity of council tax. OAQ(3)1371(SJL)*

Carl Sargeant: Mae proses ailbrisiu'r dreth gyngor 2005 wedi helpu i sicrhau tegwch yn system Cymru, oherwydd bod bandiau'r dreth gyngor bellach yn seiliedig ar werthoedd cyfredol yr eiddo. Ychwanegwyd band arall ar gyfer yr eiddo drutaf hefyd er mwyn sicrhau rhagor o degwch. Mae budd-dal y dreth gyngor ar gael i ddiogelu aelwydydd incwm isel.

Jenny Randerson: Diolch ichi am eich ateb. Weinidog, mae angen i gynghorau wybod beth yw eu sefyllfa ariannol cyn gynted ag y bo modd, yn barod ar gyfer y flwyddyn nesaf. Nodaf fod arweinydd y Blaid Lafur yn yr Alban wedi dweud y byddai'n ail-osod uchafswm ar y dreth gyngor o 1 i 2 y cant y flwyddyn nesaf. Beth ydych yn bwriadu ei wneud yma yng Nghymru? A ydych yn bwriadu bwrw ymlaen ag uchafswm ar gynnydd yn y dreth gyngor y flwyddyn nesaf, ac os felly, pa fecanwaith ydych yn bwriadu ei ddefnyddio?

Carl Sargeant: Diolch am eich cwestiwn, Jenny. Roeddwn yn hanner disgwyl y byddai hwn yn un o gwestiynau heddiw. Mae ychydig yn rhy gynnar imi ddatgelu fy mhenderfyniad ar y mater hwnnw, oherwydd nad wyf yn gwybod eto beth fydd fy nghyllideb lawn ar gyfer y flwyddyn nesaf, ond byddaf yn ystyried y mater.

Brian Gibbons: Weinidog, mae'n siŵr y gwyddoch fod Syr Michael Lyons wedi gwneud sylwadau am degwch ac annhegwch y dreth gyngor yng Nghymru. Dywedodd pe bai pawb sy'n gymwys yn hawlio budd-dal y dreth gyngor, byddai hynny'n dileu'r annhegwch yn system y dreth gyngor. Fodd bynnag, rydych yn gwybod, fel rhan o'r adolygiad cynhwysfawr o wariant, am y cyhoeddiad i ostwng budd-daliadau'r dreth

certainly be the start of further reductions. Can you explain how that will improve equity in the council tax situation here in Wales?

Carl Sargeant: The council tax system is complex, and I am aware of Sir Michael Lyons's review of the issue. One of the issues is that those who are entitled to the benefit do not claim it in the first place. What worry me are the implications for the whole benefits system, which is in turmoil at the moment, and the changes to housing benefit, the disability living allowance and child benefit will have a significant effect on the people of Wales. We in the Welsh Assembly Government have to prepare to offer support and advice to all residents in Wales.

David Melding: Under Labour's term of office, which, alas, first started in Wales in 1999, the burden of council tax has doubled. That is what has made this tax really burdensome for many people on equity grounds. Will you allay some of this burden by looking at a policy of freezing council tax? It has increased so much that perhaps the time has now come to put a stop to further increases.

Carl Sargeant: If you look at the detail of what has happened at Westminster in the Government's provision to freeze council tax, you will find that it is about recycling the same money back into the system. As I said to Jenny, I am considering many options for us in Wales. What I can offer to you today is the fact that the average council tax in Wales is three quarters that figure for England, which devolution has been able to support. The council tax on a band D property is higher in England than it is in Wales, and that is a clear example of devolution working for the people of Wales.

Rhodri Glyn Thomas: Weinidog, mae gennyf gwestiwn am agwedd arall ar drethiant, sef y dreth ar ail gartrefi. Mae ymgynghoriad wedi cael ei gynnal ar bwerau awdurdodau lleol i leihau'r trethi ar ail gartrefi. A allwch ddweud wrthym pryd y bydd y ddeddfwriaeth honno yn cael ei chyflwyno yng Nghymru?

gyngor 10 y cant ar unwaith, a bydd hynny bron yn sicr yn ddechrau ar ostyngiadau pellach. A allwch esbonio sut y bydd hynny'n gwella tegwch yn sefyllfa'r dreth gyngor yma yng Nghymru?

Carl Sargeant: Mae system y dreth gyngor yn gymhleth, ac rwyf yn ymwybodol o adolygiad Syr Michael Lyons o'r mater. Un o'r problemau yw nad yw'r rheini sydd â hawl i'r budd-dal yn ei hawlio yn y lle cyntaf. Yr hyn sy'n fy mhoeni yw'r goblygiadau i'r system budd-daliadau gyfan, sydd ar chwâl ar hyn o bryd, a'r effaith sylweddol y bydd y newidiadau yn y budd-dal tai, y lwfans byw i'r anabl, a'r budd-dal plant yn ei chael ar bobl Cymru. Rhaid inni yn Llywodraeth Cynulliad Cymru baratoi i gynnig cefnogaeth a chynghor i holl drigolion Cymru.

David Melding: Yn ystod cyfnod Llafur mewn grym, a gychwynnodd yng Nghymru ym 1999 gwaetha'r modd, mae baich y dreth gyngor wedi dyblu. Dyna sydd wedi gwneud y dreth hon yn faich trwm ar lawer o bobl ar sail tegwch. A wnewch leddfu rhywfaint o'r baich hwn drwy ystyried polisi o rewi'r dreth gyngor? Mae wedi cynyddu cymaint, efallai ei bod yn bryd rhoi terfyn ar gynnydd pellach.

Carl Sargeant: Os edrychwch ar fanylion yr hyn sydd wedi digwydd yn San Steffan yn narpariaeth y Llywodraeth i rewi'r dreth gyngor, gwelwch ei fod yn fater o ailgylchu'r un arian yn ôl i mewn i'r system. Fel y dywedais wrth Jenny, rwyf yn ystyried llawer o opsiynau ar ein cyfer yng Nghymru. Yr hyn y gallaf ei ddweud wrthyh heddiw yw bod cyfartaledd y dreth gyngor yng Nghymru chwarter yn llai na'r ffigur yn Lloegr, ac mae datganoli wedi gallu cefnogi hynny. Mae'r dreth gyngor ar eiddo Band D yn uwch yn Lloegr nag yng Nghymru. Dyna enghraifft glir o ddatganoli'n gweithio i bobl Cymru.

Rhodri Glyn Thomas: Minister, I have a question about another aspect of taxation, namely the tax on second homes. A consultation has been held on local authorities' powers to reduce the taxes on second homes. Could you tell us when that legislation will be introduced in Wales?

Carl Sargeant: I will have to write to you with the specifics on the date, but the Assembly Government has secured the legislative competence to ensure provision giving greater discretion to local authorities in setting the council tax for second homes, through the National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Housing and Local Government) Order 2010, which was made in July. The Deputy Minister for Housing and Regeneration or I will write to you with the detail.

‘Cymru’n Un’

5. Gareth Jones: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflawni'r amcanion yng Nghytundeb Cymru'n Un sy'n berthnasol i'w bortffolio. OAQ(3)1360(SJL)*

Carl Sargeant: We are committed to delivering our ‘One Wales’ commitments. We continue to make good progress against our objectives to support the most vulnerable in society and promote safe, sustainable and fair communities.

Gareth Jones: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Un ymrwymiad yn ‘Cymru’n Un’ sy’n bwysig yn fy ngolwg i yw hwnnw i wella'r cynllun rhyddhad ardrethi busnes drwy roi cymorth mwy effeithiol i fusnesau. Yr ydym wedi cyflawni hyn o safbwynt codi trothwyau a lleihau'r lluosogydd, ac er 1 Hydref, yr ydym wedi cyflwyno'r rhyddhad wedi'i raddoli a fydd yn gweld hanner yr holl fusnesau bach yn talu dim byd o gwbl am 12 mis, a thri chwarter y busnesau yn Stryd Mostyn, Llandudno, er enghraifft, yn talu llai.

1.50 p.m.

Am ryw reswm, mae un neu ddwy o broblemau wedi dod i'r amlwg gyda'r lleihad hwn ac efallai na fydd rhai busnesau'n gweld eu biliau is yn dod drwodd yn awtomatig fel oedd yn digwydd o'r blaen. A fedrwyh gadarnhau bod hawl ddi-gwestiwn gan yr holl fusnesau bach hyn i'r lleihad hwn yn eu hardrethi busnes ac mai'r cyngor swyddogol fyddai i'r holl fusnesau bach nad ydynt wedi cael gostyngiad eto, neu sy'n cael trafferthion

Carl Sargeant: Bydd rhaid imi ysgrifennu atoch gyda'r manylion am y dyddiad, ond mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cael cymhwysedd deddfwriaethol i sicrhau darpariaeth sy'n rhoi mwy o ddisgresiwn i awdurdodau lleol wrth bennu'r dreth gyngor ar gyfer ail gartrefi, drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai a Llywodraeth Leol) 2010, a wnaethpwyd ym mis Gorffennaf. Bydd y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio neu finnau'n ysgrifennu atoch gyda'r manylion.

‘One Wales’

5. Gareth Jones: *Will the Minister make a statement on meeting the objectives within the One Wales Agreement that relate to his portfolio. OAQ(3)1360(SJL)*

Carl Sargeant: Rydym wedi ymrwymo i gyflawni ein hymrwymiaidau 'Cymru'n Un'. Rydym yn parhau i wneud cynnydd da yn erbyn ein hamcanion i gefnogi'r rheini sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas ac i hyrwyddo cymunedau diogel, cynaliadwy a theg.

Gareth Jones: Thank you for that answer, Minister. One commitment in ‘One Wales’ that is important in my view is that to improve the business rate relief scheme by providing more effective support to businesses. We have achieved that from the point of view of raising thresholds and reducing the multiplier, and since 1 October, we have introduced the graduated relief that will see half of all small businesses paying nothing at all for 12 months, and three quarters of the businesses on Stryd Mostyn in Llandudno, for example, paying less.

For some reason, one or two problems have come to light with that reduction, and perhaps some businesses will not see their lower bills coming through automatically, as used to happen. Can you confirm that all these small businesses have an undeniable right to this reduction in their business rates, and that the official advice is for all those small businesses that have not yet had a reduction, or that are experiencing cashflow problems,

gyda llif arian, wneud cais i'w hawdurdod lleol am ailasesiad ar unwaith—ac i wneud hynny â llaw, os bydd angen—o'u biliau ardrethi busnes?

Carl Sargeant: You are quite right to raise the implications of our introducing the rate relief scheme in Wales on 1 October. It is a much more generous scheme than any elsewhere in the UK, given that the Welsh Assembly Government is contributing more than £20 million to the system, while England's scheme is self-supporting. We have included additional money to deliver this. The examples that you raise are in real time. As a user of Facebook, as are many colleagues here, I have been made aware of a little real-time story involving someone I know, who is very close to me. That person went down to their local shops on a Saturday and got to the hairdresser's just as he was opening a letter from Flintshire County Council saying that he had no business rates to pay this year. He thought that the council had made a mistake, but the person in question was able to say to him, 'No, it's absolutely right, because the Welsh Assembly Government and Mr Sargeant have agreed that there should be a reduction in business rates'. That is about real time and about communication, which we are committed to. Those who are entitled to relief should apply to their local authority. The key thing, Gareth, is that half the businesses in Wales will not have to pay any business rates for the next 12 months. We in Wales should be very proud of that.

Andrew R.T. Davies: I hope that the Minister has taken up an offer of a free haircut by that hairdresser as a reward for waiving his business rates. I am in the same club when it comes to the amount of hair that we have, so I think that I can safely throw that across to you, Minister. [*Laughter.*]

On a more serious note, the Assembly Government in the 'One Wales' agreement set out to halve child poverty in Wales by the end of 2010. Is it still the Government's intention to meet that objective? If, as the figures indicate, you are not going to meet that objective, what measures are you putting

to request a reassessment from their local authority immediately—and to do so by hand, if necessary—of their business rates bills?

Carl Sargeant: Mae'n gwbl briodol eich bod yn sôn am oblygiadau cyflwyno ein cynllun rhyddhad ardrethi yng Nghymru ar 1 Hydref. Mae'n gynllun llawer mwy hael nag a welir yn unrhyw le arall yn y DU, o gofio bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyfrannu dros £20 miliwn at y system, tra mae cynllun Lloegr yn hunangynhaliol. Rydym wedi cynnwys arian ychwanegol i gyflawni hyn. Mae'r enghreifftiau yn digwydd ar hyn o bryd. Gan fy mod yn defnyddio Facebook, fel llawer o'm cyd-Aelodau yma, rwyf wedi cael gwybod am stori bresennol sy'n cynnwys rhywun rwyf yn ei adnabod, sy'n agos iawn ataf. Un dydd Sadwrn, roedd yr unigolyn hwnnw'n mynd i siopa'n lleol a phan gyrhaeddodd y siop trin gwallt, roedd y siopwr yn agor llythyr gan Gyngor Sir y Fflint yn dweud nad oedd ganddo unrhyw ardrethi busnes i'w talu eleni. Roedd yn credu bod y cyngor wedi gwneud camgymeriad, ond roedd yr unigolyn dan sylw yn gallu dweud wrtho, 'Na, mae'n iawn, gan fod Llywodraeth Cynulliad Cymru a Mr Sargeant wedi cytuno y dylid cael gostyngiad mewn ardrethi busnes'. Mae a wnelo hynny â'r presennol ac â chyfathrebu, ac rydym wedi ymrwymo i hynny. Dylai'r rheini sydd â hawl i gael rhyddhad wneud cais i'w hawdurdod lleol. Yr hyn sy'n allweddol, Gareth, yw na fydd hanner y busnesau yng Nghymru yn gorfod talu unrhyw ardrethi busnes am y 12 mis nesaf. Dylem ni yng Nghymru fod yn falch iawn o hynny.

Andrew R.T. Davies: Rwyf yn gobeithio bod y Gweinidog wedi cael torri ei wallt am ddim yn y siop trin gwallt honno fel gwobr am ddileu ei hardrethi busnes. Rwyf finnau hefyd yn yr un cwch o ran faint o wallt sydd gennym, a dyna pam y gwneuthum y sylw hwnnw, Weinidog. [*Chwerthin.*]

Ar nodyn mwy difrifol, yng nghytundeb 'Cymru'n Un' mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dweud y bydd yn haneru tlodi plant yng Nghymru erbyn diwedd 2010. A yw'n fwriad gan y Llywodraeth i gyflawni'r amcan hwnnw o hyd? Os nad ydych yn mynd i gyflawni'r amcan hwnnw, fel yr awgryma'r

in place to try to put the Government back on track?

Carl Sargeant: Thank you for your question. Perhaps we may yet get a haircut for the both of us—two for the price of one.

On a very serious note, as you will be aware, my colleague, Huw Lewis, launched the strategy on child poverty earlier this year. We take that very seriously, and it is also in the ethos of our 'One Wales' commitments. One policy that relates to child poverty is Communities First, which I wish you would support, and the Welsh Assembly Government will continue to progress it.

Cymunedau Difreintiedig

6. Mark Isherwood: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei bolisiau i gefnogi cymunedau difreintiedig. OAQ(3)1379(SJL)*

Carl Sargeant: The Assembly Government is committed to supporting disadvantaged communities and there is a range of programmes and strategies that focus on, and help us to deliver for, these communities. Examples from my own portfolio include the Communities First programme, the communities facilities and activities programme, Communities 2.0 and the work done on financial inclusion.

Mark Isherwood: We addressed CFAP earlier and the capital investment in that, but you also mentioned Communities First. We have discussed many times the finding in the Wales Audit Office's report that internal controls were not properly set up at inception. We have also discussed the Wales Council for Voluntary Action report that found that, at inception, the programme lacked any clear and measurable objectives and seemed dominated by methodology. Now, we have a report that was published this week by the Joseph Rowntree Foundation that says that the programme that helps people in the most deprived areas has led to only marginal improvements, despite the expenditure of hundreds of millions of

ffigurau, pa fesurau ydych yn eu rhoi ar waith i geisio rhoi'r Llywodraeth yn ôl ar y trywydd cywir?

Carl Sargeant: Diolch ichi am eich cwestiwn. Efallai y gall y ddau ohonom gael torri ein gwallt—dau am bris un.

Ar nodyn difrifol iawn, fel y gwyddoch, lansiodd fy nghyd-Weinidog, Huw Lewis, strategaeth ar dlodi plant yn gynharach eleni. Mae'r mater hwnnw'n bwysig iawn inni, ac mae hefyd yn rhan o ethos ein hymrwymiaidau 'Cymru'n Un'. Un polisi sy'n ymwneud â thlodi plant yw Cymunedau yn Gyntaf, a hoffwn pe baech yn ei gefnogi. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dal i frwr ymlaen â'r polisi hwn.

Disadvantaged Communities

6. Mark Isherwood: *Will the Minister make a statement on his policies to support disadvantaged communities. OAQ(3)1379(SJL)*

Carl Sargeant: Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i gefnogi cymunedau difreintiedig, a cheir ystod o raglenni a strategaethau sy'n canolbwyntio ar y cymunedau hyn ac yn ein helpu i ddarparu ar eu cyfer. Mae enghreifftiau o fy mhorthffolio yn cynnwys y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, y rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol, Cymunedau 2.0 a'r gwaith a wneir ar gynhwysiant ariannol.

Mark Isherwood: Gwnaethom roi sylw i'r rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol yn gynharach a'r buddsoddiad cyfalaf ynddi, ond gwnaethoch hefyd sôn am Cymunedau yn Gyntaf. Rydym wedi trafod droeon y canfyddiad yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru nad oedd rheoliadau mewnol wedi'u sefydlu'n briodol ar y cychwyn. Rydym hefyd wedi trafod adroddiad Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a ganfu nad oedd gan y rhaglen, ar y dechrau, unrhyw amcanion clir a mesuradwy, ac roedd yn ymddangos fel pe bai'n cael ei dominyddu gan fethodoleg. Yn awr, mae gennym adroddiad a gyhoeddwyd yr wythnos hon gan Sefydliad Joseph Rowntree, sy'n dweud fod y rhaglen sy'n helpu pobl yn yr

pounds. It also said that only those Communities First areas experiencing inward migration of people from less deprived areas were found to have improved between 2001 and 2008. Your department has responded by saying that you are currently reviewing the findings in the report. How, therefore, do you respond? I ask you again to respond to the call from the WCVA for a new governance model. It says that the missing link in achieving significant community ownership is the lack of a longer-term vision in the programme to enable communities to establish their own independent institutions, moving on from the Government programme.

Carl Sargeant: Thank you, Mark, for your question. The Joseph Rowntree Foundation report also states that it is not an evaluation of the whole Communities First programme, as it looks at only parts of it. Let us be quite clear about this. I already have an ongoing review of Communities First. I committed to undertaking that review given the difficulties that you and many colleagues, including the Assembly's Public Accounts Committee, raised. I take those seriously, which is why I am reviewing Communities First for the future. Secondly, I am committed to Communities First and the 800 members of staff who work in our most deprived communities. That is the difference between us and you. Nick Bourne stated at your party conference that you would pay for health by taking money out of the Communities First budget, from our most deprived communities. I am not ashamed of saying that we should be supporting our communities; it is a shame that you are not able to provide the same support.

Mark Isherwood: I agree, Minister, that we should be supporting the best outcomes for people living in our most deprived communities and those living in poverty outside those communities, including more than 50 per cent of children living in poverty. In order to provide employment for those 800 people, we need to look at a new model of

ardaloedd mwyaf difreintiedig wedi arwain at welliannau ymylol yn unig, er bod cannoedd o filiynau o bunnoedd wedi'u gwario. Dywedodd hefyd mai'r unig ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf sydd wedi gwella rhwng 2001 a 2008 yw'r ardaloedd hynny a brofodd fewnfudo o ardaloedd llai difreintiedig. Mae eich adran wedi ymateb drwy ddweud eich bod yn adolygu canfyddiadau'r adroddiad ar hyn o bryd. Sut, felly, ydych yn ymateb? Gofynnaf eto ichi ymateb i'r alwad gan y WCVA am fodel llywodraethu newydd. Dywed mai'r hyn sydd ar goll o ran cael y gymuned i gymryd perchnogaeth sylweddol dros y rhaglen yw'r weledigaeth tymor hwy, er mwyn galluogi cymunedau i greu eu sefydliadau annibynnol eu hunain, gan symud ymlaen o raglen y Llywodraeth.

Carl Sargeant: Diolch ichi, Mark, am eich cwestiwn. Mae adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree hefyd yn nodi nad yw'n werthusiad o raglen Cymunedau yn Gyntaf drwyddi draw, gan ei fod yn edrych ar rannau ohoni'n unig. Gadewch inni fod yn gwbl glir ynglŷn â hyn. Mae gennyf eisoes adolygiad ar y gweill o Cymunedau yn Gyntaf. Rwyf wedi ymrwymo i gynnal yr adolygiad hwnnw o gofio'r anawsterau rydych chi a llawer o'ch cyd-Aelodau, gan gynnwys Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad, wedi'u codi. Rwyf yn ystyried y rheini o ddifrif, a dyna pam fy mod yn adolygu Cymunedau yn Gyntaf i'r dyfodol. Yn ail, rwyf wedi ymrwymo i Cymunedau yn Gyntaf a'r 800 o aelodau staff sy'n gweithio yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Dyna'r gwahaniaeth rhyngom ni a chi. Dywedodd Nick Bourne yng nghynhadledd eich plaid y byddech yn talu am iechyd drwy gymryd arian o gyllideb Cymunedau yn Gyntaf, o'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Nid oes gennyf fi gywilydd dweud y dylem fod yn cefnogi ein cymunedau; mae'n drueni nad ydych chi'n gallu rhoi'r un gefnogaeth.

Mark Isherwood: Rwyf yn cytuno, Weinidog, y dylem fod yn cefnogi'r canlyniadau gorau i bobl sy'n byw yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig a'r rheini sy'n byw mewn tlodi y tu allan i'r cymunedau hynny, lle mae dros 50 y cant o'r plant yn byw mewn tlodi. Er mwyn darparu cyflogaeth i'r 800 o bobl hynny, mae angen

governance in which they can continue to play a role. The decisions highlighted in these various reports were taken by colleagues of yours in the first Assembly, some of whom still have senior positions in this Welsh Government. Another decision that they took, highlighted in a Bevan Foundation report out this week, was on the housing revenue account. Housing is the key to regeneration in the most deprived communities. How do you respond to the Joseph Rowntree Foundation report finding that, where younger populations with higher skills move in, and where there is a mix of housing tenures available, we see positive changes in the socioeconomic circumstances of the neighbourhood but, by association, not otherwise? Since the first Welsh Government, the decision to cut the housing budget, which has stayed with us ever since, has had disastrous consequences for regeneration in our poorest communities.

Carl Sargeant: I enjoy your scrutiny, Mark, but it is a shame about your commitment to Communities First. As I said, I am committed to the 800 members of staff employed in Communities First. If you want to throw them on the heap, then do it. It is ironic that Darren Millar is supportive of Communities First in his constituency, but that Nick Bourne is against it wholesale. Why do you not just come out and say that you are opposed to Communities First? That would be much easier; I would understand that, as would everybody else. If the Conservatives are against it, just say it rather than beat around the bush.

Alun Davies: Mark Isherwood has a brass neck to come here with his crocodile tears about these matters affecting some of the most deprived communities in Wales. Minister, do you agree that, with their pledge to scrap Communities First and make cuts to benefits, jobs and public services, the only policy that that party opposite has in Government in London on deprived communities is crocodile tears and cuts to the very services that sustain people, livelihoods and jobs in deprived communities in Wales

inni edrych ar fodel newydd o lywodraethu lle gallant barhau i chwarae rôl. Gwnaethpwyd y penderfyniadau a amlygwyd yn yr amrywiol adroddiadau hyn gan eich cyd-Aelodau chi yn y Cynulliad cyntaf, ac mae gan rai ohonynt uwch swyddi yn Llywodraeth bresennol Cymru. Penderfyniad arall a wnaethant, y tynnwyd sylw ato mewn adroddiad a gyhoeddwyd yr wythnos hon gan Sefydliad Bevan, oedd ynghylch y cyfrif refeniw tai. Mae tai yn allweddol i adfywio'r cymunedau mwyaf difreintiedig. Sut yr ydych yn ymateb i'r canfyddiad yn adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree, lle mae poblogaethau iau gyda sgiliau uwch yn symud i mewn a lle mae cymysgedd o ddaliadaethau tai ar gael, rydym yn gweld newidiadau cadarnhaol yn amgylchiadau economaidd-gymdeithasol y gymdogaeth, ond, mewn cysylltiad â hynny, nid oes newidiadau cadarnhaol fel arall? Ers Llywodraeth gyntaf Cymru, mae'r penderfyniad i leihau'r gyllideb tai, sydd wedi aros gyda ni ers hynny, wedi arwain at ganlyniadau trychinebus ar gyfer adfywio yn ein cymunedau tlotaf.

Carl Sargeant: Rwyf yn mwynhau'r craffu, Mark, ond mae'n drueni am eich ymrwymiad i Cymunedau yn Gyntaf. Fel y dywedais, rwyf wedi ymrwymo i'r 800 o aelodau staff a gyflogir yn Cymunedau yn Gyntaf. Os ydych am eu taflu ar y domen, yna gwnewch hynny. Mae'n eironig fod Darren Millar yn cefnogi Cymunedau yn Gyntaf yn ei etholaeth, tra mae Nick Bourne yn ei wrthwynebu'n llwyr. Pam nad ydych yn dweud ar goedd eich bod yn gwrthwynebu Cymunedau yn Gyntaf? Byddai hynny'n llawer haws; byddwn yn deall hynny, fel y byddai pawb arall. Os yw'r Ceidwadwyr yn ei wrthwynebu, dywedwch hynny ar goedd yn hytrach na thindroi.

Alun Davies: Mae gan Mark Isherwood wyneb i ddod yma gyda'i ddagrau ffug am y materion hyn sy'n effeithio ar rai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Weinidog, a ydych yn cytuno, gyda'u haddewid i gael gwared ar Cymunedau yn Gyntaf a'r toriadau i fudd-daliadau, i swyddi ac i wasanaethau cyhoeddus, mai'r unig bolisi sydd gan y blaid gyferbyn yn y Llywodraeth yn Llundain ar gyfer cymunedau difreintiedig yw dagrau ffug a thoriadau i'r union wasanaethau hynny

and elsewhere?

Carl Sargeant: Thank you for your question, Alun. The opposition does not like the reality of the comprehensive spending review, Cameron's shocking recklessness in Wales, and the implications of attacking and wanting to get rid of Communities First and attacking housing benefit, the disability living allowance and child benefit payments. Oscar asked me a question about disabled people being disadvantaged in Wales, but it is his Government at Westminster that is imposing these cuts on the people of Wales today.

Eleanor Burnham: Look, we are all for helping vulnerable people and vulnerable communities, but surely the simplest, fairest, most accountable and most easily monitored way of doing that would be to give the money to local authorities. If you want to continue with Labour control freakery, why do you not ring-fence the funding? Surely, that is what a democracy is all about. We are not talking about not helping vulnerable people, as we are all for that, but, for goodness' sake, we have wasted so much money.

2.00 p.m.

The Joseph Rowntree Foundation is a worthy body that has looked into this most carefully and has found only marginal benefits. Why do you not get off your high horse and do something really clever like giving the money to local authorities so that they can disburse it to vulnerable communities?

Carl Sargeant: Thank you for your question, Eleanor. I think that you should move your chair a little further to the right so that you are sitting with the Conservatives. I cannot believe that you are supporting your Conservative colleagues in Wales. The cuts coming to Wales are a step too far, and they are coming too fast. They will have implications for the whole of Wales for decades to come. If you want to associate yourself with those cuts, I am, at best, surprised. On the delivery of services and

sy'n cynnal pobl, bywoliaeth a swyddi mewn cymunedau difreintiedig yng Nghymru ac mewn lleoedd eraill?

Carl Sargeant: Diolch ichi am eich cwestiwn, Alun. Nid yw'r wrthblaid yn hoffi realiti'r adolygiad cynhwysfawr o wariant, byrbwylltra syfrdanol Cameron yng Nghymru, na'r goblygiadau o ymosod ar Cymunedau yn Gyntaf a'u hawydd i gael gwared arno, a'r ymosodiad ar fudd-dal tai, y lwfans byw i'r anabl a'r taliadau budd-dal plant. Gofynnodd Oscar gwestiwn am bobl anabl yn cael eu rhoi o dan anfantais yng Nghymru, ond ei Lywodraeth ef yn San Steffan sy'n gosod y toriadau hyn ar bobl Cymru heddiw.

Eleanor Burnham: Edrychwch, mae pob un ohonom o blaid helpu pobl sy'n agored i niwed a chymunedau sy'n agored i niwed, ond 'does bosibl mai'r ffordd symlaf, decaf, fwyaf atebol, a'r ffordd hawsaf o fonitro hynny fyddai rhoi'r arian i awdurdodau lleol. Os ydych chi'r Blaid Lafur am barhau i gadw rheolaeth lwyr, yna pam nad ydych yn clustnodi'r cyllid? Onid dyna yw ystyr democratiaeth. Nid ydym yn sôn am beidio â helpu pobl sy'n agored i niwed, rydym i gyd o blaid hynny, ond, er mwyn popeth, rydym wedi gwastraffu cymaint o arian.

Mae Sefydliad Joseph Rowntree yn gorff teilwng sydd wedi ymchwilio i hyn yn ofalus, a dim ond manteision ymylol y mae wedi'u canfod. Pam na ddewch oddi ar gefn eich ceffyl a gwneud rhywbeth clyfar iawn fel rhoi'r arian i awdurdodau lleol er mwyn iddynt allu ei ddsbarthu i gymunedau sy'n agored i niwed?

Carl Sargeant: Diolch ichi am eich cwestiwn, Eleanor. Credaf y dylech symud eich cadair ychydig ymhellach i'r dde fel eich bod yn eistedd gyda'r Ceidwadwyr. Ni allaf gredu eich bod yn cefnogi eich cyd-Aelodau Ceidwadol yng Nghymru. Mae'r toriadau sy'n dod i Gymru yn gam rhy bell, ac maent yn dod yn rhy gyflym. Bydd y goblygiadau i Gymru gyfan yn parhau am ddegawdau. Os ydych chi am gysylltu eich hun gyda'r toriadau hynny, yna mae hynny'n fy synnu. O ran cyflenwi gwasanaethau a chadw rheolaeth

control freakery, you will be aware that Labour does not control many authorities in Wales, so, to me, the reality is that funding to Communities First should be distributed to whoever is best placed to deliver it. My commitment to Communities First continues. A review is under way, which will report prior to May 2011, and I hope that we will then be able to have a clear view on the way forward for our deprived communities. However, I fear that your manifesto will not have much in it.

Nerys Evans: I barhau ar hyd trywydd Cymunedau yn Gyntaf, mae pryder am adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree sydd wedi dweud bod effaith y rhaglen yn ymylol. Fel yr amlinellwyd gennych wrth ymateb i Alun Davies, mae'n bwysicach yn awr nag erioed ein bod yn diogelu cymunedau difreintiedig a gofalu amdanynt, a hynny oherwydd y newidiadau ar lefel Brydeinig a fydd yn ymosod ar y bobl dlotaf yn ein cymunedau mwyaf bregus. Wrth i'r gwariant ar bolisi Cymunedau yn Gyntaf fwrw £300 miliwn, ac wrth inni weld newidiadau sylfaenol ar lefel Brydeinig a fydd yn effeithio ar y cymunedau hynny mewn ffordd negyddol tu hwnt, a fyddai'n iawn i chi ystyried ehangu eich adolygiad o'r rhaglen i sicrhau'r gefnogaeth fwyaf a mwyaf perthnasol i'n cymunedau difreintiedig?

Carl Sargeant: As I mentioned earlier, a review is under way. I am surprised that you do not know more of the detail given that your office made a request under the Freedom of Information Act 2000. For me, the issue with Communities First is to ensure that the future programme is right for our most deprived communities. That is, is the broad context right now or should it be broadened? That will be brought to me by my officials in the coming months.

I welcome the Joseph Rowntree Foundation report, as it will add value to the discussions that my officials will have in future. I do not take lightly the job of looking after our poorest communities, which were left in such a mess after the Conservatives were last in power.

lwyr, byddwch yn ymwybodol nad yw Llafur yn rheoli llawer o awdurdodau yng Nghymru, felly, rwyf fi'n credu mai'r realiti yw y dylai cyllid ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf gael ei ddosbarthu i bwy bynnag sydd yn y sefyllfa orau i'w ddarparu. Mae fy ymrwymiad i Cymunedau yn Gyntaf yn parhau. Mae adolygiad ar y gweill, a fydd yn adrodd cyn mis Mai 2011, a gobeithiaf wedyn y bydd gennym olwg glir o'r ffordd ymlaen i'n cymunedau difreintiedig. Fodd bynnag, rwyf yn ofni na fydd gan eich maniffesto lawer i'w gynnig.

Nerys Evans: To continue on the issue of Communities First, there is concern about the Joseph Rowntree Foundation report that says that the impact of the programme is marginal. As you outlined in response to Alun Davies, it is more important now than ever that we protect and care for disadvantaged communities, because of the changes at the British level that will attack the poorest people in our most vulnerable communities. As the expenditure on the Communities First policy reaches £300 million, and as we see fundamental changes at a British level that will affect those communities in a very negative way, could you consider expanding your review of the programme to secure the greatest and most relevant support for our disadvantaged communities?

Carl Sargeant: Fel y soniais yn gynharach, mae adolygiad ar y gweill. Rwyf yn synnu nad ydych yn gwybod mwy o'r manylion gan fod eich swyddfa wedi gwneud cais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. I mi, o ran Cymunedau yn Gyntaf, rhaid sicrhau bod y rhaglen yn y dyfodol yn briodol ar gyfer ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Hynny yw, a yw'r cyd-destun cyffredinol yn gywir yn awr neu a ddylid ei ehangu? Bydd fy swyddogion yn cyflwyno hynny imi yn y misoedd nesaf.

Croesawaf adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree, oherwydd bydd yn ychwanegu gwerth at y trafodaethau y bydd fy swyddogion yn eu cael yn y dyfodol. Nid wyf yn cymryd y gwaith o ofalu am ein cymunedau tlotaf yn ysgafn, ar ôl iddynt gael eu gadael yn y fath lanast ar ôl y tro diwethaf i'r Ceidwadwyr fod mewn grym.

Atal Homoffobia

7. Jenny Randerson: *Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i atal homoffobia. OAQ(3)1405(SJL)*

Carl Sargeant: The Welsh Assembly Government's single equality scheme helps us to demonstrate how we fulfil our obligations under the current equality law. It sets out how we will provide equality of opportunity for all, and how we recognise and value diversity. It also helps us to meet our commitment to a fairer and just society.

Jenny Randerson: In the USA, a big campaign is under way to tackle homophobia and to give support to those who suffer as a result of it. It is called the It Gets Better Project, and it is actively supported by President Obama. Stonewall has just launched the project in the UK but, in Wales, there has been a disappointing lack of progress in dealing with homophobic bullying in schools. Only yesterday, a petition on the issue was presented in the Senedd by IR Cymru, the Liberal Democrat youth group. Minister, will you do your bit to make progress on this pressing issue by committing to support and actively promote the It Gets Better Project in Wales?

Carl Sargeant: Thank you for your question, Jenny. The Welsh Assembly Government is developing specific anti-bullying guidance on homophobic bullying in schools, and I have had discussions with my colleague, the Minister for Children, Education and Lifelong Learning, on the new suite of detailed guidance. The consultation period has ended and, following the translation of the materials, we expect the new guidance to be issued early in the new year. The Welsh Assembly Government works closely with Stonewall Cymru, including on the development of new programmes. We funded Stonewall Cymru to produce the *Spell It Out* DVD and gave it £6,500 to publish its school report, but I will review your question and consider that.

Preventing Homophobia

7. Jenny Randerson: *What is the Minister doing to prevent homophobia. OAQ(3)1405(SJL)*

Carl Sargeant: Mae cynllun cydraddoldeb sengl Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ein helpu i ddangos sut yr ydym yn cyflawni ein rhwymedigaethau o dan y gyfraith gydraddoldeb bresennol. Mae'n nodi sut y byddwn yn rhoi cyfle cyfartal i bawb, a sut rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth. Mae hefyd yn ein helpu i gyflawni ein hymrwymiad i sicrhau cymdeithas decach a chyfiawn.

Jenny Randerson: Yn Unol Daleithiau'r America, mae ymgyrch fawr ar y gweill i fynd i'r afael â homoffobia ac i roi cymorth i'r rheini sy'n dioddef o ganlyniad i hynny. Enw'r prosiect yw *It Gets Better*, ac mae'r Arlywydd Obama yn ei gefnogi'n frwd. Mae Stonewall newydd lansio'r prosiect yn y DU ond, yng Nghymru, mae'r diffyg cynnydd i ddelio â bwlio homoffobig mewn ysgolion wedi bod yn siomedig. Ddoe ddiwethaf, cyflwynwyd deiseb ar y mater i'r Senedd gan IR Cymru, grŵp ieuencid Democratiad Rhyddfrydol Cymru. Weinidog, a wnewch wneud eich rhan i sicrhau cynnydd ar y mater pwysig hwn drwy ymrwymo i gefnogi ac i hyrwyddo'r prosiect *It Gets Better* yng Nghymru?

Carl Sargeant: Diolch am eich cwestiwn, Jenny. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu canllawiau gwrth-fwlio penodol ar fwlio homoffobig mewn ysgolion, ac rwyf wedi cael trafodaethau gyda fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, am y gyfres newydd o ganllawiau manwl. Mae'r cyfnod ymgynghori wedi dod i ben ac, ar ôl i'r deunyddiau gael eu cyfieithu, rydym yn disgwyl y bydd y canllawiau newydd yn cael eu cyhoeddi ddechrau'r flwyddyn newydd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio'n agos gyda Stonewall Cymru, gan gynnwys wrth ddatblygu rhaglenni newydd. Gwnaethom ariannu Stonewall Cymru i gynhyrchu'r DVD *Allan Ag E*, a rhoesom £6,500 iddo i gyhoeddi ei adroddiad ysgol, ond byddaf yn adolygu eich cwestiwn ac yn

ystyried hynny.

Mohammad Asghar: I was pleased to attend the Cardiff Mardi Gras this year, which was attended by an estimated 40,000 people. This free event is essential in raising awareness and promoting equality, which are very important to prevent homophobic attitudes. In the four years to 2010, police forces across Wales recorded 1,700 reports of homophobic hate crime. There are particularly worrying issues in Welsh schools, which Jenny mentioned, with Stonewall Cymru raising serious concern about the prevalence of homophobic bullying. Given that recent figures suggest that only one in 16 schools have an explicit policy to deal with homophobic bullying, what steps can the Assembly Government take to build on the momentum generated by events such as the Mardi Gras to raise awareness and to do all that is possible to stamp out homophobia in Welsh society for good?

Mohammad Asghar: Roeddwn yn falch o fod yn bresennol ym Mardi Gras Caerdydd eleni, ac yn ôl yr amcangyfrifon, roedd tua 40,000 o bobl yno. Mae'r digwyddiad di-dâl hwn yn hanfodol o ran codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb, sy'n bwysig iawn i atal agweddau homoffobig. Yn y pedair blynedd hyd at 2010, roedd heddluoedd ledled Cymru wedi cofnodi 1,700 o adroddiadau o droseddau casineb homoffobig. Ceir materion sy'n peri mawr yn ysgolion Cymru, fel y soniodd Jenny, gyda Stonewall Cymru yn mynegi pryder difrifol am nifer yr achosion o fwlio homoffobig. O gofio bod y ffigurau diweddar yn awgrymu mai dim ond un o bob 16 ysgol sydd â pholisi penodol i ymdrin â bwlio homoffobig, pa gamau y gall Llywodraeth y Cynulliad eu cymryd i adeiladu ar y momentwm sy'n cael ei greu gan ddigwyddiadau fel y Mardi Gras i godi ymwybyddiaeth, ac i wneud popeth sy'n bosibl i gael gwared ar homoffobia yng nghymdeithas Cymru am byth?

Carl Sargeant: I am pleased that you enjoyed Cardiff's Mardi Gras festival. It is something that we support as a Welsh Assembly Government, and it is my intention to continue to do so. I refer you to my earlier response to Jenny Randerson. I understand that the Minister for Children, Education and Lifelong Learning will be issuing guidance for schools early in the new year, as the consultation has just finished.

Carl Sargeant: Rwyf yn falch eich bod wedi mwynhau gŵyl Mardi Gras Caerdydd. Mae'n ddigwyddiad rydym ni fel Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei gefnogi, ac rwyf yn bwriadu parhau i wneud hynny. Fe'ch cyfeiraf at fy ymateb cynharach i Jenny Randerson. Caf ar ddeall y bydd y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yn cyhoeddi cyfarwyddyd i ysgolion ddechrau'r flwyddyn newydd, gan fod yr ymgynghoriad newydd ddod i ben.

Cydweithio

8. David Lloyd: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gydweithio ymysg awdurdodau lleol. OAQ(3)1372(SJL)*

Carl Sargeant: Local authorities have always worked together. However, there is more to be done where that means cheaper and better services. My review into which services are best delivered where will help them to do that.

David Lloyd: Diolch am eich ateb, Weinidog. A chofio y gall fod costau cychwynnol eithaf sylweddol i ddatblygu

Joint Working

8. David Lloyd: *Will the Minister make a statement on joint working among local authorities. OAQ(3)1372(SJL)*

Carl Sargeant: Mae awdurdodau lleol bob amser wedi gweithio gyda'i gilydd. Fodd bynnag, mae rhagor i'w wneud er mwyn sicrhau gwasanaethau rhatach a gwell. Bydd fy adolygiad ynghylch pa wasanaethau sy'n cael eu darparu orau ymhle yn eu helpu i wneud hynny.

David Lloyd: Thank you for your answer, Minister. Given that there can be quite significant set-up costs involved in

partneriaethau a gweithio ar y cyd ymysg awdurdodau lleol, beth allwch ei wneud fel Gweinidog i helpu wrth sefydlu partneriaethau a datblygu cydweithio?

Carl Sargeant: We recognised early on that change often incurs upfront costs but that, in the long term, there are huge gains to be made. That is why we introduced the invest-to-save programme, which is having a clear impact across local authorities and other public sector organisations across Wales. I know that the Minister for Business and Budget is keen to promote this, and I continue to push this in my discussions with local authorities across Wales. I also mentioned earlier the review group that I have set up. I am pleased that I was able to announce today that the chair of the group will be Joe Simpson, the director of politics and partnerships at Local Government Leadership. He will run the review group until Christmas, and I expect it to report back to me early in the new year.

William Graham: How is your Government encouraging local authorities in Wales to look at examples from England where councils have already conducted a thorough examination of core competencies, their ability to perform and all their service data? I quote the example of Suffolk County Council to you, which has found it extremely effective to outsource all its services to private companies.

Carl Sargeant: Part of my review group will look at which services are best delivered where and at what level. My door is open if anyone has any ideas for how we deliver new services. The Welsh Local Government Association and the efficiency and innovation board are involved in that process of collecting data on services where there is already collaboration and on which services are delivered externally. I had a discussion with the Minister for education yesterday regarding services that are not just delivered from outside Wales but outside the UK. We are open to discuss this and learn from it. However, the public sector in Wales is a fantastic asset to us. We are offering an opportunity to change service delivery from

developing partnerships and joint working among local authorities, what can you do as Minister to assist with the setting up of partnerships and developing joint working?

Carl Sargeant: Gwnaethom gydnabod yn gynnar fod newid yn aml yn arwain at gostau cychwynnol ond, yn yr hirdymor, gellir gwneud enillion mawr. Dyna pam y gwnaethom gyflwyno'r rhaglen buddsoddi i arbed, sy'n cael effaith amlwg ar draws awdurdodau lleol a sefydliadau'r sector cyhoeddus eraill ymhob cwr o Gymru. Gwn fod y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb yn awyddus i hyrwyddo hyn, a byddaf yn parhau i wthio hyn yn fy nhrefnadaethau gydag awdurdodau lleol ledled Cymru. Soniais hefyd yn gynharach am y grŵp adolygu rwyf wedi'i sefydlu. Mae'n falch gennyf allu cyhoeddi heddiw mai cadeirydd y grŵp fydd Joe Simpson, y cyfarwyddwr gwleidyddiaeth a phartneriaethau yn y Ganolfan Arweinyddiaeth Llywodraeth Leol. Bydd yn rhedeg y grŵp adolygu tan y Nadolig, ac rwyf yn disgwyl y bydd yn adrodd yn ôl imi ar ddechrau'r flwyddyn newydd.

William Graham: Sut y mae eich Llywodraeth yn annog awdurdodau lleol yng Nghymru i edrych ar enghreifftiau o Loegr lle mae cynghorau eisoes wedi cynnal archwiliad trylwyr o'r cymwyseddau craidd, eu gallu i berfformio, a'u holl ddata gwasanaeth? Rhoddaf enghraifft Cyngor Swydd Suffolk ichi, sydd wedi canfod ei fod yn hynod effeithiol cael cwmnïau allanol i ddarparu ei holl wasanaethau.

Carl Sargeant: Bydd rhan o fy ngrŵp adolygu yn edrych ar pa wasanaethau sy'n cael eu darparu orau ymhle ac ar ba lefel. Mae fy nrws ar agor os oes gan unrhyw un syniadau am sut y gallwn ddarparu gwasanaethau newydd. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi yn rhan o'r broses honno o gasglu data am wasanaethau lle ceir cydweithio eisoes ac am ba wasanaethau sy'n cael eu darparu'n allanol. Cefais drafodaeth â'r Gweinidog dros Addysg ddoe ynghylch gwasanaethau sydd nid yn unig yn cael eu darparu o'r tu allan i Gymru ond o'r tu allan i'r DU hefyd. Rydym yn agored i drafod hyn ac i ddysgu ohono. Fodd bynnag, mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn ased gwych inni.

within, and that will benefit—as I said in answer to my first question—the client, which is the public at large. This is something that we can do in Wales—we just need the will.

2.10 p.m.

Darren Millar: I was pleased to hear your response to William Graham and, indeed, to Dai Lloyd—certainly as regards the upfront costs that can often be incurred by local authorities, and the fact that that fund to help them establish joint services will be maintained. I also welcome the statement today and the announcement that the review group will be up and running and reporting to you by Christmas; they are both welcome developments.

However, you can lead a horse to water, but you cannot make it drink. Often, in spite of the evidence, local authority officers in particular can be resistant to joint service arrangements, which is frustrating for Members across the Chamber. We all know of the example in north Wales that has been cited in the past in the Chamber, where £500,000 of taxpayers' money could have been saved, but the proposal was rejected by a local authority on the advice of its officers. I will not name that authority, although you may wish to do so. What opportunities might you take with the Proposed Local Government (Wales) Measure to encourage or even force local authorities to provide services jointly, where a significant evidence base exists for a massive saving? Will you allow for the merger of services or even of local authorities, perhaps—as regards the administrative functions, not the political arrangements? If you have considered those opportunities, will you be taking them up?

Carl Sargeant: Thank you for that important question on opportunities for change. It is a frustrating process, trying to encourage change from within. There are some

Rydym yn cynnig cyfle i newid dulliau o gyflenwi gwasanaethau o'r tu mewn, ac—fel y dywedais wrth ateb fy nghwestiwn cyntaf—bydd y cleient, sef y cyhoedd yn gyffredinol, yn cael budd o hynny. Mae hyn yn rhywbeth y gallwn ei wneud yng Nghymru—yr unig beth sydd ei angen yw ewyllys.

Darren Millar: Roeddwn yn falch o glywed eich ymateb i William Graham ac, yn wir, i Dai Lloyd—yn sicr o ran y costau cychwynnol y mae awdurdodau lleol yn aml yn eu hwynebu, a'r ffaith y bydd y gronfa honno i'w helpu i sefydlu gwasanaethau ar y cyd yn cael ei chynnal. Croesawaf hefyd ddatganiad heddiw a'r cyhoeddiad y bydd y grŵp adolygu ar waith ac yn adrodd yn ôl ichi erbyn y Nadolig; mae'r ddau beth hyn yn ddatblygiadau i'w croesawu.

Fodd bynnag, gallwch arwain ceffyl at ddŵr, ond ni allwch ei orfodi i yfed. Yn aml, er gwaethaf y dystiolaeth, mae swyddogion awdurdod lleol yn benodol yn gallu bod yn gyndyn i weithredu trefniadau gwasanaeth ar y cyd, ac mae hynny'n rhwystredig i Aelodau ar draws y Siambr. Mae pob un ohonom yn ymwybodol o'r enghraifft yn y gogledd sydd wedi cael ei dyfynnu yn y gorffennol yn y Siambr, lle gellid bod wedi arbed £500,000 o arian trethdalwyr, ond bod y cynnig wedi cael ei wrthod gan awdurdod lleol ar sail cyngor ei swyddogion. Ni wnaef enwi'r awdurdod hwnnw, er efallai y byddwch yn dymuno gwneud hynny. Pa gyfleoedd allech fanteisio arnynt drwy'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) Arfaethedig i annog neu hyd yn oed orfodi awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau ar y cyd, lle ceir sylfaen dystiolaeth sylweddol ar gyfer gwneud arbedion enfawr? A fyddwch yn caniatáu uno gwasanaethau neu hyd yn oed uno awdurdodau lleol, efallai—o ran y swyddogaethau gweinyddol, ac nid y trefniadau gwleidyddol? Os ydych wedi ystyried y cyfleoedd hynny, a fyddwch yn manteisio arnynt?

Carl Sargeant: Diolch am y cwestiwn pwysig hwnnw ynghylch cyfleoedd i newid. Mae'n broses rhwystredig, ceisio annog newid o'r tu mewn. Mae rhai awdurdodau a

authorities and public bodies that are doing it well, and there are others that could perhaps do with some encouragement to move a little quicker. As you will be aware, I already have the powers to direct collaboration when there is a failure to improve services. It is something that I am reluctant to use, but will if need be. Your broader question on what to do if local authorities fail to comply was picked up during scrutiny at several committees—they asked whether we have enough powers or tools to ensure the delivery of good public services for the future. This is something that I am considering, and again, I would welcome evidence from the legislation committee on powers to merge, and whether that is a good idea. That is something to which I would give serious consideration.

chyrrff cyhoeddus yn gwneud hynny'n dda, tra mae angen rhywfaint o anogaeth ar eraill efallai i symud ychydig yn gyflymach. Fel y gwyddoch, mae gennyf eisoes y pwerau i roi cyfarwyddyd i gydweithio oni ellir gwella gwasanaethau. Rwyf yn gyndyn i ddefnyddio'r pwerau hynny, ond byddaf yn gwneud hynny os bydd angen. Mae eich cwestiwn ehangach ynghylch beth i'w wneud os bydd awdurdodau lleol yn methu â chydymffurfio wedi codi wrth graffu mewn llawer o bwyllgorau—gwnaethant ofyn a oes gennym ddigon o bwerau neu ddulliau gweithredu i sicrhau y darperir gwasanaethau cyhoeddus da yn y dyfodol. Mae hyn yn rhywbeth rwyf yn ei ystyried, ac unwaith eto, byddwn yn croesawu tystiolaeth gan y pwyllgor deddfau ynghylch y pwerau i uno, ac a yw hynny'n syniad da. Mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn ei ystyried o ddifrif.

Darren Millar: I will make an offer to the Minister: I will work with him on this particular issue. There is frustration on a cross-party basis, and I would be happy to work with him and his officials towards securing something that can be supported by all parties in the Chamber going forward, particularly in the context of the proposed Measure, ensuring that it is fit for purpose and that those tools are available.

Darren Millar: Hoffwn wneud cynnig i'r Gweinidog: Rwyf yn fodlon gweithio gydag ef ar y mater penodol hwn. Mae rhwystredigaeth ar draws y pleidiau, a byddwn yn fodlon gweithio gydag ef a'i swyddogion er mwyn sicrhau rhywbeth y gall pob plaid yn y Siambr ei gefnogi wrth symud ymlaen, yn enwedig yng nghyd-destun y Mesur arfaethedig, gan sicrhau ei fod yn addas i'r pwrpas a bod y dulliau gweithredu hynny ar gael.

Carl Sargeant: Thank you for your kind offer. I am sure that you will be able to pick up a membership form from Ann Jones at a later date. On a serious note, I will consider your offer and respond accordingly.

Carl Sargeant: Diolch ichi am eich cynnig hael. Rwyf yn siŵr y gallwch gael ffurflen aelodaeth gan Ann Jones maes o law. Ar nodyn difrifol, byddaf yn ystyried eich cynnig ac yn ymateb yn briodol.

The Presiding Officer: Thank you, Minister, for that very interesting question session.

Y Llywydd: Diolch, Weinidog, am sesiwn gwestiynau ddiddorol iawn.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes Questions to the Minister for Children, Education and Lifelong Learning

Cynyddu Sgiliau Pobl Ifanc

Increasing the Skills of Young People

I. Joyce Watson: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynyddu sgiliau pobl ifanc. OAQ(3)1511(CEL)*

I. Joyce Watson: *Will the Minister make a statement on increasing the skills of young people. OAQ(3)1511(CEL)*

The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews): Skills are vital for life chances, so I am proud

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews): Mae sgiliau yn hanfodol ar gyfer cyfleoedd

of the fact that we are seeing improving results in schools and further education and high-quality apprenticeships helping young people get on in real jobs. Welsh universities are doing well in widening access and have a good record on graduate employability.

Joyce Watson: Thank you for that answer, Minister. It was recently announced by the Assembly Government that, on top of the millions already invested in increasing skills across Wales, £28 million would be invested to help Welsh businesses to unlock talent and innovation. Does the Minister agree that, over the next decade, there will also be a need to deal with the shortage of skills that will inevitably come about through older skilled workers retiring in specific sectors in Wales, in particular within the construction and the engineering industry? Do you agree that there is little doubt of the real life changes and opportunities that such sectors offer young people? Tremendous work is being done by organisations up and down Wales, and in particular by Construction Skills, Coleg Sir Gâr and the Carmarthenshire Construction Training Association Ltd, through, for example, shared apprenticeship schemes.

I will be hosting an event tomorrow night in the Senedd that is the first of its kind and which will bring together leaders from across the construction and engineering industry to try to tackle such challenges ahead, and in particular to celebrate the contribution of women in such industries. Minister, do you agree that joined-up working is the way forward to secure our young people's future life chances?

Leighton Andrews: Yes, and the construction sector is to be congratulated on the work that has been done on skills. We have seen real co-operation in that sector between employers and further education institutions. You mentioned Coleg Sir Gâr specifically and I have seen some of the work that has been undertaken by young people on some of those schemes.

bywyd, felly rwyf yn falch o'r ffaith ein bod yn gweld canlyniadau'n gwella mewn ysgolion ac addysg bellach, a bod prentisiaethau o safon uchel yn helpu pobl ifanc i ddatblygu mewn swyddi go iawn. Mae prifysgolion Cymru yn gwneud yn dda o ran ehangu mynediad, ac mae ganddynt record dda o ran cyflogadwyedd graddedigion.

Joyce Watson: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad yn ddiweddar, yn ychwanegol at y miliynau sydd eisoes wedi'u buddsoddi mewn cynyddu sgiliau ledled Cymru, y byddai £28 miliwn yn cael ei fuddsoddi i helpu busnesau Cymru i ddatgloi talent ac arloesedd. A yw'r Gweinidog yn cytuno, dros y ddegawd nesaf, y bydd hefyd angen ymdrin â'r prinder sgiliau sy'n anochel wrth i weithwyr medrus hŷn ymddeol mewn sectorau penodol yng Nghymru, yn enwedig yn y diwydiant adeiladu a pheirianeg? A ydych yn cytuno nad oes fawr o amheuaeth am y cyfleoedd a'r newidiadau gwirioneddol i fywyd sy'n cael eu cynnig gan sectorau o'r fath i bobl ifanc? Mae sefydliadau o Fôn i Fynwy yn gwneud gwaith aruthrol, ac yn arbennig gan Sgiliau Adeiladu, Coleg Sir Gâr, a Chymdeithas Hyfforddiant Adeiladu Sir Gaerfyrddin Cyf, drwy rannu cynlluniau prentisiaeth er enghraifft.

Byddaf yn cynnal digwyddiad nos yfory yn y Senedd, y cyntaf o'i fath a fydd yn dwyn ynghyd arweinwyr o bob rhan o'r diwydiant adeiladu a pheirianeg i geisio mynd i'r afael â heriau a wynebwn, ac yn arbennig i ddathlu cyfraniad merched at y diwydiannau hyn. Weinidog, a ydych yn cytuno mai gweithio'n gydgyssylltiedig yw'r ffordd ymlaen i sicrhau cyfleoedd bywyd yn y dyfodol i'n pobl ifanc?

Leighton Andrews: Ydw, a dylid llongyfarch y sector adeiladu am y gwaith sydd wedi'i wneud ar sgiliau. Rydym wedi gweld cydweithredu yng ngwir ystyr y gair yn y sector hwnnw rhwng cyflogwyr a sefydliadau addysg bellach. Soniasoch yn benodol am Goleg Sir Gâr ac rwyf wedi gweld rhywfaint o'r gwaith sydd wedi'i wneud gan bobl ifanc ar rai o'r cynlluniau hynny.

The Assembly Government has invested Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi

quite significantly, particularly in the construction sector, in colleges over the past few years. I am thinking of investments that I have seen in Coleg Menai and Coleg Llandrillo Cymru and in a number of other colleges around Wales, as well as in some parts of the schools sector. We know that this is an area where there is a continual need for a pipeline of young people coming forward with those skills, and we are putting the investment in to support that.

Mohammad Asghar: Literacy is an essential basic skill. I understand that new figures on adult literacy rates will be published shortly, but the latest figures, which are six years old, show that a quarter of adults in Wales have literacy ability of only entry level or below. While I note your national literacy plan, what steps are you taking to give people who may have left education without satisfactory literacy skills the opportunity to improve such basic skills and, consequently, their future chances? How confident are you, Minister, that the steps that you are taking will ensure that future literacy figures for young people and adults show a significant improvement?

Leighton Andrews: We are continuing to support literacy programmes for adult learners and we are also supporting essential skills programmes for young people after the age of 16, through programmes such as SkillBuild and others. We recognise that there is a continuing problem that we have to address. One of the greatest challenges in Wales remains the significant number of young people not in education, employment or training, which is why, in the course of this year, I have carried out an internal review in my own department. I have had Martin Mansfield, from the Wales TUC, chair a task and finish group looking at youth unemployment, and the Wales employment and skills board has also been looking at these issues. We will continue to provide those programmes, but, in the long term, it will be by improving literacy performance in schools, particularly in primary schools, that we will address those challenges, including the challenges of behaviour and attendance

buddsoddi yn eithaf sylweddol mewn colegau dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig yn y sector adeiladu. Rwyf yn meddwl am fuddsoddiadau rwyf wedi'u gweld yng Ngholeg Menai a Choleg Llandrillo Cymru ac mewn nifer o golegau eraill ledled Cymru, yn ogystal â rhai rhannau o'r sector ysgolion. Gwyddom fod hwn yn faes lle mae angen llif parhaus o bobl ifanc sy'n meddu ar y sgiliau hynny, ac rydym yn buddsoddi i gefnogi hynny.

Mohammad Asghar: Mae llythrennedd yn sgil sylfaenol hanfodol. Deallaf y bydd y ffigurau newydd ar gyfraddau llythrennedd oedolion yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir, ond mae'r ffigurau diweddaraf, sy'n chwe mlwydd oed bellach, yn dangos bod gallu llythrennedd chwarter yr oedolion yng Nghymru ar lefel mynediad yn unig neu'n is. Er fy mod yn nodi eich cynllun llythrennedd cenedlaethol, pa gamau ydych yn eu cymryd i roi cyfle i'r bobl hynny sydd efallai wedi gadael addysg heb sgiliau llythrennedd boddhaol i wella'r sgiliau sylfaenol hyn ac, o ganlyniad, eu cyfleoedd yn y dyfodol? Pa mor hyderus ydych chi, Weinidog, y bydd y camau rydych yn eu cymryd yn sicrhau y bydd ffigurau llythrennedd pobl ifanc ac oedolion yn gwella'n sylweddol yn y dyfodol?

Leighton Andrews: Rydym yn parhau i gefnogi rhaglenni llythrennedd ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion, ac rydym hefyd yn cefnogi rhaglenni sgiliau hanfodol ar gyfer pobl ifanc ar ôl 16 oed, drwy raglenni megis Adeiladu Sgiliau ac eraill. Rydym yn cydnabod y ceir problem barhaus y mae'n rhaid inni fynd i'r afael â hi. Un o'r heriau mwyaf yng Nghymru o hyd yw nifer sylweddol y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, a dyna pam, yn ystod y flwyddyn hon, rwyf wedi cynnal adolygiad mewnol yn fy adran fy hun. Mae Martin Mansfield, o TUC Cymru, wedi cadeirio grŵp gorchwyl a gorffen sy'n edrych ar ddiweithdra ymysg pobl ifanc, ac mae bwrdd sgiliau a chyflogaeth Cymru hefyd wedi bod yn edrych ar y materion hyn. Byddwn yn parhau i ddarparu'r rhaglenni hynny, ond, yn yr hirdymor, rhaid gwella llythrennedd mewn ysgolion, yn enwedig mewn ysgolion cynradd, er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hynny, gan gynnwys yr heriau

that come later on in school life.

Nerys Evans: Mae addysg uwch yn hanfodol er mwyn meithrin sgiliau ein pobl ifanc. Yr oeddwn yn hynod siomedig, felly, o glywed cyhoeddiad Llywodraeth Llundain ryw ddwy awr yn ôl y bydd yn treblu ffioedd dysgu addysg uwch i hyd at £9,000 y flwyddyn. Felly, bydd cwrs tair blynedd yn costio bron i £30,000, ac, wrth gwrs, mae sawl cwrs yn hirach na thair blynedd, cyn dechrau sôn am gostau llety, costau byw, cost deunydd astudio, ac yn y blaen. A gytunwch fod hwn yn ddatblygiad hynod siomedig, ac mai dim ond y rhai a fydd yn gallu fforddio'r costau hynny fydd yn medru datblygu eu sgiliau drwy addysg uwch yn y dyfodol?

ymddygiad a phresenoldeb a ddaw yn nes ymlaen yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Nerys Evans: Higher education is crucial to nurturing skills among our young people. I was very disappointed, therefore, to hear the announcement made by the London Government some two hours ago that it will treble higher education tuition fees to up to £9,000 per annum. Therefore, a three-year course will cost almost £30,000, and, of course, many courses are longer than three years, before we even start to talk about the cost of accommodation, living costs, the cost of study materials, and so on. Do you agree that this is a very disappointing development and that, in future, only those who will be able to afford those costs will be able to develop their skills through higher education?

2.20 p.m.

Leighton Andrews: The proposals announced today by the Minister of State for Universities and Science affect higher education institutions in England, and we will, of course, be working out what we need to do in respect of the situation here in Wales. It has been announced today that fees will have an absolute limit of £9,000, and that there will be a basic threshold fee of around £6,000 per annum. I presented rough estimates to the Assembly when I made a statement on the impact on our budgets of an increase in fees to £7,000. We estimated that that would be around £70 million per annum, with £55 million of that transferring directly to higher education institutions in England. As a Welsh Assembly Government we will, in the context of the 'One Wales' agreement, look at the solutions that we need to undertake to protect the opportunities for access to higher education that are the centrepiece of our higher education strategy, 'For Our Future'.

Leighton Andrews: Mae'r cynigion a gyhoeddwyd heddiw gan y Gweinidog Gwladol dros Brifysgolion a Gwyddoniaeth yn effeithio ar sefydliadau addysg uwch yn Lloegr, a byddwn, wrth gwrs, yn pwysu a mesur beth fydd angen inni ei wneud mewn cysylltiad â'r sefyllfa yma yng Nghymru. Cyhoeddwyd heddiw mai £9,000 fydd terfyn uchaf y ffioedd, gyda ffi trothwy sylfaenol o tua £6,000 y flwyddyn. Cyflwynais amcangyfrifon bras i'r Cynulliad pan wneuthum ddatganiad am yr effaith ar ein cyllidebau pe bai'r ffioedd yn cynyddu i £7,000. Gwnaethom amcangyfrifo y byddai hynny tua £70 miliwn y flwyddyn, gyda £55 miliwn o'r swm hwnnw'n trosglwyddo'n uniongyrchol i sefydliadau addysg uwch yn Lloegr. Fel Llywodraeth Cynulliad Cymru byddwn, yng nghyd-destun cytundeb 'Cymru'n Un', yn edrych ar yr atebion y mae angen inni eu gweithredu er mwyn gwarchod cyfleoedd ar gyfer mynediad i addysg uwch. Dyma yw canolbwynt ein strategaeth addysg uwch, 'Er Mwyn ein Dyfodol'.

Ieithoedd Modern

2. Christine Chapman: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn sy'n cael ei wneud i hyrwyddo dysgu ieithoedd modern yng Nghymru. OAQ(3)1552(CEL)*

Leighton Andrews: The Welsh Assembly

Modern Languages

2. Christine Chapman: *Will the Minister make a statement on what is being done to promote the learning of modern languages in Wales. OAQ(3)1552(CEL)*

Leighton Andrews: Nodwyd ymrwymiad

Government's commitment to improving opportunities to learn a foreign language was set out in the action plan, 'Making Languages Count', which was published in July. The plan details how we will support foreign languages in schools and improve the take-up of languages in 14-19 learning pathways.

Christine Chapman: You will know that this summer's GCSE results showed that there were 3 per cent fewer Welsh entrants in French, and 10 per cent fewer in German. CILT Cymru has suggested that the decline could be partly attributable to a failure of image, as students may think that language skills do not help them to get jobs, for example. Do you agree, Minister, that we need to look at this to ensure that students see that languages are attractive and worthwhile options? Promoting the learning of languages is good for students, and employers would be keen to employ those with language skills in an increasingly globalised world. Do you agree that improving the language skills of Welsh learners is vital for the Welsh economy, to allow us to attract businesses, international trade and tourists to Wales?

Leighton Andrews: Language learning is important, and we continue to provide support to CILT Cymru, the National Centre for Languages. Currently, just over one in four pupils elects to take a GCSE in a foreign language at key stage 4. Particular attention is therefore being given to improving the range of qualifications, including vocational options in 14-19 learning pathways. We are also looking to make good use of the compulsory language module in the Welsh baccalaureate to promote the learning of foreign languages.

Nick Bourne: I am pleased that the Minister is taking this matter seriously, because I agree totally with the points made by Christine Chapman. This is a serious issue, and the numbers of pupils taking up a foreign language at GCSE level have dropped by almost a half since 1998, as they have in England, although the drop has been rather sharper in Wales. It is a bar to all sorts of things. It is a bar to getting jobs in the

Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella cyfleoedd i ddysgu iaith dramor yn y cynllun gweithredu, 'Sicrhau bod Ieithoedd yn Cyfrif', a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf. Mae'r cynllun yn rhoi manylion ynghyd ar sut y byddwn yn cefnogi ieithoedd tramor mewn ysgolion ac yn cynyddu'r niferoedd sy'n astudio ieithoedd yn y llwybrau dysgu 14-19.

Christine Chapman: Gwyddoch fod canlyniadau TGAU yr haf hwn yng Nghymru yn dangos bod 3 y cant yn llai wedi astudio Ffrangeg, a 10 y cant yn llai wedi astudio Almaeneg. Mae CILT Cymru wedi awgrymu methiant y ddelwedd sy'n rhannol gyfrifol am y gostyngiad, gan nad yw myfyrwyr o bosibl yn credu bod sgiliau iaith yn eu helpu i gael swyddi, er enghraifft. A ydych yn cytuno, Weinidog, fod angen inni edrych ar hyn er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn sylweddoli bod ieithoedd yn ddewisiadau deniadol a gwerth chweil? Mae hyrwyddo dysgu ieithoedd yn dda i fyfyrwyr, a byddai cyflogwyr yn awyddus i gyflogi'r rheini sy'n meddu ar sgiliau iaith mewn byd sy'n mynd yn fwyfwy byd-eang. A ydych yn cytuno bod gwella sgiliau iaith dysgwyr o Gymru yn hanfodol ar gyfer economi Cymru, er mwyn inni allu denu busnesau, masnach ryngwladol a thwristiaid i Gymru?

Leighton Andrews: Mae dysgu ieithoedd yn bwysig, ac rydym yn parhau i gefnogi CILT Cymru, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd. Ar hyn o bryd, mae ychydig dros un o bob pedwar disgybl yn dewis dilyn TGAU mewn iaith dramor yng nghyfnod allweddol 4. Felly, mae sylw arbennig yn cael ei roi i wella ystod y cymwysterau, gan gynnwys dewisiadau galwedigaethol mewn llwybrau dysgu 14-19. Rydym hefyd yn ystyried gwneud defnydd da o'r modiwl iaith gorfodol ym Magloriaeth Cymru er mwyn hyrwyddo dysgu ieithoedd tramor.

Nick Bourne: Rwyf yn falch bod y Gweinidog yn cymryd y mater hwn o ddifrif, oherwydd rwyf yn cytuno'n llwyr â'r pwyntiau a wnaethpwyd gan Christine Chapman. Mae hwn yn fater difrifol, ac mae nifer y disgyblion sy'n astudio iaith dramor ar lefel TGAU wedi haneru bron er 1998. Mae'r un peth yn wir yn Lloegr hefyd, er bod y gostyngiad wedi bod yn fwy serth yng Nghymru. Mae'n rhwystr i bob math o

Commission if you speak only one official language, because for those purposes Welsh does not count. I have found out that that is having a serious effect on the number of British people who are going forward to have jobs in the Commission, which is as important to Wales as it is to the rest of the United Kingdom. Could the Minister tell us what he is doing in relation to primary schools specifically? In France, Germany and Spain there is encouragement to take up foreign languages at a very early stage, at the age of six or eight, whereas in Wales only one out of every 13 primary schools is doing anything on the foreign language front.

Leighton Andrews: The language plan that we have announced confirms that CILT Cymru will continue to support primary schools that already teach a foreign language. Primary schools can make use of the non-statutory framework for the teaching of modern foreign languages at key stage 2, which was introduced in parallel with the implementation of the revised school curriculum in September 2008.

Jenny Randerson: Minister, in your 2010 remit letter to the Higher Education Funding Council for Wales, you identified modern languages as a national strategic priority. As a nation, we need that emphasis, because of the demands of business in the twenty-first century. However, I am disappointed to hear of the proposals to make considerable cuts at Swansea University's school of modern languages. Have you been in contact with the university in respect of the statements in your remit letter to HEFCW and whether it is complying with them in its proposals for cuts?

Leighton Andrews: I have had some correspondence about the matter of the proposals at Swansea. HEFCW is well aware of what I said in my remit letter about the future of modern languages, and I am sure that Swansea University is well aware of that as well. It is not my policy to comment on decisions made by universities in respect of the provision of particular courses. That is a matter for them as autonomous institutions.

bethau. Mae'n rhwystr i gael swyddi yn y Comisiwn os dim ond un iaith swyddogol y gallwch ei siarad, oherwydd at y diben hwnnw, nid yw'r Gymraeg yn cyfrif. Rwyf wedi darganfod bod hyn yn effeithio'n ddifrifol ar nifer y bobl o Brydain sy'n mynd ymlaen i gael swyddi yn y Comisiwn, ac mae hynny'r un mor bwysig i Gymru ag yr ydyw i weddill y Deyrnas Unedig. A all y Gweinidog ddweud wrthym beth y mae'n ei wneud o ran ysgolion cynradd yn benodol? Yn Ffrainc, yr Almaen a Sbaen rhoddir anogaeth i astudio ieithoedd tramor yn gynnar iawn, yn chwech neu'n wyth oed, ond yng Nghymru dim ond un o bob 13 ysgol gynradd sy'n gwneud unrhyw beth o safbwynt iaith dramor.

Leighton Andrews: Mae'r cynllun iaith rydym wedi'i gyhoeddi yn cadarnhau y bydd CILT Cymru yn parhau i gefnogi ysgolion cynradd sydd eisoes yn addysgu iaith dramor. Gall ysgolion cynradd ddefnyddio'r fframwaith anstatudol ar gyfer addysgu ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 2, a gyflwynwyd ochr yn ochr â gweithredu'r cwricwlwm ysgol diwygiedig ym mis Medi 2008.

Jenny Randerson: Weinidog, yn eich llythyr cylch gwaith 2010 i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, gwnaethoch nodi ieithoedd modern fel blaenoriaeth strategol genedlaethol. Fel cenedl, mae angen y pwyslais hwnnw arnom, yn sgil gofynion busnes yn yr unfed ganrif ar hugain. Fodd bynnag, rwyf yn siomedig clywed am y cynigion i wneud toriadau sylweddol yn ysgol ieithoedd modern Prifysgol Abertawe. A ydych wedi bod mewn cysylltiad â'r brifysgol o ran y datganiadau yn eich llythyr cylch gwaith i CCAUC ac a yw'n cydymffurfio â hwy yn ei gynigion ar gyfer toriadau?

Leighton Andrews: Rwyf wedi cael rhywfaint o ohebiaeth am y cynigion yn Abertawe. Mae CCAUC yn ymwybodol iawn o'r hyn a ddywedais yn fy llythyr cylch gwaith ynghylch dyfodol ieithoedd modern, ac rwyf yn siŵr bod Prifysgol Abertawe yn ymwybodol iawn o hynny hefyd. Nid yw'n bolisi gennyf i wneud sylwadau am benderfyniadau a wneir gan brifysgolion o ran darparu cyrsiau penodol. Mater iddynt

The Welsh Assembly Government does not have the powers to dictate to institutions what courses they should be providing. We are expressly forbidden from doing that under section 68 of the Further and Higher Education Act 1992. I have made it clear in what I have said to the Higher Education Funding Council for Wales that there are areas of strategic importance that we need to ensure are available on a national basis in Wales, and modern languages is one of the areas that I picked out.

Jenny Randerson: I understand the constraints of your position and I would not wish to alter the situation in that respect, but I am emphasising the strategic importance in this case. It is also worth pointing out that the department is the first in Wales to carry out research in this field and the cuts will therefore have an impact not only on modern languages provision in your strategy, but also your attempts to develop research. I would be grateful, Minister, if you would ensure that the strength of feeling against these proposals is conveyed fully to Swansea University. I wrote to it myself and received a standard response that hundreds of people have received. It was also sent to the chair of the all-party parliamentary group on modern languages in Parliament. It is possibly not the most appropriate way of responding to elected representatives. It is important that public feeling on these issues is made known. You will be aware that I made similar comments when cuts were proposed to adult learning in Cardiff University in my own constituency. That strategic approach is important.

Leighton Andrews: I certainly agree that modern languages are a very important part of the course options that must be offered in Wales, which is why I specifically chose to emphasise them in my remit letter to HEFCW. I have noticed, over the past few days, that a number of prominent individuals have made statements about the situation in Swansea, and I think that, although it is not for me to make specific comments on the courses that are provided there, a very feisty campaign is being waged in that corner of Wales.

hwy fel sefydliadau annibynnol yw hynny. Nid oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru y pwerau i gyfarwyddo sefydliadau ynghylch y cyrsiau y dylent eu darparu. Mae adran 68 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn ein gwahardd yn llwyr rhag gwneud hynny. Rwyf wedi dweud yn glir wrth Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru y ceir meysydd o bwysigrwydd strategol y mae angen inni sicrhau eu bod ar gael yn genedlaethol yng Nghymru, ac mae ieithoedd modern yn un o'r meysydd a nodais.

Jenny Randerson: Rwyf yn deall y cyfyngiadau ar eich sefyllfa ac ni fyddwn yn dymuno newid y sefyllfa yn hynny o beth, ond rwyf yn pwysleisio'r pwysigrwydd strategol yn yr achos hwn. Mae'n werth nodi hefyd mai'r adran hon yw'r un gyntaf yng Nghymru i wneud gwaith ymchwil yn y maes hwn ac felly bydd y toriadau'n cael effaith nid yn unig ar ddarpariaeth ieithoedd modern yn eich strategaeth, ond hefyd ar eich ymdrechion i ddatblygu ymchwil. Byddwn yn ddiolchgar, Weinidog, pe baech yn sicrhau bod cryfder y teimladau sy'n gwrthwynebu'r cynigion hyn yn cael ei gyfleu'n llawn i Brifysgol Abertawe. Ysgrifennais ati fy hun a derbyniais yr un ateb safonol ag y mae cannoedd o bobl wedi'i dderbyn. Anfonais gopi hefyd at gadeirydd y grŵp hollbleidiol seneddol ar ieithoedd modern yn Senedd y DU. Mae'n debyg nad dyma'r ffordd fwyaf priodol o ymateb i gynrychiolwyr etholedig. Mae'n bwysig bod barn y cyhoedd am y materion hyn yn cael ei chyfleu. Byddwch yn ymwybodol fy mod wedi gwneud sylwadau tebyg pan gynigwyd toriadau i ddysgu oedolion ym Mhrifysgol Caerdydd yn fy etholaeth fy hun. Mae'r dull gweithredu strategol hwnnw'n bwysig.

Leighton Andrews: Cytunaf yn llwyr fod ieithoedd modern yn rhan bwysig iawn o'r dewisiadau cyrsiau y mae'n rhaid eu cynnig yng Nghymru, a dyna pam fy mod wedi dewis pwysleisio hynny'n benodol yn fy llythyr cylch gwaith i CCAUC. Rwyf wedi sylwi, dros y dyddiau diwethaf, fod nifer o unigolion amlwg wedi gwneud datganiadau am y sefyllfa yn Abertawe, a chredaf, er nad yw'n briodol i mi wneud sylwadau penodol am y cyrsiau a ddarperir yno, fod ymgyrch frwd iawn yn magu stêm yn y gornel honno o Gymru.

Sgiliau Sylfaenol

3. Darren Millar: *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol i Gymru. OAQ(3)1547(CEL)*

Leighton Andrews: The national basic skills strategy ran from April 2005 to March 2010 and provided literacy and numeracy support for learners of all ages. My current priority is to raise literacy standards in primary schools. Our new national literacy plan will provide additional support for learners aged between seven and 11.

Darren Millar: Thank you very much for that response, Minister. Can you explain why the Welsh Assembly Government has spent the best part of £1 million—£858,000—of taxpayers' money commissioning a national survey of basic skills in Wales? You will know that the survey was sent to 5,200 households across Wales and included free books of stamps and further promises of free high-street shopping vouchers in return for the completion of the survey. Do you not think, Minister, that this is a scandalous waste of taxpayers' money in a climate where schools are threatened with closure across Wales, including schools in my constituency? Do you not think that those schools should be a priority, rather than giving out freebies such as high-street vouchers and stamps to members of the public who, generally, have no desire to participate in the survey at all? It is absolutely scandalous and you should respond to those challenges.

Leighton Andrews: I have already answered various questions from the Member on this point. He seems determined to run a campaign on the issue. It is important that we gather evidence on a proper research basis for the policies that we develop. We will do that in the ways that are most appropriate. If you do not like the way in which we are doing it, you will no doubt continue to trumpet. However, we are investing in education and we will continue to do so. While you are trivialising the research base for information

Basic Skills

3. Darren Millar: *Will the Minister provide an update on the National Basic Skill Strategy for Wales. OAQ(3)1547(CEL)*

Leighton Andrews: Roedd y strategaeth genedlaethol sgiliau sylfaenol yn rhedeg o fis Ebrill 2005 i fis Mawrth 2010 gan ddarparu cymorth llythrennedd a rhifedd i ddysgwyr o bob oed. Fy mlaenoriaeth ar hyn o bryd yw codi safonau llythrennedd mewn ysgolion cynradd. Bydd ein cynllun llythrennedd cenedlaethol newydd yn darparu cymorth ychwanegol i ddysgwyr rhwng saith ac 11 oed.

Darren Millar: Diolch yn fawr iawn am yr ateb hwnnw, Weinidog. A allwch egluro pam mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwario bron £1 miliwn—£858,000—o arian trethdalwyr ar gomisiynu arolwg cenedlaethol o sgiliau sylfaenol yng Nghymru? Gwyddoch fod 5,200 o gartrefi ledled Cymru wedi cael yr arolwg, a oedd yn cynnwys llyfrau o stampiau am ddim ac addewidion pellach o dalebau siopau stryd fawr am ddim yn gyfnewid am lenwi'r arolwg. Onid ydych yn credu, Weinidog, fod hwn yn wastraff gwarthus o arian trethdalwyr mewn hinsawdd lle mae ysgolion ledled Cymru dan fygythiad o gael eu cau, gan gynnwys ysgolion yn fy etholaeth? Onid ydych yn credu mai'r ysgolion hynny ddylai gael blaenoriaeth, yn hytrach na dosbarthu rhoddion am ddim, fel talebau stryd fawr a stampiau, i aelodau'r cyhoedd nad oes ganddynt, ar y cyfan, ddim awydd cymryd rhan yn yr arolwg o gwbl? Mae'n gwbl warthus a dylech ymateb i'r heriau hynny.

Leighton Andrews: Rwyf eisoes wedi ateb nifer o gwestiynau gan yr Aelod am y pwynt hwn. Mae'n ymddangos ei fod yn benderfynol o ddechrau ymgyrch ar y mater. Mae'n bwysig ein bod yn casglu tystiolaeth ar sail gwaith ymchwil go iawn ar gyfer y polisiau rydym yn eu datblygu. Byddwn yn gwneud hynny yn y ffyrdd mwyaf priodol. Os nad ydych yn hoffi ein ffordd o wneud hynny, mae'n siŵr y byddwch yn parhau i fod yn uchel eich cloch ynghylch hynny. Fodd bynnag, rydym yn buddsoddi mewn addysg a

that leads to the making of policy, we will get on with the job.

2.30 p.m.

The Presiding Officer: Order. It is not appropriate to heckle, especially during the answer to one's own question. If it persists, I have the obvious remedy.

Ann Jones: I wish to come back to basic skills, Minister. I know that you have been to see the Future Jobs fund, and the basic skills element of that, which has helped 240 youngsters back into work or has given them the prospect of going for interviews. I commend to you Rhyl Football Club's In the Community initiative, in which youngsters who want to opt out from school or do not want to take the usual literacy and numeracy lessons can now go to the football club and learn their maths and literacy through football terms. Their reward for attending those meetings—and it is a reward, and I have no problem with that—is to play on the football pitch to learn some football skills with professional footballers who are part of the In the Community initiative. That is surely the way to improve our people's basic skills, and that is how we should continue to do it. I feel sad that the Future Jobs fund has stopped; it has stopped many people in my constituency from ever having the opportunity to enter the employment market. The Tories should be thoroughly ashamed of that.

Leighton Andrews: I am happy to endorse your comments on the work that has been undertaken by Rhyl Football Club. I wish to commend the support that we have had from the sporting community for our literacy initiative. A month or so ago, international Welsh football players, including Gareth Bale, Chris Gunther and Dave Edwards, came to support an initiative on literacy with young people from primary schools in Cardiff. You rightly raise the issue of the Future Jobs fund. It is significant that, rather than talking about the cuts that are being made to that fund—which is worth £60 million to Wales, supports 28 projects here, and helps hundreds of young people to get

byddwn yn parhau i wneud hynny. Tra byddwch chi'n bychanu'r sylfaen ymchwil ar gyfer gwybodaeth sy'n arwain at lunio polisi, byddwn ni'n bwrw ymlaen â'r gwaith.

Y Llywydd: Trefn. Nid yw'n briodol heclo, yn enwedig yn ystod yr ateb i'ch cwestiwn eich hun. Os bydd yn parhau, mae gennyf ateb amlwg.

Ann Jones: Weinidog, hoffwn ddod yn ôl at sgiliau sylfaenol. Gwn eich bod wedi bod yn gweld cronfa Swyddi'r Dyfodol, a'r elfen sgiliau sylfaenol, sydd wedi helpu 240 o bobl ifanc yn ôl i waith neu sydd wedi rhoi cyfle iddynt fynd i gyfweiliadau. Hoffwn gymeradwyo ichi gynllun Yn y Gymuned Clwb Pêl-droed y Rhyl, lle gall pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio o'r ysgol neu nad ydynt am fynd i'w gwersi llythrennedd a rhifedd arferol fynd i'r clwb pêl-droed a dysgu eu mathemateg a'u llythrennedd drwy gyfrwng pêl-droed. Eu gwobr am fynychu'r cyfarfodydd hyn—ac mae'n wobwr, ac nid oes gennyf broblem â hynny—yw cael chwarae ar y cae pêl-droed i ddysgu sgiliau pêl-droed gyda chwaraewyr pêl-droed proffesiynol sy'n rhan o'r cynllun Yn y Gymuned. Yn sicr, dyna'r ffordd o wella sgiliau sylfaenol ein pobl, a dyna sut y dylem barhau i wneud hynny. Rwyf yn drist bod cronfa Swyddi'r Dyfodol wedi dod i ben; mae llawer o bobl yn fy etholaeth na fyddent, fel arall, erioed wedi cael cyfle i fynd i mewn i'r farchnad waith. Dylai'r Torïaid deimlo cywilydd mawr am hynny.

Leighton Andrews: Mae'n bleser gennyf gymeradwyo eich sylwadau am y gwaith sydd wedi'i wneud gan Glwb Pêl-droed y Rhyl. Hoffwn ganmol y cymorth rydym wedi'i gael gan y gymuned chwaraeon ar gyfer ein menter llythrennedd. Rhyw fis yn ôl, daeth chwaraewyr pêl-droed rhyngwladol Cymru, gan gynnwys Gareth Bale, Chris Gunther a Dave Edwards, i gefnogi menter yn ymwneud â llythrennedd gyda phobl ifanc o ysgolion cynradd yng Nghaerdydd. Mae'n briodol eich bod yn codi mater cronfa Swyddi'r Dyfodol. Yn hytrach na sôn am y toriadau sy'n cael eu gwneud i'r gronfa honno—sy'n werth £60 miliwn i Gymru, yn cefnogi 28 o brosiectau yma, ac yn helpu

jobs, yet is being cut by the Conservative party—the party opposite wants to go on about trivia. Some of the comments that we have heard this afternoon relating to this question are pathetic; we should have been engaging with the real issues of skills and literacy. We will continue to point out that the Conservatives are cutting the Future Jobs fund and the young person's guarantee.

Chris Franks: You indicated earlier, with some passion, your concerns that Wales continues to suffer unacceptably high levels of under-25s who are not in education, employment or training. There are hot spots in areas such as Rhondda Cynon Taf where a large number of young people face little prospect of work. The latest survey of adult basic skills in Wales revealed that a quarter of adults were functionally illiterate. Employers have pointed out the problem that illiteracy causes them. Your earlier reply indicated your concerns. However, why are so many of our youngsters still leaving school with such poor skills? Do you agree with Plaid's calls to protect the money that is spent on schools and skills, in light of the cuts imposed by UK Government Ministers? You will be aware of calls to ring-fence other areas of spending, as supported by the Conservatives. This would have a serious and adverse impact on the money that is available to our youngsters.

Leighton Andrews: As I said earlier, there is an issue with the number of young people who are not in employment, education or training. That is not confined to Wales; this is a UK-wide problem. We have a programme of work to try to address that. Excellent work has been done in parts of Wales to ensure the better co-ordination of schemes. We are also looking at vacancy matching and at introducing learner coaches earlier in the school system, so that there is proper progression. I am pleased with the work that I see being done, not least, in view of the earlier question to the Minister for Social Justice and Local Government, by Communities First partnerships, including in

cannoedd o bobl ifanc i gael swyddi, ac eto yn cael ei thorri gan y blaid Geidwadol—mae'n arwyddocaol bod y blaid gyferbyn am godi materion dibwys. Mae rhai o'r sylwadau rydym wedi'u clywed y prynhawn yma ynghylch y cwestiwn hwn yn sobor; dylem fod wedi bod yn trafod materion go iawn yn ymwneud â sgiliau a llythrennedd. Byddwn yn parhau i dynnu sylw at y ffaith bod y Ceidwadwyr yn cael gwared ar gronfa Swyddi'r Dyfodol ac ar warant i bobl ifanc.

Chris Franks: Gwnaethoch nodi yn gynharach, yn angerddol iawn, eich pryderon fod Cymru yn dal i ddiodef lefelau annerbyniol o uchel o bobl ifanc dan 25 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae ardaloedd problemus penodol fel Rhondda Cynon Taf, lle nad oes llawer o ragolygon gwaith i nifer fawr o bobl ifanc. Dengys yr arolwg diweddaraf o sgiliau sylfaenol oedolion yng Nghymru fod chwarter yr oedolion yn sylfaenol anllythrennog. Mae cyflogwyr wedi tynnu sylw at y broblem a achosir gan anllythrennedd. Roedd eich ateb yn gynharach yn amlygu eich pryderon. Fodd bynnag, pam mae cynifer o'n pobl ifanc yn dal i adael yr ysgol gyda sgiliau mor wael? A ydych yn cytuno â galwadau Plaid Cymru i ddiogelu'r arian a warir ar ysgolion a sgiliau, yn wyneb y toriadau a orfodwyd gan Weinidogion Llywodraeth y DU? Byddwch yn ymwybodol o alwadau i glustnodi meysydd eraill o wariant, a gefnogir gan y Ceidwadwyr. Byddai hyn yn cael effaith ddifrifol ac andwyol ar yr arian sydd ar gael i'n pobl ifanc.

Leighton Andrews: Fel y dywedais yn gynharach, ceir problem o ran nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Nid yw hynny wedi'i gyfyngu i Gymru yn unig; mae'n broblem ledled y DU. Mae gennym raglen waith sy'n ceisio mynd i'r afael â hynny. Mae gwaith rhagorol wedi'i wneud mewn rhannau o Gymru er mwyn sicrhau bod cynlluniau'n cael eu cydlynu'n well. Rydym hefyd yn edrych ar gyfateb swyddi gwag ac ar gyflwyno anogwyr dysgu yn gynharach yn y system ysgol, er mwyn cael dilyniant priodol. Rwyf yn falch o'r gwaith y gwelaf yn cael ei wneud, ac yn arbennig, o gofio'r cwestiwn cynharach i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a

my constituency. I was pleased recently to attend in Penrhys the awards of the summer skills partnership, which is supported by Communities First partnerships across the Rhondda Fach, and gives opportunities to many people to pick up skills. It is a One Wales Government commitment that we will do what we can, in the context of our budget, to protect schools and skills.

Llywodraeth Leol, gan bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, gan gynnwys yn fy etholaeth. Roeddwn yn falch o fod yn bresennol yn ddiweddar ym Mhenrhys ar gyfer gwobrau'r bartneriaeth sgiliau haf, a gefnogir gan bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ledled y Rhondda Fach, ac sy'n rhoi cyfle i lawer o bobl ddysgu sgiliau. Mae'n ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru'n Un y byddwn yn gwneud yr hyn a allwn, yng nghyd-destun ein cyllideb, i warchod ysgolion a sgiliau.

Perfformiad Cymharol Bechgyn

4. Brian Gibbons: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am berfformiad cymharol bechgyn mewn addysg dan 16 oed yng Nghymru. OAQ(3)1517(CEL)*

Leighton Andrews: Girls generally outperform boys. The difference in performance is greatest for English and Welsh. Girls outperform boys by over 15 percentage points. The difference is that it is smallest for mathematics at less than four percentage points at key stage 3, and boys outperform girls slightly in mathematics at GCSE.

Brian Gibbons: You are correct in highlighting that there is a 12 to 15 per cent gap there. Even though the level of performance of boys and girls has improved consistently over recent years, that gap of 12 to 15 per cent has remained stubbornly unchanged. I know that good work is being done in my own constituency at, for example, the Unit 19 project at Addison Road and the Engage scheme, which works across a number of local authorities, but what are the priorities of the Welsh Assembly Government itself to support the good work that is going on at a local level?

Leighton Andrews: I am clear that we need to do something to address the gender gap in performance. It has been a subject of discussion at my ministerial advisory group, and some excellent work has been undertaken for us by members of that group on ways in which we can seek to challenge the gender gap, and we will be bringing forward additional proposals within the

Relative Performance of Boys

4. Brian Gibbons: *Will the Minister make a statement on the relative performance of boys in under 16 years education in Wales. OAQ(3)1517(CEL)*

Leighton Andrews: Ar y cyfan, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn. Mae'r gwahaniaeth mwyaf o ran perfformiad mewn Cymraeg a Saesneg. Mae merched yn perfformio dros 15 pwynt canran yn well na bechgyn. Mae'r gwahaniaeth lleiaf mewn mathemateg, sy'n llai na phedwar pwynt canran yng nghyfnod allweddol 3, ac mae bechgyn yn perfformio ychydig yn well na merched mewn TGAU mathemateg.

Brian Gibbons: Rydych yn gywir wrth dynnu sylw at fwch o rhwng 12 a 15 y cant yn y fan honno. Er bod lefel perfformiad bechgyn a merched wedi gwella'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r bwlch hwnnw o 12 i 15 y cant wedi aros yn ystyfnig o ddigyfnewid. Gwn fod gwaith da yn cael ei wneud yn fy etholaeth fy hun, er enghraifft, y prosiect Uned 19 yn Addison Road a'r cynllun Engage, sy'n gweithio ledled sawl awdurdod lleol, ond beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hun i gefnogi'r gwaith da sy'n mynd rhagddo ar lefel leol?

Leighton Andrews: Rwyf yn glir bod angen inni wneud rhywbeth i fynd i'r afael â'r bwlch rhwng y ddau ryw o ran perfformiad. Mae wedi bod yn bwnc trafod yn fy ngrŵp cynghori gweinidogol, ac mae rhywfaint o waith rhagorol wedi'i wneud ar ein cyfer gan aelodau'r grŵp hwnnw o ran ffyrdd y gallwn geisio herio'r bwlch rhwng y rhywiau. Byddwn yn cyflwyno cynigion ychwanegol o

context of the national literacy plan to address those issues. I am also aware of some very good local schemes. You cited some examples from your constituency. Work is also being done in my constituency, such as the Only Boys Allowed reading scheme, which has certainly made a real impact on getting boys to engage better with reading. The issue, as we have seen—which is why we are looking for sports role models in this programme—is that we have to encourage people to read the things that are of interest to them. They will then graduate to other materials. Getting boys interested, whether it is in football programmes or other forms of reading material, is very important.

Andrew R.T. Davies: Thank you for that answer, Minister. We understand from the figures you gave us that the gap is quite wide. It is a rather intractable problem and we do not underestimate the challenges. Given the discussions that your working group has had, and the proposals that you will be introducing, are you confident that the tools available to you will be significant enough to allow the bridging of that gap in future, or do you think that it will involve other Ministers combining with your efforts in the department for education, to ensure that we are looking at all aspects of a child's welfare to ensure that we can offer that opportunity to close the gap?

Leighton Andrews: You make a fair point. There are aspects of other programmes within the Assembly Government that will have an impact, such as the work that is going on with my colleague, the Deputy Minister for Children, in the development of the Families First programme, as well as the work that is being done by the Deputy Minister for Social Services in respect of the integrated family support teams. We are trying to look at these on a holistic basis across the Assembly Government. Additionally of course, I stress that there is good work in many Communities First partnerships, particularly in this area, and there is a real commitment in the community to try and address some of these issues. We have a genuine approach to this. The problem is not only one that is with us here in Wales,

fewn cyd-destun y cynllun llythrennedd cenedlaethol i fynd i'r afael â'r materion hynny. Rwyf hefyd yn ymwybodol o rai cynlluniau lleol da iawn. Gwnaethoch nodi rhai enghreifftiau o'ch etholaeth. Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud yn fy etholaeth i, fel y cynllun Only Boys Allowed, sydd wedi cael effaith wirioneddol o ran ennyn diddordeb bechgyn mewn darllen. Fel rydym wedi'i sylwi, hanfod y broblem yw bod yn rhaid inni annog pobl i ddarllen pethau sydd o ddiddordeb iddynt—a dyna pam rydym yn chwilio am fodelau rôl ym myd chwaraeon ar gyfer y rhaglen hon. Yna byddant yn symud ymlaen i ddeunyddiau eraill. Mae ennyn diddordeb bechgyn, boed hynny mewn rhaglenni pêl-droed neu fathau eraill o ddeunyddiau darllen, yn bwysig iawn.

Andrew R.T. Davies: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Cawn ar ddeall gan y ffigurau a roesoch inni fod y bwlch yn eithaf eang. Mae'n broblem eithaf anodd ei thrin ac nid ydym yn diystyru'r heriau. O gofio'r trafodaethau y mae eich gweithgor wedi'u cael, a'r cynigion y byddwch yn eu cyflwyno, a ydych yn hyderus fod y dulliau gweithredu sydd ar gael ichi'n ddigon sylweddol i allu pontio'r bwlch hwnnw yn y dyfodol, neu a ydych yn credu y bydd yn rhaid cynnwys Gweinidogion eraill i weithio gyda'ch ymdrechion yn yr adran addysg, er mwyn sicrhau ein bod yn edrych ar holl agweddau lles plant fel y gallwn gynnig y cyfle hwnnw i gau'r bwlch?

Leighton Andrews: Mae hwnnw'n bwynt teg. Mae agweddau o raglenni eraill yn Llywodraeth y Cynulliad a fydd yn cael effaith, fel y gwaith sy'n cael ei wneud gyda fy nghyd-Weinidog, y Dirprwy Weinidog dros Blant, wrth ddatblygu'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, yn ogystal â'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â'r timau integredig cymorth i deuluoedd. Rydym yn ceisio edrych ar y rhain yn gyfannol ar draws Llywodraeth y Cynulliad. At hynny, wrth gwrs, pwysleisiaf fod gwaith da mewn llawer o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, yn enwedig yn y maes hwn, ac mae ymrwymiad gwirioneddol yn y gymuned i geisio mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn. Mae gennym agwedd ddilys at hyn. Nid problem sy'n perthyn i

as the gender gap in attainment is in fact an international problem, and that is something that exercises what are genuinely some of the best brains in education internationally.

Gymru yn unig yw hon. Mae'r bwlch rhwng y rhywiau o ran cyrhaeddiad yn broblem ryngwladol, ac mae rhai o'r meddylwyr craffaf yn rhyngwladol ym maes addysg yn ystyried y mater hwn.

Blaenoriaethau yn Islwyn

5. Irene James: *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau yn Islwyn ar gyfer gweddill y Trydydd Cynulliad. OAQ(3)1541(CEL)*

Leighton Andrews: The Government's priorities remain as set out in 'One Wales', with additional measures in response to the economic downturn. Also, I have made it clear that I want more funding to reach the education front line by freeing up resources, as highlighted in the independent review of the cost of administering the education system.

Irene James: Thank you for your response, Minister. Over 85 per cent of schools in my area take part in the free school breakfast scheme. There is evidence that this has led to improved attendance, improved behaviour, fewer discipline problems and greater sustained concentration. As we know, this is yet another scheme that the party opposite would scrap, thereby causing further problems in areas suffering from severe deprivation. Will you continue to make protecting this scheme one of your priorities, and encourage even more schools to take part?

2.40 p.m.

Leighton Andrews: Indeed, you have rightly identified that over 85 per cent of primary schools—25 out of 29, I believe—in your area are adopting the free breakfast scheme. We are committed to supporting it and we have made it clear that we will continue to support universal programmes in the budget going forward. It is disappointing that, in the year when we have had the thousandth school taking up that scheme, the party opposite wants to scrap it.

Cydweithio

6. Alun Davies: *A wnaiff y Gweinidog*

Priorities for Islwyn

5. Irene James: *Will the Minister outline his priorities for Islwyn for the remainder of the Third Assembly. OAQ(3)1541(CEL)*

Leighton Andrews: Mae blaenoriaethau'r Llywodraeth yn dal fel maent wedi'u nodi yn 'Cymru'n Un', gyda mesurau ychwanegol wrth ymateb i'r dirywiad economaidd. Hefyd, rwyf wedi esbonio fy mod am weld rhagor o gyllid yn cyrraedd rheng flaen addysg drwy ryddhau adnoddau, fel yr amlygwyd yn yr adolygiad annibynnol o gost gweinyddu'r system addysg.

Irene James: Diolch am eich ymateb, Weinidog. Mae dros 85 y cant o'r ysgolion yn fy ardal yn rhan o'r cynllun brecwast ysgol am ddim. Ceir tystiolaeth bod hyn wedi arwain at well presenoldeb, ymddygiad gwell, llai o broblemau disgyblaeth, a'r gallu i ganolbwyntio am gyfnod hwy. Fel y gwyddom, mae hwn yn gynllun arall eto y byddai'r blaid gyferbyn yn ei diddymu, gan achosi rhagor o broblemau mewn ardaloedd sy'n dioddef amddifadedd difrifol. A fyddwch yn parhau i roi blaenoriaeth i ddiogelu'r cynllun hwn, ac yn annog hyd yn oed rhagor o ysgolion i gymryd rhan?

Leighton Andrews: Yn wir, rydych yn llygad eich lle wrth ddweud bod dros 85 y cant o ysgolion cynradd yn eich ardal—25 o 29, rwyf yn credu—wedi mabwysiadu'r cynllun brecwast am ddim. Rydym wedi ymrwymo i'w gefnogi, ac rydym wedi datgan yn glir y byddwn yn parhau i gefnogi rhaglenni cyffredinol yn y gyllideb i'r dyfodol. Mae'n siomedig, yn y flwyddyn lle ymunodd ein milfed ysgol â'r cynllun hwnnw, fod y blaid gyferbyn am ei ddileu.

Joint Working

6. Alun Davies: *Will the Minister make a*

*ddatganiad am gydweithio rhwng statement about joint working between local
awdurdodau addysg lleol. education authorities. OAQ(3)1528(CEL)
OAQ(3)1528(CEL)*

Leighton Andrews: I have established a review of the structure of delivery of education in Wales to consider these issues.

Leighton Andrews: Rwyf wedi sefydlu adolygiad o'r strwythur cyflenwi addysg yng Nghymru i bwysu a mesur y materion hyn.

Alun Davies: Thank you very much for that response, Minister. You will be aware that, per head of population, Wales spends considerably more on education than is spent across Offa's Dyke in England. However, we are also aware that that money does not always reach the front line. You have said before in this Chamber that your priority is to ensure that we protect front-line services, so that education funding gets to the classroom to ensure that people at schools in Wales have the best possible education. Do you agree, Minister, that in working together, local education authorities need to prioritise putting money into the classroom, streamlining management, streamlining structures and ensuring that the money spent on education is spent on education?

Alun Davies: Diolch yn fawr iawn am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol fod Cymru yn gwario llawer mwy ar addysg, fesul pen y boblogaeth, na dros Glawdd Offa yn Lloegr. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol nad yw'r arian bob amser yn cyrraedd y rheng flaen. Rydych wedi dweud o'r blaen yn y Siambr hon mai eich blaenoriaeth yw sicrhau ein bod yn diogelu gwasanaethau rheng flaen, fel bod yr arian ar gyfer addysg yn cyrraedd y dosbarth er mwyn sicrhau bod pobl mewn ysgolion yng Nghymru yn cael yr addysg orau bosibl. A ydych yn cytuno, Weinidog, drwy weithio gyda'i gilydd, fod angen i awdurdodau addysg lleol flaenoriaethu rhoi'r arian i mewn i'r ystafell ddosbarth, symleiddio'r broses reoli, symleiddio strwythurau a sicrhau bod yr arian sy'n cael ei wario ar addysg wir yn cael ei wario ar addysg?

Leighton Andrews: I completely agree with that; it was a subject of discussion when I attended the local government partnership council yesterday. As you know, I issued a summer challenge as a follow-up to the review of the cost of administering the education system. In its response, the Welsh Local Government Association made a commitment that delegation rates by local authorities to schools—the delegation of funds in the education budget—would improve in future, and it gave specific targets. I welcome that commitment, and the WLGA will be held to it.

Leighton Andrews: Cytunaf yn llwyr â hynny; roedd yn bwnc trafod pan fynychais y cyngor partneriaeth llywodraeth leol ddoe. Fel y gwyddoch, cyhoeddais her yn yr haf yn dilyn yr adolygiad o gost gweinyddu'r system addysg. Yn ei hymateb, gwnaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ymrwymiad y byddai cyfraddau dirprwyo awdurdodau lleol i ysgolion—sef y broses ddirprwyo arian yn y gyllideb addysg—yn gwella yn y dyfodol, a rhoddodd dargedau penodol. Croesawaf yr ymrwymiad hwnnw, a bydd CLILC yn rhwym wrtho.

Paul Davies: Minister, you have made it absolutely clear that collaboration must add value to the delivery of services or else there would be no point to it. It is encouraging to hear you talk about providers working more closely together to push education funding to the front line. If local education authorities, for one reason or another, fail to collaborate to meet your objectives, what action will the Welsh Assembly Government take to ensure that this happens?

Paul Davies: Weinidog, rydych wedi dweud yn hollol glir fod yn rhaid i gydweithio ychwanegu gwerth at brosesau cyflenwi gwasanaethau neu, fel arall, ni fyddai unrhyw bwynt iddo. Mae'n galonogol eich clywed yn sôn am gael darparwyr i weithio'n agosach â'i gilydd i wthio'r cyllid ar gyfer addysg i'r rheng flaen. Os yw awdurdodau addysg lleol yn methu â chydweithio i fodloni eich amcanion, am ba reswm bynnag, pa gamau fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod hyn yn digwydd?

Leighton Andrews: You raise a very important question. I listened with interest to the answers given earlier by the Minister for local government in respect of collaboration. The Minister for local government and I have had many conversations about what we would need to do to encourage greater collaboration in future. We believe that we have the powers. We had some evidence from Estyn that informed my decision to establish the review of the structure of delivery of education in Wales. The right thing to do is to wait for the report of the group, which is looking at how best to deliver education services in Wales—that is, whether they should be delivered at individual local authority level, by a consortium of local authorities, at school level, at the national level or at any other appropriate level. When we have the report, it will give us some pointers as to best practice. On that basis, we can decide how to proceed.

Paul Davies: I am grateful to the Minister for that answer. It is not just important that local education authorities collaborate effectively; it is essential for all education institutions to work together more closely and effectively, too. I know that a lot of positive work is already going on in a number of areas. For example, the development of the new University of Wales Trinity Saint David, and its links with Swansea Metropolitan University, Pembrokeshire College, Coleg Sir Gâr and other colleges and schools throughout south-west Wales, provides many opportunities for knowledge-led economic development. Given the collaboration taking place between these institutions, will the Minister and the Welsh Assembly Government be looking to create a specific formal framework to cover this sort of collaboration in future?

Leighton Andrews: I am very pleased that he has drawn attention to the excellent collaboration that is going on in south-west Wales between some of the higher and further education institutions. Of course, I also want to draw attention to the launch that we had this morning of the University of the

Leighton Andrews: Rydych yn codi cwestiwn pwysig iawn. Gwrandewais yn astud ar yr atebion a roddwyd yn gynharach gan y Gweinidog dros Lywodraeth Leol o ran cydweithio. Mae'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a finnau wedi cael sawl sgwrs am yr hyn fyddai angen inni ei wneud i hybu rhagor o gydweithio yn y dyfodol. Credwn fod gennym y pwerau. Cawsom rywfaint o dystiolaeth gan Estyn a chyfrannodd hynny at fy mhenderfyniad i sefydlu adolygiad o'r strwythur cyflenwi gwasanaethau addysg yng Nghymru. Y peth priodol i'w wneud yw aros am adroddiad y grŵp, sy'n edrych ar y ffordd orau o gyflenwi gwasanaethau addysg yng Nghymru—hynny yw, a ddylid eu cyflwyno ar lefel awdurdod lleol unigol, gan gonsortium o awdurdodau lleol, ar lefel yr ysgol, ar lefel genedlaethol, neu ar unrhyw lefel briodol arall. Pan fydd yr adroddiad wedi dod i law, bydd yn cynnig rhai awgrymiadau inni o ran arferion gorau. Yna ar y sail honno, gallwn benderfynu sut i fwrw ymlaen.

Paul Davies: Rwyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Mae'n bwysig nad awdurdodau addysg lleol yn unig sy'n cydweithio'n effeithiol; mae'n hanfodol bod yr holl sefydliadau addysg yn gweithio gyda'i gilydd yn agosach yn fwy effeithiol hefyd. Gwn fod llawer o waith cadarnhaol eisoes yn mynd rhagddo mewn llawer o ardaloedd. Er enghraifft, mae datblygiad newydd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, a'i chysylltiadau gyda Phrifysgol Fetropolitan Abertawe, Coleg Sir Benfro, Coleg Sir Gâr, a cholegau ac ysgolion eraill ledled y de-orllewin, yn darparu llawer o gyfleoedd ar gyfer datblygiad economaidd a arweinir gan wybodaeth. O gofio'r cydweithio sydd ar waith rhwng y sefydliadau hyn, a fydd y Gweinidog a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ceisio creu fframwaith ffurfiol penodol i ymdrin â'r math hwn o gydweithio yn y dyfodol?

Leighton Andrews: Rwyf yn falch iawn ei fod wedi tynnu sylw at y cydweithio ardderchog sydd ar waith yn y de-orllewin rhwng rhai o'r sefydliadau addysg bellach ac uwch. Wrth gwrs, hoffwn hefyd dynnu sylw at y lansiad a gawsom y bore yma gyda chynllun Prifysgol Blaenau'r Cymoedd.

Heads of the Valleys initiative, which is the result of collaboration between the University of Wales, Newport, the University of Glamorgan and the further education colleges, including Coleg Gwent, The College Ystrad Mynach, Coleg Morgannwg and Merthyr Tydfil College. There is great collaboration going on in some parts of Wales, and we certainly want to encourage that. It is not that we want to have a single model, but we may well get further pointers on how that can be taken forward from the work of the task and finish group that I appointed.

Triwntiaeth

7. William Graham: *A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r polisïau i fynd i'r afael â thriwntiaeth ymysg disgyblion ysgolion uwchradd. OAQ(3)1536(CEL)*

Leighton Andrews: The behaving and attending action plan sets out how we will improve attendance in all schools. My written statement on Monday highlighted the progress made.

William Graham: Thank you for your answer, Minister. You will know that the secondary schools in the south-east Wales region have the worst average rate of unauthorised absences in Wales. It is a particular problem in Torfaen, which had a rate of 3 per cent for the last year for which statistics are available. How are you working with local authorities and the police in the south-east Wales region to continue tackling the problem, which often peaks in the weeks before Christmas? I also wish to draw your attention to the scheme run by Bettws High School. It has a pupil referral unit, which has a wonderful record with regard to the education of pupils who previously had poor attendance records.

Leighton Andrews: There are some very good examples of individual schools that have managed to turn these situations around. Part of what we have to do—and we have to do this across the piece in education—is adopt the best practice that exists in Wales.

Mae'n ffrwyth cydweithio rhwng Prifysgol Cymru, Casnewydd, Prifysgol Morgannwg, a'r colegau addysg bellach, gan gynnwys Coleg Gwent, Coleg Ystrad Mynach, Coleg Morgannwg a Choleg Merthyr Tudful. Mae cydweithio gwych ar waith mewn rhai rhannau o Gymru, ac yn sicr rydym am annog hynny. Nid yw'n fater o gael un model, ond efallai y byddwn yn cael awgrymiadau pellach o ran sut y gellir bwrw ymlaen â hynny yn sgîl gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen a benodais.

Truancy

7. William Graham: *Will the Minister outline policies to tackle truancy by secondary school pupils. OAQ(3)1536(CEL)*

Leighton Andrews: Mae'r cynllun gweithredu ar ymddygiad a phresenoldeb yn nodi sut y byddwn yn gwella presenoldeb ym mhob ysgol. Roedd fy natganiad ysgrifenedig ddydd Llun yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaethpwyd.

William Graham: Diolch ichi am eich ateb, Weinidog. Byddwch yn gwybod mai yn ysgolion uwchradd rhanbarth de-ddwyrain Cymru y mae'r gyfradd gyfartalog waethaf yng Nghymru o absenoldeb heb awdurdod. Mae'n broblem benodol yn Nhor-faen, a welodd gyfradd o 3 y cant yn y flwyddyn ddiwethaf y mae ystadegau ar gael ar ei chyfer. Sut yr ydych yn gweithio gydag awdurdodau lleol a'r heddlu yn rhanbarth de-ddwyrain Cymru i barhau i fynd i'r afael â'r broblem, sydd yn aml yn cyrraedd uchafbwynt yn ystod yr wythnosau cyn y Nadolig? Hoffwn hefyd dynnu eich sylw at y cynllun a gaiff ei redeg gan Ysgol Uwchradd Bettws. Mae ganddi uned cyfeirio disgyblion, gyda hanes gwych o ran darparu addysg i ddisgyblion gyda record presenoldeb gwael yn flaenorol.

Leighton Andrews: Ceir rhai enghreifftiau da iawn o ysgolion unigol sydd wedi llwyddo i drawsnewid y sefyllfaoedd hyn. Un elfen o'r hyn y mae'n rhaid inni ei wneud—a rhaid inni wneud hyn ar draws y maes addysg—yw mabwysiadu'r arfer gorau sy'n bodoli yng

Bluntly, if schools do not adopt best practice, they should be justifying that. That is true across education. In a written statement, we announced that we are commencing the provisions on behaviour and discipline that were contained in the Education and Inspections Act 2006. My written statement gave a fair summary of the powers available to headteachers and others to implement those provisions.

Gareth Jones: Weinidog, o edrych ar yr ystadegau diweddaraf, yr wyf yn nodi bod absenoldebau heb ganiatâd yn ysgolion uwchradd Aberconwy wedi disgyn, a hynny'n groes i'r tueddiad mewn sawl rhan o Gymru. Maent wedi gostwng yn Aberconwy o 2 y cant o bob sesiwn hanner diwrnod yn 2005-06 i 1.7 y cant yn 2008-09, sy'n ostyngiad sylweddol o 15 y cant. Mae hwn yn dueddiad yr wyf i'n gobeithio y byddwn yn parhau i'w weld pan fydd yr ystadegau newydd ar gael ym mis Ionawr. A allwch gadarnhau bod y diweddariad a gyhoeddasoch ddydd Llun—yr hyn yr ydych newydd gyfeirio ato—sy'n amlinellu'r cynnydd o ran ymddygiad a phresenoldeb, yn cynnwys camau gweithredu a fydd yn arwain at leihad pellach mewn absenoldebau heb ganiatâd ac at gynyddu cyfleoedd addysg a chodi cyrhaeddiad y lleiafrif hwnnw o ddisgyblion sydd wedi ymddieithrio o'r ysgol?

Ar y nodyn hwnnw, a allwch hefyd roi diweddariad pellach i ni ar unrhyw waith sydd ar y gweill i ddilyn yr astudiaeth ymchwil ansoddol diweddar i archwilio ymddieithriad pobl ifanc o ddysgu a gafodd ei gyflawni a'i gyhoeddi'r haf hwn o ganlyniad i'r ymrwymiad yn 'Cymru'n Un' i gynnal ymchwiliad i'r mater?

Leighton Andrews: Let me start by saying that I am pleased to see that schools in Aberconwy are making good progress on reducing the absence rates. Of course, the action plan is aiming to reduce absences of all kinds, whether authorised or not. Officials will be sharing the findings of the study with local authorities and with schools, and that will inform the work that we are doing on the action plan. It is also an important source of

Nghymru. Yn blwmp ac yn blaen, os nad yw ysgolion yn mabwysiadu arfer gorau, dylent orfod cyfiawnhau hynny. Mae hynny'n wir ar draws y maes addysg. Mewn datganiad ysgrifenedig, gwnaethom gyhoeddi ein bod yn dechrau gweithredu'r darpariaethau ar ymddygiad a disgyblaeth a gynhwyswyd yn Neddf Addysg ac Arolygiadau 2006. Rhoddodd fy natganiad ysgrifenedig grynodedeg teg o'r pwerau sydd ar gael i bennaethiaid ac eraill i roi'r darpariaethau hynny ar waith.

Gareth Jones: Minister, in looking at the most recent statistics, I noticed that unauthorised absences in Aberconwy's secondary schools have fallen, contrary to the trends in many other parts of Wales. They have reduced from 2 per cent in each half-day session in 2005-06 to 1.7 per cent in 2008-09, which is a significant reduction of 15 per cent. This is a trend that I hope we will continue to see when the new statistics become available in January. Can you confirm that the update that you published on Monday, to which you just referred, which outlines the progress on behaviour and attendance, includes action points that will lead to a further reduction in unauthorised absences and to increased educational opportunities and increased attainment for the minority of pupils who have become disengaged from school?

On the same note, can you give a further update on any work that is in the pipeline to follow up on the recent qualitative research study into young people's disengagement from education that was undertaken and published this summer as a result of the 'One Wales' commitment to conduct research in this area?

Leighton Andrews: Gadewch imi ddechrau drwy ddweud fy mod yn falch o weld bod ysgolion yn Aberconwy yn gwneud cynnydd da o ran lleihau cyfraddau absenoldeb. Wrth gwrs, mae'r cynllun gweithredu yn anelu at leihau pob math o absenoldeb, boed hynny'n absenoldeb wedi'i awdurdodi neu beidio. Bydd swyddogion yn rhannu canfyddiadau'r astudiaeth gydag awdurdodau lleol ac ysgolion, a bydd hynny'n cyfrannu at y

information for the new programme of work on youth engagement and employment, which the Cabinet approved at the end of September and which will be developed into a youth engagement and employment action plan.

2.50 p.m.

The Member is the Chair of the Enterprise and Learning Committee, which has looked at a number of these issues in the context of young people not in education, employment or training. I welcome the contribution that his committee has made to helping us to look at these issues.

Darpariaeth Addysg Ôl-16

8. William Graham: *A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r trafodaethau â Choleg Gwent ynghylch darpariaeth addysg ôl-16 yn Nwyrain De Cymru. OAQ(3)1535(CEL)*

Leighton Andrews: My officials have been working with senior representatives of the college and other stakeholders on developing transformation plans to make significant improvements for learners across the south-east Wales region. As I said earlier, today we launched the University of the Heads of the Valleys initiative in which Coleg Gwent is an active participant.

William Graham: Thank you for that answer, Minister. The Assembly Government has suggested that 34 per cent of people who have no learning or training have expressed a desire to undertake learning and training and find it encouraging to see the launch of the University of the Heads of the Valleys Institute. How is the Assembly Government working with employers' groups, such as the Confederation of British Industry, to ensure that new learning institutions deliver skills and qualifications that will be of use to local businesses and employers?

Leighton Andrews: I start by thanking him for his support for UHOVI. Already, 180 students have gone through as full-time

gwaith a wnawn ar y cynllun gweithredu. Mae hefyd yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth ar gyfer y rhaglen newydd o waith ar ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc, a gymeradwywyd gan y Cabinet ddiwedd mis Medi. Caiff y rhaglen hon ei datblygu yn gynllun gweithredu ar ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc.

2.50 p.m.

Mae'r Aelod yn Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Dysgu, sydd wedi edrych ar lawer o'r materion hyn yng nghyd-destun pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Croesawaf y cyfraniad y mae ei bwyllgor wedi'i wneud o ran ein helpu i edrych ar y materion hyn.

Provision of Post-16 Education

8. William Graham: *Will the Minister outline discussions with Coleg Gwent concerning the provision of post 16 education in South Wales East. OAQ(3)1535(CEL)*

Leighton Andrews: Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio gydag uwch gynrychiolwyr y coleg a rhanddeiliaid eraill ar ddatblygu cynlluniau trawsnewid i wneud gwelliannau sylweddol i ddysgwyr ledled rhanbarth de-ddwyrain Cymru. Fel y dywedais yn gynharach, gwnaethom lansio cynllun Prifysgol Blaenau'r Cymoedd heddiw ac mae Coleg Gwent yn cymryd rhan weithgar yn y cynllun hwnnw.

William Graham: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi awgrymu bod 34 y cant o bobl nad ydynt wedi cael unrhyw brofiadau dysgu na hyfforddiant wedi mynegi awydd i ymgymryd â dysgu a hyfforddiant a bod lansiad Athrofa Prifysgol Blaenau'r Cymoedd yn galonogol. Sut y mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda grwpiau cyflogwyr, fel Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, er mwyn sicrhau bod sefydliadau dysgu newydd yn darparu sgiliau a chymwysterau defnyddiol i fusnesau a chyflogwyr lleol?

Leighton Andrews: Dechreuaf drwy ddiolch iddo am ei gefnogaeth i Athrofa Prifysgol Blaenau'r Cymoedd. Eisoës, mae 180 o

equivalents. A total of 650 students are due to go through this year, which should rise to 1,400 next year; therefore, there is significant activity already under way there. If he had been able to be at the launch this morning at Llanhilleth, he would have seen in the video that is now promoting the initiative that employers are represented in it, showing how they are benefiting from the skills that are being developed. On the specific point, I attended a discussion with CBI Wales just two weeks ago, where we discussed all of these issues. I thought that we had a constructive engagement. A senior official from my department accompanied me, and I think that we have a number of areas that we wish to follow up as a result.

Addysg Cyfrwng Cymraeg

9. Eleanor Burnham: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol. OAQ(3)1538(CEL)*

Leighton Andrews: Mae cynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwreiddu ein gweledigaeth drwy sicrhau gwelliannau blwyddyn ar ôl blwyddyn yn y ddarpariaeth iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg, o'r ysgol feithrin hyd at a thrwy addysg bellach ac addysg uwch, yn cael eu disgrifio yn ein strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Yr wyf wedi ymrwymo'n llawn i sicrhau ein bod yn cyflawni amcanion y strategaeth hon.

Eleanor Burnham: Mae eich Cymraeg yn wych, Weinidog, yr wyf yn siŵr. Mae pawb yn pryderu y bydd y sefyllfa yn anodd iawn dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. Pa gymorth y medrwch ei roi i awdurdodau lleol sydd yn ceisio dod i ben â darparu arian efallai nad oes ganddynt i helpu i gynnal a datblygu'r iaith Gymraeg yng nghefn gwlad Cymru, yn enwedig yn fy rhanbarth i, sef Gogledd Cymru?

Leighton Andrews: We have made significant commitments to the delivery of the strategy on Welsh-medium education. In that context, we announced an additional £1.7 million investment in that strategy. There will be a commitment to that. It is a priority of the One Wales Government and

fyfyrwyr wedi cofrestru fel myfyrwyr cyfwerth ag amser llawn. Disgwylir y bydd 650 o fyfyrwyr yn cofrestru eleni, a dylai'r swm hwn gynyddu i 1,400 y flwyddyn nesaf; felly, mae llawer o waith eisoes ar droed yno. Pe bai wedi gallu bod yn bresennol yn y lansiad y bore yma yn Llanhilleth, byddai wedi gweld bod cyflogwyr yn cael eu cynrychioli yn y fideo sy'n hyrwyddo'r fenter. Mae'n dangos sut y maent yn elwa o'r sgiliau sy'n cael eu datblygu. Ar y pwynt penodol, cefais drafodaeth â CBI Cymru bythefnos yn unig yn ôl, lle buom yn trafod yr holl faterion hyn. Roeddwn o'r farn ein bod wedi ymgysylltu'n adeiladol. Roedd uwch swyddog o'm hadran yn bresennol hefyd, a chredaf fod gennym sawl maes i roi sylw iddynt yn deillio o hynny.

Welsh-medium Education

9. Eleanor Burnham: *Will the Minister make a statement on the future provision of Welsh medium education. OAQ(3)1538(CEL)*

Leighton Andrews: The Welsh Assembly Government's plans for realising our vision of year-on-year improvements in Welsh-medium and Welsh-language provision, from nursery through to further and higher education, are set out in our strategy on Welsh-medium education. I am fully committed to ensuring that we deliver on that strategy.

Eleanor Burnham: Your Welsh is fantastic, Minister, I am sure. Everyone is worried that we will face a very difficult situation in the coming months and years. What assistance can you provide to local authorities that are trying to get to grips with providing money that they may not have to help to support and develop the Welsh language, especially in rural Wales, especially in my region of North Wales?

Leighton Andrews: Rydym wedi gwneud ymrwymadau sylweddol i gyflawni'r strategaeth ar addysg cyfrwng Cymraeg. Yn y cyd-destun hwnnw, gwnaethom gyhoeddi £1.7 miliwn o fuddsoddiad yn y strategaeth honno. Bydd ymrwymiad i hynny. Mae'n flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru'n Un a

will remain so. Beyond that, I would not want to anticipate, at this stage, the publication of the draft budget.

Rhodri Glyn Thomas: Weinidog, byddwch yn ymwybodol o'r strategaeth sydd gan Gyngor Sir Caerfyrddin i foderneiddio addysg, a bod nifer o ysgolion yn y sector cynradd sydd bellach ar system o oleuadau traffig. Pan gânt y golau oren byddant o dan archwiliad i weld a oes dyfodol iddynt a phan gânt y golau coch byddant yn ysgolion sydd i'w cau. Mae nifer helaeth o'r ysgolion hyn yn rhai a elwid yn ysgolion categori A lle'r oedd mwyafrif yr addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Os oes symudiad i uno'r ysgolion hyn yn ysgolion ardal, a fyddwch yn trafod gyda Chyngor Sir Caerfyrddin i sicrhau bod y ddarpariaeth honno drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau, a bod plant mewn cymunedau naturiol ddwyieithog yn cael eu haddysg yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg?

Leighton Andrews: I would not want to be drawn into commenting on the specific proposals in any local authority, which may ultimately come to me for determination. However, I will say a number of things in this regard. First, it is important to distinguish between school improvement programmes and school organisation programmes. It is important that we have challenge from local authorities to ensure continuous improvement in schools. In respect of school organisation proposals, we make it clear in the guidance that we publish that one of the factors that will weigh heavily in decisions is the impact of school organisation proposals on the Welsh language. Therefore, local authorities should be in no doubt of their obligations to observe what is written within the school organisation guidance in respect of the Welsh language.

Rôl Ysgolion Bach

10. Mark Isherwood: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl ysgolion bach yng Nghymru. OAQ(3)1544(CEL)*

Leighton Andrews: The role of small schools is essentially the same as that of schools of any other size. Their primary purpose is to ensure that our children and

bydd yn parhau felly. Y tu hwnt i hynny, ar hyn o bryd, ni fyddwn yn dymuno rhagweld cyhoeddiad y gyllideb ddrafft.

Rhodri Glyn Thomas: Minister, you will be aware of Carmarthenshire County Council's strategy to modernise education and that a number of schools in the primary sector are now on a traffic light system. When they are put on an amber light they will be under scrutiny to see whether they have a future and when they are put on a red light they will be due for closure. A significant number of these schools are known as category A schools where the majority of the teaching is conducted through the medium of Welsh. If there is a move to merge these schools into area schools, will you discuss with Carmarthenshire County Council to ensure that that Welsh-medium provision continues and that children in naturally bilingual communities receive their education mainly through the medium of Welsh?

Leighton Andrews: Ni fyddwn am gael fy nenu i wneud sylwadau ar y cynigion penodol mewn unrhyw awdurdod lleol, oherwydd mae'n bosibl y bydd angen i mi benderfynu arnynt yn y pen draw. Fodd bynnag, dywedaf rai pethau yn y cyswllt hwn. Yn gyntaf, mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng rhaglenni gwella ysgolion a rhaglenni trefniadaeth ysgolion. Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn herio er mwyn sicrhau gwelliant parhaus mewn ysgolion. O ran y cynigion trefniadaeth ysgolion, rydym yn datgan yn glir yn y canllawiau a gyhoeddwn mai un o'r ffactorau a fydd yn dylanwadu'n drwm ar benderfyniadau fydd effaith y cynigion trefniadaeth ysgolion ar yr iaith Gymraeg. Felly, dylai awdurdodau lleol fod yn hollol sicr o'u rhwymedigaethau i ddilyn yr hyn a ysgrifennwyd yn y canllawiau trefniadaeth ysgolion o safbwynt yr iaith Gymraeg.

Role of Small Schools

10. Mark Isherwood: *Will the Minister make a statement on the role of small schools in Wales. OAQ(3)1544(CEL)*

Leighton Andrews: Mae rôl ysgolion bach yn ei hanfod yr un peth ag ysgolion o unrhyw faint. Eu prif bwrpas yw sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn datblygu i'w llawn potensial

young people develop to their full potential by acquiring the necessary skills, knowledge, understanding and attitudes.

Mark Isherwood: You will be aware that we are hearing announcements of school closures almost every day in the various counties of north Wales, under your Welsh Government's modernisation programme. In Denbighshire, up to four primary schools will be shut under plans to modernise education, all of which have surplus places. In Flintshire, the future of Rhes-y-cae Voluntary Controlled Primary School is in doubt because of the authority's school modernisation strategy related to school pupil numbers. In Conwy, there is a primary school modernisation plan that relates, in this case, to Ysgol Penmachno's enrolment numbers, despite the fact that pupil numbers are due to increase significantly over the coming years. Minister, is it not time to liberate teachers, parents, pupils and the communities themselves to play a key role in deciding the future of their schools, especially as they say that the school is often the lynchpin of their communities and that the report by Hyrwyddo Ysgolion Bach—Promoting Small Schools, which has been made available to you, found that village school closures are going ahead in the absence of sound cost information and that the available information suggests that school closures will result in little or no cost savings?

Leighton Andrews: I do not agree with that. You either believe that the issue of surplus places has to be addressed or you do not. The evidence shows that there are significant savings to be achieved that can be re-circulated into the provision of education and training for young people. We are committed to seeing local authorities address the issue of school surplus places. Every surplus place is a tax on the head of every other pupil in the system, and they have to understand that. We are currently consulting on school organisation changes, as you will be aware from the statement that I made in June. We will also be producing new regulations and a proposed Measure in due course, as a result of the proposals that I outlined in the Chamber in June. I am not going to comment on specific proposals in any of the authorities

drwy ennill y sgiliau, y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r agweddau angenrheidiol.

Mark Isherwood: Byddwch yn ymwybodol ein bod yn clywed cyhoeddiadau am ysgolion yn cau yn ddyddiol bron yn y gwahanol siroedd yng ngogledd Cymru, o dan raglen foderneiddio Llywodraeth Cymru. Yn sir Ddinbych, bydd hyd at bedair ysgol gynradd yn cau dan gynlluniau i foderneiddio addysg, pob un ohonynt gyda lleoedd gwag. Yn sir y Fflint, mae dyfodol Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Rhes-y-cae yn y fantol oherwydd strategaeth foderneiddio ysgolion yr awdurdod sy'n ymwneud â nifer y disgyblion yn yr ysgol. Yng Nghonwy, ceir cynllun moderneiddio ysgolion cynradd sydd, yn yr achos hwn, yn ymwneud â rhifau cofrestru Ysgol Penmachno, er bod disgwyl i nifer y disgyblion gynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd nesaf. Weinidog, onid nawr yw'r amser i roi rhyddid i athrawon, i rieni, i ddisgyblion ac i'r cymunedau eu hunain i chwarae rôl allweddol wrth benderfynu ar ddyfodol eu hysgolion, yn enwedig gan eu bod yn dweud yn aml mai'r ysgol yw calon eu cymuned, a chan fod yr adroddiad gan Hyrwyddo Ysgolion Bach—y darparwyd copi i chi—wedi canfod bod ysgolion pentref yn cael eu cau er nad oes gwybodaeth gadarn am gostau a bod y wybodaeth sydd ar gael yn awgrymu y bydd cau ysgolion yn arwain at arbedion cost bychain neu ddim arbedion o gwbl?

Leighton Andrews: Nid wyf yn cytuno â hynny. Rydych naill ai'n credu bod angen mynd i'r afael â lleoedd gwag neu beidio. Mae'r dystiolaeth yn dangos y gellir cyflawni arbedion sylweddol, arbedion y gellir eu hail-ddosbarthu i ddarparu addysg a hyfforddiant i bobl ifanc. Rydym wedi ymrwymo i gael awdurdodau lleol i fynd i'r afael â lleoedd gwag mewn ysgolion. Mae pob lle gwag yn dreth ar bob disgybl arall yn y system, a rhaid iddynt ddeall hynny. Rydym wrthi'n ymgynghori ar hyn o bryd ar newidiadau mewn trefniadaeth ysgolion, fel y gwyddoch o'r datganiad a wneuthum ym mis Mehefin. Byddwn hefyd yn llunio rheoliadau newydd a Mesur arfaethedig maes o law, o ganlyniad i'r cynigion a amlinellais yn y Siambr ym mis Mehefin. Nid wyf yn bwriadu gwneud sylw ar gynigion penodol yn unrhyw un o'r

that you mentioned.

awdurdodau a grybwyllloch.

Y Llywydd: Diolch yn fawr i'r Gweinidog am ei atebion.

The Presiding Officer: I thank the Minister for his answers.

**Adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar Ddiwygio'r Polisi Amaethyddol
Cyffredin
The Rural Development Sub-committee's Report on the Reform of the Common
Agricultural Policy**

Cynnig NDM4569 Rhodri Glyn Thomas

Motion NDM4569 Rhodri Glyn Thomas

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales:

Yn nodi Adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar Ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Gorffennaf 2010.

Notes the Report of the Rural Development Sub-committee on the Reform of the Common Agricultural Policy laid in the Table Office on 20 July 2010.

Rhodri Glyn Thomas: Cynigiau y cynnig.

Rhodri Glyn Thomas: I move the motion.

Dechreuaf drwy ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr adroddiad hwn, gan gynnwys aelodau'r is-bwyllgor yn amlwg. Cyfeiriau yn benodol at yr Arglwydd Mike German, sydd bellach wedi ein gadael i fynd i le arall, ond a oedd yn aelod o'r is-bwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn. Cyfeiriau hefyd at Brynle Williams, ac yr ydym eto yn dymuno'n dda i Brynle ac yn gobeithio ei fod yn cael adferiad iechyd wedi ei driniaeth yn yr ysbyty. Yr wyf yn diolch hefyd i'r tystion a ddaeth ger ein bron, gan inni dderbyn tystiolaeth sylweddol ar gyfer yr ymchwiliad hwn. Mae'n ymchwiliad eithriadol o bwysig o ran economi wledig Cymru a hefyd o ran cyllideb y Gymuned Ewropeaidd, gan ei fod yn rhan sylweddol o gyllideb yr Undeb Ewropeaidd.

I will start by thanking everyone who contributed to this report, including the members of the sub-committee obviously. I will specifically mention Lord Mike German who has now left us to go to another place, but who was a member of the sub-committee during this inquiry. I will also mention Brynle Williams, and we again wish him well and hope that he is recuperating following his treatment in hospital. I am also grateful to the witnesses who came before us because we received a substantial amount of evidence for this inquiry. It is an extremely important inquiry for Wales's rural economy and in respect of the European Community's budget, as it makes up a substantial proportion of the European Union's budget.

Mae'r polisi amaethyddol cyffredin yn cyflwyno €330 miliwn y flwyddyn i economi Cymru mewn taliadau sengl i ffermwyr, ac yr oedd hynny'n cynrychioli tua 90 y cant o incwm ffermydd yn 2008-09. Ar ben hynny, bydd Cymru hefyd yn cael €376.7 miliwn ar gyfer y cynllun datblygu gwledig yn unol â philer 2 rhwng 2007 a 2013. Felly, mae'r ddadl hon am ddyfodol y polisi amaethyddol cyffredin ar ôl 2013 o bwysigrwydd sylfaenol i ddiwydiant amaethyddol Cymru ac i'r Gymru wledig yn fwy cyffredinol.

The common agricultural policy provides €330 million a year to Wales's economy in single farm payments, and that represented about 90 per cent of farm incomes in 2008-09. Moreover, Wales will also receive €376.7 million for the rural development plan in accordance with pillar 2 between 2007 and 2013. Therefore, this debate about the future of the common agricultural policy after 2013 is of fundamental importance to the Welsh agricultural industry and rural Wales more generally.

3.00 p.m.

Teimlai'r is-bwyllgor ddyletswydd i gymryd rhan yn y drafodaeth yn gynnar yn y broses ddiwygio, a hynny er mwyn dylanwadu ar y ddadl er budd pawb yng Nghymru. Nod yr adroddiad oedd dechrau ar y broses o sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn rhan ganolog o'r ddadl honno ac yn cynrychioli buddiannau Cymru. Mae Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog mewn sefyllfa anodd yn y cyddestun hwnnw, gan eu bod yn rhan o aelod-wladwriaeth ond nid yw eu blaenoriaethau hwy bob amser yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Yr ydym yn credu ein bod wedi llwyddo i osod marc ar gyfer y drafodaeth, gan y bu ymateb y Llywodraeth i'n hadroddiad yn gadarnhaol. Yn ogystal, ym mis Medi, aeth aelodau'r is-bwyllgor ar ymweliad i Frwsel i gyflwyno'r adroddiad a safbwynt Cymru i Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig y Comisiwn ac i nifer o bobl eraill o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Yr oedd yr ymateb yno i'n hadroddiad hefyd yn gadarnhaol a chawsom ein calonogi gan y ffaith bod llawer o bobl yn ceisio dylanwadu yn yr un modd â ni yn y mater hwn.

Yr wyf yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi derbyn y rhan helaeth o'n hargymhellion y tro hwn. Nid felly y bu y tro diwethaf imi gyflwyno adroddiad ar ran yr is-bwyllgor, ond yr wyf yn falch ei bod wedi gweld y goleuni a'i bod bellach yn ymateb yn gadarnhaol i'n hadroddiadau. Bydd y broses o drafod y polisi amaethyddol cyffredin yn hir, a gobeithiaf y bydd y cytundeb trawsbleidiol a seliwyd gan yr is-bwyllgor a chyda'r Gweinidog o gymorth yn y trafodaethau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Yr ydym yn croesawu'r ffaith bod y Llywodraeth wedi derbyn argymhellion 1 a 2 ar amcanion allweddol y polisi amaethyddol cyffredin. Yr ydym yn falch bod y Gweinidog yn cytuno bod sicrwydd bwyd a darparu incwm i ffermwyr wedi bod wrth wraidd y polisi ers y cychwyn, ei bod yn hanfodol diogelu'r egwyddorion hyn at y dyfodol, a'u bod yn greiddiol i amcanion y polisi. Darbwyllwyd yr is-bwyllgor, fodd bynnag, fod angen diweddarau'r amcanion

The sub-committee felt duty-bound to participate in the discussion early in the reform process, with the aim of influencing the debate to the advantage of everyone in Wales. The aim of the report was to set out on the process of ensuring that the Welsh Government was at the heart of that debate to represent the interests of Wales. The Welsh Government and the Minister are in a difficult position in that respect, since they are part of a member state, but their priorities do not always coincide with those of the United Kingdom Government. We believe that we have managed to put down a marker for the discussion, as the Government's response to our report was positive. In addition, in September, members of the sub-committee visited Brussels to present the report and the Welsh perspective to the Commission's Directorate-General for Agriculture and Rural Development and many others within the European Union. The response to our report there was also positive and we were encouraged by the fact that many people are trying to influence this matter in much the same way as we are.

I welcome the fact that the Minister has accepted the majority of our recommendations on this occasion. That was not the case the last time I submitted a report on behalf of the sub-committee, so I am glad that she has seen the light and is now responding positively to our reports. The process of discussing the common agricultural policy will be long, and I hope that the cross-party agreement secured by the sub-committee and with the Minister will be of help in the negotiations with the UK Government.

We welcome the fact that the Government has accepted recommendations 1 and 2 on the key objectives of the common agricultural policy. We are pleased that the Minister agrees that food security and providing an income for farmers has been at the heart of the policy from the outset, that it is essential to protect these principles to the future, and that they are central to the policy objectives. The sub-committee was persuaded, however, that those core objectives need to be updated

craidd hynny i gynnwys sicrwydd amgylcheddol a'i fod yn bwysig bod hynny hefyd yn un o amcanion allweddol y polisi amaethyddol cyffredin newydd. Byddai hynny yn ei wneud yn fwy perthnasol i heriau'r oes bresennol ac yn haws i drwch y boblogaeth ddeall pwysigrwydd y polisi amaethyddol cyffredin iddynt hwy, a byddai'n darparu ffynhonnell newydd o incwm i ffermwyr.

Mae'n debyg mai argymhellion 4 a 5 oedd y rhai mwyaf radical yn adroddiad yr is-bwyllgor, ac yn hynny o beth nid wyf yn synnu i'r Llywodraeth eu gwrthod. Tueddaf i gytuno â'r Gweinidog ar hyn, ond yr oedd yr is-bwyllgor yn teimlo cyfrifoldeb i godi'r materion hyn er mwyn ennyn trafodaeth. Y rhesymeg y tu ôl i argymhelliad 4 oedd bod yr is-bwyllgor wedi sylwi bod cymaint o'r ddyletswydd yn canolbwyntio ar strwythur y polisi amaethyddol cyffredin a'i fod, o ganlyniad, yn colli golwg ar bwrpas ac amcanion y polisi. Cawsom ein hargyhoeddi gan dystiolaeth y cyrff a oedd yn dadlau y dylid symud tuag at un polisi integredig yn yr hirdymor. Fodd bynnag, yr wyf yn derbyn nad yw hynny'n ymarferol yng nghyd-destun y trafodaethau ar hyn o bryd.

Gan ystyried casgliadau'r is-bwyllgor am amcanion allweddol y polisi amaethyddol cyffredin a'r angen i'w foderneiddio er mwyn cynnal y gyllideb, mae'r is-bwyllgor yn credu y dylai'r polisi, yn yr hirdymor, symud tuag at fod yn un polisi integredig. Er ein bod yn gweld yr angen i gadw'r naill biler a'r llall, byddai polisi integredig o'r fath yn eithriadol o bwysig. Yr ydym hefyd yn gweld bod hwnnw ar agenda Comisiwn Ewrop.

O ran argymhelliad 5, mae'r Llywodraeth yn nofio yn erbyn y llif drwy wrthod yr argymhelliad y dylid symud cymorth ardaloedd llai ffafriol i biler 1. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf yr ydym wedi ei derbyn am fwriadau'r Comisiwn yn awgrymu'n gryf y bydd hynny ymysg y cynigion a gaiff eu cyhoeddi yn ddiweddarach y mis hwn. Byddem yn falch o glywed sylwadau'r Gweinidog am hynny.

Mae'r taliad sengl yn gwbl hanfodol i incwm ffermydd yng Nghymru, ac mae'n bwysig

to include environmental security, and it is important that that should also be one of the key objectives of the new common agricultural policy. That would make it more relevant to the challenges of the present and easier for the bulk of the population to understand the importance of the common agricultural policy to them, and it would provide a new source of income for farmers.

Recommendations 4 and 5 were probably the most radical in the sub-committee's report, and in that sense I am not surprised that the Government rejected them. I tend to agree with the Minister on this, but the sub-committee felt that it was its responsibility to raise these issues in order to stimulate debate. The rationale behind recommendation 4 was that the sub-committee had noted that much of the duty is focused on the structure of the common agricultural policy and that, consequently, it has lost sight of the purpose and objectives of the policy. We were convinced by the evidence of bodies that argued that we should be moving towards one integrated policy in the long term. However, I accept that that is not practical in the context of the discussions at the moment.

Given the sub-committee's conclusions on the key objectives of the common agricultural policy and the need to modernise in order to maintain the budget, the sub-committee believes that, in the long term, the policy should move towards becoming a single integrated policy. While we see the need to keep both pillars, such an integrated policy would be extremely important. We also see that that is on the agenda of the European Commission.

On recommendation 5, the Government is swimming against the tide by refusing to support the recommendation that LFA support should be moved to pillar 1. The latest information that we have received about the intentions of the Commission strongly suggests that that will be among the proposals to be announced later this month. We would be pleased to have the Minister's comments about that.

The single payment is essential to farm incomes in Wales, and so it is important that

felly fod y newid i daliadau wedi'u seilio ar arwynebedd yn hytrach nag ar lefel cynhyrchu yn digwydd mewn ffordd sy'n galluogi ffermwyr Cymru i addasu i'r drefn newydd. Yr wyf yn falch felly fod y Llywodraeth wedi derbyn argymhelliad 6 ac yn bwriadu lobio am y cyfnod pontio hwyaf posibl wrth gyflwyno'r drefn daliadau newydd. Ni fydd hynny'n hawdd, fel yr wyf yn siŵr y sylweddolwch, Weinidog, gan fod nifer o wledydd eraill a fydd yn elwa fwyaf o'r drefn newydd, yn arbennig yn nwyrain Ewrop, yn pwysu ar y Comisiwn i gadw'r cyfnod pontio mor fyr â phosibl. Yn wir, pan gawsom gyfarfod â swyddogion y Comisiwn, eu sylw, os cofiaf yn iawn, oedd, 'Wel, dyna ddi-ddorol, oherwydd yr oedd y ddirprwyaeth ddiwethaf a ddaeth i'n gweld y bore yma yn pwysu am y cyfnod pontio lleiaf posibl'. Felly, mae pwysau mawr o ran hynny, a gofynnaf i chi ei drin fel blaenoriaeth i'r Llywodraeth.

Ymddengys yn debygol y bydd gweithgareddau'r cynllun datblygu gwledig yn dod yn fwyfwy pwysig yn ystod cyfnod nesaf y polisi amaethyddol cyffredin, a dyna pam yr oeddem am nodi hynny yn argymhelliad 8.

Mae argymhellion 11 i 13 yn ymwneud â'r ardaloedd llai ffafriol. Ar hyn o bryd, mae 80 y cant o diriogaeth Cymru wedi'i diffinio fel ardal o'r fath, ac mae'r taliadau ychwanegol sy'n dod yn sgîl hynny i ffermwyr yng Nghymru yn gyfraniad allweddol i'w hincwm.

Yr wyf yn siomedig bod y Gweinidog wedi gwrthod argymhelliad 13. Clywodd y pwyllgor y gallai Cymru elwa'n fawr o gynllun ardal lai ffafriol sy'n ymgorffori cefnogaeth i ffermio o werth naturiol uchel. Wrth sôn am yr ardaloedd hyn fel ardaloedd llai ffafriol yng nghyd-destun cynhyrchu bwyd, mae perygl inni golli golwg ar y ffaith eu bod mewn gwirionedd yn ardaloedd mwy ffafriol ar gyfer mathau eraill o gynnyrch a gwasanaethau, megis rheoli dŵr a charbon, amddiffyn bioamrywiaeth, a chynhyrchu ynni.

Croesawaf y ffaith bod y Llywodraeth wedi derbyn argymhellion 15 ac 16, a bod grŵp rhanddeiliaid y polisi amaethyddol cyffredin

the change to area-based rather than production-level payments occurs in a way that enables farmers to adapt to the new regime. I am therefore pleased that the Government has accepted recommendation 6 and plans to lobby for the longest possible transition period in introducing the new payment system. That will not be easy, as I am sure you will appreciate, Minister, because the many other countries that will benefit most from the new regime, particularly in eastern Europe, will be urging the Commission to keep the transition period as short as possible. In fact, when we met Commission officials, their comment, if I remember correctly, was, 'Well, that is interesting, because the last delegation that came to see us this morning was pushing for the shortest possible transition period'. Therefore, there is great pressure in that respect, and I ask that you treat it as a priority for the Government.

It seems likely that the activities of the rural development plan will become increasingly important during the next phase of the common agricultural policy, which is why we wanted to note that in recommendation 8.

Recommendations 11 to 13 deal with less favoured areas. Currently, 80 per cent of Wales is defined as a less favoured area, and the extra payments that that brings for farmers in Wales make a key contribution to their income.

I am disappointed that the Minister had rejected recommendation 13. The sub-committee heard that Wales could benefit greatly from a less favoured area that incorporated support for high nature value farming. In talking about these areas as less favoured areas in the context of food production, we risk losing sight of the fact that they are actually more favoured areas for other types of products and services, such as water and carbon management, biodiversity protection and energy generation.

I welcome the fact that the Government has accepted recommendations 15 and 16, and that the common agricultural policy

wedi'i ailgynnull yn ddiweddar. Mae argymhellion 17 ac 18 yn galw ar y Llywodraeth i weithredu ym mhob ffordd bosibl i sicrhau bod barn Cymru yn cael ei chlywed yn y drafodaeth am y polisi.

Edrychaf ymlaen at weld cyhoeddi cynigion y Comisiwn ar 17 Tachwedd ac at glywed ymateb y Llywodraeth i'r cynigion hynny. Mynegaf unwaith eto fy niolch i bawb a gyfrannodd at yr adroddiad hwn. Mae'n adroddiad adeiladol iawn, ac mae ymateb y Gweinidog hefyd yn adeiladol. Gobeithio y gallwn ni gydweithio er mwyn sicrhau bod llais Cymru yn cael ei glywed yn y trafodaethau hyn. Diolch i ysgrifenyddiaeth yr is-bwyllgor sydd wedi bod yn gefn mawr i ni gyda'r adroddiad hwn, fel gyda phob adroddiad arall. Ni fyddem fel gwleidyddion yn gallu paratoi'r adroddiadau hyn heblaw am y gwaith hollbwysig a wneir gan y swyddogion sy'n gwasanaethu ein pwyllgorau.

Y Llywydd: A hoffai'r Gweinidog wneud cyfraniad yn awr a nes ymlaen hefyd?

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones): Hoffwn siarad yn awr yn unig, Lywydd.

Y Llywydd: Ardderchog.

3.10 p.m.

Elin Jones: Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i Gadeirydd ac aelodau'r is-bwyllgor am yr adroddiad hwn a'r gwaith a wnaed wrth ei lunio.

Wrth inni symud tuag at broses o ddiwygio'r polisi amaethyddol cyffredin ymhellach, mae adroddiad yr is-bwyllgor yn darparu eglurder ar rai o'r agweddau allweddol. Mae amseriad y ddadl hon yn ddefnyddiol iawn, o ystyried bod disgwyl i Gomisiwn Ewrop ryddhau papur opsiynau yn ddiweddarach yn y mis ynghylch cyfeiriad y polisi amaethyddol cyffredin ar ôl 2013. Bydd yr adroddiad, a'r argymhellion yn benodol, yn helpu i lywio syniadau cychwynol Llywodraeth y Cynulliad ar beth y dylem ei geisio ar gyfer ffermwyr Cymru wrth ddiwygio'r polisi.

Yr wyf yn hapus iawn i dderbyn 15 o'r 18 o

stakeholder group reconvened recently. Recommendations 17 and 18 call on the Government to act in every way possible to ensure that the views of Wales are heard in the debate about the policy.

I look forward to seeing the Commission's proposals published on 17 November and to hearing the Government's response to those proposals. I express again my thanks to everyone who contributed to this report. It is a very constructive report, and the Minister's response is also constructive. I hope that we can work together to ensure that Wales's voice is heard in these discussions. I thank members of the sub-committee's secretariat, who have been a great support to us with this report, as with all other reports. We, as politicians, could not prepare these reports without the vital work that is carried out by the officials who serve our committees.

The Presiding Officer: Does the Minister wish to contribute now and later on as well?

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): I wish to speak now only, Presiding Officer.

The Presiding Officer: Excellent.

Elin Jones: I wish to take this opportunity to thank the Chair and members of the sub-committee for the report and the work undertaken in drawing it up.

As we move towards a process of reviewing the common agricultural policy, the report by the sub-committee provides clarity on some of the key areas. The timing of today's debate is useful given that, later this month, the European Commission will release its options paper on the future direction of the common agricultural policy post 2013. The report, and specifically the recommendations, will be helpful in informing the Welsh Government's initial thinking on what we should be seeking for Welsh farmers in reforming the policy.

I am pleased to accept 15 of the 18

argymhellion sydd yn yr adroddiad. Fodd bynnag, nid yw'r Llywodraeth yn barod i dderbyn argymhellion 4, 5 ac 13, ac yr wyf wedi esbonio'r rhesymau am hynny yn fy ymateb ysgrifenedig. Cyfeiriaf at hynny eto yn gryno yn y ddadl y prynhawn yma.

Yr oedd yn dipyn o sioc imi weld argymhellion 4 a 5, ac yr oedd yn ddiddorol clywed Cadeirydd yr is-bwyllgor yn esbonio yn ystod y ddadl nad oedd ef ychwaith mor siŵr erbyn hyn ynghylch argymhelliad 4. Mae'r argymhellion yn rhai digon radical o ran newid y strwythur a'r sefyllfa bresennol o dan y polisi, a hynny pan nad oes yr un ohonom yn gwybod pa gynigion fferfiol sydd gan y Comisiwn. Yn gyffredinol, credaf fod cadw taliadau colofn 1 fel cymhorthdal incwm uniongyrchol yn bwysig tra pery'r farchnad fwyd yn ddiffygiol yn ei chyfraniad o ran incwm masnachol digonol i'r ffermwyr hynny sy'n cynhyrchu bwyd. Mae taliadau colofn 2 yno i ddigolledu ffermwyr am weithgareddau amgylcheddol, ac felly mae rôl benodol ar gyfer y ddwy golofn, ac nid wyf o'r un farn â'r is-bwyllgor ar hyn o bryd o ran integreiddio piler 1 a 2, gan fy mod yn gweld rôl wahanol a phwysig i'r ddwy golofn o daliadau.

O ran argymhelliad 5, nid yw'n bosibl dweud ar hyn o bryd a fydd y Comisiwn yn awyddus i daliadau amaeth amgylcheddol gael eu trosglwyddo i golofn 1, felly mae bach yn gynnar eto i wybod a yw'r llif yn mynd i'r cyfeiriad hwnnw, a defnyddio geiriau Cadeirydd yr is-bwyllgor.

O droi at argymhelliad 13, bydd cynllun Glastir, a roddir ar waith ar 1 Ionawr 2012, yn cefnogi ffermwyr i gymryd camau ledled Cymru mewn perthynas â ffermio gwerth natur uchel. Bydd hynny'n arbennig o wir ar gyfer yr elfen honno o gynllun Glastir sydd wedi'i thargedu. Felly, mae'r argymhelliad fel y mae wedi'i ffurfio ar hyn o bryd ychydig yn wahanol i'r polisi yr ydym wedi'i roi ar waith wrth gymryd camau o'r fath mewn perthynas â'r ardal lai ffafriol.

O ran diwygio'r PAC, i bob pwrpas, yr ydym ar ddechrau proses a fydd yn cymryd tua dwy flynedd cyn y penderfynir ar becyn manwl terfynol. Ar ben hynny, bydd penderfyniadau ar gynnwys cyllideb yr Undeb Ewropeaidd

recommendations made in this report. The Government is not prepared to accept recommendations 4, 5 and 13, however, and I have explained in my written response the rationale for that. I will make brief reference to that again in this afternoon's debate.

It was a bit of a surprise to me to see recommendations 4 and 5, and it was interesting to hear the sub-committee Chair explaining during the debate that he was no longer so sure about recommendation 4. These are quite radical recommendations changing the current structure of the CAP when none of us knows what the Commission's formal proposals will look like. Generally speaking, I believe that retaining pillar 1 payments as direct income support is important while the food market remains deficient in its contribution to an adequate commercial income for those farmers who produce food. Pillar 2 payments are there to compensate farmers for environmental activities, and so there is a particular role for those pillars, and I am not currently of the same opinion as the sub-committee about moving towards integration. I see a different and important role for both pillars of payment.

As for recommendation 5, it is not possible to state at present whether the Commission will want to see agri-environmental payments transferred to pillar 1. It is a little early to know whether the tide is flowing in that direction, to echo the words of the Chair of the sub-committee.

Turning to recommendation 13, the Glastir scheme, which will be operational from 1 January 2012, will support farmers to take actions on an all-Wales level in relation to high nature value farming. That will be particularly true for the element of the Glastir scheme that is targeted, and therefore the recommendation as it is currently worded is slightly different from the policy that we have implemented in taking these sorts of steps in relation to less favoured areas.

Turning to CAP reform, to all intents and purposes, we are at the starting point of a process that will take some two years before a final detailed package is decided. Furthermore, the future shape of the CAP

rhwng 2014 a 2020 yn dylanwadu'n fawr ar ffurf y polisi amaeth yn y cyfnod hwnnw. Mae'r penderfyniadau hynny hefyd yn debygol o ddilyn amserlen o ddwy flynedd. Yn ystod y mis hwn, bydd y Comisiwn yn rhyddhau dogfen opsiynau ar gyfer diwygio'r polisi amaeth. Mae dogfen answyddogol wedi'i gollwng yn ddiweddar, fel sy'n gallu digwydd yng nghyd-destun y Comisiwn, er nad yw'n bendant ar hyn o bryd a fydd yr opsiynau a amlinellwyd yn y ddogfen answyddogol yn dod yn ffurfiol o'r Comisiwn yn ystod y mis hwn.

Pwysigrwydd y polisi i Gymru yw ei fod ar hyn o bryd yn darparu tua £390 miliwn ar gyfer ffermwyr a chymunedau gwledig yng Nghymru bob blwyddyn. Yn 2009, dan drefniadau piler 1, darparodd y cynllun taliad sengl £290 miliwn i oddeutu 18,000 o ffermwyr ar ffurf y taliad blynyddol uniongyrchol. Mae'r taliadau hyn yn rhoi hwb hollbwysig i incwm ffermwyr, ac yn caniatáu iddynt gynhyrchu bwyd o'u tir. Mae tua £100 miliwn yn cael ei ddarparu bob blwyddyn yn ychwanegol at hynny dan y cynllun datblygu gwledig, sef piler 2 y polisi amaethyddol cyffredin. Mae'r cynllun datblygu gwledig yn caniatáu i Lywodraeth y Cynulliad bennu ein blaenoriaethau er mwyn gwella gallu'r diwydiannau coedwigaeth a ffermio i gystadlu, ac yn caniatáu inni gydnabod cyfraniad ffermio i reoli tir yn gynaliadwy o dan ein cynlluniau amaeth-amgylcheddol.

O'r cychwyn cyntaf, felly, mae Llywodraeth y Cynulliad yn benderfynol o sicrhau bod y polisi amaeth yn parhau i ddarparu cymorth uniongyrchol, er gwaethaf unrhyw ddiwygiadau, yn cynnig sylfaen i gynhyrchu bwyd mewn ffordd gynaliadwy, yn gwella gallu diwydiannau'r tir i gystadlu, yn cydnabod rôl ffermio wrth ddiogelu a gwella asedau naturiol Cymru, ac yn cyfrannu hefyd at ddatblygiad economaidd-gymdeithasol ein cymunedau gwledig. Bydd y broses hon o ddiwygio'r polisi amaeth yn tynnu sylw at nifer o faterion sy'n allweddol i Gymru. O ystyried bod y taliadau erbyn hyn yn seiliedig ar systemau ffermio a oedd ar waith 10 mlynedd yn ôl, mae'r sail hanesyddol dros gynllun y taliad sengl yng Nghymru yn dod yn anoddach i'w amddiffyn. Dyna pam y byddwn yn ystyried—ac yn cael ein gorfodi,

will be very much influenced by the budget of the EU during the period between 2014 and 2020. Those decisions are also likely to follow a two-year timeline. During the next month, the Commission will be releasing its formal options paper for CAP reform. An unofficial document has recently been leaked, as can happen in the context of the Commission, although it is not certain at present whether the options outlined in the leaked document will be the same as those that will be formally published by the Commission this month.

The importance of the CAP for Wales is that, at present, it provides some £390 million for farmers and rural communities in Wales each year. In 2009, under pillar 1 arrangements, the single payment scheme provided £290 million to about 18,000 farmers in the form of the annual direct payment. These payments are crucial to boosting farmers' income, and allow them to produce food from their land. An additional sum of about £100 million is provided each year under the rural development plan, or pillar 2 of the common agricultural policy. The rural development plan allows the Assembly Government to set its priorities to improve the competitiveness of the forestry and farming industries, and allows us to acknowledge the contribution of farming to sustainable land management under our agri-environment schemes.

From the outset, therefore, the Assembly Government is determined to ensure that the agriculture policy continues to provide direct assistance, notwithstanding any reforms, provides the foundation for sustainable food production, improves the competitiveness of land industries, recognises the role of farming in protecting and enhancing Wales's natural assets, and contributes to the socioeconomic development of our rural communities. This process of reforming the agriculture policy will highlight several key issues for Wales. Given that the payments are now based on farming systems that were in place 10 years ago, the historical basis for the single payment scheme in Wales is becoming harder to defend. That is why we will look—and will, no doubt, be compelled, under what is being recommended at the moment—to

mae'n siŵr, o dan yr hyn sy'n cael ei argymhell ar hyn o bryd—newid sail taliadau fel eu bod yn gysylltiedig ag arwynebedd o 2013. Yr wyf wedi derbyn argymhelliad yr is-bwyllgor yn hynny o beth, a byddaf yn ceisio sicrhau y ceir y cyfnod trosiannol hwyaf posibl, a fydd yn para hyd 2020, gobeithio, i daliadau ar sail arwynebedd.

Un o nodweddion allweddol y taliad sengl yw'r gofynion o ran trawsgydymffurfio y mae'n rhaid i ffermwyr eu bodloni. Ar hyn o bryd, mae'r gofynion hyn yn ymwneud â'r amgylchedd, lles anifeiliaid a diogelwch bwyd. Mae'r drefn drawsgydymffurfio yn gosod y trothwy isaf fel bod ffermwyr yn cyflenwi'r ystod o nwyddau neu wasanaethau ecosystem y mae'r cyhoedd yn eu disgwyl, yn gyfnewid am gefnogaeth trethdalwyr. Ni welaf fod dadl gref dros gynyddu'r gofynion trawsgydymffurfio presennol er mwyn darparu ystod ehangach o nwyddau cyhoeddus.

O ran piler 2, mae Llywodraeth Cymru yn gwbl gefnogol i argymhelliad 8, sef y dylid mynd i'r afael ag annhegwch hanesyddol cyllid yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer Cymru fel y'i dyrennir gan Gomisiwn Ewrop a'r modd yr ariennir y cynllun datblygu gwledig. Bydd yn hollbwysig edrych ar newid hynny os oes newidiadau ac os yw'r hawl i fodiwleiddio yn cael ei diddymu ar ôl 2014.

Ar bwnc arall, sy'n bwysig i ni fel Llywodraeth yn ogystal ag i'r is-bwyllgor, yr ydym yn arbennig o awyddus i ddylanwadu ar Gomisiwn Ewrop o ran diwygio'r polisi amaeth er mwyn ei wneud yn symlach ac yn llai biwrocraidaidd nag ydyw ar hyn o bryd o ran yr hyn sy'n ofynnol i Lywodraeth ei weithredu a'i weinyddu, yn ogystal â'r fiwrocraiaeth sy'n ofynnol ar ffermwyr. Byddwn yn gweithio gyda gwledydd eraill i sicrhau bod y polisi amaeth ar gyfer 2020 yn symlach ac yn llai biwrocraidaidd na'r hyn y mae'n rhaid inni ei weithredu ar hyn o bryd.

Felly, yn ystod y ddwy flynedd nesaf, bydd Gweinidog amaeth Cymru, Aelodau'r Cynulliad a ffermwyr Cymru yn awyddus iawn i sicrhau bod anghenion a blaenoriaethau Cymru yn cael eu hadlewyrchu yn y trafodaethau pwysig ar

change the basis of payments so that they are area-based by 2013. I have accepted the sub-committee's recommendation in that regard, and I will be looking to secure the longest possible transitional period, lasting until 2020, hopefully, to area-based payments.

One of the key features of the single payment is the cross-compliance requirements that farmers must meet. Currently, these requirements relate to the environment, animal welfare and food safety. The cross-compliance regime sets the minimum threshold so that farmers supply the range of ecosystem services or goods that the public expects in return for taxpayers' support. I see no strong argument for increasing the existing cross-compliance requirements to provide a wider range of public goods.

With regard to pillar 2, the Welsh Government is fully supportive of recommendation 8, to address the historic inequity of European Union funding for Wales as allocated by the European Commission and the way in which funding is provided for the rural development plan. It will be crucial to look at changing that if changes are made and if the right to modulation is repealed after 2014.

On another subject, which is important for us as a Government as well as to the sub-committee, we are particularly keen to influence the European Commission on agriculture policy reform, to make it simpler and less bureaucratic than is currently the case on what implementation and administration is required of Government, as well as the bureaucracy required of farmers. We will work with other countries to ensure that the agriculture policy for 2020 is simpler and less bureaucratic than is currently the case.

So, over the next two years, Wales's Minister for agriculture, Assembly Members and Welsh farmers will be very keen to ensure that Wales's needs and priorities are reflected in the important discussions on reforming the agriculture policy and in the legislation and

ddiwygio'r polisi amaeth ac yn y ddeddfwriaeth a'r polisi terfynol a ddaw i fodolaeth. Dyma'r tro cyntaf, o bosibl, i'r Cynulliad drafod diwygio'r polisi amaeth, ond yr wyf yn siŵr nad dyma'r unig dro dros y ddwy flynedd nesaf. Bydd pawb yn cymryd y cyfle i sicrhau bod Cymru, ffermwyr Cymru a chymunedau gwledig yn elwa o'r polisi amaethyddol cyffredin.

3.20 p.m.

Andrew R.T. Davies: I welcome the opportunity to speak on this report. I am deputising for Brynle Williams and was not a member of the sub-committee that took the evidence. However, I welcome the foreword in the report, which highlights the value of the single farm payment and the money that comes into the rural economy. This review looks at a seven-year period and at the new measures that will be put in place. Globally, we are talking of a figure of around £2 billion-worth of support for the rural economy. That is a massive amount of money and if it is not targeted correctly and in a structured way, it could have a devastating impact on rural Wales. I welcome the sub-committee's investigation into this, the recommendations that it has made and the assistance that those recommendations will hopefully afford the Minister in driving forward her vision and that of her officials regarding how we in Wales can benefit from the next tranche of the CAP reform.

I remember the MacSharry reforms in the early 1990s and Fischler in the late 1990s and early 2000s—all of the reforms then concentrated on capping production, because we lived in an era of surpluses. We now live in a completely different era where there are questions about food security and land use—whether the land should be used for environmental purposes, energy production, or a whole host of other diversification options. It will be of critical importance that the correct balance is struck in these negotiations. That is why I welcome the first two recommendations; the Minister's agreement to accept both of those recommendations has been of critical importance.

the final policy that are produced. This is perhaps the first time that the Assembly has debated agriculture policy reform, but I am sure that this will not be the only time over the next two years. Everyone will take the opportunity to ensure that Wales, Welsh farmers and rural communities benefit from the common agricultural policy.

Andrew R.T. Davies: Rwyf yn croesawu'r cyfle i siarad am yr adroddiad hwn. Rwyf yn dirprwyo ar ran Brynle Williams, ac nid oeddwn yn aelod o'r is-bwyllgor a dderbyniodd y dystiolaeth. Er hynny, rwyf yn croesawu'r rhagair yn yr adroddiad, sy'n pwysleisio gwerth y taliad sengl a'r arian sy'n dod i mewn i'r economi wledig. Mae'r adolygiad hwn yn edrych ar gyfnod o saith mlynedd ac ar y mesurau newydd a fydd yn cael eu rhoi ar waith. Yn gyffredinol, rydym yn sôn am ffigur o tua £2 biliwn o gefnogaeth i'r economi wledig. Mae hwnnw'n swm enfawr o arian, ac os na fydd yn cael ei dargedu'n briodol ac mewn ffordd strwythuredig, gallai gael effaith ddinistriol ar y Gymru wledig. Rwyf yn croesawu ymchwiliad yr is-bwyllgor i'r mater hwn, argymhellion yr is-bwyllgor a'r cymorth y bydd yr argymhellion hynny, gobeithio, yn ei roi i'r Gweinidog wrth iddi fynd ati i ddatblygu ei gweledigaeth hi a gweledigaeth ei swyddogion ynglŷn â sut y gallwn ni yng Nghymru elwa o gyfran nesaf cynlluniau diwygio'r PAC.

Rwyf yn cofio diwygiadau MacSharry yn nechrau'r 1990au a diwygiadau Fischler yn niwedd y 1990au a dechrau'r mileniwm newydd—roedd yr holl ddiwygiadau bryd hynny yn canolbwyntio ar gapio lefelau cynhyrchu, am ein bod yn byw mewn oes o ormodedd. Rydym yn byw mewn oes hollol wahanol erbyn hyn, lle ceir cwestiynau am ddiogelu'r cyflenwad bwyd a defnyddio tir—a ddylai'r tir gael ei ddefnyddio at ddibenion amgylcheddol, cynhyrchu ynni, neu at lu o opsiynau arallgyfeirio eraill. Bydd yn hollbwysig ein bod yn cael y cydbwysedd priodol yn y trafodaethau hyn. Dyna pam rwyf yn croesawu'r ddau argymhelliad cyntaf; mae'r ffaith bod y Gweinidog wedi cytuno i dderbyn y ddau argymhelliad hynny yn hollbwysig.

Along with the farmers' unions and anyone with an understanding of the rural community, I am concerned about the direction of travel regarding the Glastir model and the reform that is going on, which is being directed by the Minister, and the implications that this could have for the rural economy. This report touches on that and on the use of the moneys involved. That is of great concern to me and to many others, particularly on the definition of the less favoured areas being 80 per cent of the land mass of Wales and the negotiations around that aspect of reform of the common agricultural policy.

I also welcome the note in the report about the ability to get money from the marketplace. It also notes the continuing critical importance of the CAP for farm incomes and the wider rural economy. That must be a vital consideration when taking our representations to Europe and in devising a joined-up approach with the Westminster Government, because, as these are European negotiations, the Westminster Government will lead on many of them. I am confident with regard to the expertise that now sits in the Department for Environment, Food and Rural Affairs, in the form of Caroline Spelman and Jim Paice, and I am sure that the devolved administrations will present a unified approach and develop a more coherent approach to the challenges that we face in the new era of CAP reform.

I also note the point about transition, particularly the move away from the model that Welsh farmers have worked under for the last couple of years to more of an area-based payment. I picked up on what the Chair said in his introduction about the fact that we do not need production subsidies and that we are moving to area subsidies. I am not quite sure whether that is the case; I did not read that in the report. I read in the report that there is a move from the historical model. It might be worth the Minister giving this some consideration. Some of the farmers' unions have mooted a shift to a model that is available across Europe at the moment for certain aspects, where there is a risk to

Rwyf fi, ynghyd ag undebau'r amaethwyr ac unrhyw un sydd â dealltwriaeth o'r gymuned wledig, yn poeni am gyfeiriad y model Glastir a'r cynlluniau diwygio sydd ar y gweill—o dan gyfarwyddyd y Gweinidog—a goblygiadau posibl hyn i'r economi wledig. Mae'r adroddiad hwn yn sôn am hynny ac am y modd y defnyddir yr arian dan sylw. Mae hynny'n peri pryder mawr i mi ac i nifer o bobl eraill, yn enwedig y diffiniad bod 80 y cant o diriogaeth Cymru yn rhan o'r ardaloedd llai ffafriol, a'r trafodaethau ynghylch yr agwedd honno ar ddiwygio'r polisi amaethyddol cyffredin.

Rwyf hefyd yn croesawu'r nodyn yn yr adroddiad am y gallu i gael arian o'r farchnad. Mae hefyd yn nodi bod y PAC yn dal yn hanfodol bwysig ar gyfer incwm ffermydd a'r economi wledig ehangach. Rhaid i hynny fod yn ystyriaeth hanfodol wrth gyflwyno ein sylwadau i Ewrop ac wrth lunio ymagwedd gydgyssylltiedig gyda Llywodraeth San Steffan, oherwydd gan fod y rhain yn drafodaethau Ewropeaidd, Llywodraeth San Steffan fydd yn arwain ar lawer ohonynt. Rwyf yn hyderus wrth ystyried yr arbenigedd sydd yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig erbyn hyn diolch i Caroline Spelman a Jim Paice, ac rwyf yn siŵr y bydd y gweinyddiaethau datganoledig yn dangos ymagwedd unedig ac yn datblygu ymagwedd fwy cydlynol tuag at yr heriau rydym yn eu hwynebu yn y cyfnod newydd o ddiwygio'r PAC.

Nodaf y pwynt ynglŷn â'r cyfnod pontio hefyd, yn enwedig symud oddi wrth y model y mae ffermwyr Cymru wedi bod yn gweithio oddi tano dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf i daliad sy'n fwy seiliedig ar arwynebedd. Sylwais ar yr hyn a ddywedodd y Cadeirydd yn ei gyflwyniad am y ffaith nad oes angen cymorthdaliadau cynhyrchu arnom a'n bod yn symud i gymorthdaliadau sy'n seiliedig ar arwynebedd. Nid wyf yn hollol siŵr ai dyna yw'r sefyllfa; ni ddarllenais hynny yn yr adroddiad. Darllenais yn yr adroddiad ein bod yn symud oddi wrth y model hanesyddol. Efallai y byddai'n werth i'r Gweinidog ystyried hyn. Mae rhai o undebau'r amaethwyr wedi crybwyll symud

certain elements of production—I am thinking of suckler cows for example—where responsibility to put a package in place is devolved because it has been agreed that there is a national interest to promote that sector of the industry. We need to work in unison with the Minister—and whoever is the Minister post 2011—to free up the movement that you have in your negotiations, because the overriding concern has to be about delivering as much as possible back to Wales and, ultimately, as much as possible back to the rural economy.

It is worth noting that many of the arguments discussed the fact that the common agricultural policy makes up 40 per cent of the European budget, but that budget does not encapsulate criminal justice or defence and so forth. Therefore, while the headline figure suggests that, in proportional terms, a lot of the budget money comes out of Europe, there have been dramatic cutbacks in that budget proportion—from 70 to 40 per cent. I welcome the sub-committee's report and the recommendation that, given that we have hit a floor, we should make sure that we have a sustainable rural development plan and a meaningful income stream, since it would be unwise to go below that floor. I hope that the Minister, in conjunction with the Rural Development Sub-committee and interested parties, will feel confident in going forward and developing a very robust approach for Wales's negotiations in the coming months and years.

Joyce Watson: I am grateful for the opportunity to speak during this debate on the reform of the common agricultural policy, as a member of the Rural Development Sub-committee. I was delighted to have the opportunity to hear witnesses discuss this issue and to examine the profound roots that CAP has in the rural Welsh economy. CAP is the backbone of our farms' finances, and it is not stretching the truth to say that its reform will affect every farmland family across Wales. We must, therefore, make sure that we do not lose out when reform is made. The intention of this report is to highlight issues surrounding the reform that affect Wales, and to look at how we can achieve the best

tuag at fodel sydd ar gael ar draws Ewrop ar hyn o bryd ar gyfer rhai agweddau lle mae risg yn gysylltiedig â rhai elfennau cynhyrchu—rwyf yn meddwl am fuchod sugno er enghraifft—ac mae'r cyfrifoldeb dros roi pecyn ar waith wedi cael ei ddatganoli oherwydd y cytunwyd bod hyrwyddo'r sector hwnnw yn y diwydiant o fudd cenedlaethol. Mae angen inni weithio ar y cyd â'r Gweinidog—a phwy bynnag fydd y Gweinidog ar ôl 2011—i sicrhau mwy o hyblygrwydd yn eich trafodaethau, gan mai'r peth pwysicaf yw sicrhau cymaint â phosibl yn ôl i Gymru ac, yn y pen draw, cymaint â phosibl yn ôl i'r economi wledig.

Mae'n werth nodi bod nifer o'r dadleuon wedi trafod y ffaith bod y polisi amaethyddol cyffredin yn cyfrif am 40 y cant o'r gyllideb Ewropeaidd, ond nid yw'r gyllideb honno yn cynnwys cyfiawnder troseddol nac amddiffyn ac ati. Felly, er bod y prif bennawd yn awgrymu, mewn termau cyfrannol, fod llawer o arian y gyllideb yn dod o Ewrop, bu toriadau dramatig yng nghyfran y gyllideb honno—o 70 i 40 y cant. Croesawaf adroddiad yr is-bwyllgor a'r argymhelliad y dylem, o gofio ein bod wedi cyrraedd y terfyn isaf, sicrhau bod gennym gynllun datblygu gwledig cynaliadwy a ffrwd incwm ystyrllon, gan y byddai'n annoeth mynd yn is na'r trothwy hwnnw. Gobeithio y bydd y Gweinidog, ynghyd â'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig a phartion â diddordeb, yn teimlo'n hyderus wrth symud ymlaen a mynd ati i ddatblygu dull gweithredu cadarn iawn ar gyfer trafodaethau Cymru yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

Joyce Watson: Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle i gael siarad yn ystod y ddadl hon am ddiwygio'r polisi amaethyddol cyffredin, fel aelod o'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig. Roeddwn yn falch iawn o gael y cyfle i glywed tystion yn trafod y mater hwn ac i archwilio gwreiddiau dwfn y PAC yn economi'r Gymru wledig. Y PAC yw asgwrn cefn ariannol ein ffermydd, ac nid gor-ddweud yw dweud y bydd ei ddiwygio yn effeithio ar bob teulu sydd â thir fferm ym mhob cwr o Gymru. Felly, mae'n rhaid inni wneud yn siŵr na fyddwn ar ein colled pan wneir y diwygiadau. Bwriad yr adroddiad hwn yw tynnu sylw at faterion sy'n ymwneud â'r broses ddiwygio sy'n effeithio ar Gymru,

results.

I will focus my contribution on two of the recommendations outlined in the report. First, recommendation 5 looks at bringing agri-environment schemes and support for less favoured areas within the ambit of pillar 1 after 2013. The Minister has rejected this recommendation, which might give the impression of disagreement between the sub-committee and the Minister. However, I do not think that there is a significant gap in understanding between the two. We agree on the outcome—just maybe not on the method of getting there. That is, of course, our duty as a sub-committee, and the Minister has the right to take a different view. Both the sub-committee and the Minister realise the crucial turning point that rural Wales faces when reform of CAP is ironed out. Everyone is looking to make sure that we do not lose out. On the face of it, widening the scope of pillar 1 to include support for less favoured areas is an attractive option, as it has practical benefits. Incorporating environmental security into pillar 1 sends out a strong message that it is an integral part of sustainable development. Let us not forget that pillar 1 is also fully funded by the European Commission, which would bring financial certainty to the development of less favoured areas. The Minister's response in rejecting this proposition is lengthy and detailed, and it is clear that significant consideration has been applied in reaching her conclusion that such incorporation would leave Wales worse off. She highlights, in particular, the fact that such a switch might result in comparable EU-wide LFA support mechanisms, which in turn could adversely affect Wales's pillar 1 funding. We have to respect this decision and appreciate the intention of the Minister to achieve the same goals that we all have—to get the best deal for Wales.

This brings me to my second point. Having established what the best result for Wales would be, how are we to get our message across in a room that will contain representatives of 26 other member states, all

ac edrych ar sut y gallwn sicrhau'r canlyniadau gorau.

Bydd fy nghyfraniad yn canolbwyntio ar ddau o'r argymhellion sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad. Yn gyntaf, mae argymhelliad 5 yn edrych ar gyflwyno cynlluniau amaeth-amgylcheddol a chefnogaeth ar gyfer ardaloedd llai ffafriol o fewn cwmpas colofn 1 ar ôl 2013. Mae'r Gweinidog wedi gwrthod yr argymhelliad hwn, a allai roi'r argraff bod yr is-bwyllgor a'r Gweinidog yn anghydweled. Fodd bynnag, nid wyf yn credu bod gwahaniaeth mawr rhwng barn yr is-bwyllgor a'r Gweinidog. Rydym yn cytuno ar y canlyniad—ond nid ar y ffordd o gyflawni hynny o bosibl. Wrth gwrs, dyna yw ein dyletswydd fel is-bwyllgor, ac mae gan y Gweinidog hawl i gael barn wahanol. Mae'r is-bwyllgor a'r Gweinidog yn sylweddoli y bydd y Gymru wledig yn wynebu trobwynt tyngedfennol pan wneir y penderfyniadau terfynol am y PAC. Mae pawb yn ceisio gwneud yn siŵr na fyddwn ar ein colled. Ar yr wyneb, mae ehangu cwmpas colofn 1 i gynnwys cymorth ar gyfer ardaloedd llai ffafriol yn opsiwn deniadol, gan fod manteision ymarferol i hynny. Mae ymgorffori diogelwch amgylcheddol yng ngholofn 1 yn anfon neges gref ei fod yn rhan annatod o ddatblygu cynaliadwy. Gadewch inni beidio ag anghofio bod colofn 1 hefyd yn cael ei hariannu'n llawn gan y Comisiwn Ewropeaidd, a fyddai'n dod â sicrwydd ariannol i'r gwaith o ddatblygu'r ardaloedd llai ffafriol. Mae ymateb y Gweinidog wrth wrthod y cynnig hwn yn hir a manwl, ac mae'n amlwg ei bod wedi ystyried hyn yn fanwl wrth ddod i'r casgliad y byddai Cymru yn waeth ei byd o ganlyniad i ymgorffori o'r fath. Mae'n tynnu sylw'n benodol at y ffaith y gallai newid o'r fath arwain at fecanweithiau cymaradwy ar gyfer cefnogi ardaloedd llai ffafriol ar draws yr UE, a allai yn eu tro gael effaith andwyol ar gyllid colofn 1 Cymru. Rhaid inni barchu'r penderfyniad hwn a gwerthfawrogi bwriad y Gweinidog i gyrraedd yr un nodau â phob ohonom—sef cael y fargen orau i Gymru.

Mae hyn yn dod â mi at fy ail bwynt. Ar ôl cadarnhau beth fyddai'r canlyniad gorau i Gymru, sut y gallwn gyfleu ein neges mewn ystafell a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o 26 o aelod-wladwriaethau eraill, a phob un

just as keen to get the best results? Let us not forget that other parts of the UK will have different priorities to ours, such as shifting emphasis towards pillar 2, which is strongly opposed by many in Wales. Recommendation 18 in the report sets out how we think that the Government should build alliances—the Minister has said that she is doing this—with similar regions and states to ourselves, so that we can speak with a much louder voice in what will be a very crowded room. This appears to be very sensible, and I am glad that the recommendation has been accepted by the Minister. I point out that the Government has already begun this process, and that it is a matter of strengthening relationships that could be invaluable when negotiations start in earnest.

Finally, I thank the sub-committee staff for their support in putting this report together, as well as the witnesses for giving valuable evidence. I am pleased that the Minister has accepted many of the report's recommendations, and where there are differences, it is down to a variation in approaches rather than contrasting objectives. The most important thing is that Wales does not lose out when the time for reform comes. I hope that this report has played the role of a critical friend effectively, in order to ensure that we get the best deal from the CAP reform.

3.30 p.m.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): I join Rhodri Glyn in thanking the staff of the Rural Development Sub-committee, who provided such excellent support in helping to develop the report. I also thank all those who gave evidence. I associate myself in particular with Rhodri Glyn's comments regarding Brynle Williams. I am sure that we all wish Brynle a speedy recovery.

The CAP reform that is coming down the line will be crucial in sustaining our agricultural industry. As other speakers have said, we cannot ignore the fact that, for most farm businesses, the single farm payment and

ohonynt yr un mor awyddus i gael y canlyniadau gorau? Gadewch inni beidio ag anghofio y bydd gan rannau eraill o'r DU flaenoriaethau gwahanol i'n rhai ni, fel symud pwyslais tuag at golofn 2, rhywbeth y mae llawer o bobl yng Nghymru yn ei wrthwynebu'n chwyn. Mae argymhelliad 18 yn yr adroddiad yn nodi sut yr ydym yn credu y dylai'r Llywodraeth fynd ati i feithrin cynghreiriau—mae'r Gweinidog wedi dweud ei bod yn gwneud hyn—gyda rhanbarthau a gwladwriaethau tebyg i ni, er mwyn inni gael llais uwch o lawer mewn ystafell a fydd yn orlawn. Mae hyn yn ymddangos yn rhywbeth synhwyrol iawn, ac rwyf yn falch bod y Gweinidog wedi derbyn yr argymhelliad. Nodaf fod y Llywodraeth eisoes wedi dechrau ar y broses hon, a'i fod yn fater o gryfhau cysylltiadau a allai fod yn amhrisiadwy pan fydd y trafodaethau yn dechrau o ddifrif.

Yn olaf, diolch i staff yr is-bwyllgor am eu cefnogaeth wrth lunio'r adroddiad hwn, yn ogystal â'r tystion am roi tystiolaeth werthfawr. Rwyf yn falch bod y Gweinidog wedi derbyn llawer o argymhellion yr adroddiad, a phan geir gwahaniaethau, gwahanol ddulliau sydd wrth wraidd hynny yn hytrach nag amcanion gwrthygyferbyniol. Y peth pwysicaf yw na fydd Cymru ar ei cholled pan ddaw'r diwygiadau. Gobeithio bod yr adroddiad hwn wedi chwarae rôl y cyfaill beirniadol yn effeithiol, er mwyn sicrhau ein bod yn cael y fargen orau yn sgîl proses ddiwygio'r PAC.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Ymunaf â Rhodri Glyn i ddiolch i staff yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig am eu cefnogaeth ragorol wrth helpu i ddatblygu'r adroddiad. Diolch i bawb a roddodd dystiolaeth hefyd. Ategfaf yn benodol sylwadau Rhodri Glyn am Brynle Williams. Rwyf yn siŵr bod pob un ohonom yn dymuno gwellhad buan i Brynle.

Bydd y cynlluniau sydd ar y gweill i ddiwygio'r PAC yn hanfodol er mwyn cynnal ein diwydiant amaethyddol. Fel y mae siaradwyr eraill wedi dweud, ni allwn anwybyddu'r ffaith mai'r taliad sengl a'r

European subsidies make up between 80 and 90 per cent of individual farm incomes. Undoubtedly, the move away from historic payments to an area-based payment will pose some significant challenges, especially in areas such as Brecon and Radnorshire, which has some of the most densely stocked farmlands in Wales, and where we have been extremely fortunate in recent years to have enjoyed a historic basis to our payments.

I am particularly pleased to see that the Minister accepts recommendations 1 and 2 in the report. Food security continues to be one of the most important objectives that any national government can have on behalf of its country. The ability to produce as much food as possible must remain at the forefront of our minds. To produce that food, we need to have active farmers on the land. The only way in which we will keep that land active and in production is to take what steps we can to ensure that there are adequate incomes on those holdings. Therefore, I am glad that there is a consensus of opinion that that should remain at the forefront of CAP policy.

Recommendation 2 mentions enhancing those objectives by also including environmental security at the heart of the CAP. I would not disagree with that. Farming, and agriculture, has a huge role to play in securing environmental security, and, indeed, in enhancing our environment and addressing many of our concerns about climate change and global warming. It is perhaps ironic therefore that the Minister accepts the importance of environmental security as a key component of the CAP, when we consider the current debacle around Glastir. In past years, our approach to agri-environmental schemes has been at the forefront of thinking. It has been a system that has delivered results, and not only for those farmers who have participated in those schemes: it has had much wider environmental benefits. We are in severe danger at present of losing the momentum that this Government, and previous Assembly administrations, has created around agri-environmental schemes. Not only are we in

cymorthdaliadau Ewropeaidd sydd—yn achos y rhan fwyaf o fusnesau fferm—i gyfrif am rhwng 80 a 90 y cant o incwm ffermydd unigol. Heb os, bydd symud oddi wrth daliadau hanesyddol i daliad sy'n seiliedig ar arwynebedd yn achosi rhai heriau sylweddol. Mae hynny'n arbennig o wir mewn ardaloedd fel Brycheiniog a Sir Faesyfed sy'n cynnwys y tiroedd amaethyddol â mwyaf o stoc yng Nghymru, a lle rydym wedi bod yn hynod ffodus dros y blynyddoedd diwethaf i gael taliadau ar sail hanesyddol.

Rwyf yn arbennig o falch o weld bod y Gweinidog yn derbyn argymhellion 1 a 2 yr adroddiad. Mae diogelu'r cyflenwad bwyd yn parhau'n un o'r amcanion pwysicaf y gall unrhyw lywodraeth genedlaethol ei gael ar ran ei gwlad. Rhaid i'r gallu i gynhyrchu cymaint o fwyd â phosibl aros ar frig yr agenda. I gynhyrchu'r bwyd hwnnw, mae angen inni gael ffermwyr gweithgar ar y tir. Yr unig ffordd o gadw'r tir hwnnw'n weithredol ac yn cynhyrchu yw cymryd pa gamau bynnag y gallwn eu cymryd i sicrhau bod gan y daliadau hynny incwm digonol. Felly, rwyf yn falch y ceir barn gytún y dylai hynny barhau ar frig yr agenda ar gyfer y polisi PAC.

Mae argymhelliad 2 yn sôn am wella'r amcanion hynny drwy gynnwys diogelwch amgylcheddol hefyd wrth wraidd y PAC. Ni fyddwn yn anghytuno â hynny. Mae gan ffermio ac amaethyddiaeth ran enfawr i'w chwarae wrth sicrhau diogelwch amgylcheddol ac, yn wir, wrth wella ein hamgylchedd a mynd i'r afael â llawer o'n pryderon ynghylch newid yn yr hinsawdd a chynhesu byd-eang. Efallai ei bod yn eironig felly bod y Gweinidog yn derbyn bod pwysigrwydd diogelwch amgylcheddol yn un o elfennau allweddol y PAC, wrth ystyried y dryswch ynghylch y cynllun Glastir ar hyn o bryd. Yn ystod y blynyddoedd a fu, mae ein hymagwedd tuag at gynlluniau amaeth-amgylcheddol wedi bod ar frig yr agenda. Mae'n system sydd wedi sicrhau canlyniadau, ac nid yn unig i'r ffermwyr hynny sydd wedi cymryd rhan yn y cynlluniau hynny: mae wedi arwain at fanteision amgylcheddol ehangach o lawer. Rydym mewn perygl difrifol ar hyn o bryd o golli'r momentwm y mae'r Llywodraeth hon, a gweinyddiaethau

danger of losing momentum, we are also in danger of undoing much of the good work that has been carried out on-farm under the auspices of Tir Gofal.

We are now four or five weeks into the application period for Glastir. I cannot resist the temptation to say that it would have been interesting to have heard from the Minister how many farmers to date have sent in forms indicating their interest. I know that the Minister does not have any targets by which she will judge whether the scheme is a success or failure. However, it is ironic that throughout the Minister's response to the report an emphasis is placed on the Glastir programme, and yet she did not mention it in her opening comments. We are in severe difficulties if the feeling among the agricultural community is anything to go by.

I move on to the issue of less favoured areas. Again, as someone who represents Brecon and Radnorshire, it would be remiss of me not to talk about the LFA, which is of particular importance to my constituency. Indeed, 80 per cent of the landmass in Wales is covered by the LFA, as we have heard. We are now involved in an interesting debate, in that the subcommittee has made its recommendation with regard to whether pillar 1 or 2 is the appropriate place for LFA payments. The Minister has rejected that, and, as Joyce Watson said, gives a very coherent reason as to why she has done so. However, it begs the question, given the leaked communiqué, about the direction of travel that the European Union envisages with regard to where LFA is to be placed. We will have to wait for the official communiqué to come out, I guess, but this is a debate that we cannot park at the moment. We need to keep an open mind about where LFA will be placed in future and how we can maximise the benefits for Welsh farm income in that regard. I welcome the Minister's commitment to see as little change to the LFA boundary as possible, but, if we carry on the way that we are going with Glastir, those LFA boundaries will be of little consequence.

blaenorol y Cynulliad, wedi'i greu yng nghyswllt cynlluniau amaeth-amgylcheddol. Nid yn unig rydym mewn perygl o golli momentwm, rydym hefyd mewn perygl o ddadwneud llawer o'r gwaith da sydd wedi cael ei wneud ar ffermydd o dan nawdd Tir Gofal.

Rydym bellach wedi cyrraedd wythnos pedwar neu bump y cyfnod ymgeisio ar gyfer y cynllun Glastir. Ni allaf wrthsefyll y demtasiwn i ddweud y byddai wedi bod yn ddiddorol clywed gan y Gweinidog faint o ffermwyr sydd wedi anfon ffurflenni yn datgan eu diddordeb hyd yma. Gwn nad oes gan y Gweinidog unrhyw dargedau y bydd yn eu defnyddio i benderfynu a yw'r cynllun yn llwyddiant ynteu'n fethiant. Fodd bynnag, mae'n eironig bod y Gweinidog wedi rhoi pwyslais ar y rhaglen Glastir drwy gydol ei hymateb, ac eto ni soniodd am y rhaglen yn ei sylwadau agoriadol. Os yw'r teimlad ymysg y gymuned amaethyddol yn adlewyrchu'r sefyllfa, rydym mewn trafferthion difrifol.

Af ymlaen at ardaloedd llai ffafriol. Unwaith eto, fel rhywun sy'n cynrychioli Brycheiniog a Sir Faesyfed, byddai'n esgeulus imi beidio â sôn am yr ardaloedd llai ffafriol, sy'n arbennig o bwysig i fy etholaeth. Yn wir, mae 80 y cant o diriogaeth Cymru yn rhan o'r ardaloedd llai ffafriol, fel rydym wedi clywed. Rydym yn cymryd rhan mewn trafodaeth ddiddorol yn awr, lle mae'r is-bwyllgor wedi gwneud ei argymhelliad o ran ai colofn 1 neu 2 yw'r man priodol ar gyfer taliadau'r ardaloedd llai ffafriol. Mae'r Gweinidog wedi gwrthod hynny ac, fel y dywedodd Joyce Watson, yn rhoi rheswm rhesymegol iawn pam ei bod wedi gwneud hynny. Fodd bynnag, o ystyried y sibrydion sydd ar led, mae'n rhaid cwestiynu'r cyfeiriad y mae'r Undeb Ewropeaidd yn ei ystyried o ran lleoli ardaloedd llai ffafriol. Bydd rhaid inni aros am yr hysbysiad swyddogol mae'n debyg, ond mae hon yn ddadl na allwn ei datrys ar hyn o bryd. Mae angen inni gadw meddwl agored ynglŷn â ble y bydd ardaloedd llai ffafriol yn cael eu lleoli yn y dyfodol, a sut y gallwn sicrhau cymaint o fanteision â phosibl ar gyfer incwm ffermydd Cymru yn hynny o beth. Croesawaf ymrwymiad y Gweinidog i weld cyn lleied o newid â phosibl i ffiniau'r ardaloedd llai

ffafriol, ond os byddwn yn parhau ar hyd yr un trywydd gyda'r cynllun Glastir, ni fydd y ffiniau hynny ar gyfer yr ardaloedd llai ffafriol yn gwneud llawer o wahaniaeth.

Again, that is why I regret that the Minister has decided to reject recommendation 13 and does not feel the need to explore high nature value farming. Again, the reason given for this is that Glastir will be great and will maintain those income levels for farming, as well as delivering the public goods on the environmental side. However, that will only happen if farmers enter into the scheme, and the Minister must be concerned that there is a lack of enthusiasm at this stage from the industry about entering into that scheme.

Unwaith eto, dyna pam rwyf yn siomedig bod y Gweinidog wedi penderfynu gwrthod argymhelliad 13, ac nad yw'n teimlo'r angen i ystyried ffermio â gwerth natur uchel. Unwaith eto, y rheswm a roddwyd dros hyn yw y bydd y cynllun Glastir yn wych ac y bydd yn cynnal y lefelau incwm hynny ar gyfer ffermio, yn ogystal â sicrhau manteision cyhoeddus ar yr ochr amgylcheddol. Fodd bynnag, ni fydd hynny'n digwydd oni bai y bydd ffermwyr yn ymuno â'r cynllun, ac mae'n rhaid bod y Gweinidog yn bryderus nad yw'r diwydiant yn dangos llawer o frwdfrydedd i ymuno â'r cynllun hwnnw ar hyn o bryd.

I welcome the Minister's comments this afternoon with regard to cross-compliance and bureaucracy in relation to the common agricultural policy and the commitment to do what we can to maintain budgets for CAP in what is undoubtedly a very difficult situation in the European Union. Once again, I thank the chair of the subcommittee for his work in this particular area, and I hope that this report has been an early indication of how seriously the National Assembly takes this issue, and is an early attempt to try to influence what will undoubtedly be a hugely important reform process for our agricultural industry.

Rwyf yn croesawu sylwadau'r Gweinidog y prynhawn yma ynghylch trawsgydymffurfio a biwrocratiaeth mewn perthynas â'r polisi amaethyddol cyffredin, a'r ymrwymiad i wneud yr hyn a allwn i gynnal cyllidebau ar gyfer y PAC mewn sefyllfa sydd, heb os, yn anodd iawn i'r Undeb Ewropeaidd. Unwaith eto, diolch i gadeirydd yr is-bwyllgor am ei waith yn y maes penodol hwn, a gobeithio bod yr adroddiad hwn wedi bod yn arwydd cynnar o ba mor bwysig yw'r mater hwn i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac yn ymgais gynnar i geisio dylanwadu ar yr hyn a fydd yn sicr yn broses ddiwygio eithriadol o bwysig i'n diwydiant amaethyddol.

Y Llywydd: Galwaf ar y Gweinidog i gau pen y mwdwl. Mae'n ddrwg gennyf, y Cadeirydd, nid y Gweinidog. Yr wyf mor awyddus i gyfarch y Gweinidog bob amser.

The Presiding Officer: I call the Minister to draw things to a close. I am sorry, I meant the Chair, not the Minister. I am always so keen to greet the Minister.

Rhodri Glyn Thomas: Diolch yn fawr iawn, Lywydd, a diolch i bawb a gyfrannodd at y drafodaeth. Mae'r drafodaeth wedi dangos y pwysigrwydd y mae'r holl bleidiau yma yn ei osod ar ddyfodol y polisi amaethyddol cyffredin, a pha mor bwysig yw hynny i amaethyddiaeth ac i'r economi wledig yng Nghymru, ac, yn wir, i economi Cymru yn ei chyfanrwydd. Mae nifer o'r siaradwyr wedi cyfeirio at benderfyniad y Gweinidog i wrthod argymhellion 4 a 5. Credaf ein bod ni i gyd yn cytuno â'r hyn a ddywedodd Joyce Watson, sef, o edrych ar ymateb

Rhodri Glyn Thomas: Thank you very much, Presiding Officer, and thanks to everyone who contributed to the discussion. The discussion has shown the importance that all parties here attach to the future of the common agricultural policy, and how important it is to agriculture and the rural economy in Wales, and, indeed, the entire Welsh economy. A number of the speakers have referred to the Minister's decision to reject recommendations 4 and 5. I think that we all agree with what Joyce Watson said, namely, in looking at the Minister's

cynhwysfawr y Gweinidog i'r argymhellion hyn, mae'n amlwg ei bod hi wedi rhoi ystyriaeth i'r argymhellion, ond ei bod hi wedi penderfynu nad yw'n ymarferol, ar hyn o bryd, hwyrach, i symud i'r cyfeiriad hwnnw.

O ran argymhelliad 4, mae ffin artiffisial yn y fan honno, sy'n creu cryn dipyn o wrthwynebiad ymhlith amaethwyr, sy'n gweld piler 2 fel rhywbeth sy'n cymryd arian i ffwrdd oddi wrth amaethyddiaeth, yn lle ei weld mewn ffordd gadarnhaol. Dyna pam yr oeddem yn awyddus i bwysleisio argymhelliad 4. O ran argymhelliad 5, fel mae Kirsty Williams newydd ddweud, mae'n amlwg bellach fod y Comisiwn yn symud ymlaen ar fater y taliadau ardaloedd llai ffafriol. Credaf felly, Weinidog, y bydd rhaid i chi ailystyried maes o law yn y fan honno, ond deallaf pam eich bod yn gwrthod eu derbyn ar hyn o bryd.

3.40 p.m.

Credaf ein bod i gyd yn cael trafferth i ddeall eich gwrthwynebiad i argymhelliad 13. Cyfeiriodd Joyce a Kirsty at hyn. Nid wyf yn credu bod Andrew R.T. Davies wedi cyfeirio ato, ond yr wyf yn cymryd y byddai fe, hefyd, yn ei ffeindio'n anodd deall pam yr ydych wedi gwrthod argymhelliad 13. Mae opsiwn gwirioneddol yno. Cododd Andrew R.T. Davies a Kirsty fater Glastir. Byddwch yn gwybod, Weinidog, fod gennyf ofid ynghylch y cynllun ac ynghylch ymateb cyffredinol ffermwyr iddo. Mae argymhelliad 13 yn cynnig opsiwn gwirioneddol i chi o ran sicrhau bod ffermwyr yn cael cydnabyddiaeth am waith amgylcheddol, a byddwn yn eich annog i edrych eto ar yr argymhelliad yn y cyd-destun hwnnw. Y cyfan yr wyf am ei ddweud am Glastir yw bod yr is-bwyllgor wedi paratoi adroddiad ar y cynllun, a chredaf fod yr adroddiad yn mynegi ein pryderon a'r pryderon a gyflwynwyd i ni gan dystion ynghylch y cynllun.

Cododd Andrew R.T. Davies bwynt eithriadol o bwysig ynghylch y cyd-destun presennol. Yr ydym yn tueddu i ganolbwyntio ar y mater o symud oddi wrth daliadau uniongyrchol sy'n seiliedig ar gynnyrch ffermwyr i daliadau sy'n seiliedig ar ardal. Weithiau, yr ydym yn anghofio am y

comprehensive response to these recommendations, it is clear that she had given consideration to the recommendations, but has decided that it is not practical at this time, perhaps, to move in that direction.

On recommendation 4, there is an artificial boundary there, and that is generating a great deal of opposition among farmers, who see the pillar 2 as something that takes money away from agriculture, rather than seeing it in a positive light. That is why we were keen to stress recommendation 4. On recommendation 5, as Kirsty Williams has just said, it is now clear that the Commission is moving forward on the issue of LFA payments. I therefore think, Minister, that in due course you will have cause to reconsider in respect of that point, but I understand why you have rejected the amendments for now.

I think that we are all having difficulty in understanding your opposition to recommendation 13. Joyce and Kirsty made reference to this. I do not think that Andrew R.T. Davies referred to it, but I assume that he, too, would have difficulty in understanding why you have rejected recommendation 13. There is a very real option there. Andrew R.T. Davies and Kirsty raised the issue of Glastir. Minister, you will know that I have concerns about the scheme and about the general response of farmers to it. Recommendation 13 provides a very real option for you to ensure that farmers get recognition for environmental work, and I would urge you to look again at the recommendation in that context. All that I would say about Glastir is that the sub-committee has prepared a report on the scheme, and I believe that it expresses our concerns and the concerns presented to us by witnesses with regard to the scheme.

Andrew R.T. Davies raised a very important point about the current context. We tend to concentrate on this issue of moving from direct payments based on production to area-based payments. Sometimes, we lose sight of the requirement that will be placed on the agricultural industry in Wales to produce

gofyn fydd ar y diwydiant amaethyddol yng Nghymru i gynhyrchu bwyd. Bydd hynny'n eithriadol o bwysig, ac mae targedau wedi'u gosod. Felly, rhywsut, mae'n rhaid inni sicrhau bod cydbwysedd o ran yr agenda o symud oddi wrth daliadau sy'n seiliedig ar gynnyrch i rai sy'n seiliedig ar ardal er mwyn sicrhau bod cynhyrchu yn dal i fod yn ganolog i'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru. Yr ydym yn ymhyfrydu yn y ffaith ein bod yn cynhyrchu i'r safonau uchaf posibl.

Andrew R.T. Davies: Throughout the report, there is reference to the less favoured area, and quite rightly, up to a point. However, when we talk about production, we need to focus on the lowlands as well, because they are some of our most productive areas, and they have seen quite a dramatic decline in output under the current regime.

Rhodri Glyn Thomas: You would know all about producing on the lowlands, Andrew. I will take your word on that particular matter. However, I think that we are agreed that it is a very important point with regard to the agenda for agriculture in Wales. We must ensure that Wales is a food-producing country, producing food of the highest possible quality. A number of contributors referred to food security as being essential for the future. We face a great challenge in agriculture and in respect of the environment and climate change in Wales. Therefore, these discussions are very relevant to the future of agriculture and the rural economy in Wales and to the future of funding within the European Union. We are confident, Minister, that, throughout these discussions, you will ensure that the voice of Wales is heard and that the priorities for Wales are made known to the coalition Government in Westminster and that they will therefore reach the ears of those in the European Union who will take the decisions.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 3.43 p.m.
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 3.43 p.m.*

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to note the Rural Development Sub-committee's report. Are there any objections? I see that there are none. Therefore, the motion is agreed in accordance

food. That will be exceptionally important, and targets have been set. Therefore, one way or another, we have to ensure that a balance is struck with regard to the agenda of moving from production-based payments to area-based payments to ensure that production is still central to the agricultural industry in Wales. We take great pride in the fact that our production is to the highest possible standards.

Andrew R.T. Davies: Cyfeirir at yr ardal lai ffafriol drwy'r adroddiad, hyd at bwynt, a hynny'n briodol. Ond, pan fyddwn yn sôn am gynhyrchu, mae angen inni ganolbwyntio ar y tiroedd isel hefyd, oherwydd dyna yw rhai o'n hardaloedd mwyaf cynhyrchiol, ac maent wedi gweld lleihad eithaf dramatig mewn allbwn o dan y system bresennol.

Rhodri Glyn Thomas: Byddech chi'n gwybod llawer am gynhyrchu ar y tiroedd isel, Andrew. Derbyniaf eich gair ar y mater penodol hwnnw. Fodd bynnag, credaf ein bod yn cytuno ei fod yn bwynt pwysig iawn o ran yr agenda amaethyddiaeth yng Nghymru. Rhaid inni sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n cynhyrchu bwyd, ac yn cynhyrchu bwyd o'r safon uchaf bosibl. Mae nifer o gyfranwyr wedi sôn bod diogelu'r cyflenwad bwyd yn hanfodol at y dyfodol. Rydym yn wynebu her enfawr yn y byd amaethyddiaeth ac o ran yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd yng Nghymru. Felly, mae'r trafodaethau hyn yn berthnasol iawn i ddyfodol amaethyddiaeth a'r economi wledig yng Nghymru, ac i ddyfodol cyllid yn yr Undeb Ewropeaidd. Rydym yn ffyddiog y byddwch yn sicrhau drwy'r trafodaethau hyn, Weinidog, bod llais Cymru yn cael ei glywed a bod clymblaid y Llywodraeth yn San Steffan yn gwybod beth yw blaenoriaethau Cymru, ac y byddant felly yn cael eu clywed gan yr Undeb Ewropeaidd a fydd yn gwneud y penderfyniadau.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw nodi adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly cytunir ar y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

with Standing Order No. 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Sector Cyhoeddus Cymru The Public Sector Ombudsman for Wales's Annual Report

Cynnig NDM4570 Dafydd Elis-Thomas

Motion NDM4570 Dafydd Elis-Thomas

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 7.61(vii):

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 7.61(vii):

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2009/10, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mehefin 2010.

Notes the Public Services Ombudsman for Wales' Annual Report 2009/10, which was laid in the Table Office on 22 June 2010.

The First Minister (Carwyn Jones): I move the motion.

Y Prif Weinidog (Carwyn Jones): Cynigiaf y cynnig.

This is the second annual report published by Peter Tyndall since his appointment as ombudsman in April 2008 and the fourth annual report since the introduction of the unified service in 2006. I am pleased to note that, while previous reports have talked about the rise in complaints since the creation of a unified ombudsman's service, this report does not convey the same trend. It reports a levelling off of the number of complaints referred to the ombudsman's office.

Dyma'r ail adroddiad blynyddol a gyhoeddwyd gan Peter Tyndall ers ei benodi'n ombwdsmon ym mis Ebrill 2008, a'r pedwerydd adroddiad blynyddol ers cyflwyno'r gwasanaeth unedig yn 2006. Rwyf yn falch o nodi er bod adroddiadau blaenorol wedi sôn am y cynnydd yn nifer y cwynion ers creu gwasanaeth ombwdsmon unedig, nad yw'r adroddiad hwn yn cyfleu'r un patrwm. Mae'n dweud bod nifer y cwynion a gyfeiriwyd at swyddfa'r ombwdsmon wedi lefelu.

The pattern of previous years is that the majority of complaints received are in respect of county councils, and that pattern also continues this time, although the ombudsman does acknowledge that this is to be expected given the wide range of services that they provide. The ombudsman does, however, note a welcome reduction in the number of complaints about maladministration by local authorities, and also notes the real effort that has been made by many parties to respond more effectively to complaints.

Wrth edrych ar batrwm y blynyddoedd a fu, mae'r mwyafrif o'r cwynion a ddaw i law yn ymwneud â chynghorau sir, ac mae'r patrwm hwnnw'n parhau y tro hwn hefyd, er bod yr ombwdsmon yn cydnabod bod hyn i'w ddisgwyl o ystyried yr ystod eang o wasanaethau y maent yn eu darparu. Fodd bynnag, mae'r ombwdsmon yn nodi lleihad i'w groesawu yn nifer y cwynion am gamweinyddu gan awdurdodau lleol, a hefyd yn nodi'r ymdrech wirioneddol a wnaed gan lawer o bartion i ymateb yn fwy effeithiol i gwynion.

A total of 1,381 new complaints were received by the ombudsman's office in 2009-10 compared to a reported total of 1,501 new complaints in the previous year, which is an overall decrease of 8 per cent. This is

Cafodd swyddfa'r ombwdsmon gyfanswm o 1,381 o gwynion newydd yn 2009-10 o'i gymharu â chyfanswm o 1,501 o gwynion newydd yn y flwyddyn flaenorol, sydd 8 y cant yn llai drwyddo draw. Mae hyn yn

welcome, as previous years have reported an increase since the introduction of the unified service in 2006.

During the reporting period, the ombudsman considered a total of 1,992 complaints, 585 of which were carried over from the previous year. Sixty-seven of those complaints were in respect of the Assembly Government and Assembly Government sponsored bodies, which is a decrease from the 73 reported last year. Of the 67 received, eight were investigated, and I am pleased to note that three received a quick resolution. Of the eight investigations, four complaints were upheld compared with six out of the eight investigated last year. However, we must not forget that behind the numbers are individual citizens who have been compelled to access the ombudsman service because they are dissatisfied with the service that they receive from public service providers in Wales. We need to strive to continue to learn from the complaints that we receive, and to build on and improve the services that we deliver. This will be testing, given the financial pressures facing us, but I am confident that we can look to the ombudsman service to assist us in this aim.

One source of that assistance will be *The Ombudsman's Casebook*. The first edition was published in August, and the second edition was published last week. It is a quarterly publication that is intended as a means of capturing lessons learned from complaints investigated by the ombudsman, and sharing them easily and effectively with public bodies. The ombudsman does acknowledge that while some cases will provide limited lessons, other cases will provide public service providers with the opportunity to consider lessons learned by others to maximise the potential for wider learning. The casebook also includes themes emerging from cases that are relevant to all public sector providers, including the Welsh Assembly Government.

I am pleased to report another strand of the ombudsman's work. The ombudsman is the chair of the Complaints Wales group

newyddion da, gan fod y nifer wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd blaenorol ers cyflwyno'r gwasanaeth unedig yn 2006.

Yn ystod y cyfnod adrodd, ystyriodd yr ombwdsmon gyfanswm o 1,992 o gwynion, gyda 585 ohonynt wedi'u dwyn ymlaen o'r flwyddyn flaenorol. Roedd 67 o'r cwynion hynny yn ymwneud â Llywodraeth y Cynulliad a chyrrff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad, sy'n llai na'r 73 a gafwyd y llynedd. O blith y 67 a ddaeth i law, ymchwiliwyd i wyth ohonynt, ac rwyf yn falch o ddweud y cafodd tri ohonynt eu datrys yn gyflym. O'r wyth ymchwiliad, cafodd pedair o'r cwynion eu cadarnhau o'i gymharu â chwech o'r wyth a fu'n destun ymchwiliad y llynedd. Fodd bynnag, rhaid inni beidio ag anghofio bod dinasyddion unigol wrth wraidd y niferoedd, a'u bod wedi gorfod defnyddio'r gwasanaeth ombwdsmon am eu bod yn anfodlon â'r gwasanaeth y maent yn ei gael gan ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae angen inni ymdrechu i barhau i ddysgu o'r cwynion a gawn, ac i ddatblygu a gwella'r gwasanaethau rydym yn eu darparu. Bydd hyn yn anodd o ystyried y pwysau ariannol sy'n ein hwynebu, ond rwyf yn hyderus y gallwn droi at y gwasanaeth ombwdsmon i'n helpu gyda'r nod hwn.

Un ffynhonnell a fydd yn rhoi'r cymorth hwnnw inni fydd *Coflyfr yr Ombwdsmon*. Cafodd y rhifyn cyntaf ei gyhoeddi fis Awst, ac mae'r ail rifyn wedi cael ei gyhoeddi'r wythnos diwethaf. Mae'n gyhoeddiad chwarterol, a bwriedir iddo fod yn ffordd o gasglu gwersi a ddysgwyd o gwynion y mae'r ombwdsmon wedi ymchwilio iddynt, a'u rhannu'n hawdd ac yn effeithiol gyda chyrrff cyhoeddus. Mae'r ombwdsmon yn cydnabod er mai gwersi cyfyngedig fydd rhai achosion yn eu darparu, bydd achosion eraill yn rhoi cyfle i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus ystyried gwersi a ddysgwyd gan bobl eraill i fanteisio ar y potensial ar gyfer dysgu ehangach. Mae'r coflyfr hefyd yn cynnwys themâu sy'n deillio o achosion sy'n berthnasol i holl ddarparwyr y sector cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Rwyf yn falch o adrodd am elfen arall o waith yr ombwdsmon. Yr ombwdsmon yw cadeirydd grŵp Cwynion Cymru a

commissioned by the Assembly Government to develop a public services complaints policy for Wales. The commission was based on research that suggested strongly that citizens who wish to complain about the public services that they receive would be more confident about making a complaint if there was an easily understood common framework in place for complaints handling across the key public services. The Complaints Wales group is made up of representatives from key social partners and is chaired by the ombudsman. It was established in July 2009 with a remit to develop a common complaints process for voluntary adoption by the key public service providers in Wales, such as local authorities, registered social landlords, and the Welsh Assembly Government and its sponsored bodies.

The timing of this work meant that the development of the model policy could take account of the work to develop a new NHS complaints policy, which is clearly important because it provides real impetus for a pan-public services complaints regime that makes it easier for people to make complaints. It also provides a more effective complaints resolution process and gives public service providers the ability to deal with complaints in the appropriate way and at the appropriate level. It will also provide a more effective process to allow lessons learned from effective complaints handling to inform the development of the delivery of higher quality public services.

The ombudsman, on behalf of the Complaints Wales group, has sent me a copy of the model policy. The Cabinet will be considering that model scheme and will make a decision on its application in the near future. We need to look to the ombudsman's office to help inform our development of efficient public services, and I am grateful to the ombudsman for his commitment and guidance.

Nick Ramsay: I am pleased to contribute to this debate. I have been looking through the

gomisiynir gan Lywodraeth y Cynulliad i ddatblygu polisi cwynion ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Roedd y comisiwn yn seiliedig ar ymchwil a oedd yn awgrymu'n gryf y byddai dinasyddion sy'n dymuno cwyno am y gwasanaethau cyhoeddus y maent yn eu derbyn yn fwy hyderus i wneud cwyn pe bai fframwaith cyffredin hawdd ei ddeall ar gael ar gyfer ymdrin â chwynion ar draws y prif wasanaethau cyhoeddus. Mae grŵp Cwynion Cymru yn cynnwys cynrychiolwyr o bartneriaid cymdeithasol allweddol, ac yn cael ei gadeirio gan yr ombwdsmon. Fe'i sefydlwyd ym mis Gorffennaf 2009 gyda chylch gwaith i ddatblygu proses gwyno gyffredinol i'w mabwysiadu'n wirfoddol gan y prif ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, fel awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r cyrff a noddir ganddi.

Roedd amseriad y gwaith hwn yn golygu y gallai'r broses o ddatblygu'r polisi enghreifftiol ystyried y gwaith o ddatblygu polisi cwynion newydd ar gyfer y GIG. Mae hynny'n amlwg yn bwysig am ei fod yn ysgogiad gwirioneddol i gael system gwyno ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus i gyd, sy'n ei gwneud yn haws i bobl gyflwyno cwynion. Mae hefyd yn darparu proses fwy effeithiol ar gyfer datrys cwynion, ac yn galluogi darparwyr gwasanaethau cyhoeddus i ymdrin â chwynion yn y ffordd briodol ac ar y lefel briodol. Bydd hefyd yn darparu proses fwy effeithiol er mwyn i'r gwersi a ddysgwyd o achosion effeithiol o ymdrin â chwynion fod yn sail i ddatblygu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o safon uwch.

Mae'r ombwdsmon, ar ran grŵp Cwynion Cymru, wedi anfon copi o'r polisi enghreifftiol ataf. Bydd y Cabinet yn ystyried y cynllun enghreifftiol hwnnw ac yn gwneud penderfyniad ar ei weithredu yn y dyfodol agos. Mae angen inni droi at swyddfa'r ombwdsmon i helpu i lywio ein gwaith o ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon, ac rwyf yn ddiolchgar i'r ombwdsmon am ei ymrwymiad a'i arweiniad.

Nick Ramsay: Rwyf yn falch o gael cyfrannu at y ddadl hon. Rwyf wedi bod yn

ombudsman's report and have waded through quite a few of the graphs and charts. There is a heck of a lot of them in the report. I pay tribute to the amount of work that has been done on this report. I just have a couple of points to make about things that I have gleaned from the report.

3.50 p.m.

The First Minister mentioned the introduction of the new signposting system, which has been designed to make it simpler for people to know whether they have a right to complain and how they should go about complaining. However, at the same time that this signposting system is being brought in, I found it strange that there has been an overall fall in the number of complaints. Therefore, questions must be raised about whether the signposting system is working in practice, and whether the monitoring of the system can be improved in any way. The idea of a signposting system in principle is, however, a good one.

There is a lot of talk about meetings with different organisations. The report says that the ombudsman and his team meet regularly with the Welsh Local Government Association and officers of the Assembly Government, but there is very little information about the nature of these meetings or their regularity. Are they ad hoc meetings that happen when a particular issue comes along, or are they more regularly timetabled? The cynic in me suggests that there might be an element of window dressing there, but I am sure that the First Minister is aware of what happens at these meetings, and I therefore seek clarification as to their nature.

On outreach, a number of seminars have been held around Wales—they reminded me a little of the tours around Wales undertaken by the Minister for Business and Budget and the Minister for Social Justice and Local Government. If outreach is working in practice and a lot of information is being gleaned from this recent tour, then that is to be welcomed. However, there is little information about what has been achieved by the tour.

darllen adroddiad yr ombwdsmon, ac wedi edrych ar gryn dipyn o siartiau a graffiau. Mae llawer iawn ohonynt yn yr adroddiad. Hoffwn ganmol yr holl waith sydd wedi cael ei wneud ar yr adroddiad hwn. Dim ond ambell bwynt sydd gennyf i'w wneud am bethau rwyf wedi sylwi arnynt yn yr adroddiad.

Soniodd y Prif Weinidog am gyflwyno'r system gyfeirio newydd, sydd wedi cael ei chynllunio i'w gwneud yn haws i bobl wybod a oes ganddynt hawl i gwyno a sut y dylent fynd ati i wneud hynny. Fodd bynnag, ar yr un pryd ag y mae'r system gyfeirio hon yn cael ei chyflwyno, mae'n rhyfedd y bu lleihad cyffredinol yn nifer y cwynion. Felly, mae'n rhaid gofyn a yw'r system gyfeirio yn gweithio'n ymarferol, ac a ellir gwella'r gwaith o fonitro'r system mewn unrhyw ffordd. Er hynny, mae'r syniad o system gyfeirio, mewn egwyddor, yn un da.

Ceir llawer o sôn am gyfarfodydd gyda sefydliadau gwahanol. Mae'r adroddiad yn dweud bod yr ombwdsmon a'i dîm yn cael cyfarfodydd rheolaidd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, ond ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am natur y cyfarfodydd hyn neu pa mor aml y maent yn cael eu cynnal. A ydynt yn gyfarfodydd ar hap sy'n digwydd pan fydd mater penodol yn codi, neu a ydynt yn cael eu trefnu'n fwy rheolaidd? Mae'r sinig ynof yn awgrymu mai ychydig o sioe yw hynny, ond rwyf yn siŵr bod y Prif Weinidog yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yn y cyfarfodydd hyn, ac felly gofynnaf am eglurhad ynghylch eu natur.

O ran gwaith allanol, mae nifer o seminarau wedi cael eu cynnal ledled Cymru—maent yn fy atgoffa ychydig o deithiau'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb a'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol o amgylch Cymru. Os yw gwaith allanol yn gweithio'n ymarferol a bod llawer o wybodaeth wedi cael ei chasglu yn ystod y daith ddiweddar hon, yna mae hynny i'w groesawu. Fodd bynnag, nid oes llawer o wybodaeth ar gael am yr hyn y mae'r daith

wedi'i gyflawni.

In fact, overall, there is little costing in any of this. With regard to many of these new areas, such as the signposting, the tour around Wales and meetings with the Assembly Government, it would be helpful to have fuller details about how much this office is costing. As we know, we are currently in a difficult financial situation, so, whether we like it or not, all areas of the public sector have to tighten their belts in one way or another. I would like to see a suggestion from the ombudsman as to how he thinks his organisation can be streamlined and improved, while also ensuring that the role that he plays in allowing people to make their complaints in an effective way continues effectively.

Andrew Davies: Thank you, First Minister for leading on this issue. The fact that you are leading on it shows how important it is for the Assembly Government. I was pleased to hear your comments on the two innovations brought forward and headed by Peter Tyndall, namely the common complaints process, which was referred to in your opening comments, and the complaints signposting service. Maybe I should declare an interest because, as the then Minister who initiated this work, I felt strongly that we should not only have a robust complaints system, but that it should also be as accessible and transparent as possible. One of the consistent complaints is that complaints systems in Wales are very complex, and citizens find it very difficult to find their way around what can often be a bureaucratic maze. So, as for a common complaints process, I very much hope that the Cabinet will support it, although I understand that it will depend on the business case. If it is implemented, it will be a world first as a process of any Government at any level.

On the complaints signposting system, my understanding is that it will be on the basis of early signs. I know that the system will be launched formally next year, but I believe that the ombudsman is already operating a telephone-based front end and trialling this

Yn wir, ar y cyfan, ychydig iawn o wybodaeth am gostau a nodir yng nghyswllt hyn oll. O ran nifer o'r elfennau newydd hyn, megis y system gyfeirio, y daith o amgylch Cymru a'r cyfarfodydd â Llywodraeth y Cynulliad, byddai'n ddefnyddiol cael rhagor o fanylion am faint y mae'r gwasanaeth hwn yn ei gostio. Fel y gwyddom, rydym mewn sefyllfa ariannol anodd ar hyn o bryd, felly, p'un a ydym yn hoffi hynny ai peidio, mae'n rhaid i bob rhan o'r sector cyhoeddus ddefnyddio eu cyllid yn fwy gofalus, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Hoffwn weld awgrym gan yr ombwdsmon ynghylch sut y mae'n credu y gellir symleiddio a gwella ei sefydliad, gan sicrhau bod y rôl y mae'n ei chwarae i alluogi pobl i gyflwyno eu cwynion mewn ffordd effeithiol yn dal yn effeithiol.

Andrew Davies: Diolch, Brif Weinidog, am arwain ar y mater hwn. Mae'r ffaith mai chi sy'n ei arwain yn dangos pa mor bwysig ydyw i Lywodraeth y Cynulliad. Roeddwn yn falch o glywed eich sylwadau am y ddau gam arloesol a gafodd eu cyflwyno a'u harwain gan Peter Tyndall, sef y broses gwyno gyffredinol, y cyfeiriwyd ati yn eich sylwadau agoriadol, a'r gwasanaeth cyfeirio cwynion. Efallai y dylwn ddatgan buddiant oherwydd roeddwn yn teimlo'n gryf, fel y Gweinidog ar y pryd a ddechreuodd y gwaith hwn, y dylem gael system gwyno gadarn sydd hefyd mor hygyrch a thryloyw ag y bo modd. Un o'r cwynion cyson yw bod systemau cwyno yng Nghymru yn gymhleth iawn, a bod dinasyddion yn ei chael yn anodd iawn defnyddio'r systemau hyn sydd, yn aml iawn, yn gallu bod yn ddrysfu fawrocrataidd. Felly, o ran proses gwyno gyffredinol, rwyf yn gobeithio'n fawr y bydd y Cabinet yn cefnogi hynny, er fy mod yn deall y bydd yn dibynnu ar yr achos busnes. Os bydd yn cael ei rhoi ar waith, dyma fyddai'r tro cyntaf i unrhyw Lywodraeth ar unrhyw lefel gyflwyno proses o'r fath.

O ran y system cyfeirio cwynion, bydd yn seiliedig ar arwyddion cynnar yn ôl yr hyn a ddeallaf fi. Gwn y bydd y system yn cael ei lansio'n ffurfiol y flwyddyn nesaf, ond credaf fod yr ombwdsmon eisoes yn gweithredu gwasanaeth dros y ffôn, ac mae'r treialon yn

with some success. The result has been that the number of complaints has dropped because people feel that they are able to understand the process more easily, and that the signposting is able to direct people to the appropriate organisation, be it the health service, the police or whatever. I commend the Government for this approach. It shows the Government's support for and commitment to citizen-centred services, and that having access and redress is a vital part of providing excellent public services.

Peter Black: I, too, welcome the report and the drop in the number of complaints of maladministration, which is evidence that local authorities are starting to get their act together and be more aware of that. As Andrew Davies has just pointed out, the signposting has helped people to understand the process and, hopefully, it has reduced the number of complaints for that reason.

However, I have major concerns about the ombudsman's work in relation to the code of conduct for local councillors. I note from the annual report that complaints against members have increased by nearly 20 per cent over the year, which is a worrying trend, yet the ombudsman has decided not to investigate 70 per cent of those complaints. That suggests that a lot of people are using him as a sounding board, perhaps to take forward a vendetta against particular members.

Some increasingly bizarre rulings are coming out of the ombudsman's office in relation to the code of conduct. I am sure that many Members are aware of the Cardiff councillor who was found by the ombudsman to be in breach of the code of conduct for describing Scientology as stupid, even though it has been recognised by the courts as a cult and not a religion. When that complaint went before the standards committee of the council, it was thrown out. There are other examples, such as the councillor who was found to have breached the code of conduct by not declaring an interest because she was deemed to have an unconscious bias against a particular individual. How someone can be held accountable for an unconscious bias is

either llywyddiannus. Y canlyniad yw bod nifer y cwynion wedi lleihau oherwydd bod pobl yn teimlo eu bod yn gallu deall y broses yn haws, a bod y system gyfeirio yn gallu arwain pobl at y sefydliad priodol, boed hwnnw'r gwasanaeth iechyd, yr heddlu neu beth bynnag. Cymeradwyaf y Llywodraeth am yr ymagwedd hon. Mae'n dangos cefnogaeth ac ymrwymiad y Llywodraeth i wasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, a bod cael mynediad a threfniadau gwneud iawn yn rhan hanfodol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus rhagorol.

Peter Black: Rwyf finnau hefyd yn croesawu'r adroddiad a'r lleihad yn nifer y cwynion yn ymwneud â chamweinyddu, sy'n dystiolaeth bod awdurdodau lleol yn dechrau cael siâp ar bethau a bod yn fwy ymwybodol o hynny. Fel y mae Andrew Davies newydd ei ddweud, mae'r system gyfeirio wedi helpu pobl i ddeall y broses a, gobeithio, wedi lleihau nifer y cwynion am y rheswm hwnnw.

Fodd bynnag, mae gennyf bryderon mawr ynghylch gwaith yr ombwdsmon mewn perthynas â'r cod ymddygiad ar gyfer cynghorwyr lleol. Nodaf o'r adroddiad blynyddol fod cwynion yn erbyn aelodau wedi cynyddu bron i 20 y cant dros y flwyddyn, tuedd sy'n peri gofid, ac eto mae'r ombwdsmon wedi penderfynu peidio ag ymchwilio i 70 y cant o'r cwynion hynny. Mae hynny'n awgrymu bod llawer o bobl yn defnyddio'r ombwdsmon fel cyfrwng i ddweud eu dweud, efallai er mwyn bwrw ymlaen â chynnen yn erbyn aelodau penodol.

Mae swyddfa'r ombwdsmon yn gwneud rhai dyfarniadau mwy a mwy rhyfedd mewn perthynas â'r cod ymddygiad. Rwyf yn siŵr bod llawer o Aelodau yn gwybod am y cynghorydd yng Nghaerdydd y canfu'r ombwdsmon ei fod wedi torri'r cod ymddygiad drwy ddweud bod Seientoleg yn rhywbeth twp, er bod y llysoedd wedi'i gydnabod fel cwlt ac nid crefydd. Pan aeth y gŵyn honno gerbron pwyllgor safonau'r cyngor, cafodd ei gwrthod. Ceir enghreifftiau eraill, fel y cynghorydd y canfuwyd ei bod wedi torri'r cod ymddygiad drwy beidio â datgan buddiant oherwydd bod ganddi, yn ddiymwybod, ragfarn yn erbyn unigolyn penodol. Mae llawer o gyfreithwyr llywodraeth leol yn crafu pen ar hyn o bryd

racking the brains of many lawyers in local government at the moment. It defeats me. That went all the way to the appeal body in Wales, and fighting that particular complaint cost that councillor tens of thousands of pounds in legal fees. It seems to me that that was a strange decision by the ombudsman, and I think that the decision and the way in which it was taken bring his office into disrepute.

There are several examples of councillors who have been singled out by individuals who have failed to be elected themselves because of things that they have said or because they have expressed particularly strong opinions. Effectively, the ombudsman is being used by individuals to sanitise debate in this country. The code of conduct is being used against councillors to prevent them from expressing strong opinions that we can quite happily express in the Chamber as Assembly Members and ones that Members of Parliament can express. However, when a councillor utters them, it immediately leads to a complaint to the ombudsman. I do not exempt any political party in this matter, as all the political parties, including my own, have been involved in these shenanigans and have referred people to the ombudsman because they disagree with a particular comment that a councillor has made. The Scientology case even made the national headlines, and it made the ombudsman's office a laughing-stock in Wales.

There is a commitment at the moment from the UK Government to reform the Standards Board for England as part of its programme for government. It is about time that the code of conduct for councillors was also reformed; it is time for us to look at that to see whether it can be improved, whether we can do away with these sorts of cases and whether we can ensure that the freedom of speech of local politicians is upheld and not undermined by the code of conduct. Therefore, First Minister, I ask that you give a commitment that, as part of this debate and as a result of this report and those cases, you will look at whether that review is possible and whether

ynghylch sut y gall rhywun gael ei ddal yn atebol am ragfarn ddiymwybod. Does gennyf fi ddim syniad. Aeth y mater hwnnw yr holl ffordd i'r corff apêl yng Nghymru, a chostiodd y broses o ymladd y gŵyn benodol honno ddegau o filoedd o bunnoedd i'r cynghorydd hwnnw mewn ffioedd cyfreithiol. Roedd hwnnw i'w weld yn benderfyniad rhyfedd gan yr ombwdsmon yn fy marn i, ac rwyf yn credu bod y penderfyniad a'r ffordd y gwnaed y penderfyniad yn dwyn anfri ar y gwasanaeth.

Ceir nifer o enghreifftiau o gynghorwyr sydd wedi cael eu targedu gan unigolion sydd wedi methu cael eu hethol eu hunain oherwydd y pethau y maent wedi'i ddweud neu oherwydd eu bod wedi mynegi barn bendant iawn. I bob pwrpas, mae unigolion yn defnyddio'r ombwdsmon i geisio cymedroli trafodaethau yn y wlad hon. Mae'r cod ymddygiad yn cael ei ddefnyddio yn erbyn cynghorwyr i'w hatal rhag mynegi barn bendant y gallwn ei mynegi yn ddigon hapus yn y Siambr fel Aelodau Cynulliad, a barn y gall Aelodau Seneddol ei mynegi. Fodd bynnag, pan fo cynghorydd yn mynegi ei farn, mae'n arwain yn syth at gŵyn wrth yr ombwdsmon. Nid wyf yn eithrio unrhyw blaid wleidyddol yn y mater hwn, gan fod yr holl bleidiau gwleidyddol, gan gynnwys fy mhlaid fy hun, wedi cymryd rhan yn y castiau hyn ac wedi cyfeirio pobl at yr ombwdsmon am eu bod yn anghytuno â sylw arbennig y mae cynghorydd wedi'i wneud. Cafodd yr achos Seientoleg sylw yn y penawdau cenedlaethol hyd yn oed, ac roedd swyddfa'r ombwdsmon yn destun sbort yng Nghymru o ganlyniad i'r achos hwnnw.

Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig ar hyn o bryd i ddiwygio Bwrdd Safonau Lloegr fel rhan o'i rhaglen lywodraethu. Mae'n hen bryd diwygio'r cod ymddygiad ar gyfer cynghorwyr hefyd; mae'n bryd inni edrych ar hynny i weld a ellir ei wella, a allwn gael gwared ar y mathau hyn o achosion ac a allwn sicrhau bod gan wleidyddion hawl i ddweud eu barn a pheidio â chael eu tanseilio gan y cod ymddygiad. Felly, Brif Weinidog, rwyf yn gofyn ichi ymrwymo, fel rhan o'r ddadl hon ac o ganlyniad i'r adroddiad hwn a'r achosion hynny, i ystyried a yw'r adolygiad hwnnw yn bosibl ac a allwn wella'r hyn sydd gennym yn awr i geisio atal

we can improve on what we have now to try to prevent those sorts of cases coming before the standards board and the ombudsman in the future.

David Lloyd: Mae'n bleser gennyf gyfrannu at y ddadl hon ar adroddiad blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae pethau yn mynd o'u lle o bryd i'w gilydd yn narpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. Byddaf yn canolbwyntio ar yr agwedd honno ar waith yr ombwdsmon er bod gennyf gryn gydymdeimlad â rhai o sylwadau Peter Black am ail rôl yr ombwdsmon, sef edrych ar y cod ymddygiad i aelodau awdurdodau lleol.

4.00 p.m.

Yn nhermau diffygion honedig yn safon darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus o du llywodraeth leol, y gwasanaeth iechyd, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, ac wrth gwrs, Llywodraeth y Cynulliad, fel y disgwyliech, mae digon o waith i'w wneud. Fodd bynnag, o ystyried bod yr ombwdsmon yn edrych ar enghreifftiau o gamweinyddu—hynny yw, nid ydyw yno i farnu ar ragoriaethau achosion penodol, ond i edrych a fu camweinyddu o ran y systemau sydd ar waith—yn naturiol, mae'r ombwdsmon yn dod at y gŵyn yn hwyr yn y dydd, ac mewn rhai achosion lle mae'r gŵyn wedi bod yn corddi ers blynyddoedd, a dylid cadw hynny mewn cof.

Rhan arall o waith yr ombwdsmon yw cyfrannu at ragoriaeth, fel y dywedir yn yr adroddiad ar dudalen 22. Hynny yw, dylai gyfrannu at wella safon darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn eu cyfanrwydd drwy ddelio â chwynion yn briodol, a fydd yn golygu bod pobl yn gallu gweld bod eu cwynion yn cael eu trin o ddifrif, eu bod yn cael eu datrys a'u bod yn derbyn ateb. Bydd hynny'n cyfrannu yn y pen draw at wella safon darpariaeth pa wasanaeth cyhoeddus bynnag sydd dan sylw. Yr oeddwn yn hoffi'r syniad y cyfeiriodd y Prif Weinidog ato o ran yr ombwdsmon yn cyhoeddi ei lyfr achosion. Mae hynny eisoes yn digwydd o ran achosion meddygol o fewn y gwasanaeth iechyd. Yr ydym yn cyhoeddi achosion fel enghreifftiau o bethau sy'n gallu mynd o'u lle. Diben y cyhoeddi hwnnw yw addysgu pobl beth all

y mathau hyn o achosion rhag dod gerbron y bwrdd safonau a'r ombwdsmon yn y dyfodol.

David Lloyd: It is my pleasure to contribute to this debate on the annual report of the Public Services Ombudsman for Wales. Things go wrong from time to time in the provision of public services. I will focus on that aspect of the work of the ombudsman even though I have considerable sympathy with some of Peter Black's comments on the second role of the ombudsman, which is to look at the code of conduct for local authority members.

As for the alleged failings in the standards of public service delivery by local authorities, the health service, registered social landlords and, of course, the Assembly Government, as one would expect, there is plenty of work to be done. However, in considering that the ombudsman looks at examples of maladministration—that is, he is not there to judge the merits of a particular case, but to see whether there has been a maladministration of the systems that are in place—naturally, the ombudsman comes to the table late in the day and, in some cases, where the complaint has been simmering away for years, and that should be borne in mind.

Another part of the ombudsman's work is to contribute to excellence, as is said on page 22 of the report. That is, he should contribute to the overall improvement in the standards of public service delivery by dealing with complaints appropriately, which would mean that people would be able to see that their complaints were taken seriously, that they were being resolved and that they would receive an answer. That will contribute ultimately to an improvement in the standard of delivery of whatever public service is in question. I liked the idea that the First Minister referred to regarding the publication of the ombudsman's casebook. That already happens with medical cases in the health service. We publish cases as examples of things that can go wrong. The idea behind that is to educate people about what can go

fynd o'i le fel y gallant newid y ffordd y byddent yn ymdrin â sefyllfa debyg.

wrong so that they can change the way in which they would deal with a similar situation.

Mae'n werth nodi ei bod yn bwysig lleihau'r amser a gymer i ddatrys cwynion. Weithiau, gall yr amser ddatblygu'n flynyddoedd gan fynd ymlaen ac ymlaen, a gall hynny arwain at gwynion eraill ac ychwanegu at ddrwgdeimlad y sawl sy'n cwyno. I'r perwyl hwnnw, yr oeddwn yn falch o weld mai'r Mesur cyntaf a basiwyd gan y Cynulliad hwn oedd y Mesur ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008, sy'n ymwneud â chwynion llai difrifol. Edrychwn ymlaen at gael y system honno yn llawn weithredol, i sicrhau bod y cwynion llai difrifol a'r achosion sy'n deillio ohonynt yn gallu cael eu datrys mewn llawer iawn llai o amser, ac mewn sefyllfaoedd llawer iawn llai cymhleth na'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd pan fydd achosion yn mynd drwy'r llysoedd a hefyd at yr ombwdsmon.

It is worth noting that it is important to reduce the amount of time that it takes to resolve complaints. Sometimes, it can take years and go on and on, and that can lead to other complaints and add to the ill feeling of the complainant. On that, I was pleased to see that the first Measure that was passed by this Assembly was the NHS Redress (Wales) Measure 2008, which relates to less serious complaints. We look forward to seeing that system fully operational, which will ensure that less serious complaints and the cases that result from them can be resolved in a much shorter timeframe, and in a much less complicated way than that which currently takes place when cases go through the courts and also to the ombudsman.

Yn olaf, hoffwn bwysleisio pwysigrwydd datrys cwynion, yn enwedig y rhai sydd wedi cyrraedd yr ombwdsmon, yn amserol ac mewn modd priodol. Fel arall, gall y sefyllfaoedd hyn gorddi, gan ddyfnhau'r ymdeimlad o anghyfiawnder a gadael creithiau dwfn ar fywydau pobl. Gyda hynny o eiriau, yr wyf yn hapus i nodi'r adroddiad blynyddol. Rhaid delio â chwynion y cyhoedd yn amserol ac yn deg.

Lastly, I would like to emphasise the importance of resolving complaints, especially those that have reached the ombudsman, in a timely and appropriate manner. Otherwise, these situations can fester, intensifying the feeling of injustice and scarring people's lives. With those few words, I am happy to note the annual report. Public complaints must be dealt with in a timely and fair manner.

The First Minister: Three substantive points were raised during the course of the debate. First, Nick mentioned the public services tour of Wales, although I am unclear as to what relevance that has to the ombudsman's report. However, I will explain to him that the tour was extremely useful in being able to learn from those working in front-line services what ideas they had as to how the services might be improved and what difficulties they face on a daily basis. It was very useful to be able to do that.

Y Prif Weinidog: Cafodd tri phwynt o sylwedd eu codi yn ystod y ddatl. Yn gyntaf, soniodd Nick am daith y gwasanaethau cyhoeddus o amgylch Cymru, er nad wyf yn siŵr sut mae hynny'n berthnasol i adroddiad yr ombwdsmon. Fodd bynnag, egluraf wrtho fod y daith yn hynod ddefnyddiol o ran cael gwybod gan y rheini sy'n gweithio mewn gwasanaethau rheng flaen pa syniadau sydd ganddynt i wella'r gwasanaethau a pha anawsterau sy'n eu hwynebu o ddydd i ddydd. Roedd yn ddefnyddiol iawn gallu gwneud hynny.

Nick raised the point about efficiency, which leads to Andrew's point that the easier it is for people to complain, the more faith they will have in the complaints system. That is why we are looking to develop a common complaints process, which Andrew

Cododd Nick y pwynt am effeithlonrwydd, sy'n arwain at bwynt Andrew mai po hawsaf ydyw i bobl gwyno, y mwyaf o ffydd fydd ganddynt yn y system gwyno. Dyna pam rydym yn awyddus i ddatblygu proses gwyno gyffredinol, fel y soniodd Andrew, a dyna

mentioned, which is why the Cabinet will be considering the model scheme with a view to implementing it during December and January. It is essential that that is in place as quickly as possible.

The third point was raised by Peter. He will perhaps forgive me for not commenting on individual cases, but the thrust of what he said deserves investigation. I propose to write to the ombudsman and ask for his observations, particularly on how complaints against individual councillors are dealt with. Once I have received a response, I will write to you, Peter, and then I will consider what more might be done to eliminate the frivolous complaints that are often levelled against elected representatives. We have to ensure that those complaints that have substance are investigated properly, but I am aware—and you mentioned one example in particular—that some complaints are not easy to resolve given the principles that were applied to dealing with those cases, to put it diplomatically. I will write to the ombudsman asking for his views and general observations on how such complaints are dealt with, and I will write to Peter on that.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is that the motion be agreed. Is there any objection? I see that there is not. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

Gwariant y Llywodraeth Government Expenditure

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendments 1 and 2 in the name of Peter Black.

Cynnig NDM4571 Nick Ramsay

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

pam y bydd y Cabinet yn ystyried y cynllun enghreifftiol gyda golwg ar ei weithredu yn ystod mis Rhagfyr a mis Ionawr. Mae'n hanfodol bod hwnnw'n cael ei roi ar waith cyn gynted ag y bo modd.

Peter gododd y trydydd pwynt. Efallai y bydd yn maddau imi am beidio â gwneud sylwadau am achosion unigol, ond mae byrdwn yr hyn a ddywedodd yn haeddu ymchwiliad. Rwyf yn bwriadu ysgrifennu at yr ombwdsmon a gofyn am ei sylwadau, yn enwedig am y modd yr ymdrinnir â chwynion yn erbyn cynghorwyr unigol. Ar ôl imi gael ateb, byddaf yn ysgrifennu atoch, Peter, ac yna byddaf yn ystyried beth rhagor y gellid ei wneud i gael gwared ar y cwynion disylwedd a wneir yn aml yn erbyn cynrychiolwyr etholedig. Rhaid inni sicrhau bod y cwynion hynny sydd yn gwynion o sylwedd yn destun ymchwiliad priodol, ond rwyf yn ymwybodol—a soniasoch am un enghraifft yn benodol—nad yw rhai cwynion yn hawdd eu datrys o ystyried yr egwyddorion a ddefnyddir i ymdrin â'r achosion hynny, a siarad yn ddiplomyddol. Byddaf yn ysgrifennu at yr ombwdsmon yn gofyn am ei farn a'i sylwadau cyffredinol am y modd yr ymdrinnir â chwynion o'r fath, a byddaf yn ysgrifennu at Peter ynghylch hynny.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwela'n nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, rwyf yn datgan bod y cynnig yn cael ei dderbyn.

Motion NDM4571 Nick Ramsay

The National Assembly for Wales:

- | | |
|---|---|
| <p>1. <i>Yn croesawu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth y DU i gywiro'r diffyg yn y gyllideb ac i adfer cyllid cyhoeddus cadarn;</i></p> <p>2. <i>Yn cydnabod sialensiau diweithdra sy'n deillio o'r dirwasgiad ac yn cefnogi dull gweithredu Llywodraeth y DU i flaenoriaethu meysydd gwariant sy'n hybu twf economaidd;</i></p> <p>3. <i>Yn croesawu disodli systemau budd-daliadau a chredydau treth ag un cynllun credyd cyffredin; ac</i></p> <p>4. <i>Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sefydlu corff annibynnol i adolygu holl wariant Llywodraeth y Cynulliad.</i></p> | <p>1. <i>Welcomes the steps taken by the UK Government to rectify the budget deficit and restore sound public finances;</i></p> <p>2. <i>Recognises the challenges of unemployment arising from the recession and supports the approach of the UK Government in prioritising areas of spending that fuel economic growth;</i></p> <p>3. <i>Welcomes the replacement of benefits and tax credits systems with one universal credit scheme; and</i></p> <p>4. <i>Calls on the Welsh Assembly Government to establish an independent body to review all Assembly Government expenditure.</i></p> |
|---|---|

Nick Ramsay: I move the motion.

I am pleased to be called to move this motion today. It welcomes the steps taken by the UK Government to rectify the budget deficit and restore sound public finances. We will be supporting the Liberal Democrat amendments.

I recognise that, this year, we are not looking at an easy budget for the Welsh Assembly Government. We are all faced with a tight settlement from Westminster, although I would point out that, per capita, Wales's budget will remain higher than regions in England, perhaps with the exception of London. Had no action on the deficit been taken, we would be paying £184 million every day in debt interest by the end of this Parliament. Had the Conservatives at Westminster—and indeed the Liberal Democrats—taken Alistair Darling's advice to simply halve the deficit in four years, an additional £100 billion in national debt would have been incurred. The alternative is to go on as we were before—to live beyond our means, which leads to more taxes, more borrowing and higher interest rates on the national debt. Point 1 of our motion therefore calls on the Welsh Assembly Government to welcome the UK Government's actions in rectifying the situation that we are in.

As we know, this is a rather better settlement than that which the Assembly Government had initially planned for. Thinking back, the Minister for Business and Budget predicted

Nick Ramsay: Cynigiau y cynnig.

Mae'n bleser gennyf gael fy ngalw i gynig y cynnig hwn heddiw. Mae'n croesawu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth y DU i gywiro'r diffyg yn y gyllideb ac i adfer cyllid cyhoeddus cadarn. Byddwn yn cefnogi gwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol.

Rwyf yn cydnabod nad ydym yn edrych ar gyllideb hawdd ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru eleni. Mae pob un ohonom yn wynebu setliad tynn gan San Steffan, er yr hoffwn nodi y bydd cyllideb Cymru, y pen, yn dal yn uwch na chyllidebau rhanbarthau yn Lloegr, ac eithrio Llundain efallai. Pe na bai camau wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r diffyg, byddem yn talu £184 miliwn bob dydd fel llog ar ddyledion erbyn i gyfnod y Senedd hon ddod i ben. Pe bai'r Ceidwadwyr yn San Steffan—ac yn wir y Democratiaid Rhyddfrydol—wedi gwrandao ar gyngor Alistair Darling i wneud dim ond haneru'r diffyg mewn pedair blynedd, byddai'r ddyled genedlaethol yn £100 biliwn yn ychwanegol. Yr opsiwn arall yw bwrw ymlaen fel yr oeddem cynt—byw y tu hwnt i'n gallu, sy'n arwain at drethi mwy, benthyca mwy a chyfraddau llog uwch ar y ddyled genedlaethol. Felly, mae pwynt 1 ein cynnig yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i groesawu camau gweithredu Llywodraeth y DU i gywiro'r sefyllfa sydd ohoni.

Fel y gwyddom, mae hwn yn setliad dipyn gwell na'r un roedd Llywodraeth y Cynulliad wedi cynllunio ar ei gyfer yn wreiddiol. O feddwl yn ôl, roedd y Gweinidog dros Fusnes

year-on-year reductions of 3 per cent in revenue and 10 per cent in capital, which translated into a real-terms cut of 16.5 per cent over three years. Instead, we are looking at Wales's budget falling by 11.6 per cent over four years—that is quite enough, but not as bad as was anticipated by the Government.

With this information, you start to extract some important differentiations. The Assembly Government had been planning for cuts of far more than the £500 million that we are currently looking at. I know in advance that there will be all sorts of arguments about why Wales has the worst settlement of any of the devolved nations—I am sure that that will be thrown back at me because the Government has been talking about that. However, let us be clear: Gerald Holtham has published an article today that explains the reason for that. It is a rather difficult and complicated reason, but it relates to how business rates are funded. Let us therefore put to rest this idea that Wales is somehow being disproportionately singled out to take a greater cut than would otherwise be the case.

I will give way to Alun Davies.

Alun Davies: Thank you for allowing this intervention. If you are going to quote Mr Holtham, the least that you should do is to quote him in full. If you were to do so, you would have to note that he says that, yes, there is the issue of domestic rates, but Wales is being treated differently to Scotland and Northern Ireland because it does not have sufficient clout around the Cabinet table. He says that clearly.

Nick Ramsay: Thank you for those comments; they were enlightening as usual, Alun. I do not see any of the things that you have just said in Gerry Holtham's excellent article.

4.10 p.m.

It is worth stressing that the previous Chancellor is not personally to blame for the

a'r Gyllideb wedi rhagweld 3 y cant o ostyngiadau o un flwyddyn i'r llall o ran refeniw, a 10 y cant mewn cyfalaf. Roedd hynny, mewn termau real, yn gyfystyr â thoriad o 16.5 y cant dros dair blynedd. Yn lle hynny, bydd cyllideb Cymru yn gostwng 11.6 y cant dros bedair blynedd—mae hynny'n hen ddigon, ond nid yw cyn waethed â'r hyn roedd y Llywodraeth wedi'i ragweld.

Gyda'r wybodaeth hon, mae rhywun yn dechrau dethol rhai gwahaniaethau pwysig. Roedd Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn cynllunio ar gyfer toriadau mwy o lawer na'r £500 miliwn rydym yn edrych arno ar hyn o bryd. Rwyf yn gwybod ymlaen llaw y bydd pob math o ddadleuon ynghylch pam Cymru sydd wedi cael y setliad gwaethaf o blith unrhyw un o'r gwledydd datganoledig—rwyf yn siŵr y bydd hynny'n cael ei daflu'n ôl ataf gan fod y Llywodraeth wedi bod yn sôn am hynny. Fodd bynnag, gadewch inni fod yn glir: heddiw, mae Gerald Holtham wedi cyhoeddi erthygl sy'n egluro'r rheswm am hynny. Mae'n rheswm anodd a chymhleth braidd, ond mae'n ymwneud â sut mae cyfraddau busnes yn cael eu hariannu. Gadewch inni felly anghofio'r syniad hwn bod Cymru rywsut yn cael ei dewis yn anghymesur i dderbyn toriad mwy nag y byddai'n ei gael fel arall.

Ildiaf i Alun Davies.

Alun Davies: Diolch ichi am ganiatáu'r ymyriad hwn. Os ydych yn mynd i ddyfynnu Mr Holtham, y peth lleiaf y dylech ei wneud yw ei ddyfynnu'n llawn. Pe baech yn gwneud hynny, byddai'n rhaid ichi nodi ei fod yn dweud bod ardrethi domestig yn un mater, ond fod Cymru yn cael ei thrin yn wahanol i'r Alban a Gogledd Iwerddon gan nad oes ganddi ddigon o ddylanwad o amgylch bwrdd y Cabinet. Mae'n dweud hynny'n glir.

Nick Ramsay: Diolch ichi am y sylwadau hynny; roeddent yn llawn gwybodaeth yn ôl yr arfer, Alun. Nid wyf yn gweld dim un o'r pethau rydych newydd eu dweud yn erthygl ragorol Gerry Holtham.

4.10 p.m.

Mae'n werth pwysleisio nad y cyn Ganghellor yn bersonol sydd ar fai am y

entire situation in which we find ourselves. In many ways, the discrepancy that we have spoken about with regard to business rates dates back to the early days of devolution. We could all recommend changes to the way in which Wales is funded in order to alleviate some of the problems. We, on this side of the Chamber, have consistently said that we want the Barnett formula reformed, and I know that the Government now takes that position as well.

It is vital that we create a new economic dynamism. We have to attract the big businesses of tomorrow, not just the big businesses of today. We have to plan for future businesses in our economy, not simply pay lip service to the types of business that we once had, which, if we are being realistic, will be difficult to encourage in the future. That will mean opening up access to finance, creating an attractive environment for venture capital funding, and getting banks to lend to small businesses again, which is vital. Hence, point 2 of the motion recognises the challenges of unemployment that arise from the recession, and supports the UK Government in dealing with them.

It is not all about cuts. The UK Government has cut corporation tax, it is getting rid of bureaucracy and controls, and it is proceeding with plans to deliver a new high-speed rail network—[*Interruption.*] It is the same old argument, is it not? [*Interruption.*]

Alun Davies *rose*—

The Deputy Presiding Officer: Order. He has not agreed to an intervention.

Nick Ramsay: I have not given way, yet, Alun.

I am disappointed about the situation regarding St Athan. I am disappointed that Metrix UK could not deliver the affordable, commercially robust proposal for the defence project. However, there has been a certain amount of playing at party politics on the other side of the Chamber, in that it does remain the preferred option for a training academy, and it is only Metrix UK's appointment as a preferred bidder that has

sefyllfa gyfan rydym ynndi. Mewn sawl ffordd, mae'r anghysondeb rydym wedi sôn amdano yng nghyswllt ardrethi busnes yn mynd yn ôl i ddyddiau cynnar datganoli. Gallai pob un ohonom argymhell newidiadau i'r ffordd y mae Cymru yn cael ei hariannu er mwyn lliniaru rhai o'r problemau. Rydym ni, ar yr ochr hon i'r Siambr, wedi dweud yn gyson ein bod am i fformiwla Barnett gael ei diwygio, a gwn mai dyna farn y Llywodraeth erbyn hyn hefyd.

Mae'n hollbwysig ein bod yn creu grym economaidd newydd. Rhaid inni ddenu busnesau mawr y dyfodol, nid dim ond busnesau mawr y presennol. Rhaid inni gynllunio ar gyfer y busnesau a fydd yn ein heconomi yn y dyfodol, nid dim ond esgus cefnogi'r mathau o fusnesau a oedd gennym unwaith. Yn realistig, bydd yn anodd hybu hynny yn y dyfodol. Bydd hynny'n golygu agor mynediad at gyllid, gan greu amgylchedd deniadol ar gyfer cyllid cyfalaf menter, a chael banciau i roi benthyg i fusnesau bach eto, sy'n hanfodol. Felly, mae pwynt 2 y cynnig yn cydnabod sialensiau diweithdra sy'n deillio o'r dirwasgiad, ac yn cefnogi Llywodraeth y DU i ymdrin â hwy.

Mae mwy iddi na dim ond toriadau. Mae Llywodraeth y DU wedi torri'r dreth gorfforaeth, yn cael gwared ar fiwrocraetiaeth a rheolaethau, ac yn bwrw ymlaen â'i chynlluniau i greu rhwydwaith rheilffordd cyflym iawn—[*Torri ar draws.*] Onid yr un hen ddadl yw hon? [*Torri ar draws.*]

Alun Davies *a gododd*—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Nid yw wedi cytuno i dderbyn ymyriad.

Nick Ramsay: Nid wyf wedi ildio eto, Alun.

Rwyf yn siomedig ynglŷn â sefyllfa Sain Tathan. Rwyf yn siomedig na allai Metrix UK gyflwyno'r cynnig fforddiadwy a masnachol gadarn ar gyfer y prosiect amddiffyn. Fodd bynnag, bu rhywfaint o chwarae gwleidyddiaeth plaid ar ochr arall y Siambr, gan mai dyma'r dewis a ffeirir ar gyfer academi hyfforddi o hyd, a dim ond penodiad Metrix UK fel yr ymgeisydd a ffeirir sydd wedi cael ei derfynu.

been terminated.

If we use the economic tools that are available to us, and perhaps a little more imagination, we have it within our grasp to effect real change and to create a more dynamic, prosperous and self-confident Wales. Our decision to reverse Labour's jobs tax on employers' national insurance contributions will save businesses in Wales around £140 million.

Inevitably, there are cuts to some programmes, and hikes in other areas. However, the real gamble would have been to do nothing—to allow the deficit to accumulate and to risk a serious loss of confidence. I suppose that, from that point of view, the Assembly Government is to be congratulated. As early as February 2009, the former Minister for finance, Andrew Davies, was warning that the years of plenty had come to an end. I remember being in the Chamber and hearing the former Minister for finance talk about the Assembly budget hitting a brick wall in a few years' time. That was back when the previous Government was still in power. Andrew Davies said that Wales was facing a very difficult financial environment, and that, without huge improvements in the public sector, future Assembly Governments could find themselves coming up against that brick wall in public spending from 2011. Despite that, we have ensured that the necessary cutbacks are fair, equitable and sustainable.

The third point of our motion welcomes the replacement of benefits and tax credits systems with a universal credit scheme. Although I know that the Assembly Government does not have responsibility for that as it has not been devolved, I feel that the idea should be supported. Under the UK Government's plans, £2 billion will be spent on replacing the current complex system of benefits with a new universal credit scheme and a single tapered payment.

Since 2000, welfare spending has risen by 45 per cent, and now accounts for a huge chunk of all Government spending. In the UK, 1.4 million people have remained on out-of-work

Os byddwn yn defnyddio'r adnoddau economaidd sydd ar gael inni, ac ychydig bach mwy o ddychymyg efallai, gallwn sicrhau newid go iawn a chreu Cymru fwy deinamig, ffyniannus a hunan-hyderus. Bydd ein penderfyniad i ddiddymu treth gwaith y blaid Lafur ar gyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr yn arbed tua £140 miliwn i fusnesau yng Nghymru.

Yn anochel, ceir toriadau mewn rhai rhaglenni, a chynnydd mewn meysydd eraill. Ond, byddai gwneud dim—gan ganiatáu i'r diffyg Gronni ac wynebu perygl o golli hyder difrifol—wedi bod yn gambl go iawn. Yn hynny o beth, mae'n debyg bod angen llongyfarch Llywodraeth y Cynulliad. Mor gynnar â mis Chwefror 2009, roedd Andrew Davies, y cyn Weinidog dros Gyllid, yn rhybuddio bod y blynyddoedd o ddigonedd wedi dod i ben. Rwyf yn cofio bod yn y Siambr a chlywed y cyn Weinidog dros Gyllid yn sôn am gyllideb y Cynulliad yn dod at faen tramgwydd ymhen ychydig flynyddoedd. Roedd hynny'n ôl pan oedd y Llywodraeth flaenorol yn dal mewn grym. Dywedodd Andrew Davies fod Cymru yn wynebu cyfnod ariannol anodd iawn, ac y gallai Llywodraethau nesaf y Cynulliad wynebu'r maen tramgwydd hwnnw o ran gwariant cyhoeddus o 2011 ymlaen, pe na bai gwelliannau mawr yn cael eu gwneud yn y sector cyhoeddus. Er gwaethaf hynny, rydym wedi sicrhau bod y toriadau angenrheidiol yn deg, yn gyfiawn ac yn gynaliadwy.

Mae trydydd pwynt eich cynnig yn croesawu disodli systemau budd-daliadau a chredydau treth ag un cynllun credyd cyffredin. Er fy mod yn gwybod nad yw Llywodraeth y Cynulliad yn gyfrifol am hynny gan nad yw wedi ei ddatganoli, rwyf yn teimlo y dylid cefnogi'r syniad. O dan gynlluniau Llywodraeth y DU, bydd £2 biliwn yn cael ei wario ar ddisodli'r system fudd-daliadau gymhleth sy'n bodoli ar hyn o bryd â chynllun credyd cyffredin newydd ac un taliad tapr.

Er 2000, mae gwariant ar les wedi codi 45 y cant, ac mae'n cyfrif am gyfran enfawr o holl wariant y Llywodraeth erbyn hyn. Yn y DU, mae 1.4 miliwn o bobl wedi cael budd-

benefits for nine or more of the last 10 years.

Brian Gibbons: Would you condemn the two previous Conservative Governments, whose spending on unemployment benefits and so on was in the order of 65 to 70 per cent above the level that was in place under the last Labour Government?

Nick Ramsay: It is sometimes easy to forget when listening to the Members opposite that we had a Labour Government for over 10 years. I will not talk about Governments that were in power before 1997 or those in power in the 1970s. It is a bit rich to even suggest that.

In Wales, one in six of the working population claims out-of-work benefits, 107,000 Welsh children live in households in which no-one works, and more than 6,500 young people aged between 16 and 24 are claiming incapacity benefit. While job losses caused by the recession hit Wales hard, structural weaknesses were already apparent.

The final point of our motion calls on the Welsh Assembly Government to establish an independent body to review all Assembly Government expenditure. The First Minister has asked my party to behave responsibly on the Welsh budget amid spending cuts, and my party is more than happy to agree to that and to work constructively where it is in Wales's interest. However, we will not sign up to policies if we think that the Government is making a mistake. If the First Minister wants cross-party consensus, we feel that the agreement of the Assembly Government to our calls for an independent body to review government expenditure would be a good way to proceed.

It was Nye Bevan who said that the religion of socialism is the language of priorities; unfortunately, at the moment, I feel that the language of priorities is being drowned out by the rhetoric of protest. It is vital that we establish an independent body to take a reasoned view of the inevitable cutbacks,

daliadau i bobl ddi-waith am naw mlynedd neu ragor o'r 10 mlynedd diwethaf.

Brian Gibbons: A fyddech yn condemnio'r ddwy Lywodraeth Geidwadol flaenorol, a oedd yn gwario oddeutu 65 i 70 y cant yn fwy na'r lefel a oedd ar waith o dan y Llywodraeth Lafur flaenorol ar fudd-daliadau diweithdra ac yn y blaen?

Nick Ramsay: Weithiau, wrth wrando ar yr Aelodau gyferbyn, mae'n hawdd anghofio ein bod wedi cael Llywodraeth Lafur am dros 10 mlynedd. Ni soniaf am Lywodraethau a fu mewn grym cyn 1997 nac am y rheini a oedd mewn grym yn yr 1970au. Byddai braidd yn hy awgrymu hynny hyd yn oed.

Yng Nghymru, mae un o bob chwech o'r boblogaeth sy'n gweithio yn hawlio budd-daliadau i bobl ddi-waith, mae 107,000 o blant Cymru yn byw mewn cartrefi lle nad oes neb yn gweithio, ac mae mwy na 6,500 o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed yn hawlio budd-dal analluogrwydd. Er bod colli swyddi yn dilyn y dirwasgiad wedi cael cryn effaith ar Gymru, roedd gwendidau strwythurol yn amlwg cyn hynny.

Mae pwynt olaf ein cynnig yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sefydlu corff annibynnol i adolygu holl wariant Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r Prif Weinidog wedi gofyn i fy mhlaid ymddwyn yn gyfrifol wrth drafod cyllideb Cymru yng nghanol toriadau gwariant, ac mae fy mhlaid yn fwy na pharod i gytuno i wneud hynny ac i weithio'n adeiladol pan fo hynny er budd Cymru. Fodd bynnag, ni fyddwn yn cytuno i bolisïau os ydym yn credu bod y Llywodraeth yn gwneud camgymeriad. Os yw'r Prif Weinidog yn dymuno cael consensws trawsbleidiol, yn ein tyb ni, pe bai Llywodraeth y Cynulliad yn cytuno â'n galwadau am gael corff annibynnol i adolygu gwariant y llywodraeth, byddai hynny'n ffordd dda o symud ymlaen.

Dywedodd Nye Bevan mai iaith blaenoriaethau yw sosialaeth; yn anffodus, ar hyn o bryd, rwyf yn teimlo bod yr iaith blaenoriaethau yn cael ei boddi gan rethreg protest. Mae'n hanfodol ein bod yn sefydlu corff annibynnol i edrych yn rhesymol ar y toriadau anochel, y mae pob plaid yma yn

which all parties here realise have to be made. As far as I can gather, the Assembly Government rejects the speed of the cuts but I do not think that it opposes the cuts themselves. We are all in this together, as they say. There is a serious situation that has to be addressed, and it is in the interest of all Assembly Members to treat the situation with the seriousness that it requires and send a joint message to the Government at Westminster that we will support it in taking the necessary action.

Gwelliant 1 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth amharodrwydd Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymateb i bwysau ar y gyllideb drwy ymchwilio i wastraff ac aneffeithlonrwydd yn ei chyllideb ei hun.

Gwelliant 2 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i fabwysiadu dull gweithredu adeiladol yn ei hymateb i benderfyniadau gan Lywodraeth y DU i gywiro'r diffyg gan osgoi gwrthwynebu dim ond er mwyn gwrthwynebu.

Peter Black: I move amendments 1 and 2.

I have always admired the Conservatives' ability to put their heads into the mouth of the lion, and I thank them for inviting me to join them there in this debate today. However, I hope to rise to the challenge, and I seek to join them in defending the settlement that we have at the moment.

I want to refer to the article by Gerry Holtham that Alun Davies referred to. The final paragraph of that article refers to the lesser influence that Wales has compared with the rest of the UK. However, the general point is that that is an historical issue rather than a specific one in relation to this coalition Government. He makes the point that Wales has few parliamentary seats, fewer marginal seats, and, of course, there is now a proposal to reduce the number of seats for Wales. His final point is apt, because he concludes by

sylweddoli ei bod yn rhaid eu gwneud. Mae Llywodraeth y Cynulliad i bob golwg yn gwrthod cyflymder y toriadau ond nid wyf yn credu ei bod yn gwrthwynebu'r toriadau eu hunain. Rydym i gyd yn y sefyllfa hon gyda'n gilydd, fel y maent yn ei ddweud. Ceir sefyllfa ddifrifol sy'n mynnu sylw, ac mae er budd holl Aelodau'r Cynulliad i drin y sefyllfa gyda'r difrifoldeb gofynnol ac anfon neges ar y cyd i Lywodraeth San Steffan y byddwn yn ei chefnogi i gymryd y camau angenrheidiol.

Amendment 1 Peter Black

Add as new point at end of motion:

Regrets the unwillingness of the Welsh Assembly Government to respond to budget pressures by investigating waste and inefficiency in its own budget.

Amendment 2 Peter Black

Add as new point at end of motion:

Calls on the Welsh Assembly Government to adopt a constructive approach in its responses to decisions by the UK government to rectify the deficit, avoiding opposition for opposition's sake.

Peter Black: Cynigiau welliannau 1 a 2.

Rwyf bob amser wedi edmygu gallu'r Ceidwadwyr i roi eu pennau yn safn y llew, a diolchaf iddynt am y gwahoddiad i ymuno â nhw yn y ddadl hon heddiw. Fodd bynnag, rwyf yn gobeithio ymateb i'r her, ac am geisio ymuno â hwy i amddiffyn y setliad sydd gennym ar hyn o bryd.

Hoffwn gyfeirio at erthygl Gerry Holtham y mae Alun Davies wedi cyfeirio ati. Mae paragraff olaf yr erthygl honno yn cyfeirio at y ffaith bod gan Gymru lai o ddylanwad o'i chymharu â gweddill y DU. Fodd bynnag, y pwynt cyffredinol yw mai mater hanesyddol yw hwnnw yn hytrach nag un penodol yng nghyswllt y Llywodraeth glymblaid hon. Mae'n gwneud y pwynt mai dim ond ychydig o seddi sydd gan Gymru yn y Senedd, a bod ganddi lai o seddi ymylol, heb anghofio y ceir cynnig yn awr i leihau nifer y seddi ar

saying that the longer that Wales complains about unfairness, the more firmly established its reputation will be as a collection of whingers. The requirement now is not for a better line in whingeing, but a plan to improve the situation by our own efforts.

That sums up the spirit of this motion and the amendments that the Welsh Liberal Democrats have tabled to it. As Nick Ramsay has already pointed out, the outcome of the comprehensive spending review was certainly better than had been anticipated by many people, particularly the One Wales Government. However, it was also better than if we had followed the plans of the previous Chancellor of the Exchequer, who planned cuts to Wales of around £3 billion over three or four years as opposed to the, I think, £1.8 billion that has come about. We must not forget why Wales is in this position. We have a £109 billion structural deficit, and an £800 billion debt that has to be paid off. I often hear the refrain of the First Minister that we are going too far, too fast, but the total cuts announced by the Chancellor of the Exchequer in the comprehensive spending review was less than the total of those planned by Alistair Darling over roughly the same period. Therefore, to argue that we are going too far, too fast is also to condemn the Chancellor of the previous Government, and we need to take note of that.

4.20 p.m.

We are, of course, facing a situation in which the interest on the debts that the UK has built up amounts to £120 million a day. That adds up to £44 billion a year, or three times the Assembly Government's budget. That puts it into context. We could not go on like that, and there had to be cuts. Anyone arguing that we did not have to have cuts and that Wales should have been exempt from them is living in cloud-cuckoo-land. For a large part of the debate conducted since the comprehensive spending review, that is precisely where many members of the One Wales Government have been residing. The public

gyfer Cymru. Mae ei bwynt olaf yn un priodol gan ei fod yn cloi drwy ddweud po fwyaf y bydd Cymru yn cwyno am annhegwch, y mwyaf y bydd ei henw am fod yn wlad llawn cwynwyr yn ennill ei blwyf. Y gofyniad erbyn hyn yw cael cynllun i wella'r sefyllfa drwy ein hymdrechion ein hunain, nid gwella ein gallu i gwyno.

Mae hynny'n crynhoi ysbryd y cynnig hwn a'r gwelliannau y mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi eu cyflwyno iddo. Fel y mae Nick Ramsay eisoes wedi'i nodi, roedd canlyniad yr adolygiad cynhwysfawr o wariant yn sicr yn well nag roedd llawer o bobl yn ei ddisgwyl, yn enwedig Llywodraeth Cymru'n Un. Fodd bynnag, roedd hefyd yn well na phetaem wedi dilyn cynlluniau Canghellor blaenorol y Trysorlys, a oedd wedi bwriadu cyflwyno oddeutu £3 biliwn o doriadau i Gymru dros dair neu bedair blynedd, yn hytrach na'r £1.8 biliwn, rwyf yn credu a gafwyd. Rhaid inni beidio ag anghofio pam mae Cymru yn y sefyllfa hon. Mae gennym ddiffyg strwythurol o £109 biliwn, a dyled o £800 biliwn y mae'n rhaid ei thalu. Rwyf yn aml yn clywed y Prif Weinidog yn mynnu ein bod yn mynd yn rhy bell, yn rhy gyflym, ond roedd cyfanswm y toriadau a gyhoeddwyd gan Canghellor y Trysorlys yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant yn llai na chyfanswm y rheini a fwriadwyd gan Alistair Darling dros yr un cyfnod fwy neu lai. Felly, mae dadlau ein bod yn mynd yn rhy bell yn rhy gyflym cystal â chondemnio Canghellor y Llywodraeth flaenorol, ac mae angen inni gymryd sylw o hynny.

4.20 p.m.

Rydym, wrth gwrs, yn wynebu sefyllfa lle mae'r llog ar y dyledion y mae'r DU wedi'u cronni yn cyrraedd hyd at £120 miliwn y dydd. Mae hynny'n gwneud £44 biliwn y flwyddyn, neu dair gwaith cyllideb Llywodraeth y Cynulliad. Mae hynny'n rhoi hyn mewn cyd-destun. Ni allem barhau felly, ac roedd yn rhaid cael toriadau. Mae unrhyw un sy'n dadlau nad oedd yn rhaid inni gael toriadau ac y dylai Cymru fod wedi cael ei heithrio rhag y toriadau hynny yn byw mewn byd arall. Am gyfnod helaeth o'r ddadl a gynhaliwyd ers yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, dyna'n union lle mae llawer o

understands that we have to do this.

Alun Davies *rose*—

Peter Black: Nick Ramsay has talked about the formula impacting the amount of money that Wales receives, and Gerry Holtham has explained that. However, we also have to bear in mind that Wales benefited more than many UK Government departments. Wales was not singled out in this review and fared better than many UK Government departments. We still have options: there is St Athan, we are still awaiting an announcement on the electrification of the railways, and there are still possibilities relating to the Severn estuary tidal power generation scheme. There are many opportunities that the One Wales Government could take up if it got its act together. I will give way to Alun Davies, but I hope that he will be brief as I am running out of time.

Alun Davies: Peter, you have a very optimistic view of the world. You seem to be saying that the Welsh Assembly Government is misleading people in some way. Why, therefore, do 57 per cent of people in Wales believe our version of the way in which these cuts are targeting our country, and not yours?

Peter Black: I would like to see your proof of that, Alun—

Darren Millar: Will you give way?

Peter Black: I am still responding to the first intervention. Alun, I think that you will find that the vast majority of people in Wales understand the reasons for the cuts. If you look at the details of the YouGov poll, you will see that that is the case.

Darren Millar: Some statistics have been referred to, Peter. Do you agree that it is wonderful to see the endorsement of the UK Government's policy on protecting health spending in the statistics recently published after a poll was taken in Wales?

aelodau Llywodraeth Cymru'n Un wedi bod yn byw. Mae'r cyhoedd yn deall ei bod yn rhaid inni wneud hyn.

Alun Davies *a gododd*—

Peter Black: Mae Nick Ramsay wedi sôn am y fformiwla sy'n effeithio ar faint o arian y mae Cymru yn ei gael, ac mae Gerry Holtham wedi egluro hynny. Fodd bynnag, rhaid inni hefyd gofio bod Cymru wedi elwa mwy na llawer o adrannau Llywodraeth y DU. Ni roddwyd sylw arbennig i Gymru yn yr adolygiad hwn, ac mae hi wedi dod ohoni'n well na llawer o adrannau Llywodraeth y DU. Mae gennym opsiynau o hyd: mae gennym Sain Tathan, rydym yn dal i ddisgwyl cyhoeddiad ynghylch trydaneiddio'r rheilffyrdd, a cheir posibilïadau o hyd ar gyfer cynllun cynhyrchu ynni llanw aber afon Hafren. Ceir llawer o gyfleoedd y gallai Llywodraeth Cymru'n Un fanteisio arnynt pe bai'n torchi ei llewys ac yn cael trefn ar bethau. Ildiaf i Alun Davies, ond gobeithio y bydd yn gryno gan fod fy amser yn brin.

Alun Davies: Peter, rydych yn edrych ar y byd mewn ffordd optimistig iawn. I bob golwg, rydych yn dweud bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn camarwain pobl mewn rhyw ffordd. Pam, felly, mae 57 y cant o bobl Cymru yn credu ein fersiwn ni o'r ffordd y mae'r toriadau hyn yn targedu ein gwlad, ac nid eich un chi?

Peter Black: Hoffwn weld tystiolaeth o hynny, Alun—

Darren Millar: A wnewch ildio?

Peter Black: Rwyf yn dal i ymateb i'r ymyriad cyntaf. Alun, rwyf yn credu y gwelwch fod y mwyafrif llethol o bobl yng Nghymru yn deall y rhesymau dros y toriadau. Os edrychwch ar fanylion y bleidlais ar YouGov, byddwch yn gweld bod hynny'n wir.

Darren Millar: Cyfeiriwyd at rai ystadegau Peter. O edrych ar ystadegau'r arolwg barn a gynhaliwyd yn ddiweddar yng Nghymru, a ydych yn cytuno ei bod yn braf gweld polisi Llywodraeth y DU ar ddiogelu gwariant ar iechyd yn cael ei gefnogi?

Peter Black: I have only about 30 seconds left, because I have taken some interventions, but I will quickly say that I think that it is right that Wales has benefited from the protection of health spending and from the increase in education spending, given how the Barnett formula is worked out. There is no doubt about that.

In summing up, the amendments have been tabled, and we need to eliminate waste and concentrate on getting things right for Wales. I hope that the Government can support these amendments.

The Deputy Presiding Officer: I have a list of 10 speakers, so I ask Members to stick to their allotted time so we can get through them all.

Mark Isherwood: The world financial crisis was not made in Downing Street. However, Labour's policies gave us the biggest bust. Six years ago, I warned the Assembly that if Gordon Brown kept increasing public spending faster than economic growth as more than a short-term measure, there would be a day of reckoning for us all. That is why the International Monetary Fund criticised the Treasury's approach to public finances and then called for fiscal consolidation, meaning spending cuts or tax increases in 2005—that is, long before the inevitable banking crash. Instead, Gordon Brown drove debt-driven growth to maintain the mirage of an end to boom and bust and delay the inevitable day of reckoning that is now causing so much pain. The UK now has the biggest peacetime budget deficit in a century. It is double any previous deficit, larger even than that of Greece and the largest of any major economy. The scale of the budget deficit resulted from Gordon Brown's light-touch regulatory regime, and the consequent cost of saving the banks. As the IMF warned, the UK's banking system was the most exposed to low-quality sub-prime lending in the world, and the UK, it said, would be the worst affected of all by the downturn.

Peter Black: Dim ond oddeutu 30 eiliad sydd gennyf ar ôl gan fy mod wedi derbyn ymyriadau, ond hoffwn ddweud yn gyflym fy mod yn meddwl, o ystyried sut mae fformiwla Barnett yn cael ei chyfrifo, ei bod yn briodol fod Cymru wedi elwa o'r trefniadau diogelu gwariant ar iechyd a chynyddu gwariant ar addysg. Nid oes amheuaeth am hynny.

I grynhoi, mae'r gwelliannau wedi cael eu cyflwyno, ac mae angen inni ddileu gwastraff a chanolbwyntio ar sicrhau bod y sefyllfa'n iawn i Gymru. Rwyf yn gobeithio y gall y Llywodraeth gefnogi'r gwelliannau hyn.

Y Dirprwy Lywydd: Mae gennyf restr o 10 siaradwr, felly gofynnaf i'r Aelodau gadw at eu hamser er mwyn inni allu clywed pob un ohonynt.

Mark Isherwood: Nid yn Stryd Downing y cychwynnodd argyfwng ariannol y byd. Fodd bynnag, polisiâu'r blaid Lafur roddodd y glec fwyaf inni. Chwe mlynedd yn ôl, rhybuddiais y Cynulliad pe bai Gordon Brown yn parhau i gynyddu gwariant cyhoeddus yn gyflymach na thwf economaidd fel mwy na mesur tymor byr, y byddai pob un ohonom yn gorfod wynebu dydd y farn. Dyna pam y bu i'r Gronfa Ariannol Gydwladol feirniadu dull y Trysorlys o ymdrin ag arian o'r pwr cyhoeddus ac yna galw am gyfuno ariannol. Roedd hynny'n golygu naill ai gwneud toriadau mewn gwariant neu gynyddu trethi, a hynny yn 2005. Roedd hynny ymhell cyn cwmp anochel y banciau. Yn hytrach, bu Gordon Brown yn parhau i hybu twf drwy ddyled er mwyn cynnal y rhithlun bod y cyfnod o lwyddiant a methiant yn dod i ben ac i arafu'r llwybr at ddydd y farn nad oedd modd ei osgoi ac sydd bellach yn achosi cymaint o boen. Erbyn hyn, gan y DU y mae'r diffyg cyllidebol mwyaf mewn cyfnod o heddwch mewn canrif. Mae'n ddwywaith cymaint ag unrhyw ddiffyg blaenorol, yn fwy hyd yn oed na diffyg Gwlad Groeg, a'r mwyaf o blith unrhyw economi fawr. Deilliodd maint y diffyg yn y gyllideb o drefn reoleiddio gymedrol Gordon Brown, a chost achub y banciau yn dilyn hynny. Fel y rhybuddiodd y Gronfa Ariannol Gydwladol, drwy'r byd i gyd, system fancio'r DU oedd y mwyaf agored i fentyca eilaidd o safon isel,

a dywedodd mai ar y DU y byddai'r dirywiad yn effeithio fwyaf.

Last year, the Government borrowed £1 in every £4 that it spent. The UK is already paying an unsustainable £43 billion every year in debt interest alone. That is money that goes to foreign creditors to help to pay for their schools and hospitals, rather than our own. The IMF has described the UK's deficit reduction plans as essential to support our debt position, and said that it supports a balanced recovery. The Bank of England governor told the TUC conference in September that he challenged those who opposed the spending cuts to come up with an alternative. After all, Ed Miliband has already made £33 billion-worth of spending commitments and pledged to meet Alistair Darling's £44 billion deficit plan, which he has described as his starting point. Therefore, Labour cuts or tax rises would be almost identical in amount to those announced by the UK coalition Government. *[Interruption.]* That is what your leader says. The Welsh Government's settlement was better than the UK average and better than the Welsh Government had expected.

The UK coalition Government has recognised the concerns expressed by the Holtham commission on the system of devolution funding. It has announced additional rail funding for Wales and plans to simplify radically the existing benefits system through the creation of a new universal credit to tackle Labour's barriers to work in the tax and benefit system and ensure that it always pays to work. It has announced that the winter fuel allowance and free bus passes and television licences for 75-year-olds are all protected. It has made the temporary increases to cold weather payments permanent. It has targeted increased support at low-income families by using savings from withdrawing the child benefit from families that have a higher rate taxpayer.

Y llynedd, benthycodd y Llywodraeth £1 am bob £4 a wariodd. Mae'r DU eisoes yn talu swm anghynaliadwy o £43 biliwn bob blwyddyn mewn llog ar ddyledion yn unig. Mae hwnnw'n arian sy'n mynd i gredydwr mewn gwledydd tramor, i helpu i dalu am eu hysgolion a'u hysbytai hwy, yn hytrach na'n rhai ni. Mae'r Gronfa Ariannol Gydwladol wedi dweud bod cynlluniau lleihau diffyg y DU yn hanfodol er mwyn cefnogi ein sefyllfa o safbwynt dyled, ac wedi dweud ei fod yn cefnogi adferiad cytbwys. Dywedodd llywodraethwr Banc Lloegr yng nghynhadledd Cyngres yr Undebau Llafur ym mis Medi ei fod yn herio'r rheini a oedd yn gwrthwynebu'r toriadau gwariant i ddod o hyd i ddewis arall. Wedi'r cyfan, mae Ed Miliband eisoes wedi gwneud gwerth £33 biliwn o ymrwymadau gwariant ac wedi addo ateb gofynion cynllun diffyg £44 biliwn Alistair Darling, a ddisgrifiwyd ganddo fel man cychwyn. Felly, pe bai'r blaidd Lafur yn cyflwyno toriadau neu'n cynyddu trethi, byddai swm y rheini'n union yr un fath â'r rheini a gyhoeddwyd gan Lywodraeth glymblaid y DU. *[Torri ar draws.]* Dyna ddywed eich arweinydd. Roedd setliad Llywodraeth Cymru yn well na'r setliad cyffredinol ar gyfer y DU ac yn well na'r hyn roedd Llywodraeth Cymru wedi ei ddisgwyl.

Mae Llywodraeth glymblaid y DU wedi cydnabod y pryderon a fynegwyd gan gomisiwn Holtham ynghylch y system ariannu ar ôl datganoli. Mae wedi cyhoeddi cyllid ychwanegol ar gyfer rheilffyrdd Cymru a chynlluniau i fynd ati'n radical i symleiddio'r system fudd-daliadau bresennol drwy greu system credyd cyffredin newydd i fynd i'r afael â rhwystrau Llafur rhag gwaith yn y system dreth a budd-daliadau, a sicrhau ei bod yn talu i weithio bob amser. Mae wedi cyhoeddi y bydd y lwfans tanwydd gaeaf, tocynnau bws am ddim a thrwyddedau teledu i bobl 75 oed a hŷn yn cael eu gwarchod. Mae wedi gwneud y cynnydd dros dro mewn taliadau tywydd oer yn barhaol. Mae wedi targedu rhagor o gefnogaeth i deuluoedd ar incwm isel drwy ddefnyddio'r arbedion a wnaed wrth beidio â chynnig budd-dal plant i deuluoedd sydd â threthdalwr cyfradd uwch.

It has signed a contract with south Wales-based General Dynamics UK to deliver the specialist vehicle for the British army. The demonstration phase alone is worth £500 million. It has confirmed contracts for RAF tanker aircraft, with Airbus Broughton making the wings. It has abolished Labour's job tax, scrapped regulation, cut corporation tax, raised income tax thresholds for millions, and lifted 800,000 people out of having to pay tax altogether, with more to come. It has created a new enterprise allowance to get small firms up and running, providing support for the unemployed to set up their own businesses, and announced plans for a new work programme that will give people the tailored support that they need. Further, following UK Government criticism of weak lending, UK banks have established a £1.5 billion fund to invest in small businesses.

The Centre for Economics and Business Research has stated that the UK is not heading for a double-dip recession—but Wales is in a mess. After 11 years of Labour-led devolved Welsh Government, now propped up by Plaid Cymru, Wales has the lowest prosperity levels measured by goods and services produced among the 12 UK nations and regions. The Welsh Conservatives would abolish business rates for all small businesses in Wales that have a rateable value of less than £12,000; introduce a clear manufacturing strategy to safeguard jobs and support the creation of new high-tech businesses; and create a powerful new business partnership council to listen to the views of businesses and advise Government on economic policy. Wales must embrace enterprise, aspiration and entrepreneurial spirit alongside compassion if it is to climb the economic league table once again.

Rhodri Morgan: When Nick Ramsay began this debate, he quoted Nye Bevan on the language of priorities. I want to quote from a distinguished Conservative past politician,

Mae wedi llofnodi contract gyda General Dynamics UK yn y de i gyflwyno'r cerbyd arbenigol ar gyfer byddin Prydain. Mae'r cyfnod arddangos yn unig yn werth £500 miliwn. Mae wedi cadarnhau contractau ar gyfer awyrennau tancer yr Awyrlu Brenhinol, ac Airbus Brychdyn fydd yn gwneud yr adenydd. Mae wedi diddymu treth gwaith y blaid Lafur, wedi cael gwared ar reoliadau, wedi torri'r dreth gorfforaeth, wedi codi'r trothwy'r dreth incwm ar gyfer miliynau, ac wedi creu sefyllfa lle nad oes yn rhaid i 800,000 o bobl dalu treth yn gyfan gwbl, gyda mwy i ddod. Mae wedi creu lwfans menter newydd i roi cwmnïau bach ar ben ffordd, gan ddarparu cefnogaeth i bobl ddi-waith sefydlu eu busnesau eu hunain. Mae hefyd wedi cyhoeddi cynlluniau ar gyfer rhaglen waith newydd a fydd yn rhoi i bobl y cymorth wedi'i deilwra y mae ei angen arnynt. Ar ben hyn, yn dilyn beirniadaeth Llywodraeth y DU o fenthyca gwan, mae banciau'r DU wedi creu cronfa gwerth £1.5 biliwn i fuddsoddi mewn busnesau bach.

Mae'r Ganolfan ar gyfer Ymchwil Busnes ac Economeg wedi nodi nad yw'r DU yn mynd i gyfeiriad dirwasgiad dwbl—ond mae'r sefyllfa yn llanastr yng Nghymru. Ar ôl 11 mlynedd o Lywodraeth Cymru ddatganoledig o dan arweiniad Llafur, law yn llaw â Phlaid Cymru erbyn hyn, Cymru sydd â'r lefelau ffyniant isaf yn ôl mesuriadau ar gyfer y nwyddau a'r gwasanaethau a gynhyrchir, a hynny o blith 12 gwlad a rhanbarth y DU. Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn dileu ardrethi busnes ar gyfer yr holl fusnesau bach yng Nghymru sydd â gwerth ardrethol llai na £12,000; yn cyflwyno strategaeth glir ar gyfer gweithgynhyrchu er mwyn diogelu swyddi a chefnogi'r gwaith o greu busnesau newydd sy'n flaengar ym maes technoleg; ac yn creu cyngor partneriaeth busnes newydd pwerus i wrando ar safbwyntiau busnesau ac i gynghori'r Llywodraeth ynghylch polisiau economaidd. Rhaid i Gymru goleddu mentergarwch, dyheadau ac ysbryd entrepreneuriaid yn ogystal â thrugaredd os yw am ddringo tabl cynghrair yr economi unwaith eto.

Rhodri Morgan: Pan ddechreuodd Nick Ramsay y ddadl hon, dyfynnodd eiriau Nye Bevan ar iaith blaenoriaethau. Rwyf am ddyfynnu geiriau gwleidydd Ceidwadol

who was Prime Minister half a century ago, Harold MacMillan, when he said:

‘We have never had it so good.’

That was in 1959. Do you know what the national debt was relative to GDP at that time? It was 150 per cent: twice as high as it is now. So, there are double standards at play here. The Conservatives say that it is okay if you have a Conservative Prime Minister, but not okay if you have a Labour Prime Minister. Then, they say, ‘Shock, horror—the debt is far too high’. [*Interruption.*]

The Deputy Presiding Officer: Are you taking interventions?

Rhodri Morgan: No, not for a moment, but I will if I have time. Therefore, they are trying to persuade everybody of this approach through this propaganda effort of saying 1,000 times between now and Christmas that these cuts are all down to the previous Government blah-di-blah-di-blah, in the hope that they will all get a Christmas card from David and Samantha Cameron at No. 10 Downing Street. In fact, let us be clear that the criticisms that have been levelled at the Government’s speed of making cuts by Nobel prize-winning economist after Nobel prize-winning economist—Daniel McFadden, Eric Maskin, Paul Krugman, Joseph Stiglitz and the new British Nobel prize-winning economist Christopher Pissarides—are all that it is economically illiterate. They have all ‘condemned’ the Government that shares that name. Danny Blanchflower, who is Cardiff educated but not a Nobel prize-winner, has also said that it is the level of demand in the economy that should determine how quickly you implement your cuts and not the other way round as is being done by the Con-Dem Government in London, which has been condemned so much by every single Nobel prize-winning economist who has looked at the British way, under the current Government, of trying to reduce the cuts.

disglair o'r gorffennol, a oedd yn Brif Weinidog hanner canrif yn ôl, sef Harold MacMillan, pan ddywedodd:

Nid ydym erioed wedi ei chael hi mor dda.

Roedd hynny ym 1959. Mewn perthynas â chynnyrch mewnwladol crynswth, wyddoch chi beth oedd y ddyled genedlaethol bryd hynny? Roedd yn 150 y cant: sef dwywaith mor uchel ag yr ydyw heddiw. Felly, ceir safonau dwbl yn y fan hon. Mae'r Ceidwadwyr yn dweud ei bod yn iawn os oes gennych Brif Weinidog Ceidwadol, ond nad yw'n iawn os oes gennych Brif Weinidog Llafur. Yna, maent yn dweud, 'Och a gwae—mae'r ddyled yn rhy uchel o lawer' [*Torri ar draws.*]

Y Dirprwy Lywydd: A ydych yn derbyn ymyriadau?

Rhodri Morgan: Na, nid ar hyn o bryd, ond gwnaf os bydd gennyf amser. Felly, maent yn ceisio dwyn perswâd ar bawb ynghylch yr ymagwedd hon drwy ddweud 1,000 o weithiau rhwng nawr a'r Nadolig mai'r Lywodraeth flaenorol sy'n gyfrifol am y toriadau hyn i gyd ac yn y blaen ac yn y blaen, yn y gobaith y byddant i gyd yn cael cerdyn Nadolig gan David a Samantha Cameron yn Rhif 10 Stryd Downing. Yn wir, gadewch inni fod yn glir fod yr holl feirniadaethau ynghylch pa mor gyflym y mae'r Llywodraeth yn gwneud toriadau—beirniadaethau gan economegwyr sydd wedi ennill gwobr Nobel, un ar ôl y llall, sef Daniel McFadden, Eric Maskin, Paul Krugman, Joseph Stiglitz a Christopher Pissarides, yr economegydd o Brydain sydd newydd ennill gwobr Nobel—i gyd yn mynnu eu bod yn economaidd anllythrennog. Maent i gyd wedi 'condemnio' y Llywodraeth sy'n rhannu'r enw hwnnw. Mae Danny Blanchflower, a addysgwyd yng Nghaerdydd ond nad yw wedi ennill gwobr Nobel, hefyd wedi dweud mai lefel y galw yn yr economi a ddylai benderfynu pa mor gyflym y dylid gweithredu toriadau ac nid i'r gwrthwyneb, fel sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llundain. Mae'r Llywodraeth honno wedi cael ei chondemnio'n fawr iawn gan bob un economegydd sydd wedi ennill gwobr Nobel sydd wedi edrych ar ffordd Prydain o

weithio, o dan y Llywodraeth bresennol, am geisio lleihau'r toriadau.

The motion calls for an independent body to review the present budget because they do not have the guts to tell us about their cuts. They want this independent body to come around to say, 'That is the cut that we propose', because they do not have the guts to tell us what cuts they would be proposing.

Mae'r cynnig yn galw am gorff annibynnol i adolygu'r gyllideb bresennol oherwydd nad oes ganddynt ddigon o asgwrn cefn i ddweud wrthym am eu toriadau. Maent am i'r corff annibynnol hwn ddod yn ôl a dweud, 'Dyna'r toriad rydym yn ei gynnig', gan nad oes ganddynt ddigon o asgwrn cefn i ddweud wrthym pa doriadau y byddent yn eu cynnig.

4.30 p.m.

This is not a welfare-to-work agenda that is being proposed by the Government. If you had a contract with the citizens that stated, 'We will create jobs and then you must be willing to fill them', you could understand it. However, this states, 'We will take away the jobs and then we will penalise you for not being able to find them'—and they will not be able to find them. Every time the Government says that these cuts are fair, the body on which it has always relied in the past—the Institute for Fiscal Studies—has said that, unfortunately, they are regressive. The IFS does not want to get involved in party politics, so it does not say that they are unfair, but we know that the word 'regressive' means 'unfair'; that is, that there will be a much worse impact on the poor than the well-off. If you move from areas of expensive housing, like London, because you cannot afford the housing benefit, to areas with cheaper housing—people move from Kensington, Chelsea and Westminster to Blaenau Gwent and Merthyr Tydfil because they will then be able to afford the housing benefit—you are moving further away from the jobs. That is not a welfare-to-work agenda; it is a work-to-welfare agenda. Therefore, the Government has completely got the policy wrong on that. [*Interruption.*]

4.30 p.m.

Nid agenda o fudd-dal i waith yw hon sy'n cael ei chynnig gan y Llywodraeth. Pe bai gennych gontract gyda'r dinasyddion sy'n datgan, 'Byddwn yn creu swyddi ac yna mae'n rhaid ichi fod yn barod i'w llenwi', gallech ddeall hynny. Fodd bynnag, mae hyn yn datgan, 'Byddwn yn cael gwared ar y swyddi ac yn eich cosbi am beidio â gallu dod o hyd iddynt'—ac ni fyddant yn gallu dod o hyd iddynt. Bob tro y mae'r Llywodraeth yn dweud bod y toriadau hyn yn deg, mae'r corff y mae wedi dibynnu arno bob amser yn y gorffennol—y Sefydliad Astudiaethau Cyllid—wedi dweud, yn anffodus, fod y toriadau'n gam yn ôl. Nid oes ar y Sefydliad Astudiaethau Cyllid eisiau cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth plaid, felly nid yw'n dweud eu bod yn annheg, ond gwyddom fod 'cam yn ôl' yn golygu 'annheg'; hynny yw, y bydd yr effaith yn waeth o lawer ar bobl dlawd nag ar bobl gefnog. Os byddwch yn symud o ardaloedd lle ceir tai drud, fel Llundain, oherwydd nad ydych yn gallu fforddio'r budd-dal tai, i ardaloedd sydd â thai rhatach—bydd pobl yn symud o Kensington, Chelsea a San Steffan i Flaenau Gwent ac i Ferthyr Tudful gan y byddant wedyn yn gallu fforddio'r budd-dal tai—rydych yn symud yn bellach oddi wrth y swyddi. Nid agenda o fudd-dal i waith yw honno; agenda gwaith i fudd-dal ydy hi. Felly, mae'r Llywodraeth wedi cael y polisi'n gwbl anghywir yn hynny o beth. [*Torri ar draws.*]

The Deputy Presiding Officer: Order. Are you taking any interventions?

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A ydych yn derbyn unrhyw ymyriadau?

Rhodri Morgan: No, I will finish now. When you hear the Secretary of State, Cheryl Gillan, saying, as she seeks to endorse or sell

Rhodri Morgan: Nac ydw, byddaf yn gorffen yn awr. Pan fyddwch yn clywed Cheryl Gillan, yr Ysgrifennydd Gwladol, yn

these proposals, that the Government will make the private sector bigger, you also hear that all that she proposes is to make the public sector smaller. You do not make the private sector bigger by making the public sector smaller. As PricewaterhouseCoopers has said, if you take away all of those public sector jobs in places like Wales, you take away a lot of demand in the economy on which private sector jobs depend. That is why it has given this estimate of over 51,000 jobs in Wales to be lost as a result of the cuts that the administration in Westminster is bringing in. It is a terrible proposal condemned by every Nobel-prize-winning economist who has looked at it and has nothing to commend it at all.

Jonathan Morgan: I am delighted to welcome this debate and to welcome the fact that we have, at long last, a UK Government that values the need to put our country on a sound financial footing. In 1997, the Labour Party—when Rhodri Morgan was still a Member of Parliament—had it relatively easy. It inherited an economy that was growing. It had money to spend—there was money in the bank when the new Chancellor walked through the doors of 11 Downing Street. It was able to fulfil many of the spending promises that were part of its manifesto commitments. Labour had it absolutely easy in 1997. [*Interruption.*] The former First Minister can shout ‘rubbish’, but he knows that it is true.

In 1997, we saw a Labour Party that claimed to understand public finance and claimed that it saw the need to stick to the previous Conservative Government’s spending pledges—the need for prudence, in the words of the then Chancellor of the Exchequer. However, we now see a Labour Party that claims that the financial problems that the new UK Government has inherited are based on a worldwide recession and the action of the banks. It wants us and the people of Wales to forget—to somehow develop a

dweud—wrth iddi geisio cymeradwyo neu werthu'r cynigion hyn—y bydd y Llywodraeth yn gwneud y sector preifat yn fwy, byddwch hefyd yn clywed mai'r unig beth y mae hi'n ei gynnig yw gwneud y sector cyhoeddus yn llai. Nid ydych yn gwneud y sector preifat yn fwy drwy wneud y sector cyhoeddus yn llai. Fel mae PricewaterhouseCoopers wedi'i ddweud, os byddwch yn cymryd ymaith holl swyddi'r sector cyhoeddus mewn lleoedd fel Cymru, rydych yn cymryd ymaith lawer o alw yn yr economi—galw y mae swyddi yn y sector preifat yn dibynnu arnynt. Dyna pam mae wedi rhoi'r amcangyfrif hwn y bydd dros 51,000 o swyddi yng Nghymru yn cael eu colli o ganlyniad i'r toriadau sy'n cael eu cyflwyno gan weinyddiaeth San Steffan. Mae'n gynnig ofnadwy sy'n cael ei gondemnio gan bob economegydd sydd wedi ennill gwobr Nobel sydd wedi edrych arno. Nid oes ganddynt ddim oll i'w gymeradwyo ynddo.

Jonathan Morgan: Rwyf yn falch iawn o groesawu'r ddadl hon ac o groesawu'r ffaith bod gennym, o'r diwedd, Lywodraeth y DU sy'n rhoi gwerth ar yr angen i roi ein gwlad ar sylfaen ariannol gadarn. Ym 1997, pan oedd Rhodri Morgan yn dal yn Aelod Seneddol, roedd pethau'n gymharol hawdd i'r blaid Lafur. Etifeddodd economi a oedd yn tyfu. Roedd ganddi arian i'w wario—roedd arian yn y banc pan gerddodd y Canghellor newydd drwy ddrysau 11 Stryd Downing. Roedd yn gallu cyflawni llawer o'r addewidion gwariant a oedd yn rhan o ymrwymadau ei maniffesto. Roedd pethau'n hawdd iawn i'r blaid Lafur ym 1997. [*Torri ar draws.*] Digon hawdd i'r cyn Brif Weinidog weiddi 'lol', ond mae'n gwybod ei fod yn wir.

Ym 1997, gwelsom blaid Lafur a oedd yn honni ei bod yn deall cyllid cyhoeddus ac yn honni ei bod yn gweld yr angen i gadw at addewidion gwariant y Llywodraeth Geidwadol flaenorol—yr angen i fod yn bwylllog, fel y dywedodd Canghellor y Trysorlys ar y pryd. Fodd bynnag, mae gennym bellach blaid Lafur sy'n honni bod y problemau ariannol y mae Llywodraeth newydd y DU wedi'u hetifeddu yn seiliedig ar ddirwasgiad byd-eang a gweithredoedd y banciau. Mae am i bobl Cymru anghofio—

collective amnesia—that the UK overdraft was going horribly out of control before the recession and the banking problems occurred. We were going massively overdrawn at a time when the UK economy was growing, which shows a Labour Government at the start of the rot. It was Labour going back to its roots with the unavoidable temptation to revert to type, to demonstrate its customary incompetence with public money, leaving us with a debt interest rate payment of £120 million per day. That is why the UK Government is right to tackle this so swiftly: to stop the rot, to prevent future generations having to pay for the failure of your party in Government.

At some point this afternoon one of you should apologise to the people of Wales for the mess that this country has been left in. As usual, Labour incompetent with public money, leaving office with unemployment higher than when it came in and running out of other people's money—customarily reverting to type. That is what we saw with your party in Government. The question for us and the Assembly Government is: how do we react? Do we merely whinge about the situation in which we find ourselves—sadly, the First Minister has, in recent days, been leading the whingers' chorus—or do we heed the advice of Gerry Holtham? Peter Black referred to the article in which Gerry Holtham's words were quoted. The requirement now is not for a better line in whingeing, but for a plan to improve the situation by our own efforts. I have printed a response to the article—I do not know if this is from the individual that I am thinking of, but it is from someone called Jeff Jones. It may be the Jeff Jones who used to be the Labour leader of Bridgend County Borough Council, or it could be another Jeff Jones; my guess is that it is Labour's Jeff Jones. His opening line says that it is an article that should be read by every politician who has been peddling 'Wales, the victim' nonsense in the past few weeks. This is from one of your colleagues. In his response, he endorses what Gerry Holtham said in this article—*[Interruption.]*

neu ddileu ambell beth o'u cof rhywsut neu'i gilydd—fod gorddrafft y DU yn mynd allan o reolaeth yn ddychrynlyd cyn y dirwasgiad a'r problemau gyda'r banciau. Roeddem yn llithro i orddrafft enfawr ar adeg pan oedd economi'r DU yn tyfu, sy'n dangos mai Llywodraeth Lafur oedd wrth wraidd pethau pan oeddent yn dechrau mynd yn ddrwg. Roedd yn enghraifft o'r blaid Lafur yn mynd yn ôl at ei gwreiddiau gyda'r temtasiwn anochel i fynd yn ôl i'r hen ffordd, a dangos ei hanallu arferol i ymdrin ag arian cyhoeddus, gan ein gadael gyda chyfradd llog o £120 miliwn ar ein dyledion bob dydd. Dyna pam mae Llywodraeth y DU yn gwneud y peth iawn yn mynd i'r afael â hyn mor gyflym: yn atal pethau rhag mynd yn waeth ac yn atal cenedlaethau'r dyfodol rhag gorfod talu am fethiant eich plaid yn y Llywodraeth.

Ar ryw adeg y prynhawn yma dylai un ohonoch ymddiheuro i bobl Cymru am y llanastr y mae'r wlad hon wedi cael ei adael ynddo. Yn ôl yr arfer, nid oedd Llafur yn ddigon cymwys i ymdrin ag arian cyhoeddus. Gadawodd y wlad gyda lefelau diweithdra uwch na phan ddaeth i rym a hynny ar ôl gorffennu gwario arian pobl eraill—gan fynd yn ôl i'r hen ffordd. Dyna beth welsom pan oedd eich plaid chi yn y Llywodraeth. Y cwestiwn i ni ac i Lywodraeth y Cynulliad yw: sut mae ymateb? Gwneud dim ond cwyno am y sefyllfa rydym ynddi—yn anffodus, mae'r Prif Weinidog, yn ystod y dyddiau diwethaf, wedi bod yn arwain côr y cwynwyr—ynteu gwranddo ar gyngor Gerry Holtham? Cyfeiriodd Peter Black at yr erthygl lle dyfynnir geiriau Gerry Holtham. Y gofyniad yn awr yw cael cynllun i wella'r sefyllfa drwy ein hymdrechion ein hunain, yn hytrach na gwella ein gallu i gwyno. Rwyf wedi argraffu ymateb i'r erthygl—nid wyf yn gwybod ai oddi wrth yr unigolyn yr wyf fi'n meddwl amdano y mae'r erthygl, ond mae'n dod gan rywun o'r enw Jeff Jones. Efallai mai'r Jeff Jones a oedd yn arfer bod yn arweinydd Llafur Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ydyw, neu efallai mai Jeff Jones arall ydyw; rwyf fi'n dyfalu mai Jeff Jones Llafur ydyw. Mae ei linell agoriadol yn dweud y dylai'r erthygl gael ei darllen gan bob gwleidydd fu'n sôn am y lol 'Cymru, y wlad sydd wedi dioddef' dros yr wythnosau diwethaf. Mae hyn yn dod gan rywun o'r un

blaid â chi. Yn ei ymateb, mae'n ategu'r hyn a ddywedodd Gerry Holtham yn yr erthygl hon—*[Torri ar draws.]*

The Deputy Presiding Officer: Order. I am very interested in what Jeff Jones said, so can you please be quiet?

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae gennyf gryn ddiddordeb yn yr hyn y mae Jeff Jones wedi'i ddweud, felly a fydddech cystal â bod yn dawel?

Jonathan Morgan: I am going to leave Jeff Jones out of it from here on in, but I suggest that the Labour Party should read what he said. Gerry Holtham has hit the nail on the head: there is a perception among some people that Members of this Chamber like to whinge, and that the easy thing for the Welsh Assembly Government to do is to play the victim, say that it is someone else's fault and provide no response. We need to look proactively at what we do. We have an economic renewal programme, which, although in part is good, lacks focus in other parts. We need to see the Government being more proactive as a business-friendly Government to encourage entrepreneurship and the niche markets of the future that will provide for our economic performance. We need to see a Government starting to attract interest from companies developing outside the UK to look at Wales as a viable place to invest. If Labour believes that Wales should continue to be a part of the UK, we need to share the burden but also the success that that will bring as we turn the corner.

Jonathan Morgan: Rwyf yn mynd i hepgor Jeff Jones o hyn ymlaen, ond awgrymaf y dylai'r blaid Lafur ddarllen yr hyn a ddywedodd. Mae Gerry Holtham wedi taro'r hoelen ar ei phen: mae ambell un o'r farn bod Aelodau'r Siambr hon yn hoffi cwyno, ac mai'r peth hawdd i Lywodraeth Cynulliad Cymru ei wneud yw chwarae rhan y dioddefwr, gan roi'r bai ar rywun arall a pheidio ag ymateb. Mae angen inni edrych yn rhagweithiol ar yr hyn rydym yn ei wneud. Mae gennym raglen adnewyddu'r economi, sydd, er yn rhannol yn dda, yn brin o ffocws mewn rhannau eraill. Mae angen inni weld y Llywodraeth yn bod yn fwy rhagweithiol fel Llywodraeth sy'n ystyriol o fusnesau, gan hybu entrepreneuriaeth a marchnadoedd arbenigol y dyfodol a fydd yn darparu ar gyfer ein perfformiad economaidd. Mae angen inni weld y Llywodraeth yn dechrau denu diddordeb cwmnïau sy'n datblygu y tu allan i'r DU i edrych ar Gymru fel lle hyfyw i fuddsoddi. Os yw Llafur yn credu y dylai Cymru barhau i fod yn rhan o'r DU, mae angen inni rannu'r baich yn ogystal â'r llwyddiant a fydd yn deillio o hynny wrth inni droi'r gornel.

Chris Franks: I was intrigued by Nick Ramsay's comments regarding electrification. I am not sure if he is privy to information, but I would be pleased to give way if he has a statement confirming what he said. I see that he obviously does not.

Chris Franks: Roedd sylwadau Nick Ramsay ynghylch trydaneiddio yn destun chwilfrydedd imi. Nid wyf yn siŵr a oes ganddo wybodaeth, ond byddwn yn falch o ildio os oes ganddo ddatganiad yn cadarnhau'r hyn a ddywedodd. Gwelaf yn amlwg nad oes.

The spending review will comprehensively decimate the capital spending that is so important in stimulating the Welsh economy. Capital funding is what we need to build schools and hospitals and to invest in public transport—all things that Members opposite constantly cry out for. This building work creates jobs and, therefore, stimulates the economy. Although we already know that thousands of public sector jobs will go, the

Bydd yr adolygiad o wariant yn lleihau'n fawr y gwariant cyfalaf sydd mor bwysig yn y gwaith o hybu economi Cymru. Mae angen cyllid cyfalaf arnom i adeiladu ysgolion ac ysbytai ac i fuddsoddi mewn trafndiaeth gyhoeddus—yr holl bethau y mae'r Aelodau gyferbyn yn gweiddi amdanynt yn gyson. Mae'r gwaith adeiladu hwn yn creu swyddi ac, felly, yn rhoi hwb i'r economi. Er ein bod eisoes yn gwybod y bydd miloedd o swyddi

cuts to capital spending—a real terms cut of 11 per cent in Wales over four years—mean that private sector jobs also face the axe. Would Members opposite like to comment on the expert opinion of the Chartered Institute of Personnel and Development, which estimates that the private sector will lose most because of the UK Government's policies? It told the Treasury Select Committee yesterday that the rise in VAT to 20 per cent in January will cost 0.25 million posts. Further research by the institute has found that around 900,000 jobs will be lost from the private sector, with another 725,000 jobs to be cut across the public sector in the UK. The institute's chief economist said that the full impact of the coalition Government's planned fiscal tightening has been understated.

The Tories are threatening to drag us back into recession in Wales by cutting too fast and too deep, especially on capital. We should learn the lessons of history. Contraction in public expenditure slows the economy, puts a brake on growth and leads to a slowdown in GDP growth. Debt as a percentage of that GDP, therefore, rises. Public expenditure creates growth—

The Deputy Presiding Officer: Order. Will you take an intervention?

Chris Franks: Yes.

4.40 p.m.

Mark Isherwood: You referred to history, but you will recall the early 1990s, when it was rampant interest rates that forced us back into recession. It was only after the exit from the European exchange rate mechanism, when interest rates fell, that a 16-year recovery kicked off. Do you recognise that, since the CSR announcement, the UK has the lowest Government interest rates for nearly 30 years and that we have retained our AAA rating, which, if lost, would have forced interest rates up and killed recovery?

yn y sector cyhoeddus yn diflannu, mae'r toriadau mewn gwariant cyfalaf—mewn termau real, toriad o 11 y cant yng Nghymru dros bedair blynedd—yn golygu bod swyddi yn y sector preifat o dan fygythiad hefyd. A fyddai'r Aelodau gyferbyn yn hoffi rhoi sylwadau ar farn arbenigol y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu, sy'n amcangyfrif mai'r sector preifat fydd fwyaf ar ei golled oherwydd polisïau Llywodraeth y DU? Dywedodd wrth Bwyllgor Dethol y Trysorlys ddoe y bydd cynyddu TAW i 20 y cant ym mis Ionawr yn arwain at gollu 0.25 miliwn o swyddi. Mae ymchwil pellach gan y sefydliad wedi darganfod y bydd oddeutu 900,000 o swyddi'n diflannu o'r sector preifat, ac y bydd 725,000 o swyddi eraill yn diflannu ar draws y sector cyhoeddus yn y DU. Dywedodd prif economegydd y sefydliad nad yw effaith lawn bwriad y Llywodraeth glymblaid i dynhau materion cyllidol wedi cael ei mynegi'n llawn.

Mae'r Toriaid yn bygwth ein llusgo yn ôl i ddirwasgiad yng Nghymru drwy gyflwyno gormod o doriadau yn rhy gyflym, yn enwedig o ran cyfalaf. Dylem ddsygu gwersi o'n hanes. Mae cyfyngu gwariant cyhoeddus yn arafu'r economi, yn atal twf ac yn arwain at arafu twf cynnyrch mewnwladol crynswth. Mae dyled, fel canran o'r cynnyrch mewnwladol crynswth hwnnw, felly yn codi. Mae gwariant cyhoeddus yn creu twf—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A ydych yn fodlon derbyn ymyriad?

Chris Franks: Ydw.

4.40 p.m.

Mark Isherwood: Cyfeiriasoch at hanes, ond byddwch yn cofio'r 1990au cynnar, pan mai cyfraddau llog afreolus wnaeth ein gorfodi i fynd yn ôl i ddirwasgiad. Dim ond ar ôl gadael mecanwaith cyfraddau cyfnewid Ewrop, pan ddisgynnodd y cyfraddau llog, y dechreuodd y cyfnod adfer o 16 mlynedd. A ydych yn cydnabod, ers y cyhoeddiad ynghylch yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, fod cyfraddau llog Llywodraeth y DU yn is nag y buont am 30 mlynedd bron, a'n bod wedi cadw ein statws AAA, a fyddai, o'i gollu, wedi gorfodi'r cyfraddau llog i godi ac wedi rhoi diwedd ar yr adferiad yn llwyr?

Chris Franks: It is astonishing for a Conservative to remind us of the early 1990s. I remember when mortgage rates went up to 15 per cent. I am shocked that you would remind people about that. I am also shocked that Tory AMs have the nerve to support the Government in London's devastating attack on our nation's communities. What is truly insulting to our communities is the implication that the Conservative and Lib Dem plans should be welcomed by the people of Wales. How will AMs opposite be able to look people in the eye when they ask why they lost their jobs?

It is useful to remind ourselves of two constituencies. Research from the House of Commons has shown that in Cardiff North—

Brian Gibbons: Will you take an intervention?

Chris Franks: I am sorry, but I will not. Of all jobs in Cardiff North, 22,000, or 48 per cent, are in the public sector, which is the highest proportion in Wales, closely followed by Rhondda, where it is 41 per cent. That shows that these expenditure cuts are putting all our communities at risk. It is doubly disappointing that the 10,000 public sector workers employed by Rhondda Cynon Taf County Borough Council, a Labour council, have effectively been locked out. Those workers were told that, unless they accepted reduced terms and conditions, they faced the risk of being made redundant. The current lockout has completely undermined the Labour-run authority.

Brian Gibbons *rose*—

The Deputy Presiding Officer: Order. He is not taking any interventions.

Chris Franks: I am sorry. Mark took up all of my time.

It is essential that we have the powers to build our own economy and economic strategy. Until we have the levers and pulleys

Chris Franks: Mae'n rhyfeddol clywed aelod o'r blaidd Geidwadol yn ein hatgoffa o'r 1990au cynnar. Cofiaf adeg pan gododd cyfraddau morgeisi i 15 y cant. Rwyf yn synnu y byddech yn atgoffa pobl am hynny. Rwyf hefyd yn synnu bod yr Aelodau Cynulliad Torïaidd mor eofn â chefnogi ymosodiad dinistriol y Llywodraeth yn Llundain ar gymunedau ein gwlad. Yr hyn sy'n wirioneddol sarhad ar ein cymunedau yw'r awgrym y dylai pobl Cymru groesawu cynlluniau'r Ceidwadwyr a'r Democratiaidd Rhyddfrydol. Sut y bydd Aelodau'r Cynulliad gyferbyn yn gallu edrych i lygaid pobl pan fyddant yn gofyn pam maent wedi colli eu swyddi?

Mae'n ddefnyddiol inni atgoffa ein hunain am ddwy etholaeth. Mae ymchwil gan Dŷ'r Cyffredin wedi dangos bod Gogledd Caerdydd—

Brian Gibbons: A wnewch dderbyn ymyriad?

Chris Franks: Mae'n ddrwg gennyf, ond na wna. O'r holl swyddi yng Ngogledd Caerdydd, mae 22,000, neu 48 y cant, yn y sector cyhoeddus, sef y gyfran uchaf yng Nghymru, i'w dilyn yn agos gan y Rhondda, lle mae'r ganran yn 41 y cant. Mae hynny'n dangos bod y toriadau hyn mewn gwariant yn rhoi ein holl gymunedau mewn perygl. I ychwanegu at y siom honno, mae'r 10,000 o weithwyr sector cyhoeddus sy'n cael eu cyflogi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf—cyngor Llafur—wedi cael eu gwthio allan i bob pwrpas. Dywedwyd wrth y gweithwyr hynny eu bod yn wynebu risg o gael eu diswyddo oni bai eu bod yn derbyn telerau ac amodau llai ffafriol. Mae hyn wedi tansilio'r awdurdod sy'n cael ei redeg gan y blaidd Lafur yn llwyr.

Brian Gibbons *a gododd*—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Nid yw'n derbyn unrhyw ymyriadau.

Chris Franks: Mae'n ddrwg gennyf. Rwyf wedi treulio fy holl amser ar Mark.

Mae'n hanfodol bod gennym y pwerau i adeiladu ein heconomi a'n strategaeth economaidd ein hunain. Nes bod gennym yr

that will enable us to create our entire economic policy here, we will continue to suffer terrible consequences.

Mohammad Asghar: Thank you, Deputy Presiding Officer, for the opportunity to contribute to this important and timely debate. When the new coalition Government came into power back in May, it was faced with the challenge of the largest budget deficit in the G20. Estimates suggest that the figure stands at £155 billion—[AN ASSEMBLY MEMBER: ‘Hang on.’]

The Deputy Presiding Officer: Order. I do not want anyone shouting ‘Hang on’ from their chair. Does anyone wish to make a gentlemanly intervention? Will you take an intervention, Mohammad Asghar?

Mohammad Asghar: No. Estimates suggest that the figure stands at £155 billion, the largest in our peacetime history. I think that Mr Rhodri Morgan must remember that. The new Government was also faced with a note from Liam Byrne, the former Chief Secretary to the Treasury, saying that there was ‘no money left’.

The previous administration lacked prudence. Instead, it embarked on a spending spree that has left the country in mammoth levels of debt. In the run up to the last UK general election, the European Commission said that the Labour Party’s proposals for dealing with the deficit were not ambitious enough. For those reasons and because of the precarious financial position in which the country found itself, it cannot be disputed that tackling the deficit head-on had to be a big priority for the new UK Government. If no action was taken, interest repayments alone would leap from £120 million to £184 million each and every day of the year.

The UK Government has prioritised spending in a way that should lease life into the private sector and drive economic growth. New Welsh businesses, like all those outside London and south-east England, will be exempt from national insurance contributions for the first 10 employees that they hire. The

adnoddau a’r offer i’n galluogi i greu ein polisi economaidd cyfan yma, byddwn yn parhau i ddiodeff canlyniadau ofnadwy.

Mohammad Asghar: Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd am y cyfle i gyfrannu at y drafodaeth bwysig ac amserol hon. Pan ddaeth y Llywodraeth glymblaid newydd i rym yn ôl ym mis Mai, roedd yn wynebu’r sialens o fod â’r diffyg mwyaf yn y gyllideb o blith gwledydd y G20. Mae’r amcangyfrifon yn awgrymu bod y ffigur yn £155 biliwn—[AELOD O’R CYNULLIAD: ‘Un funud.’]

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Nid oes arnaf eisiau clywed neb yn gweiddi ‘Un funud’ o’u cadair. A oes unrhyw un yn dymuno gwneud ymyriad cwrtais? A wnewch dderbyn ymyriad, Mohammad Asghar?

Mohammad Asghar: Na wna. Mae’r amcangyfrifon yn awgrymu bod y ffigur yn £155 biliwn, y swm mwyaf mewn cyfnod o hanes heddychlon. Rwyf yn meddwl ei bod yn rhaid i Mr Rhodri Morgan gofio hynny. Roedd yn rhaid i’r Llywodraeth newydd wynebu nodyn gan Liam Byrne hefyd, cyn Brif Ysgrifennydd y Trysorlys, a oedd yn dweud nad oedd ‘dim arian ar ôl’.

Nid oedd llawer o ddarbodaeth yn perthyn i’r weinyddiaeth flaenorol. Yn hytrach, dechreuodd wario fel y mynnai gan adael y wlad mewn dyledion anferthol. Yn y cyfnod yn arwain at etholiad cyffredinol diwethaf y DU, dywedodd y Comisiwn Ewropeaidd nad oedd cynigion y blaid Lafur ar gyfer ymdrin â’r diffyg yn ddigon uchelgeisiol. Am y rhesymau hynny, ac oherwydd sefyllfa ariannol ansicr y wlad, ni ellir dadlau ei bod yn rhaid i Lywodraeth newydd y DU fynd i’r afael â’r diffyg yn uniongyrchol fel un o’i phrif flaenoriaethau. Pe na byddai dim camau’n cael eu cymryd, byddai ad-daliadau llog yn unig yn neidio o £120 miliwn i £184 miliwn bob dydd o’r flwyddyn.

Mae Llywodraeth y DU wedi blaenoriaethu gwariant mewn ffordd a ddylai roi bywyd i’r sector preifat a sbarduno twf economaidd. Bydd busnesau newydd yng Nghymru, fel pob un arall y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr, yn cael eu heithrio rhag gorfod talu cyfraniadau yswiriant gwladol ar

First Minister has already welcomed this development, describing it as very helpful when I raised it with him in June. The UK Government has also reversed Labour's jobs tax. That is expected to save Welsh businesses around £140 million. Such steps will help to create conditions in which businesses can thrive and help to ensure that our economy, which has become too reliant on a bloated level of public spending, can flourish. Chief executives from 35 counties' leading businesses have already praised the Government's approach to the deficit, and have spoken of the renewed confidence that it will give the business sector in Wales and the United Kingdom as a whole. As they have said in their letter, failure to tackle this budget deficit properly and effectively would mean additional borrowing every year, higher national debt, and higher spending on interest payments. Wales has the second highest level of public sector employment of the UK nations, and, in May, the Institute of Directors highlighted how, in dealings with the Welsh Assembly Government, there was suspicion of the private sector and of the role of profit—that was, unfortunately, apparently not confined to junior staff. We must move away from that, and the UK Government's approach will ensure that businesses have new opportunities to thrive.

Of course, the financial climate means that difficult decisions need to be made and we face a number of challenges in Wales. However, it must be remembered that the Welsh Assembly Government faces a smaller cut to its budget than it was expecting. We are also to take a far smaller cut than the average for UK Government departments. Public spending per head is also to remain higher in Wales than in any region in England, except London.

What is essential now is that an independent budget review takes place. That has happened in Scotland, as we know, and it offered an independent, impartial analysis of the budget for debate, with a number of independent recommendations proposed and put forward. A thorough and independent analysis—

gyfer y 10 gweithiwr cyntaf y byddant yn ei gyflogi. Mae'r Prif Weinidog eisoes wedi croesawu'r datblygiad hwn, gan ei ddisgrifio fel defnyddiol iawn pan godais y pwynt ag ef ym mis Mehefin. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi diddymu treth gwaith y blaid Lafur. Disgwylir y bydd busnesau Cymru yn arbed tua £140 miliwn yn sgîl hynny. Bydd camau o'r fath yn helpu i greu amodau i fusnesau lwyddo ac yn helpu i sicrhau bod ein heconomi, sydd wedi mynd yn rhy ddibynnol ar lefel chwyddedig o wariant cyhoeddus, yn ffynnu. Mae prif weithredwyr busnesau arweiniol o 35 o siroedd eisoes wedi canmol dull y Llywodraeth o fynd i'r afael â'r diffyg, ac wedi sôn am yr hyder newydd y bydd yn ei roi i'r sector busnes yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig drwyddi draw. Fel y maent wedi'i ddweud yn eu llythyr, byddai peidio â mynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb yn briodol ac yn effeithiol yn golygu benthyca mwy bob blwyddyn, dyled genedlaethol uwch, a gwario mwy ar daliadau llog. O holl wledydd y DU, gan Gymru y mae'r lefel ail uchaf o gyflogaeth yn y sector cyhoeddus, ac, ym mis Mai, dangosodd Sefydliad y Cyfarwyddwyr fod amheuaeth ynglŷn â'r sector preifat a rôl elw wrth ymdrin â Llywodraeth Cynulliad Cymru—nad oedd, yn anffodus, yn gyfyngedig i'r staff iau. Rhaid inni symud oddi wrth hynny, a bydd dull gweithredu Llywodraeth y DU yn sicrhau bod busnesau yn cael cyfleoedd newydd i ffynnu.

Wrth gwrs, mae'r hinsawdd ariannol yn golygu bod angen gwneud penderfyniadau anodd a'n bod yn wynebu nifer o sialensiau yng Nghymru. Fodd bynnag, rhaid cofio bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn wynebu toriad llai yn ei chyllideb nag yr oedd yn ei ddisgwyl. Byddwn hefyd yn cael toriad llai o lawer na'r cyfartaledd ar gyfer adrannau Llywodraeth y DU. Bydd gwariant cyhoeddus y pen hefyd yn aros yn uwch yng Nghymru nag yn unrhyw ranbarth yn Lloegr, heblaw Llundain.

Yr hyn sy'n hanfodol yn awr yw bod adolygiad annibynnol o'r gyllideb yn cael ei gynnal. Mae hynny wedi digwydd yn yr Alban, fel y gwyddom, ac roedd yn cynnig dadansoddiad diduedd ac annibynnol o'r gyllideb i'w drafod, gyda nifer o argymhellion annibynnol yn cael eu cynnig

a'u cyflwyno. Mae dadansoddiad trylwyr ac annibynnol—

The Deputy Presiding Officer: I am sorry, but your time is up.

Y Dirprwy Lywydd: Mae'n ddrwg gennyf, ond mae eich amser ar ben.

Ann Jones: The Conservative motion and the amendments tabled to it seem to be devoid of any substance. It is clear that the Welsh Conservatives and their Lib Dem helpers are embarrassed by the actions of the UK Government, as the people of Wales continue to see through the flimsy argument of returning the country to what they call sound finances.

Ann Jones: I bob golwg, nid oes unrhyw sylwedd yn perthyn i gynnig y Ceidwadwyr nac i'r gwelliannau a gyflwynwyd iddo. Mae'n amlwg bod gan y Ceidwadwyr Cymreig a'u cynorthwywyr o blaid y Democratiaid Rhyddfrydol gywilydd o gamau gweithredu Llywodraeth y DU, wrth i bobl Cymru barhau i weld drwy'r ddadl simsan o fynd â'r wlad yn ôl i sefyllfa a elwir ganddynt yn sefyllfa ariannol gadarn.

Is a Government that actively pursues risks to our growth seeking sound finances? Does forcing up to 1.6 million people in the private and public sector out of work create sound finances? Does a cuts programme and a benefits system that ignores the circumstances of women and disabled people represent anything remotely sound for the future of Wales and the UK?

A yw Llywodraeth sy'n mynd ati i beryglu ein twf yn ceisio sicrhau sefyllfa ariannol gadarn? A yw gorfodi hyd at 1.6 miliwn o bobl yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus i golli eu gwaith yn creu sefyllfa ariannol gadarn? A yw rhaglen doriadau a system fudd-daliadau sy'n anwybyddu amgylchiadau menywod a phobl anabl yn cynrychioli unrhyw beth tebyg i sefyllfa gadarn ar gyfer dyfodol Cymru a'r DU?

Nick Bourne: I am grateful to Ann for her characteristic courtesy in taking an intervention. Would she accept that the deficit had to be dealt with? It is not avoidable. If she does accept that, how would she have dealt with it?

Nick Bourne: Rwyf yn ddiolchgar i Ann am ei chwarteisi nodweddiadol yn derbyn ymyriad. A fyddai'n derbyn ei bod yn rhaid mynd i'r afael â'r diffyg? Ni ellir ei osgoi. Os yw'n derbyn hynny, sut y byddai hi wedi mynd i'r afael ag ef?

Ann Jones: Of course we accept that, but it is the ideology of how you deal with it—to cut as you are cutting, with a programme that ignores the circumstances of women and disabled people in particular, does not represent sound finances. The reason why the opposition parties have used such vague language in this motion is because the vast majority of their concrete policies flounder. We are addressing the specifics of the UK spending review. The awful cheering from the Government benches at Westminster that we witnessed during the debate on the spending review showed precisely why the specifics have been dodged and brushed over by the politicians, who are pushing forward a programme that will wreak havoc in the Vale of Clwyd and across Wales.

Ann Jones: Rydym yn derbyn hynny, wrth gwrs, ond mae sut yr ydych yn mynd i'r afael ag ef yn fater o ideoleg—nid yw cyflwyno toriadau fel rydych chi'n ei wneud, gyda rhaglen sy'n anwybyddu amgylchiadau menywod a phobl anabl yn benodol, yn cynrychioli sefyllfa ariannol gadarn. Y rheswm pam mae'r gwrthbleidiau wedi defnyddio iaith mor annelwig yn y cynnig hwn yw am fod y mwyafrif helaeth o'u polisïau concred yn methu. Rydym yn rhoi sylw i fanylion adolygiad o wariant y DU. Roedd y bloeddio ofnadwy a welsom o feinciau'r Llywodraeth yn San Steffan yn ystod y ddadl ynghylch yr adolygiad o wariant yn dangos yn union pam mae'r manylion penodol wedi cael eu hosgoi a'u diystyru gan y gwleidyddion, sy'n bwrw ymlaen â rhaglen a fydd yn creu llastr yn Nyffryn Clwyd a ledled Cymru.

The rabid pursuit of deficit reduction is fundamentally changing the role of the state in this country, and it is not just Labour politicians who are saying this.

Darren Millar *rose*—

Ann Jones: I will make a few more points, and then come back to you in a minute.

The Deputy Presiding Officer: You can sit down, Darren.

Ann Jones: Shelter UK's chief executive said that the Westminster Government 'has firmly turned its back on those most impacted by our affordable housing crisis'.

4.50 p.m.

The director of Scope Cymru told the UK Government that:

'Disabled people must not be pushed even further backwards in our society by the pursuit of deficit reduction.'

The Institute for Fiscal Studies stated that the tax and benefit changes are regressive, rather than progressive.

Darren Millar: Thank you for taking the intervention, Ann. You mentioned the fact that job losses are likely to occur, and your constituency and mine have a significantly higher number of public sector workers than the average. Do you join me in supporting our party's calls to protect the health budget, particularly given that there is a significantly sized hospital in your constituency? Will you be calling upon the Minister for Health and Social Services and the Assembly Government to do that?

Ann Jones: I am glad that you recognise that my constituency, along with yours, will suffer from the cuts that your party has announced. My representations will be made through the budget, and I will make my representations to the Minister for Business and Budget and to any other Minister during

Mae mynd ati'n wyllt i leihau'r diffyg yn newid swyddogaeth y wladwriaeth yn y wlad hon yn sylfaenol, ac nid dim ond gwleidyddion y blaid Lafur sy'n dweud hyn.

Darren Millar *a gododd*—

Ann Jones: Byddaf yn gwneud ychydig o bwyntiau eraill ac yna dof yn ôl atoch mewn munud.

Y Dirprwy Lywydd: Gallwch eistedd i lawr, Darren.

Ann Jones: Dywedodd prif weithredwr Shelter yn y DU fod Llywodraeth San Steffan wedi troi ei chefn go iawn ar y rheini y mae ein hargyfwng tai fforddiadwy yn effeithio fwyaf arnynt.

4.50 p.m.

Dywedodd cyfarwyddwr Scope Cymru wrth Lywodraeth y DU:

Ni ddylai pobl anabl gael eu gwthio hyd yn oed yn bellach i'r cefndir yn ein cymdeithas wrth fynd ati i leihau'r diffyg.

Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi dweud bod y newidiadau o ran treth a budd-daliadau yn gam yn ôl yn hytrach na cham ymlaen.

Darren Millar: Diolch ichi am dderbyn yr ymyriad, Ann. Soniasoch am y ffaith bod pobl yn debygol o golli eu swyddi, ac mae gan eich etholaeth chi a minnau dipyn mwy o weithwyr sector cyhoeddus na'r cyffredin. A wnewch ymuno â mi i gefnogi galwadau ein plaid i amddiffyn y gyllideb iechyd, yn enwedig o ystyried bod ysbyty o faint sylweddol yn eich etholaeth? A fyddwch yn galw ar y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Llywodraeth y Cynulliad i wneud hynny?

Ann Jones: Rwyf yn falch eich bod yn cydnabod y bydd fy etholaeth i, ynghyd â'ch un chi, yn dioddef yn sgîl y toriadau y mae eich plaid wedi eu cyhoeddi. Bydd fy sylwadau'n cael eu cyflwyno drwy'r gyllideb, a byddaf yn gwneud fy sylwadau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb ac i

the budget process.

Nick Clegg described the Institute for Fiscal Studies, the IFS, as speaking 'distorted nonsense'. However, it seems that he is perhaps confusing his fs and ds, because, looking at his comments about Merthyr, IDS—Iain Duncan Smith—is undoubtedly speaking distorted nonsense. I am sure that many Liberal voters will be deflated by today's arguments and the amendments to the debate.

For a party that has lectured us so much about housing, it now shows a blind indifference to the injustice of the housing benefit cuts. The true scale of that has been revealed by my colleague Lynne Neagle today, and I am horrified by the number of people who are set to lose out as a result of this extraordinary attack by the state on families.

Peter Black: Will you acknowledge that the Labour manifesto pledged to reform housing benefit so as not to subsidise people to live in private-sector accommodation at rents that working families cannot afford? That is almost precisely what the UK Government is doing.

Ann Jones: I do not think that that sounds like what you are doing. Let me tell you how many families in my constituency will lose out as a result of this housing benefit cut: 250 three-bedroomed households in Denbighshire will see £48 a month disappear, 750 two-bedroomed households will see £40 a month disappear, and 980 one-bedroomed households will see £24 a month disappear. Tell those families that that is sound finances and that it is fair.

The wider cost of unemployment is also staggering. The Office for Budget Responsibility has already estimated that the extra burden in welfare benefit amounts to £700 million. That is as a direct consequence of a comprehensive spending review that we now know is likely to put roughly 1.6 million people out of work. In today's debate, I hear

unrhyw Weinidog arall yn ystod proses y gyllideb.

Dywedodd Nick Clegg fod y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, yr IFS, yn siarad 'nonsens camarweiniol'. Fodd bynnag, ymddengys ei fod o bosibl yn drysu rhwng y llythyren f a d oherwydd, o edrych ar ei sylwadau am Ferthyr, mae IDS—Iain Duncan Smith—yn sicr yn siarad nonsens camarweiniol. Rwyf yn siŵr y bydd gwranddo ar ddadleuon heddiw ac ar y gwelliannau i'r ddadl wedi tynnu'r gwynt o hwyliau nifer o bleidleiswyr Rhyddfrydol heddiw.

I blaid sydd wedi pregethu cymaint am dai, mae'n dangos difaterwch go iawn yn awr tuag at anghyfiawnder y toriadau mewn budd-dal tai. Mae Lynne Neagle, fy nghyd-Aelod, wedi dangos gwir raddfa hynny heddiw, ac mae faint o bobl fydd ar eu colled o ganlyniad i'r ymosodiad rhyfeddol hwn gan y wladwriaeth ar deuluoedd yn fy nychryn.

Peter Black: A wnewch gydnabod bod maniffesto'r blaid Lafur wedi addo diwygio budd-dal tai er mwyn peidio â rhoi cymhorthdal i bobl fyw mewn llety sector preifat am renti nad oes modd i deuluoedd sy'n gweithio eu fforddio? Dyna'n union bron beth y mae Llywodraeth y DU yn ei wneud.

Ann Jones: Nid wyf yn credu bod hynny'n swnio fel yr hyn rydych yn ei wneud. Gadewch imi ddweud wrthyf faint o deuluoedd yn fy etholaeth fydd ar eu colled o ganlyniad i'r toriad hwn mewn budd-dal tai: bydd 250 o gartrefi gyda thair ystafell wely yn sir Ddinbych £48 ar eu colled bob mis, bydd 750 o gartrefi gyda dwy ystafell wely £40 ar eu colled bob mis, a bydd 980 o gartrefi un ystafell wely £24 ar eu colled bob mis. Dywedwch wrth y teuluoedd hynny bod honno'n sefyllfa ariannol gadarn a'i bod yn deg.

Mae cost ehangach diweithdra yn syfrdanol hefyd. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb dros Gyllidebau eisoes wedi amcangyfrif bod y baich ychwanegol o ran budd-daliadau lles yn £700 miliwn. Mae hynny'n deillio'n uniongyrchol o adolygiad cynhwysfawr o wariant y gwyddom bellach ei bod yn debygol y bydd oddeutu 1.6 miliwn o bobl yn

the opposition parties call for some sort of Welsh OBR. Do you not trust the Finance Committee, chaired by Angela Burns, to carry out robust scrutiny?

The Deputy Presiding Officer: Your time is up.

Ann Jones: I did take two interventions.

The Deputy Presiding Officer: I know, but I am just warning you that your time is up.

Ann Jones: Finally, is it not the job of elected Assembly Members to carry out robust scrutiny? I am interested to know how you have now become in favour of quangos.

The Deputy Presiding Officer: I remind Members that when you take interventions, we allow some time for that. However, we cannot allow time for every intervention; otherwise, we would have only one speaker all day.

Brian Gibbons: I was surprised that in deciding on the subject of today's debate the Welsh Conservatives decided to choose the comprehensive spending review. Indeed, many parts of the motion welcome the implications of the CSR, although it is a harsh and a brutal budget in anyone's judgment. One would have expected that most political parties with any compassion would have approached this particular CSR with a sense of reluctance and regret. However, the Welsh Conservatives in their contributions today have approached it with relish and have revelled in its implications. They are totally unrepentant about what this CSR is all about, which is to cut the state down to size in the interests of political dogma: have no doubt about that.

There is no doubt that there is a big deficit, which must be addressed. However, if we are to address the nature of this deficit, then we need to have a correct understanding of where the deficit comes from. Those of us

colli eu gwaith yn ei sgîl. Yn y ddadl heddiw, rwyf yn clywed y gwrthbleidiau'n galw am ryw fath o Swyddfa Cyfrifoldeb dros Gyllidebau ar gyfer Cymru. Onid ydych yn ymddiried yn y Pwyllgor Cyllid, sy'n cael ei gadeirio gan Angela Burns, i fynd ati i graffu'n dda?

Y Dirprwy Lywydd: Mae eich amser ar ben.

Ann Jones: Rwyf wedi derbyn dau ymyriad.

Y Dirprwy Lywydd: Rwyf yn gwybod, ond rwyf yn eich rhybuddio bod eich amser ar ben.

Ann Jones: Yn olaf, onid gwaith Aelodau etholedig y Cynulliad yw mynd ati i graffu'n dda? Hoffwn wybod pam eich bod o blaid cwangos erbyn hyn.

Y Dirprwy Lywydd: Hoffwn atgoffa'r Aelodau, pan fyddwch yn derbyn ymyriadau, ein bod yn caniatáu rhywfaint o amser ar gyfer hynny, ond ni allwn ganiatáu amser ar gyfer pob ymyriad; fel arall, dim ond un person fyddai'n siarad drwy'r dydd.

Brian Gibbons: Roeddwn yn synnu bod y Ceidwadwyr Cymreig wedi dewis yr adolygiad cynhwysfawr o wariant wrth benderfynu ar bwnc y ddadl heddiw. Yn wir, mae sawl rhan o'r cynnig yn croesawu goblygiadau'r adolygiad, er y byddai unrhyw un yn gallu ei disgrifio fel cyllideb lem a chreulon. Byddai rhywun wedi disgwyl i'r rhan fwyaf o bleidiau gwleidyddol sy'n meddu ar unrhyw fath o drugaredd edrych ar yr adolygiad cynhwysfawr o wariant gyda phetruster a gofid. Fodd bynnag, yn eu cyfraniadau heddiw, mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi cael blas ar ymdrin â'r pwnc ac wedi ymhyfrydu yn ei oblygiadau. Nid ydynt yn malio dim am beth yw ystyr yr adolygiad cynhwysfawr hwn o wariant, a fydd yn rhoi llai o bwyslais ar y wladwriaeth er budd dogma gwleidyddol: nid oes amheuaeth ynghylch hynny.

Nid oes dim amheuaeth ynglŷn â'r ffaith bod y diffyg yn fawr, ac mae'n rhaid rhoi sylw iddo. Fodd bynnag, os ydym am fynd i'r afael â natur y diffyg hwn, mae angen inni ddeall yn iawn o ble mae'r diffyg wedi dod.

who had the opportunity to listen to Darren Millar on *The Politics Show* last Sunday heard him say that it resulted from 13 years of Labour extravagance—I think that that was the phrase that he used. However, if you choose to look at the record—and this is in line with the points that Jonathan Morgan was making—between 1997 and 2007, the public debt in the United Kingdom was 10 to 20 per cent below the level of public debt that was inherited from the Conservative Party. In other words, for the first 10 years of the Labour Government, public debt was down, and stayed down. Indeed, on 3 September 2007, George Osborne told the good readers of *The Daily Telegraph*—not a paper that I read very often—that he could confirm for the first time that a Conservative Government would adopt the Labour spending pledges. He said:

‘Total government spending will rise by 2 per cent a year in real terms,’

and that the effect would be

‘real increases in spending on public services, year after year’.

That is what the Conservative Party was saying three years ago; that was its official policy. If we are to believe the contributions of people such as Jonathan or Darren, when he was speaking on *The Politics Show*, then clearly it is not possible to reconcile the two stories. Unless the argument is that George Osborne was going to engage in extravagant expenditure by matching Labour’s spending in 2007, there is no way of reconciling the two stories. Of course, something happened at the end of 2007—indeed, within 10 days of George Osborne’s speech, something significant happened, namely the run on Northern Rock and the financial systems in the United Kingdom. That had a dramatic impact, and rescuing Northern Rock alone resulted in public expenditure of £25 billion. In addition, to underpin guarantees from the Government on loans, the banks received £250 billion-worth of support. The total cost of rescuing the financial systems probably came close to £1 trillion. So, the cause of the

Clywodd y rheini ohonom a gafodd y cyfle i wrando ar Darren Millar ar *The Politics Show* ddydd Sul diwethaf ef yn dweud fod y diffyg yn deillio o 13 mlynedd o afradlondeb y blaid Lafur—credaf mai dyna beth a ddywedodd. Fodd bynnag, os byddwch yn dewis edrych ar y cofnod—ac mae hyn yn cyd-fynd â’r pwyntiau roedd Jonathan Morgan yn eu gwneud—rhwng 1997 a 2007, roedd dyled gyhoeddus y Deyrnas Unedig yn 10 i 20 y cant yn is na lefel y dyled gyhoeddus a etifeddwyd gan y blaid Geidwadol. Mewn geiriau eraill, am 10 mlynedd gyntaf y Llywodraeth Lafur, roedd y dyled gyhoeddus yn isel, ac yn aros yn isel. Yn wir, ar 3 Medi 2007, dywedodd George Osborne wrth ddarllenwyr da *The Daily Telegraph*—papur nad wyf yn ei ddarllen yn aml iawn—y gallai gadarnhau am y tro cyntaf y byddai Llywodraeth Geidwadol yn mabwysiadu addewidion y blaid Lafur o safbwynt gwariant. Dywedodd:

Bydd cyfanswm gwariant y llywodraeth yn codi 2 y cant y flwyddyn mewn termau real,

ac mai effaith hynny fyddai

cynnydd gwirioneddol mewn gwariant ar wasanaethau cyhoeddus, o flwyddyn i flwyddyn.

Dyna beth oedd y blaid Geidwadol yn ei ddweud dair blynedd yn ôl; dyna oedd ei pholisi swyddogol. Os ydym am gredu cyfraniadau pobl fel Jonathan neu Darren, pan oedd yn siarad ar *The Politics Show*, yna mae’n amlwg nad yw’n bosibl derbyn y ddwy stori. Oni bai mai’r ddadl yw bod George Osborne yn mynd i wario’n ormodol drwy gyfateb gwariant Llafur yn 2007, nid oes unrhyw ffordd o dderbyn y ddwy stori. Wrth gwrs, digwyddodd rhywbeth ar ddiwedd 2007—yn wir, o fewn 10 diwrnod i araith George Osborne, digwyddodd rhywbeth arwyddocaol, sef achos Northern Rock a’r systemau ariannol yn y Deyrnas Unedig. Cafodd hynny effaith ddramatig, ac roedd angen gwariant cyhoeddus o £25 biliwn dim ond i achub Northern Rock. Yn ogystal, er mwyn bod yn sail i warantau gan y Llywodraeth ar fenthyciadau, derbyniodd y banciau werth £250 biliwn o gymorth. Mae’n debyg bod achub y systemau ariannol wedi costio’n agos i £1 triliwn. Felly, nid

deficit was not Labour extravagance: if it was, George Osborne was clearly complicit in it. The deficit was caused by the unregulated financial services, as Mark Isherwood highlighted. However, the Conservative Party's criticism at that time of the poorly regulated banking system was that there should be more liberalisation. The Conservative Party, as well as matching Labour's spending, wanted less regulation, and therefore wanted to make the problem worse.

Mark Isherwood: You referred to the banking issue. Why do you believe that the UK banking system was more exposed to sub-prime debt than that anywhere else in the world, as the International Monetary Fund identified? I can tell you, as someone who worked in the sector, that the regulation was there when I worked in it. Staff in institutions across Wales and the UK had to jump through hoops to get their regulatory qualifications and maintain them through continuous professional development, as you did with regard to qualifications to be a doctor. What changed? Could it have been that the Mortgage Code Compliance Board was scrapped, that the powers of the Bank of England to control the amount of debt in the economy were removed, and that the new Financial Services Authority was required to apply a light-touch regulatory regime by the Labour Government?

Brian Gibbons: The point that I am making is that there was an unduly light-touch. Mutual societies were privatised and turned into banks, and consequently the regulation was not there. However, the criticism made by the Conservative Party at the time was not that there should be more regulation and management, but that there should be less regulation. This is your legacy.

5.00 p.m.

The First Minister: We have batted these arguments back and forth in the Chamber over the past few weeks, so let us begin with what we can agree on. We can agree that there is a need to reduce the deficit, but there is disagreement on the depth and speed of that reduction. That disquiet is shared not

afradlondeb y blaid Lafur oedd y rheswm dros y diffyg: pe bai hynny'n wir, roedd George Osborne yn amlwg yn rhan o hynny. Achoswyd y diffyg gan y gwasanaethau ariannol nad oeddent yn cael eu rheoleiddio, fel y dywedodd Mark Isherwood. Fodd bynnag, roedd beirniadaeth y blaid Geidwadol yr adeg honno o'r system fancio a oedd yn cael ei rheoleiddio'n wael yn dweud y dylid rhyddfrydoli rhagor. Yn ogystal â chyfateb gwariant y blaid Lafur, roedd y blaid Geidwadol am weld llai o reoleiddio, ac felly am wneud y broblem yn waeth.

Mark Isherwood: Cyfeiriasoch at broblem bancio. Pam rydych yn credu bod system fancio'r DU yn fwy agored i ddyled eilaidd nag unrhyw le arall yn y byd, fel y nododd y Gronfa Ariannol Gydwladol? Gallaf ddweud wrthyf, fel rhywun sydd wedi gweithio yn y sector, fod y rheoliadau ar waith pan oeddwn i'n gweithio ynddo. Bu'n rhaid i staff mewn sefydliadau ledled Cymru a'r DU fynd drwy'r felin i ennill eu cymwysterau rheoleiddio ac i'w cadw drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus, fel y gwnaethoch chithau o ran cymwysterau i fod yn feddyg. Beth newidiodd? Tybed ai er mwyn i'r Llywodraeth Lafur roi trefn gymedrol ar waith y cafodd y Bwrdd Cydymffurfio â Chod Morgeisi ei ddileu, y cafodd pwerau Banc Lloegr i reoli maint y ddyled yn yr economi eu dileu, ac y cafwyd Awdurdod Gwasanaethau Ariannol newydd?

Brian Gibbons: Mae'r pwynt yr wyf yn ei wneud yn ymwneud â'r cymedroldeb gormodol. Cafodd cymdeithasau cydfuddiannol eu preifateiddio a'u troi'n fanciau, ac o ganlyniad nid oedd y rheoliadau yno. Fodd bynnag, beirniadaeth y blaid Geidwadol ar y pryd oedd nid y dylid rheoli a rheoleiddio mwy, ond y dylid rheoleiddio llai. Dyma'r etifeddiaeth a roesoch.

5.00 p.m.

Y Prif Weinidog: Rydym wedi lluchio'r dadleuon hyn yn ôl ac ymlaen yn y Siambr yn ystod yr wythnosau diwethaf, felly gadewch inni ddechrau gyda'r hyn y gallwn gytuno arno. Gallwn gytuno bod angen lleihau'r diffyg, ond ceir anghytundeb ar ddyfnder a chyflymder y broses o wneud

only by those on this side of the Chamber, but by the people of Wales. However, this afternoon, I do not want to talk about the effect on the UK, but the effect on Wales. I have always said that it is important that we look to reduce the deficit, and I have always said that Wales will take its fair share. However, the difficulty is that Wales is taking more than its fair share.

I listened carefully to the Conservative speakers and to Peter Black, and they all fell into the trap of comparing Wales with UK Government departments. Wales should not be compared to the Ministry of Justice; Wales's comparators are Scotland and Northern Ireland. It is no surprise that they do not use Scotland and Northern Ireland as comparators because Scotland and Northern Ireland have done so much better than we have from the settlement. We know from discussions in the Chamber that Wales is underfunded, and we have all agreed on the implementation of part one of Holtham, but this settlement makes the situation worse. On top of that, Scotland has received £250 million for a green energy fund and it has been given one of the rural broadband projects, while Northern Ireland has received extra money to cope with the demise of the Presbyterian Mutual Society, and Wales has had nothing.

Peter Black: If you are going to make a comparison with Northern Ireland and Scotland, do you not accept that the outcome of the spending review is down to the way in which the Barnett formula was implemented, which is exactly the same way as your Government implemented the Barnett formula. There has been no change to the way in which that formula has been implemented and that is the reason why those outcomes have come about.

The First Minister: The green energy fund in Scotland has nothing to do the Barnett formula, nor does the rural broadband project in Scotland, nor the closure of the passport office in Newport. The fact that there has been no decision on the electrification of the railway lines has nothing to do with the Barnett formula. These are all projects for

hynny. Mae pobl Cymru, yn ogystal â'r rheini ar yr ochr hon i'r Siambr, yn teimlo'r anesmwythyd hwn. Fodd bynnag, y prynhawn yma, nid wyf am siarad am yr effaith ar y DU, ond am yr effaith ar Gymru. Rwyf wedi dweud bob amser ei bod yn bwysig ein bod yn mynd ati i leihau'r diffyg, ac rwyf wedi dweud bob amser y bydd Cymru yn cymryd ei chyfran deg. Fodd bynnag, yr hyn sy'n anodd yw bod Cymru yn cymryd mwy na'i chyfran deg.

Gwrandewais yn ofalus ar siaradwyr y blaid Geidwadol ac ar Peter Black, a syrthiodd pob un ohonynt i'r fagl o gymharu Cymru ag adrannau Llywodraeth y DU. Ni ddylid cymharu Cymru â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder; dylid cymharu Cymru â'r Alban a Gogledd Iwerddon. Nid yw'n syndod nad ydynt yn defnyddio'r Alban a Gogledd Iwerddon i gymharu Cymru â hwy gan fod yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi cael mwy o lawer o fudd na ni o'r setliad. Gwyddom o drafodaethau yn y Siambr fod Cymru yn cael ei thanariannu, ac rydym i gyd wedi cytuno ar weithredu rhan gyntaf Holtham, ond mae'r setliad hwn yn gwneud y sefyllfa'n waeth. Ar ben hynny, mae'r Alban wedi cael £250 miliwn ar gyfer cronfa ynni gwyrdd ac wedi cael un o'r prosiectau band eang gwledig, tra mae Gogledd Iwerddon wedi cael arian ychwanegol i ymdopi â dirywiad y Gymdeithas Gydfuddiannol Bresbyteriaidd, ond nid yw Cymru wedi cael dim.

Peter Black: Os ydych yn mynd i gymharu â Gogledd Iwerddon a'r Alban, onid ydych yn derbyn bod canlyniad yr adolygiad o wariant yn deillio o'r ffordd y rhoddwyd fformiwla Barnett ar waith, sydd yn union yr un ffordd ag y rhoddodd eich Llywodraeth chi fformiwla Barnett ar waith. Ni fu dim newid yn y ffordd y rhoddwyd y fformiwla ar waith, a dyna'r rheswm dros y canlyniadau hynny.

Y Prif Weinidog: Nid oes gan y gronfa ynni gwyrdd yn yr Alban ddim oll i'w wneud â fformiwla Barnett, na'r prosiect band eang gwledig yn yr Alban, na chau'r swyddfa basbort yng Nghasnewydd. Nid oes gan y ffaith nad oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch trydaneiddio'r rheilffyrdd ddim byd i'w wneud â fformiwla Barnett. Mae'r rhain i

which Wales has been ignored. I genuinely hope that we get good news on electrification, but I do not want to see electrification as far as Bristol or electrification as far as Cardiff, remembering that Swansea is at the end of the main line. Nor would it be appropriate for a request to be made to us as a Government to fund electrification into Wales, as it is not a devolved area and we do not have the money to do it. The UK Government must come up with something to show its good faith. The Members on the opposite side of the Chamber know this and were all nodding in the Chamber yesterday on this point. It is important that we get the announcement, and it is an announcement that I will welcome if it is made. However, so far, we have had nothing.

Nick talked about announcements on rail infrastructure, but these do not affect Wales at all. His speech was written in London, like Mark's. We are talking about Wales, and it is right to say that Wales has had nothing. Mark mentioned that there had been an announcement on the rail infrastructure in Wales between Newport and Barry, but that was a rehash of an announcement that was made three years ago, so it was not a new announcement at all.

The figures for revenue in Wales are as bad as we thought they would be, and certainly worse, as I said, than those for Scotland and Northern Ireland. This adds to the problem of the underfunding that is there in the first place. For capital, the level of the cuts that we will have to take is 41 per cent. The UK average is 29 per cent. I am quite happy to compare England, Scotland, and Northern Ireland, as we are worse off than all three of them when it comes to capital cuts. Why is that? No reason has been given as to why Wales has to suffer greater capital cuts than anywhere else in the UK. We know that, in non-devolved areas, Wales will suffer as a result of the reduction in welfare payments, and in many areas that are important to our people.

Some of the policies that have been announced by the UK Government, such as the decision to increase VAT to 20 per cent,

gyd yn brosiectau ar gyfer Cymru sydd wedi cael eu hanwybyddu. Rwyf wir yn gobeithio y cawn newyddion da ynghylch trydaneiddio, ond nid oes arnaf eisiau gweld trydaneiddio cyn belled â Bryste neu drydaneiddio cyn belled â Chaerdydd, gan gofio bod Abertawe ar ddiwedd y brif reilffordd. Ac ni fyddai'n briodol i gais gael ei wneud i ni fel Llywodraeth i ariannu'r broses drydaneiddio yng Nghymru ychwaith, gan nad yw'n faes datganoledig ac nad oes gennym yr arian i wneud hynny. Rhaid i Lywodraeth y DU feddwl am rywbeth i ddangos ei hewyllys da. Mae'r Aelodau ar yr ochr arall i'r Siambr yn gwybod hyn ac roedd pob un ohonynt yn amneidio yn y Siambr ddoe pan godwyd y pwynt hwn. Mae'n bwysig ein bod yn cael y cyhoeddiad, ac mae'n gyhoeddiad y byddaf yn ei groesawu os caiff ei wneud. Fodd bynnag, hyd yma, nid ydym wedi cael dim.

Soniodd Nick am gyhoeddiadau ynghylch seilwaith rheilffyrdd, ond nid yw'r rhain yn effeithio ar Gymru o gwbl. Ysgrifennwyd ei araith yn Llundain, fel un Mark. Rydym yn sôn am Gymru, ac mae'n gywir dweud nad yw Cymru wedi cael dim. Soniodd Mark y bu cyhoeddiad ynghylch y seilwaith rheilffyrdd rhwng Casnewydd a'r Barri yng Nghymru, ond cyhoeddiad a wnaed dair blynedd yn ôl wedi'i ailwampio ydoedd, felly nid oedd yn gyhoeddiad newydd o gwbl.

Mae'r ffigurau ar gyfer refeniw yng Nghymru mor ddrwg â'r disgwyl, ac yn sicr yn waeth, fel y dywedais, na'r rheini ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn ychwanegu at broblem danariannu sy'n bodoli eisoes. O ran cyfalaf, mae lefel y toriadau y bydd yn rhaid inni ei derbyn yn 41 y cant. Cyfartaledd y DU yw 29 y cant. Rwyf yn ddigon bodlon cymharu Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon, gan ein bod yn waeth ein byd na'r tri ohonynt o ran toriadau cyfalaf. Pam hynny? Nid oes rheswm wedi ei roi ynghylch pam mae Cymru'n gorfod dioddef mwy o doriadau cyfalaf nag unrhyw le arall yn y DU. Rydym yn gwybod, o ran meysydd heb eu datganoli, y bydd Cymru yn dioddef o ganlyniad i leihau taliadau lles, ac mewn llawer o feysydd sy'n bwysig i'n pobl.

Bydd rhai o'r polisiâu a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, megis y penderfyniad i gynyddu TAW i 20 y cant, yn gostwng

will depress demand and cost jobs. The bizarre decision was taken to eliminate child benefit for families on an income of £44,000 a year while those on £86,000 a year still get it. Why was this? It is because it was too much like hard work to do it properly. These are the illogical decisions that the people of Wales find it difficult to reconcile. What answer do we get from the Conservatives? That we should set up an independent body to review the budget—a quango—which costs money. I believe that, in difficult financial times, money should go to front-line services, not to a quango; not to pay people to do what Assembly Members are being paid to do in the first place. Setting up a quango is not an answer. Nick also mentioned that we have structural weaknesses in Wales. This budget will not help those structural weaknesses, it will make them worse.

I listened carefully to what Peter had to say—I feel sorry for Peter, as he was the only Liberal Democrat in the Chamber when he moved his amendments. This may be something that we have to get used after May, but for now, I thought that he was poorly supported by his colleagues. One of the points that Peter made was to accept—or seem to accept—that Wales lacks influence or clout around the Cabinet table. He then went on to say that part of the reason for that is that we have so few MPs. However, his party wants to reduce the number of MPs in Wales. How that would increase Wales's influence in Whitehall and the UK Government is not clear.

I listened to Mark Isherwood. His speech was clearly written by someone in London, because he said that the Conservative-Lib Dem Government is protecting free bus passes. I did not know that it was responsible for free bus passes in Wales.

Mark Isherwood: I would like the First Minister to acknowledge the fact that I wrote that speech. [*Laughter.*] My research material

lefelau galw ac yn arwain at gollu swyddi. Gwnaed y penderfyniad rhyfedd i gael gwared ar fudd-dal plant i deuluoedd ar incwm o £44,000 y flwyddyn, er bod y rhai ar £86,000 y flwyddyn yn dal i'w dderbyn. Pam hynny? Gan ei fod yn waith rhy galed i'w wneud yn iawn. Mae'r rhain yn benderfyniadau afresymegol y mae pobl Cymru yn ei chael yn anodd eu derbyn. Beth yw'r ateb a gawn gan y Ceidwadwyr? Y dylem sefydlu corff annibynnol i adolygu'r gyllideb—cwango—sy'n costio arian. Mewn cyfnod ariannol anodd, credaf y dylai arian fynd i wasanaethau rheng flaen, nid i gwango; nid i dalu pobl i wneud yr hyn y mae Aelodau'r Cynulliad yn cael eu talu i'w wneud yn y lle cyntaf. Nid yw sefydlu cwango yn ateb. Soniodd Nick hefyd fod gennym wendidau strwythurol yng Nghymru. Ni fydd y gyllideb yn helpu'r gwendidau strwythurol hynny, bydd yn eu gwneud yn waeth.

Gwrandewais yn ofalus ar yr hyn roedd gan Peter i'w ddweud—rwyf yn teimlo trueni dros Peter, gan mai ef oedd yr unig Ddemocrat Rhyddfrydol yn y Siambr pan oedd yn cynnig ei welliannau. Efallai fod hyn yn rhywbeth y bydd yn rhaid inni ddod i arfer ag ef ar ôl mis Mai, ond am y tro, roeddwn yn meddwl bod y gefnogaeth roedd yn ei chael gan ei gyd-Aelodau yn wael. Un o'r pwyntiau a wnaeth Peter oedd derbyn—neu dderbyn i bob golwg—nad oes gan Gymru ddigon o ddylanwad neu rym o amgylch bwrdd y Cabinet. Yna aeth ymlaen i ddweud mai rhan o'r rheswm dros hynny yw bod gennym gyn lleied o Aelodau Seneddol. Fodd bynnag, mae ei blaid ef am leihau nifer yr Aelodau Seneddol yng Nghymru. Nid yw'n glir sut y byddai hynny'n hybu dylanwad Cymru yn Whitehall a Llywodraeth y DU.

Gwrandewais ar Mark Isherwood. Mae'n amlwg mai rhywun yn Llundain a ysgrifennodd ei araith gan iddo ddweud bod Llywodraeth y Ceidwadwyr-Democratiaid Rhyddfrydol yn diogelu tocynnau bws am ddim. Nid oeddwn yn gwybod ei bod yn gyfrifol am docynnau bws am ddim yng Nghymru.

Mark Isherwood: Hoffwn i'r Prif Weinidog gydnabod y ffaith mai fi ysgrifennodd yr araith honno. [*Chwerthin.*] Fy swyddfa i a

was compiled by my office. Yes, the First Minister is quite right: bus passes are not devolved to Wales. However, I left that in because we are equally committed to retaining free bus passes in Wales.

The First Minister: You rehashed a press release that I have seen many times from your party, with exactly the same wording. The other point that you made was about reducing business rates, but you did not explain how you would pay for it. Again, we need to see figures, if that is what you are going to suggest. You said that part of the problem was the light-touch regulation on banks in 2007. I remember David Cameron saying that the banks were over-regulated. I remember David Cameron saying, when our banks and building societies were failing, that nothing should happen and that they should be left to collapse and that people's savings should be left to disappear. That is what your party was doing in 2007. It is only because of the financial prudence of a Labour Government in 2007 that your party has inherited a country that is robust compared to other countries. Your party was on its own. It was the Tea Party of Britain in 2007 when it came to financial prudence. Do not give us lessons on financial prudence; we know what has happened with Conservative Governments in the past. We saw the £1 billion that was hosed away with the privatisation of the railways. That is something that no Labour Government has ever managed to do, but the Conservatives did it with ease. We saw what happened with the exchange rate mechanism and we saw, as Chris pointed out, mortgage interest rates rise to 15 per cent. That is financial incompetence that we could never emulate, and we never want to.

I also listened to you, Jonathan Morgan. The only point I will make is this: if I am a 'whinger', bear in mind that the majority of people of Wales agree with me, according to the polls. If you are calling me a whinger, you are calling the majority of people in Wales whingers. I will make the point time and again that we have been dealt a difficult

baratôdd fy neunyddiau ymchwil. Ydy, mae'r Prif Weinidog yn llygad ei le nad yw tocynnau bws yn fater sydd wedi'i ddatganoli i Gymru. Ond, roeddwn am i'r pwynt hwnnw gael ei gynnwys gan ein bod yr un mor ymrwymedig i gadw tocynnau bws am ddim yng Nghymru.

Y Prif Weinidog: Gwnaethoch ailwampio datganiad i'r wasg a welais lawer gwaith gan eich plaid, gydag union yr un geiriau. Roedd y pwynt arall a wnaethoch yn ymwneud â gostwng ardrethi busnes, ond ni wnaethoch esbonio sut y byddech yn talu am hyn. Unwaith eto, mae arnom angen gweld ffigurau, os dyna rydych am ei awgrymu. Dywedasoeh mai rhan o'r broblem oedd y rheoliadau gwan ar fanciau yn 2007. Rwyf yn cofio David Cameron yn dweud bod y banciau yn cael eu gor-reoleiddio. Rwyf yn cofio David Cameron yn dweud, pan oedd ein banciau a'n cymdeithasau adeiladu yn methu, na ddylai dim byd ddigwydd ac y dylent gael eu gadael i ddymchwel, gan adael i gynilion pobl ddiflannu. Dyna beth roedd eich plaid yn ei wneud yn 2007. Dim ond oherwydd doethineb ariannol y Llywodraeth Lafur yn 2007 y mae eich plaid wedi etifeddu gwlad sy'n gadarn o'i chymharu â gwledydd eraill. Roedd eich plaid chi ar ei phen ei hun. Roedd yn De Parti Prydain yn 2007 o ran doethineb ariannol. Peidiwch â rhoi gwersi inni ar ddoethineb ariannol; rydym yn gwybod beth fu hanes Llywodraethau Ceidwadol yn y gorffennol. Gwelsom yr £1 biliwn a ddiflannodd wrth i'r rheilffyrdd gael eu preifateiddio. Mae hynny'n rhywbeth nad yw unrhyw Lywodraeth Lafur erioed wedi llwyddo i'w wneud, ond llwyddodd y Ceidwadwyr i wneud hynny'n rhwydd. Gwelsom yr hyn a ddigwyddodd gyda'r mecanwaith cyfraddau cyfnewid a gwelsom, fel y dywedodd Chris, gyfraddau llog morgeisi yn codi i 15 y cant. Dyna anallu ariannol na allem byth ei efelychu, ac ni fyddem byth yn dymuno gwneud hynny.

Gwrandewais arnoch chithau hefyd, Jonathan Morgan. Yr unig bwynt a wnaaf yw hyn: os wyf yn 'gwynwr', cofiwch fod y mwyafrif o bobl Cymru yn cytuno â mi, yn ôl yr arolygon barn. Os ydych yn fy ngalw i'n gwynwr, rydych yn galw'r rhan fwyaf o bobl Cymru yn gwynwyr. Byddaf yn gwneud y pwynt dro ar ôl tro ein bod wedi ei chael yn

hand. However, as I said in the Chamber yesterday, we as a Government will move forward to do the best that we can with the hand that we have been dealt. I know full well what people in Wales want and expect us to do, and they have elected us to do it.

In conclusion, the point that I have to make is this: the Conservatives and Lib Dems pretend that this budget settlement is good. I would love to see a bad one. The Conservatives and Lib Dems seem to pretend that Wales has somehow done well out of the situation when compared to Scotland and Northern Ireland. That is simply not correct. This Government will do what it can with the hand it has been dealt to protect the services that are so important to the people of Wales, and we will stand up for the principles and priorities that the people of Wales hold so dear.

Nick Bourne: From the moment the First Minister referred to the 'financial prudence' of the last Labour Government, I knew that there was not going to be a lot in his speech that I would agree with. Indeed, that proved to be the case. I became alarmed when he said that Nick Ramsay's speech was like Mark's, as I thought for a moment that he meant Karl Marx rather than Mark Isherwood, but I will concede that there may be a measure of agreement on that. However, this is a serious issue, and it is the backdrop against which the last general election was fought and lost by the First Minister's party. We are now back from the brink of bankruptcy. That is fact. Labour doubled the national debt, which stands at £900 billion—the largest peacetime budget deficit in our history. This is 'financial prudence', according to the First Minister. Also, £120 million in interest, per day, is 'financial prudence', according to the First Minister. What would have happened if we had not acted in the way that we have? I will tell you. Like Spain, we would have lost our AAA credit rating. Like Ireland, our debt would have been 100 per cent of GDP. Like Greece, we probably would have had to be bailed out. [Interruption.] We are getting the usual sedentary contributions from the Members opposite, and I am very happy to give way if

anodd. Fodd bynnag, fel y dywedais yn y Siambr ddoe, byddwn fel Llywodraeth yn symud ymlaen i wneud y gorau gallwn gyda'r sefyllfa sydd ohoni. Gwn yn iawn beth y mae ar bobl Cymru ei eisiau a beth maent yn disgwyl inni ei wneud, ac maent wedi ein hethol ni i wneud hynny.

I gloi, y pwynt y mae'n rhaid imi ei wneud yw hyn: mae'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn esgus bod setliad y gyllideb hon yn dda. Byddwn wrth fy modd yn gweld setliad gwael. Yn ôl pob golwg, mae'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn esgus bod Cymru wedi elwa o'r sefyllfa o'i chymharu â'r Alban a Gogledd Iwerddon. Yn syml iawn nid yw hynny'n wir. Bydd y Llywodraeth hon yn gwneud yr hyn sydd o fewn ei gallu gyda'r hyn y mae wedi'i gael i warchod y gwasanaethau sydd mor bwysig i bobl Cymru, a byddwn yn sefyll dros yr egwyddorion a'r blaenoriaethau sy'n dal mor bwysig i bobl Cymru.

Nick Bourne: O'r eiliad y cyfeiriodd y Prif Weinidog at 'ddoethineb ariannol' y Llywodraeth Lafur ddiwethaf, roeddwn yn gwybod na fyddai llawer o bethau yn ei araith y byddwn yn cytuno â hwy. Yn wir, felly y bu. Cefais fraw pan ddywedodd fod araith Nick Ramsay fel un Mark, oherwydd meddyliais am eiliad ei fod yn golygu Karl Marx yn hytrach na Mark Isherwood, ond rwyf yn cyfaddef efallai fod rhywfaint o gytundeb ynglŷn â hynny. Serch hynny, mae hwn yn fater difrifol, a hwn oedd cefndir yr etholiad cyffredinol diwethaf a frwydrwyd ac a gollwyd gan blaid y Prif Weinidog. Rydym yn awr yn ôl ar ôl bod mor agos at fod yn fethdalwyr. Mae hynny'n ffaith. Llwyddodd Llafur i ddyblu'r ddyled genedlaethol, sy'n £900 biliwn—y diffyg mwyaf a welwyd mewn cyllideb mewn cyfnod o heddwch yn ein hanes. Mae'r Prif Weinidog yn galw hyn yn 'ddoethineb ariannol'. Mae £120 miliwn o log bob dydd hefyd yn 'ddoethineb ariannol' yn ôl y Prif Weinidog. Beth fyddai wedi digwydd pe na baem wedi gweithredu fel y gwnaethom? Dywedaf wrthyhych. Fel Sbaen, byddem wedi colli ein statws credyd AAA. Fel Iwerddon, byddai ein dyled wedi bod yn 100 y cant o'r cynnyrch mewnwladol crynswth. Fel Gwlad Groeg, mae'n debyg y byddem wedi gorfod cael ein hachub. [Torri ar draws.] Rydym yn cael y cyfraniadau

I have time, but it is important to realise—*[Interruption.]* If I have time I will give way. Incidentally, I am glad that you are pleading guilty to the sedentary contributions.

5.10 p.m.

It is important that people realise that this deficit is something we can no longer avoid. It is a deficit that was run up by your Government. That is why you were voted out. Admittedly, the way that we deal with it is an issue that has to be discussed, but we have not heard anything constructive from the Labour Party about how it would reduce this deficit. You have attacked what we are doing, but I challenge the notion that there has been a single suggestion for how the deficit could be reduced.

Let me tell you what some of your own people have been saying. Labour's Lord Myners said:

'There is nothing progressive about a government that consistently spends more than it can raise in taxation'.

Correct, honest, appropriate: the voice of Labour in the House of Lords.

Ann Jones: Will you give way?

Nick Bourne: I will see if I have time in a minute, Ann, as you gave way to me. You are first in the queue, if I have time.

Under Labour, there would have been cuts. Remember what Liam Byrne wrote in a moment of honesty: 'There's no money left'. That was not just a joke. That was the truth. He had the good grace to add, 'Good luck'. Your own previous Minister for Finance and Public Service Delivery before the general election in February 2009 told us:

'The years of plenty have come to an end'.

eisteddog arferol gan yr Aelodau gyferbyn, ac rwyf yn fwy na pharod i ildio os oes gennyf amser, ond mae'n bwysig sylweddoli—*[Torri ar draws.]* Os bydd gennyf amser byddaf yn ildio. Gyda llaw, rwyf yn falch eich bod yn pledio'n euog i'r cyfraniadau eisteddog.

5.10 p.m.

Mae'n bwysig bod pobl yn sylweddoli bod y diffyg hwn yn rhywbeth na ellir ei osgoi mwyach. Mae'n ddiffyg a grëwyd gan eich Llywodraeth. Dyna pam nad chi a enillodd yr etholiad. Rhaid cyfaddef, mae'r ffordd rydym yn ymdrin â hyn yn fater y mae'n rhaid ei drafod, ond nid ydym wedi clywed dim byd adeiladol gan y blaid Lafur ynghylch sut y byddai'n lleihau'r diffyg hwn. Rydych wedi ymosod ar yr hyn rydym yn ei wneud, ond rwyf yn herio'r syniad y bu un awgrym ar gyfer sut y gellid lleihau'r diffyg.

Gadewch imi ddweud wrthyhch beth mae rhai o'ch pobl eich hun wedi bod yn ei ddweud. Dywedodd Arglwydd Myners o'r blaid Lafur:

Nid oes dim byd yn flaengar am lywodraeth sy'n mynd ati'n gyson i wario mwy na'r swm y gall ei godi mewn trethi.

Cywir, gonest, priodol: llais Llafur yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Ann Jones: A wnewch ildio?

Nick Bourne: Gwelaf os bydd gennyf amser mewn munud, Ann, gan eich bod chi wedi ildio i mi. Rydych ar flaen y ciw, os bydd gennyf amser.

O dan y blaid Lafur, byddai toriadau wedi cael eu cyflwyno. Cofiwch beth ysgrifennodd Liam Byrne mewn eiliad o onestrwydd: Nid oes arian ar ôl. Nid jôc oedd hynny. Dyna oedd y gwirionedd. Roedd ganddo'r ewyllys da i ychwanegu 'Pob lwc'. Cyn yr etholiad cyffredinol ym mis Chwefror 2009, dywedodd eich Gweinidog blaenorol chi dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus wrthym:

Mae'r blynyddoedd o ddigonedd wedi dod i ben.

More recently, he said that, as Minister for finance, that is, before the general election, he had repeatedly warned about the public finance tsunami that was coming our way. That was before the general election and it was your Labour Minister for finance who said it, after the general election but referring to his time as Minister for finance. The approach that we have pursued—clearly not universally popular, but approved by the OECD, the World Bank and Tony Blair—*[Interruption.]* Let me tell you—*[Interruption.]* You all want to paint him out of the picture now, is that not so? You do not like him any more. He was your most successful leader. He came here and had a standing ovation from you people. I remember it. ‘The danger now’—*[Interruption.]* This is what he said—*[Interruption.]* Sorry, Ann, it is more important that we hear about Tony Blair than from you at the moment.

‘The danger now is this: if governments don’t tackle deficits, the bill is footed by taxpayers, who fear that big deficits now mean big taxes in the future, the prospect of which reduces confidence, investment and purchasing power. This then increases the risk of prolonged slump...if we fail to offer a convincing path out of debt, that failure in the global economy of 2010, as opposed to that of the 1930s, will itself plunge us into stagnation.’

That is what Tony Blair said. He said they should have

‘kept direct tax rates competitive.’

That is what he said—your most successful leader ever. He said they should have

‘had a gradual rise in VAT and other indirect taxes to close the deficit, and used the crisis to push further and faster on reform.’

Yn fwy diweddar, dywedodd ei fod, fel y Gweinidog dros Gyllid, hynny yw, cyn yr etholiad cyffredinol, wedi rhybuddio am y tswami cyllid cyhoeddus a oedd yn dod i'n cyfeiriad dro ar ôl tro. Roedd hynny cyn yr etholiad cyffredinol, a'ch Gweinidog Llafur dros Gyllid a ddywedodd hynny, ar ôl yr etholiad cyffredinol ond gan gyfeirio at ei gyfnod fel Gweinidog dros Gyllid. Mae ein dull gweithredu—sydd yn amlwg ddim yn boblogaidd ym marn pawb, ond sy'n cael ei gymeradwyo gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, Banc y Byd a Tony Blair—*[Torri ar draws.]* Gadewch imi ddweud wrthyfych—*[Torri ar draws.]* Onid yw'n wir nad ydych am iddo ef fod yn rhan o'r darlun erbyn hyn? Nid ydych yn ei hoffi mwyach. Ef oedd eich arweinydd mwyaf llwyddiannus. Daeth yma ac roeddech i gyd ar eich traed yn ei gymeradwyo. Rwyf yn cofio. Y perygl nawr—*[Torri ar draws.]* Dyma beth ddywedodd—*[Torri ar draws.]* Mae'n ddrwg gennyf, Ann, mae'n bwysicach inni glywed am Tony Blair na gennyf chi ar hyn o bryd.

Y perygl yn awr yw hyn: os nad yw'r llywodraethau yn mynd i'r afael â diffygion, bydd y bil yn gorfod cael ei dalu gan y trethdalwyr, sy'n ofni bod diffygion mawr yn awr yn golygu trethi mawr yn y dyfodol. Mae'r syniad hwnnw'n lleihau hyder, buddsoddiad a phŵer prynu. Mae hyn wedyn yn cynyddu'r risg o ddirwasgiad hir...oni fyddwn yn gallu cynnig llwybr argyhoeddiadol allan o ddyled, bydd y methiant hwnnw yn yr economi fyd-eang yn 2010, yn wahanol i'r un yn yr 1930au, yn ein gwthio'n ddwfn i sefyllfa lle nad oes twf o gwbl.

Dyna beth ddywedodd Tony Blair. Dywedodd y dylai eu bod wedi

cadw cyfraddau treth uniongyrchol yn gystadleuol.

Dyna ddywedodd—eich arweinydd mwyaf llwyddiannus erioed. Dywedodd y dylai eu bod wedi

cael cynnydd graddol mewn TAW ac mewn trethi anuniongyrchol eraill i leihau'r diffyg, ac wedi defnyddio'r argyfwng i wthio

diwygio ymhellach ac yn gyflymach.

Your most successful leader ever went on to say that the failure to embrace the fundamental savings review of 2005-06, Brian, was in retrospect a much bigger error than I ever thought at the time.

Aeth eich arweinydd mwyaf llwyddiannus erioed ymlaen i ddweud bod y methiant i gynnwys yr adolygiad arbedion sylfaenol o 2005-06, Brian, wrth edrych yn ôl, yn gangymeriad mwy o lawer nag yr oeddwn erioed wedi ei feddwl ar y pryd.

I repeat: the Prime Minister you all cheered and gave a standing ovation when he visited the National Assembly said that. He was right and you are wrong. Now, we have to deal with the mess—Gordon Brown's legacy. He ruined Britain's pension provision, he dismantled the supervision of financial services by the Bank of England and he sold off our gold reserves at the bottom of the market—scarcely a sensible thing to do. That is why he lost the confidence of the British people and that is why we and the Liberal Democrats have to pick up the pieces. It is left to us to clear up your mess.

Ailadroddaf: y Prif Weinidog—yr un roedd pob un ohonoch yn codi ar eich traed i'w gymeradwyo pan ymwelodd â'r Cynulliad Cenedlaethol—ddywedodd hynny. Ef oedd yn iawn a chi oedd yn anghywir. Yn awr, mae'n rhaid i ni ymdrin â'r llanastr—yr hyn sydd ar ôl wedi dyddiau Gordon Brown. Dinistriodd ddarpariaeth pensiwn Prydain, datgymalodd oruchwyliaeth gwasanaethau ariannol gan Fanc Lloegr, a gwerthodd ein cronfeydd aur wrth gefn am y pris isaf—rhywbeth nad oedd yn synhwyrol iawn i'w wneud. Dyna pam y gwnaeth pobl Prydain golli hyder ynddo, a dyna pam ein bod ni a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn gorfod cael trefn ar bethau. Ni sydd â'r gwaith o glirio eich llanastr.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree the motion without amendment. Are there any objections? I see that there are. Therefore, I will defer all voting on this item until voting time. We are now past 5 p.m., so we will move straight to the votes.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw ein bod yn cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Gwelaf fod. Felly, rwyf yn gohirio'r bleidlais ar y cynnig hwn tan y cyfnod pleidleisio. Mae hi bellach wedi 5 p.m., felly symudwn yn syth at y pleidleisiau.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.
Votes deferred until voting time*

Cyfnod Pleidleisio Voting Time

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Hart, Edwina
James, Irene
Jones, Ann

Randerson, Jenny

Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y cynnig.
Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4571: O blaid 15, Ymatal 0, Yn erbyn 30.
Amendment 1 to NDM4571: For 15, Abstain 0, Against 30.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Hart, Edwina
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment not agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM4571: O blaid 15, Ymatal 0, Yn erbyn 30.
Amendment 2 to NDM4571: For 15, Abstain 0, Against 30.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Hart, Edwina
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment not agreed.*

Dadl Fer a Ohiriwyd ers 13 Hydref 2010 Short Debate Postponed from 13 October 2010

Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd: Democratiaeth ar Waith? Cardiff's Local Development Plan: Democracy in Action?

Jonathan Morgan: I am pleased to introduce this debate in the Assembly Chamber this afternoon. In accordance with our usual procedures, I have allocated a minute of my time to Jenny Randerson, who wishes to speak in the debate.

I have chosen to look at the issues around the local development plan for Cardiff in an attempt to answer three questions: does the current process, as set out in law, give individual local authorities enough flexibility to deliver the best possible social and economic outcomes for their residents; can Cardiff's position as a central economic driver for south-east Wales be fully

Jonathan Morgan: Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r ddadl hon yn Siambr y Cynulliad y prynhawn yma. Yn unol â'n gweithdrefnau arferol, rwyf wedi neilltuo munud o fy amser i Jenny Randerson, sy'n dymuno siarad yn y ddadl.

Rwyf wedi dewis edrych ar y materion sy'n ymwneud â'r cynllun datblygu lleol ar gyfer Caerdydd mewn ymgais i ateb tri chwestiwn: a yw'r broses bresennol, fel y mae'n cael ei phennu gan y gyfraith, yn rhoi digon o hyblygrwydd i awdurdodau lleol unigol sicrhau'r canlyniadau cymdeithasol ac economaidd gorau posibl ar gyfer eu preswylwyr; a ellir darparu'n llawn ar gyfer

accommodated into the LDP model; and, does the Assembly Government have the right to interfere in a process that is designed to be citizen-led and delivered by locally elected politicians? I suppose that by phrasing the third question in that way you might have guessed what the answer might be.

Unfortunately, it is mostly that latter point that has led us to this particular juncture. Just over six months ago, the Assembly Government inspectors gave Cardiff Council an option to withdraw the deposit plan or have it thrown out. As a result, a new LDP will not be delivered before 2014, therefore creating a planning hiatus, binding the hands of councillors and officials to a planning model that is nearly 15 years out of date. Cardiff—this nation's capital city—should not be in such a position.

In relation to housing, the Assembly Government's officers believed that the strategy put too much emphasis on brownfield and windfall sites when there was no guarantee that these windfall sites would appear. There was not the right mix of housing, and there was too much emphasis on flats and not enough on family housing. The strategy for housing development and regeneration was focused on only four parts of the city and these were sited in flood-risk areas. Also, there was not enough affordable housing as stated in the objectives of the Assembly coalition Government's 'One Wales' agreement.

In relation to the economy and employment, the Assembly Government believed that, of the four locations identified—Wentlooge, Pengam, Leckwith and the green technology park—three had deliverability issues and, excluding Pengam, there were real concerns of flood risk. There were also reservations that the supply of employment land would not keep up with the projected growth of the city in coming years; that the city lacked a diversity in employment land and a lack of high-specification office space and smaller offices for new start-ups; and that the evidence for the location of the international business park was badly flawed and could suck business away from existing areas.

sefyllfa Caerdydd, fel sbardun economaidd canolog y de-ddwyrain, yn y model CDLI; ac a oes gan Lywodraeth y Cynulliad hawl i ymyrryd mewn proses sydd wedi'i chynllunio i fod o dan arweiniad dinasyddion ac i gael ei chyflwyno gan wleidyddion sydd wedi'u hethol yn lleol? Mae'n siŵr eich bod wedi dyfalu beth fydd yr ateb yn ôl geiriad y trydydd cwestiwn.

Yn anffodus, y pwynt olaf sydd wedi ein harwain yn bennaf at y sefyllfa benodol hon. Ychydig dros chwe mis yn ôl, rhoddodd arolygwyr Llywodraeth y Cynulliad opsiwn i Gyngor Caerdydd dynnu'n ôl o'r cynllun adnau neu ei wrthod. O ganlyniad, ni fydd CDLI yn cael ei gyflwyno cyn 2014, gan greu bwlch cynllunio felly, sy'n clymu cynghorwyr a swyddogion i fodel cynllunio sydd wedi dyddio ers bron i 15 mlynedd. Ni ddylai Caerdydd—prifddinas y wlad hon—fod yn y fath sefyllfa.

O ran tai, roedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn credu bod y strategaeth yn rhoi gormod o bwyslais ar safleoedd tir llwyd a safleoedd ar hap pan nad oedd unrhyw sicrwydd y byddai'r safleoedd ar hap hyn yn ymddangos. Nid oedd cymysgedd priodol o dai, ac roedd gormod o bwyslais ar fflatiau a dim digon ar dai i deuluoedd. Roedd y strategaeth ar gyfer adfywio a datblygu tai yn canolbwyntio ar ddim ond pedair ardal o'r ddinas, ac roedd y rhain yn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd. Hefyd, nid oedd digon o dai fforddiadwy fel y nodir yn amcanion cytundeb 'Cymru'n Un' Llywodraeth glymblaid y Cynulliad.

O ran yr economi a chyflogaeth, roedd Llywodraeth y Cynulliad o'r farn, o blith y pedwar lleoliad a nodwyd—Gwynllŵg, Pengam, Lecwydd a'r parc technoleg gwyrdd—fod gan dri ohonynt broblemau yng nghyswllt gallu i gyflawni ac, ar wahân i Bengam, roedd pryderon gwirioneddol ynghylch perygl o lifogydd. Roedd amheuon hefyd na fyddai'r cyflenwad o dir cyflogaeth yn gallu cynyddu ar yr un raddfa â'r twf a ragwelir yn y ddinas yn y blynyddoedd i ddod; bod y ddinas yn brin o amrywiaeth o ran tir cyflogaeth a phrinder swyddfeydd o safon a swyddfeydd llai ar gyfer busnesau newydd; a bod y dystiolaeth ynghylch lleoliad y parc busnes rhyngwladol yn

ddiffygiol iawn ac y gallai dynnu busnes oddi wrth yr ardaloedd y maent ynddynt ar hyn o bryd.

Officials also felt that, on transport, there was a complete absence of a planned approach, with little linkage between housing, employment and transport provision, and a failure to specify core transport routes. Some may think that these are significant flaws. However, if one views the wider picture, as set out by the Assembly Government in the Wales spatial plan, one will see that these flaws could be easily resolved, benefiting not just Cardiff, but the wider hinterland as well.

Roedd swyddogion hefyd yn teimlo nad oedd dull gweithredu wedi'i gynllunio ar gael ar gyfer trafndiaeth, nad oedd llawer o gysylltiad rhwng darpariaeth tai, cyflogaeth a thrafnidiaeth, ac nad oedd llwybrau trafndiaeth craidd wedi'u pennu. Efallai y byddai rhai'n credu bod y rhain yn ddiffygion sylweddol. Fodd bynnag, os edrychych ar y darlun ehangach, fel y nodir gan Lywodraeth y Cynulliad yng nghynllun gofodol Cymru, byddwch yn gweld y gellid datrys y diffygion hyn yn hawdd, gan ddwyn budd i Gaerdydd yn ogystal â'r cyffiniau ehangach.

Recently, my predecessor as the Assembly Member for Cardiff North, Sue Essex, delivered a lecture on the future development of Cardiff to the Civic Trust for Wales. Her lecture articulated the difficult objective of trying to achieve that careful balancing act required to manage the social, economic and cultural differences between Cardiffians and their neighbours. She was clear in her vision of Cardiff's future, that it should not isolate itself, but should view the marketing potential of the M4 corridor as an option for continued growth, and look to its neighbours and the Valleys communities to disperse its investment in people and employment so that all could benefit from its prosperous success. I concur with that analysis, as does Cardiff Council and so, I believe, does the Assembly Government.

Yn ddiweddar rhoddodd Sue Essex, fy rhagflaenydd fel yr Aelod Cynulliad dros Ogledd Caerdydd, ddarlith i Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru ynghylch datblygu Caerdydd at y dyfodol. Roedd ei darlith yn sôn am yr amcan anodd o geisio cael y cydbwysedd angenrheidiol hwnnw i reoli'r gwahaniaethau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol rhwng pobl Caerdydd a'u cymdogion. Roedd ei gweledigaeth ar gyfer dyfodol Caerdydd yn glir. Roedd o'r farn na ddylai Caerdydd ynysu ei hun, ond y dylai ystyried potensial marchnata coridor yr M4 fel opsiwn ar gyfer twf parhaus. Teimlai hefyd y dylai Caerdydd droi at ei chymdogion a chymunedau'r Cymoedd i wasgaru ei buddsoddiad mewn pobl a chyflogaeth er mwyn i bawb allu elwa o'i llwyddiant ffyniannus. Rwyf finnau, fel Cyngor Caerdydd, yn cytuno â'r dadansoddiad hwnnw, a chredaf fod Llywodraeth y Cynulliad yn cytuno â hynny hefyd.

5.20 p.m.

I say this because the Wales spatial plan is clear about what it views as the future for Cardiff and the south-east Wales region. It sees Cardiff and south-east Wales as a capital region, international yet distinctly Welsh, competing internationally by increasing its global visibility through stronger links between the Valleys and the coast, and with the UK and the rest of Europe, helping to spread prosperity and benefiting other parts of Wales. As the most populous part of Wales, it is the main economic driver, and its

Rwyf yn dweud hyn oherwydd bod cynllun gofodol Cymru yn glir ynghylch ei farn am ddyfodol Caerdydd a rhanbarth y de-ddwyrain. Mae'n ystyried Caerdydd a'r de-ddwyrain fel rhanbarth y brifddinas a rhanbarth ryngwladol ond sydd eto'n rhanbarth Cymreig, a fydd yn cystadlu'n rhyngwladol drwy godi ei phroffil byd-eang drwy gysylltiadau cryfach rhwng y Cymoedd a'r arfordir, a chyda'r DU a gweddill Ewrop, gan helpu i ledaenu ffyniant a dwyn budd i rannau eraill o Gymru. A hithau'r rhan fwyaf

competitiveness needs to be sustained to help raise the economic potential of Wales as a nation. With heavy commuting flows between the Valleys and the coast—over 70,000 commute into the city every day—there is a complex, interdependent urban network, but this network requires greater planning and the only way that that will happen will be through a fully integrated transport system within the capital city and between key settlements around the city.

Cardiff is not a traditional city region at the centre of a large conurbation and neither is it a large city in population terms, compared with Dublin or Lisbon, for example—they have up to a third of the national population living within their boundaries. Cardiff's parameters are tight and land is limited. However, in the next 20 years, Cardiff will experience a 40 per cent increase in population size with the number of residents expanding to nearly 500,000 people. It is going to see the number of households increase by 52 per cent and the number of private households increase by 42 per cent. That is on top of the increases in working commuters, visitors and shoppers that Cardiff sees every year. Cardiff's position will become ever more obvious. In addressing this, should the local authority be forced to come up with a document that is just a land management plan? That is essentially what a local development plan is. Alternatively, should we be providing the local authority with greater flexibility to work with other local authorities to find suitable solutions to benefit the wider region?

On the Government's concerns over housing, I have some sympathy with the expected emphasis on the fact that brownfield sites will not deliver the capacity on their own. My principal concern is about the categorisation of brownfield land, particularly the annexation and development of domestic gardens. We could have a debate lasting several hours on garden-grabbing and I could happily speak on it for the majority of that time, as it is an issue for many of my constituents and, I suspect, for many others present. I would not want to see new

poblog o Gymru, yr ardal hon yw'r prif sbardun economaidd, ac mae angen iddi allu cynnal ei gallu i gystadlu er mwyn helpu i gynyddu potensial economaidd Cymru fel gwlad. Gyda llawer o gymudo rhwng y Cymoedd a'r arfordir—mae dros 70,000 yn cymudo i mewn i'r ddinas bob dydd—ceir rhwydwaith drefol, gyd-ddibynnol a chymhleth. Ond mae angen rhagor o waith cynllunio ar gyfer y rhwydwaith hwn, a'r unig ffordd o wneud hynny fydd drwy system drafnidiaeth gwbl integredig o fewn y brifddinas a rhwng aneddiadau allweddol o amgylch y ddinas.

Nid yw Caerdydd yn rhanbarth dinas draddodiadol sydd yng nghanol cytrefi mawr ac nid yw ychwaith yn ddinas fawr o ran poblogaeth, o'i chymharu â Dulyn neu Lisbon, er enghraifft—mae hyd at draean o'r boblogaeth genedlaethol yn byw o fewn ffiniau'r dinasoedd hynny. Mae paramedr Caerdydd yn dynn, ac mae tir yn brin. Fodd bynnag, yn yr 20 mlynedd nesaf, bydd Caerdydd yn gweld 40 y cant o gynnydd ym maint y boblogaeth, gyda nifer y preswylwyr yn cynyddu i bron i 500,000 o bobl. Bydd nifer y cartrefi yn cynyddu 52 y cant, a nifer y cartrefi preifat yn cynyddu 42 y cant. Mae hynny ar ben y cynnydd yn nifer y gweithwyr sy'n cymudo, yr ymwelwyr a'r siopwyr a fydd yn ymweld â Chaerdydd bob blwyddyn. Bydd Caerdydd yn dod yn fwyfwy amlwg. Wrth fynd i'r afael â hyn, a ddylai'r awdurdod lleol gael ei orfodi i lunio dogfen sy'n ddim mwy na chynllun rheoli tir? Yn ei hanfod, dyna yw cynllun datblygu lleol. Neu, a ddylem fod yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r awdurdod lleol i weithio gydag awdurdodau lleol eraill i ddod o hyd i atebion addas er budd y rhanbarth ehangach?

O ran pryderon y Llywodraeth ynghylch tai, mae gennyf rywffaint o gydymdeimlad â'r pwyslais a ddisgwylir ar y ffaith na fydd safleoedd tir llwyd yn darparu'r capasiti ar eu pen eu hunain. Mae fy mhrif bryder yn ymwneud â chategoreiddio tir llwyd, yn enwedig cyfeddiant a datblygu gerddi domestig. Gallem gael dadl a fyddai'n para oriau lawer ynghylch dwyn gerddi, a gallwn siarad yn fodlon am y mater am y rhan fwyaf o'r amser hwnnw, gan ei fod yn broblem i lawer o'm hetholwyr ac, rwyf yn amau, i nifer o bobl eraill sy'n bresennol. Ni fyddwn am

developments in the local development plan that were predicated on such practices, because it would not be beneficial for the many well-established communities in the capital city. However, regenerating old housing stock or building on reclaimed industrial land, such as the Royal Ordnance factory site in Llanishen in my constituency, are positive uses of brownfield land and show that a good mix of housing can be delivered at affordable levels. In examining the larger strategic picture, should Cardiff council have the opportunity to work with other local authorities to ensure that the broader housing need is met collectively? The current LDP framework does not allow regional apportionment of housing units, despite the fact that projected household growth in areas such as Caerphilly and Rhondda Cynon Taf will be significantly lower than in Cardiff. These local authorities would undoubtedly be more than happy to have the investment in additional housing and take some of Cardiff's allocation.

If the objectives of the spatial plan are to be fulfilled, we need to regenerate towns such as Caerphilly, Pontypridd, Llantrisant and Cwmbran. They should not just be viewed as dormitory towns for Cardiff, but strong, vibrant towns in their own right, developing their own local economies. The same is true of economic growth. A significant number of sites outside the city, in other local authority areas, could be utilised to deliver the high-specification office space required to incubate and nurture small and medium-sized business enterprises. There does not need to be a single Cardiff solution to satisfy the demand that will emerge in the decades to come.

The caveat to all of this—something that has been pointed out in the spatial plan—is that this network would have to be underpinned by a more integrated transport system. Those of us who live in the city will know that trying to get around Cardiff at peak times is becoming increasingly difficult. It has become increasingly difficult over the past few months, partly because of the actions of the county council. In fact, we have seen a reduction in car usage and an increase in the

weld datblygiadau newydd yn y cynllun datblygu lleol yn seiliedig ar arferion o'r fath, gan na fyddai hynny o fudd i'r nifer o gymunedau sydd wedi'u hen sefydlu yn y brifddinas. Fodd bynnag, mae adfywio hen stoc tai neu adeilad ar dir a adferwyd at ddibenion diwydiannol, megis safle ffatri'r Royal Ordnance yn Llanisien yn fy etholaeth, yn ddulliau cadarnhaol o ddefnyddio tir llwyd, ac yn dangos y gellir cael pob math o adeiladau ar lefelau fforddiadwy. Wrth edrych ar y darlun strategol ehangach, a ddylai cyngor Caerdydd gael cyfle i weithio gydag awdurdodau lleol eraill i sicrhau bod yr angen am dai ehangach yn cael ei ddiwallu ar y cyd? Nid yw'r fframwaith presennol ar gyfer CDLI yn caniatáu dosraniad rhanbarthol o unedau tai, er gwaethaf y ffaith y bydd twf rhagamcanol cartrefi mewn ardaloedd fel Caerffili a Rhondda Cynon Taf yn sylweddol is nag yng Nghaerdydd. Byddai'r awdurdodau lleol hyn yn bendant yn fwy na pharod i gael y buddsoddiad mewn tai ychwanegol ac i gael rhan o ddyraniad Caerdydd.

Os ydym am gyflawni amcanion y cynllun gofodol, mae angen inni adfywio trefi fel Caerffili, Pontypridd, Llantrisant a Chwmbwrân. Ni ddylid eu hystyried yn ddim mwy na threfi noswyl i Gaerdydd ond yn drefi cryf a bywiog yn eu haeddiant eu hunain, sy'n datblygu eu heconomiâu lleol eu hunain. Mae'r un peth yn wir am dwf economaidd. Gellid defnyddio nifer sylweddol o safleoedd y tu allan i'r ddinas, mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill, i ddarparu'r swyddfeydd o safon sy'n angenrheidiol i greu a meithrin mentrau busnes bach a chanolig. Nid oes angen cael un ateb unigol ar gyfer Caerdydd i fodloni'r galw a fydd yn dod i'r amlwg yn y degawdau i ddod.

Rhybudd hyn oll—rhywbeth sydd wedi cael ei nodi yn y cynllun gofodol—yw y byddai'n rhaid i'r rhwydwaith hwn fod yn seiliedig ar system drafnidiaeth fwy integredig. Bydd y rheini ohonom sy'n byw yn y ddinas yn gwybod bod ceisio teithio o amgylch Caerdydd ar yr adegau prysuraf yn dod yn fwyfwy anodd. Mae wedi dod yn fwyfwy anodd dros y misoedd diwethaf, yn rhannol oherwydd gweithredoedd y cyngor sir. Yn wir, rydym wedi gweld lleihad yn nifer y ceir

number of people using public transport, but that may have more to do with the fact that Cardiff is becoming increasingly difficult to get around than any sort of drive towards a more integrated transport system.

However, Cardiff and the whole south-east Wales region must move forward sustainably, reducing the dependence of commuters on cars and getting as many people as possible who travel in and out of the city centre to do so via public transport. The Merthyr and Rhymney valley lines are crucial train routes in and out of the city, as is the main line route to Newport. The council has invested in a number of park-and-ride schemes on the periphery of the city as part of the sustainable travel city initiative, which should prove increasingly popular, and we should attempt to promote that. A cohesive model for the city has not yet been delivered, but it is moving in the right direction. I welcome developments such as the new Iff card, which was rolled out last week and is a step in the right direction towards integrated travel. I intend to make use of it as I undertake to travel to more engagements by bus.

One of the key elements at the heart of this debate about Cardiff's LDP is whether Cardiff Council should release a large amount of undeveloped green space for new housing and business development, or whether the Assembly Government will force it to do so. One of the city's unique selling points is its green spaces. Cardiff is a truly unique capital when it comes to green land. It has more green space per person than any other core UK city. It should be the role of the elected representatives of the city to enhance its green spaces and ensure that they are healthy corridors between sites. My constituency has significant amounts of green space running across its width, to the north of Whitchurch, Rhiwbina, Thornhill, Lisvane and Pontprennau. We are lucky to have an abundance of open space.

The Cardiff river courses are also of particular significance. The city contains the three major river valleys of the Taff, Ely and

a ddefnyddir a chynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, ond efallai fod hynny fwy i'w wneud â'r ffaith ei bod yn fwyfwy anodd teithio o amgylch Caerdydd yn hytrach nag unrhyw fath o ymgyrch tuag at system drafnidiaeth fwy integredig.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i Gaerdydd a rhanbarth y de-ddwyrain drwyddi draw symud ymlaen mewn ffordd gynaliadwy, gan leihau dibyniaeth cymudwyr ar geir a chael cynifer o bobl ag y bo modd sy'n teithio i mewn ac allan o ganol y ddinas i wneud hynny drwy ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Mae rheilffyrdd Merthyr a Chwm Rhymni yn llwybrau trên hanfodol i mewn ac allan o'r ddinas, yn yr un modd â'r brif reilffordd i Gasnewydd. Mae'r cyngor wedi buddsoddi mewn nifer o gynlluniau parcio a theithio ar gyrion y ddinas fel rhan o'r fenter dinas deithio gynaliadwy—a ddylai ddod yn fwyfwy poblogaidd—a dylem geisio hybu hynny. Nid oes model cydlynus ar gyfer y ddinas wedi cael ei gyflwyno eto, ond mae'n symud i'r cyfeiriad iawn. Croesawaf ddatblygiadau megis y cerdyn Iff newydd, a gafodd ei gyflwyno'r wythnos diwethaf ac mae'n gam i'r cyfeiriad iawn tuag at deithio integredig. Rwyf yn bwriadu ei ddefnyddio wrth imi fynd ati i deithio i fwy o ddigwyddiadau ar y bws.

Un o'r elfennau allweddol sydd wrth wraidd y ddadl hon ynghylch CDLI Caerdydd yw p'un ai a ddylai Cyngor Caerdydd ryddhau llawer o fannau gwyrdd heb eu datblygu ar gyfer tai newydd a datblygiadau busnes, neu a fydd Llywodraeth y Cynulliad yn ei orfodi i wneud hynny. Un o bwyntiau gwerthu unigryw'r ddinas yw ei mannau gwyrdd. Mae Caerdydd yn brifddinas wirioneddol unigryw o ran tiroedd glas. Mae ganddi fwy o fannau gwyrdd y person nag unrhyw ddinas graidd arall yn y DU. Dylai cynrychiolwyr etholedig y ddinas fynd ati i hybu ei mannau gwyrdd a sicrhau eu bod yn goridorau iach rhwng safleoedd. Mae llawer iawn o fannau gwyrdd ar draws fy etholaeth i, i'r gogledd o'r Eglwys Newydd, Rhiwbeina, Thornhill, Llysfaen a Phontprennau. Rydym yn ffodus i gael digonedd o fannau agored.

Mae llwybrau afonydd Caerdydd yn bwysig iawn hefyd. Mae'r ddinas yn cynnwys tair prif afon sy'n tarddu o ddyffrynnoedd Taf,

Rhymney, together with other watercourses such as Nant Fawr in my constituency, which I am pleased is being designated as a nature reserve. They make a unique contribution to the character and form of our city, by providing continuous green corridors between the Severn estuary and the countryside beyond the urban edge. The watercourses and adjoining open spaces possess high recreational, biodiversity, historic and landscape values. Residents view these spaces as sacred because they bring a significant level of added value to personal health and wellbeing. They have made it clear to their elected local representatives that they want those open green spaces protected and preserved. It cannot be right that the Assembly Government has intervened in this process, thereby undermining the views of residents and forcing the council down the road of developing these areas against their wishes. That is not democracy in action.

Cardiff's initial plan was started in the autumn of 2007, with the aim of implementation in 2011. With the new plan going through the whole process again, Cardiff will not be in a position to implement a new LDP, if all goes well, until late 2014. Due to the Assembly Government's intervention, the council is in the predicament of making current planning determinations based on a document that was implemented in 1996. There is a real danger that our capital city's local authority will find itself in the position of sanctioning applications on specific developments that are not strategically sound in the long term. It is evident that the current process takes too long to navigate. It is so inflexible that it cannot take account of social and economic changes that may have occurred during the drafting process.

We need to reform the model and the stages in the process, breaking them down into bite-sized chunks. That is what happened across the border in England with the development framework for local authorities, which is carried out over 11 separate stages. In Wales, it is all done in one go, which is not conducive to sound planning. If we adopt a more flexible approach, it will allow sufficient time for local engagement and the

Elái a Rhymni, ynghyd â chyrsgiau dŵr eraill megis Nant Fawr yn fy etholaeth, ac rwyf yn falch ei fod yn cael ei ddynodi'n warchodfa natur. Maent yn gwneud cyfraniad unigryw at gymeriad a ffurf ein dinas, drwy ddarparu coridorau gwyrdd parhaus rhwng aber yr afon Hafren a chefn gwlad y tu hwnt i'r ffin ddinesig. Mae'r cyrsiau dŵr a'r mannau agored cyfagos yn bwysig iawn o ran hamdden, bioamrywiaeth, hanes a thirwedd. Mae preswylwyr yn ystyried y rhain yn fannau cysegredig oherwydd eu bod yn cynnig lefel sylweddol o werth ychwanegol i iechyd a lles personol. Maent wedi dweud yn glir wrth eu cynrychiolwyr a etholwyd yn lleol eu bod am i'r mannau gwyrdd agored hynny gael eu diogelu a'u cadw. Ni all fod yn iawn bod Llywodraeth y Cynulliad wedi ymyrryd yn y broses hon, a thrwy hynny danseilio barn y preswylwyr a gorfodi'r cyngor i ddatblygu'r mannau hyn yn groes i'w dymuniadau. Nid dyna yw ystyr democratiaeth ar waith.

Dechreuwyd ar gynllun cychwynnol Caerdydd ddechrau hydref 2007, gyda'r nod o'i roi ar waith yn 2011. Gyda'r cynllun newydd yn mynd drwy'r broses gyfan eto, ni fydd Caerdydd mewn sefyllfa i weithredu CDLI newydd, os bydd popeth yn mynd yn iawn, tan ddiwedd 2014. Oherwydd ymyrraeth Llywodraeth y Cynulliad, mae'r cyngor yn y sefyllfa anodd o orfod gwneud penderfyniadau cynllunio cyfredol yn seiliedig ar ddogfen a gafodd ei gweithredu ym 1996. Mae perygl gwirioneddol y bydd awdurdod lleol ein prifddinas yn gorfod atal ceisiadau am ddatblygiadau penodol nad ydynt yn gadarn yn strategol yn y tymor hir. Mae'n amlwg bod y broses gyfredol yn cymryd gormod o amser. Mae mor anhyblyg fel na all ystyried newidiadau cymdeithasol ac economaidd a allai fod wedi digwydd yn ystod y broses ddrafftio.

Mae angen inni ddiwygio model a chamau'r broses, gan eu torri i lawr yn ddarnau bach. Dyna ddigwyddodd dros y ffin yn Lloegr gyda'r fframwaith datblygu ar gyfer awdurdodau lleol, sy'n cael ei gyflawni dros 11 cam ar wahân. Yng Nghymru, mae hynny'n cael ei wneud i gyd ar yr un pryd, ac nid yw hynny'n addas ar gyfer cynlluniau cadarn. Os byddwn yn mabwysiadu ymagwedd fwy hyblyg, bydd yn caniatáu

collection of robust evidence. It will also allow each section to be produced and, importantly, reviewed at any time without jeopardising the effectiveness or legitimacy of one overall plan. When attempting to provide for the towns and cities of the future and for our housing and economic needs, we do not want to fall into the trap of having to tell the public that we did not plan to fail, we simply failed to plan.

5.30 p.m.

Jenny Randerson: I will start where Jonathan left off, namely with the failed, flawed model of LDPs. It failed right at the beginning of its lifespan. It is not just Cardiff Council that is having trouble producing a local development plan, as it is a problem up and down Wales, which suggests that the problem lies not with the local authorities, but with the model itself. It is just too lengthy and cumbersome. There was cross-party agreement on Cardiff's plan. It may not have been perfect, but at least it was a plan. I recall that the 1996 plan was extremely flawed. It has never worked out according to plan. The councillors lived with it under various administrations, but it is entirely inappropriate that, so many years later, they are still trying to work to that original plan. This LDP could have been examined at public inquiry and amended if it had been allowed to go ahead.

Finally, I want to point to the conflicting standards here. The Assembly Government produces a great deal of green rhetoric about the importance of building on brownfield sites, and yet in this particular case, that was a key reason for the Government's objection.

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): I am grateful to Jonathan for bringing this debate before us today, not least to have the opportunity to put some accurate information on the record. It is important to start from the premise that it is not the Wales spatial plan that delivers obligations under town and country planning. Under the Wales spatial plan, Cardiff is a city region. It works

digon o amser i ymgysylltu'n lleol ac i gasglu tystiolaeth gadarn. Bydd hefyd yn caniatáu i bob adran gael ei llunio ac, yn bwysig, ei hadolygu ar unrhyw adeg heb beryglu effeithiolrwydd na ddilysrwydd un cynllun cyffredinol. Wrth geisio darparu ar gyfer trefi a dinasoedd y dyfodol ac ar gyfer ein hanghenion tai ac economaidd, nid oes arnom eisiau llithro i'r fagl o orfod dweud wrth y cyhoedd nad oeddem yn cynllunio i fethu ond ein bod, yn syml iawn, wedi methu cynllunio.

Jenny Randerson: Dechreuaf lle gorffennodd Jonathan, sef gyda model ddiffygiol ac aflwyddiannus cynlluniau datblygu lleol. Roedd yn methu ar ddechrau ei oes. Nid dim ond Cyngor Caerdydd sy'n cael trafferth llunio cynllun datblygu lleol. Mae'n broblem ar hyd a lled Cymru, sy'n awgrymu bod y broblem yn deillio nid o'r awdurdodau lleol ond o'r model ei hun. Mae'n rhy hir a beichus. Cafwyd cytundeb trawsbleidiol ar gynllun Caerdydd. Efallai nad oedd yn berffaith, ond o leiaf roedd yn gynllun. Cofiaf fod cynllun 1996 yn ddiffygiol dros ben. Nid yw erioed wedi gweithio yn ôl y bwriad. Mae'r cynghorwyr wedi byw gyda'r cynllun o dan weinyddiaethau gwahanol ond mae'n gwbl amhriodol eu bod, cymaint o flynyddoedd yn ddiweddarach, yn dal i geisio dilyn y cynllun gwreiddiol hwnnw. Gallai'r CDLI hwn fod wedi cael ei archwilio mewn ymchwiliad cyhoeddus a'i ddiwygio pe bai wedi cael mynd yn ei flaen.

Yn olaf, hoffwn dynnu sylw at y gwrthdaro rhwng safonau yma. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynhyrchu llawer iawn o rethreg werdd am bwysigrwydd adeiladu ar safleoedd tir llwyd, ac eto yn yr achos penodol hwn, roedd hynny'n rheswm allweddol dros wrthwynebiad y Llywodraeth.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Rwyf yn ddiolchgar i Jonathan am ddod â'r ddadl hon ger ein bron heddiw, yn enwedig er mwyn cael y cyfle i roi rhywfaint o wybodaeth gywir ar gofnod. Mae'n bwysig dechrau drwy ddweud nad cynllun gofodol Cymru sy'n cyflawni rhwymedigaethau o dan gynllunio gwlad a thref. O dan gynllun gofodol Cymru, mae Caerdydd yn rhanbarth

with other local authorities, and there is nothing to stop wider working. It works in the context of the regional transport plans and regional waste plans. Local authorities in south-east Wales work together on housing apportionment. The critical issue in this debate is that all authorities are required to produce a local development plan. It is their job to produce it, and they must provide the evidence to justify the conclusions that they reach. In the context of Cardiff, officials raised issues with the council right at the beginning of the process and said that there was a major risk of the plan not being adopted and not being able to go through the tests of soundness by the independent planning inspector—not the Assembly Government, but an independent inspector—if the council pursued the course on which it was set.

We are committed as an Assembly Government to a plan-led planning system. An up-to-date and adopted local development plan is pivotal to delivering an effective planning system, because these plans contain the policies and land allocations required to meet community needs. They involve taking difficult decisions in the wider public interest, but having the adopted development plan in place ensures that planning applications are determined in a rational, consistent and timely manner. Every local planning authority must prepare one, covering the next 10 to 15 years. Of course, there are now only four statutory plans that local authorities have a duty to undertake, and at the heart of plan making in Wales is a strong engagement with local communities, listening to and understanding their aspirations and concerns as well as explaining the context for bringing the local development plan forward. Local development plans in Wales already embrace the concept of localism currently being promoted in England, because the onus is on local authorities to justify their plan, having comprehensively reviewed all the evidence on which they are founded.

They are also important for businesses, communities, investors and infrastructure providers, because adopted plans provide

dinas. Mae'n gweithio gydag awdurdodau lleol eraill, ac nid oes dim i atal gwaith ehangach. Mae'n gweithio yng nghyd-destun y cynlluniau trafniadaeth rhanbarthol a chynlluniau gwastraff rhanbarthol. Mae awdurdodau lleol yn y de-ddwyrain yn gweithio gyda'i gilydd ar ddsrannu tai. Y mater allweddol yn y ddatl hon yw ei bod yn rhaid i bob awdurdod lunio cynllun datblygu lleol. Eu gwaith hwy yw mynd ati i'w lunio, ac mae'n rhaid iddynt ddarparu'r dystiolaeth i gyfiawnhau eu casgliadau. Yng nghyd-destun Caerdydd, dywedodd swyddogion fod ganddynt broblemau gyda'r cyngor ar ddechrau'r broses, gan ddweud bod perygl mawr na fyddai'r cynllun yn cael ei fabwysiadu ac na fyddai'n gallu mynd drwy'r profion cadernid gan yr arolygydd cynllunio annibynnol—nid arolygydd Llywodraeth y Cynulliad, ond arolygydd annibynnol—pe bai'r cyngor yn dilyn y llwybr a osodwyd.

Rydym ni, fel Llywodraeth y Cynulliad, wedi ymrwmo i system gynllunio a arweinir gan gynlluniau. Mae mabwysiadu cynllun datblygu lleol cyfoes yn ganolog i ddarparu system gynllunio effeithiol, gan fod y cynlluniau hyn yn cynnwys y polisiau a'r dyraniadau tir y mae eu hangen i ddiwallu anghenion y gymuned. Maent yn cynnwys gwneud penderfyniadau anodd er budd y cyhoedd ehangach, ond mae cael y cynllun datblygu mabwysiedig ar waith yn sicrhau y penderfynir ar geisiadau cynllunio mewn ffordd resymol, gyson ac amserol. Mae'n rhaid i bob awdurdod cynllunio lleol baratoi un, a fydd yn cwmpasu'r 10 i'r 15 mlynedd nesaf. Wrth gwrs, erbyn hyn dim ond pedwar cynllun statudol y mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ymgymryd â hwy, ac mae ymgysylltiad cadarn â chymunedau lleol, gwrandao a deall eu dyheadau a'u pryderon yn ogystal ag egluro'r cyd-destun ar gyfer cyflwyno'r cynllun datblygu lleol, wrth galon y broses gynllunio yng Nghymru. Mae cynlluniau datblygu lleol yng Nghymru eisoes yn cofleidio'r cysyniad o frogarwch fel sy'n cael ei hyrwyddo ar hyn o bryd yn Lloegr, gan mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw cyfiawnhau eu cynllun, ar ôl adolygu'r holl dystiolaeth y mae'n seiliedig arni.

Maent hefyd yn bwysig i fusnesau, i gymunedau, i fuddsoddwyr ac i ddarparwyr seilwaith, gan fod cynlluniau a fabwysiadwyd

certainty for future investment and a local context for determining planning applications. A stronger alignment and greater certainty of all plans and strategies can maximise public and private investment and, with the adopted plan in place, local authorities and communities can positively steer and influence the future to their benefit, rather than being dictated to by others. They therefore should represent the land-use planning implications of the local authority's corporate goals and community strategy. They should tackle the changing nature of communities and the implications for service provision. Issues such as the number of overall homes, affordable homes, schools, jobs and health provision in sustainable patterns of development should be identified and provided. The plans should be prepared within the context of the Welsh national planning policy, 'Planning Policy Wales' and 'Minerals Planning Policy Wales', supplemented by the technical advice notes. That provides the national policy framework. Where there are tensions between national policy and local aspirations, the local authority needs to determine solutions based on evidence, tested through public examination. It is the quality of the evidence supporting a local authority's conclusion that is critical to ensuring that local aspirations are delivered.

Local development plans are not populist manifestos, but legal documents, when adopted. The depth and quality of the evidence is vital to ensure that the plan is able to withstand public scrutiny through the formal examination process. An independently appointed inspector determines whether the plan is sound, not the Welsh Assembly Government, and, in Cardiff's case, the independently appointed inspector raised numerous concerns regarding the lack of evidence to support certain vital components of Cardiff's plan. At no point did the Assembly Government intervene in the process. There is provision in the legislation for the Minister to intervene, but I specifically chose not to do so.

It is fair to say that the circumstances in which Cardiff found itself in respect of its

yn darparu sicrwydd ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol a chyd-destun lleol ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio. Gall gwell cysondeb a mwy o sicrwydd o'r holl gynlluniau a strategaethau sicrhau'r buddsoddiad preifat a chyhoeddus mwyaf posibl a chyda'r cynllun mabwysiedig yn ei le, gall awdurdodau lleol a chymunedau lywio a dylanwadu'n gadarnhaol ar y dyfodol er eu budd eu hunain, yn hytrach na chael budd gan bobl eraill. Dylent felly bortreadu goblygiadau cynllunio ar gyfer defnydd tir sy'n deillio o amcanion corfforaethol a strategaeth gymunedol yr awdurdod lleol. Dylent fynd i'r afael â natur newidiol cymunedau a'r goblygiadau yng nghyswllt darparu gwasanaethau. Dylai materion megis nifer y cartrefi cyffredinol, tai fforddiadwy, ysgolion, swyddi a darpariaeth iechyd mewn patrymau datblygu cynaliadwy gael eu nodi a'u darparu. Dylai'r cynlluniau gael eu paratoi o fewn cyd-destun polisi cynllunio cenedlaethol Cymru, 'Polisi Cynllunio Cymru' a 'Polisi Cynllunio Mwynau Cymru', a ategir gan y nodiadau cyngor technegol. Mae hynny'n darparu'r fframwaith polisi cenedlaethol. Pan geir tensiynau rhwng polisi cenedlaethol a dyheadau lleol, mae angen i'r awdurdod lleol benderfynu ar atebion yn seiliedig ar dystiolaeth, a brofwyd drwy archwiliad cyhoeddus. Mae ansawdd y dystiolaeth sy'n ategu casgliad awdurdod lleol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod dyheadau lleol yn cael eu cyflawni.

Nid manifestos poblogaidd mo cynlluniau datblygu lleol ond dogfennau cyfreithiol, pan gânt eu mabwysiadu. Mae dyfnder ac ansawdd y dystiolaeth yn hanfodol i sicrhau bod y cynllun yn gallu gwrthsefyll craffu cyhoeddus drwy'r broses archwilio ffurfiol. Arolygydd a benodwyd yn annibynnol sy'n penderfynu a yw'r cynllun yn gadarn, nid Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn achos Caerdydd, cododd yr arolygydd a benodwyd nifer o bryderon ynghylch y diffyg dystiolaeth i gefnogi elfennau hanfodol penodol o gynllun Caerdydd. Ni ymyrrodd Llywodraeth y Cynulliad yn y broses o gwbl. Ceir darpariaeth yn y ddeddfwriaeth i'r Gweinidog ymyrryd, ond dewisais yn benodol beidio â gwneud hynny.

Mae'n deg dweud bod amgylchiadau Caerdydd mewn perthynas â'r CDLI yn

LDP are unique in Wales. Pembrokeshire Coast National Park has completed the preparation of its LDP and became the first local planning authority in Wales to adopt the plan in September of this year. Caerphilly County Borough Council received its inspector's report in October, and its adoption is anticipated imminently. Rhondda Cynon Taf County Borough Council and Merthyr Tydfil County Borough Council will be adopting their local development plans early next year, subject to favourable inspection reports. All these authorities have produced plans that Cardiff could learn from, if it so chose. I regularly meet with the planning leads of all the local planning authorities in Wales—of which there are 25, given that there are three national parks as well—and no other authority has put itself in this position.

It is worth pointing out that not having a local development plan in place carries other risks, such as potential non-compliance with European directives. Given that Cardiff does not have an adopted up-to-date local development plan covering its entire area, it is potentially subject to heavy financial penalties resulting from its non-compliance with the European Commission waste framework directive. The consequence of its plan being found unsound means that there is no up-to-date development plan covering the whole of Cardiff's administrative area, and incurs a time delay of four years in bringing forward a revised plan. However, with diminishing housing land supply, there could be increased pressure for piecemeal development on an ad hoc basis and the potential to lose funding to support change.

Therefore, as a Government, we strongly stand by the local development plan process. It is transparent, it involves a large degree of public engagement, and it requires evidence to support the plan being made widely available as early as possible in the plan-making process, to provide all parties with an opportunity to scrutinise and engage, which offers greater consensus building and agreement. It is crucial that local planning authorities ensure that they have sufficient

unigryw yng Nghymru. Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi gorffen paratoi ei gynllun datblygu lleol a hwn oedd yr awdurdod cynllunio lleol cyntaf yng Nghymru i fabwysiadu'r cynllun ym mis Medi eleni. Derbyniodd Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili adroddiad ei arolygydd ym mis Hydref, a rhagwelir y bydd yn cael ei roi ar waith yn fuan. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn mabwysiadu eu cynlluniau datblygu lleol yn gynnar y flwyddyn nesaf, yn amodol ar adroddiadau arolygu ffafriol. Mae pob un o'r awdurdodau hyn wedi llunio cynlluniau y gallai Caerdydd ddysgu oddi wrthynt, os bydd yn dewis. Rwyf yn cael cyfarfodydd yn rheolaidd ag arweinwyr cynllunio'r holl awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru—mae 25 ohonynt i gyd, o gofio y ceir tri pharc cenedlaethol hefyd—ac nid oes unrhyw awdurdod arall wedi rhoi ei hun yn y sefyllfa hon.

Mae'n werth nodi bod peidio â chael cynllun datblygu lleol ar waith yn arwain at risgiau eraill, fel diffyg cydymffurfio posibl â chyfarwyddebau Ewropeaidd. O ystyried nad yw Caerdydd wedi mabwysiadu cynllun datblygu lleol cyfredol ar gyfer yr ardal gyfan, gallai gael cosbau ariannol llym am beidio â chydymffurfio â chyfarwyddeb fframwaith gwastraff y Comisiwn Ewropeaidd. O ganlyniad i beidio â chael cynllun cadarn, ni fydd cynllun datblygu lleol cyfredol ar gyfer ardal weinyddol Caerdydd drwyddi draw, ac mae'n arwain at oedi o bedair blynedd cyn cyflwyno cynllun diwygiedig. Fodd bynnag, gyda'r cyflenwad tir ar gyfer tai yn lleihau, gellid rhoi rhagor o bwysau am ddatblygu tameidiog ar sail ar hap, a gellid colli arian i gefnogi newidiadau.

Felly, fel Llywodraeth, rydym yn sefyll yn gadarn dros y broses cynllun datblygu lleol. Mae'n dryloyw, mae'n cynnwys llawer o ymgysylltu â'r cyhoedd, ac mae'n galw am dystiolaeth i gefnogi rhoi'r cynllun ar waith mor eang â phosibl yn y broses gynllunio, er mwyn rhoi cyfle i bob parti graffu ac ymgysylltu, sy'n arwain at greu mwy o gonsensws a chytundeb. Mae'n hollbwysig bod awdurdodau cynllunio lleol yn sicrhau bod ganddynt ddigon o dystiolaeth i ategu eu

evidence to support their local development plans, strategies and policies. I understand that Cardiff has now consulted on a revised delivery agreement to progress its revised local development plan, with the adoption now anticipated for October 2014. I hope, along with everyone else, that it will do that as quickly and expeditiously as possible, and with the robust evidence to support the plan, taking into account community engagement.

Local authorities have an obligation to assess all the evidence available to them before submitting their plan for public examination. They must balance public opinion with the evidence, and take national planning policy into account. The onus is on local authorities to determine appropriate solutions, based on the evidence. I expect our capital city to rise to that challenge.

polisiâu, eu strategaethau a'u cynlluniau datblygu lleol. Caf ar ddeall fod Caerdydd wedi ymgynghori yn awr ar gytundeb cyflenwi diwygiedig i ddatblygu ei gynllun datblygu lleol, a rhagwelir y bydd yn awr yn cael ei fabwysiadu ym mis Hydref 2014. Rwyf fi, ynghyd â phawb arall, yn gobeithio y bydd yn gwneud hynny mor gyflym ac mor fuan â phosibl, a chyda'r dystiolaeth gadarn i ategu'r cynllun, gan ystyried ymgysylltu â'r gymuned.

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i asesu'r holl dystiolaeth sydd ar gael iddynt cyn cyflwyno eu cynllun ar gyfer archwiliad cyhoeddus. Rhaid iddynt gael cydbwysedd rhwng barn y cyhoedd a'r dystiolaeth, ac ystyried y polisi cynllunio cenedlaethol. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw penderfynu ar atebion priodol, yn seiliedig ar y dystiolaeth. Disgwyliaf i'n prifddinas ymateb i'r her honno.

Cynnig Trefniadol Procedural Motion

The Deputy Presiding Officer: I have been notified by Nick Bourne that he wishes to move a procedural motion in accordance with Standing Order No. 7.26 to postpone the short debate tabled in his name. I call on Nick Ramsay to move the motion on his behalf.

Cynnig Trefniadol

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan Reol Sefydlog Rhif 7.26, yn cytuno i ohirio'r ddadl fer a gyflwynwyd yn enw Nick Bourne.

Nick Ramsay: I move the motion.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree the motion to postpone the short debate. Does any Member object? I see that there are no objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 7.35. That brings today's proceedings to a close.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

Y Dirprwy Lywydd: Rwyf wedi cael gwybod gan Nick Bourne ei fod yn dymuno cyflwyno cynnig trefniadol yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.26 i ohirio'r ddadl fer sydd wedi'i chyflwyno yn ei enw. Galwaf ar Nick Ramsay i gynnig y cynnig ar ei ran.

Procedural Motion

The National Assembly for Wales, under Standing Order No. 7.26, agrees to postpone the short debate tabled in the name of Nick Bourne.

Nick Ramsay: Cynigiaf y cynnig.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw cytuno â'r cynnig i ohirio'r ddadl fer. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu. Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly cytunir ar y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35. Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.40 p.m.
The meeting ended at 5.40 p.m.*

Aelodau a'u Pleidiau
Members and their Parties

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
 Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
 Bates, Mick (Democrat Rhyddfrydol Annibynnol – Independent Liberal Democrat)
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)
 Davies, Alun (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 German, Veronica (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)